

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/02/2016

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)
[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)
- [2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[2. Questions to the Minister for Public Services](#)
- [3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Cau Canghennau Banc](#)
[3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Bank Branch Closures](#)
- [4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi](#)
[4. Debate on the Children, Young People and Education Committee Report on Supply Teaching](#)
- [5. Dadl Plaid Cymru: Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau](#)
[5. Plaid Cymru Debate: The Wales and Borders Rail Franchise](#)
- [6. Dadl Plaid Cymru: Cynnal Digwyddiadau Mawr](#)
[6. Plaid Cymru Debate: Hosting Major Events](#)
- [7. Dadl Cyfnod 4 ar Fil Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\)](#)
[7. Stage 4 Debate on the Nurse Staffing Levels \(Wales\) Bill](#)
- [8. Cyfnod Pleidleisio](#)
[8. Voting Time](#)
- [9. Dadl Fer: Pwysigrwydd Ysgolion Gwledig—Y Modd y Mae Ysgolion yn Enaid Cymunedau Gwledig](#)
[9. Short Debate: The Importance of Rural Schools—How Schools are the Lifeblood of a Rural Community](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business, and question 1 is Mohammad Asghar.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a daw cwestiwn 1 gan Mohammad Asghar.

Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus

The Public Services Portfolio

13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y dyraniad yn y gyllideb i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0655(FIN)

1. What discussions has the Minister had regarding the budget allocation to the public services portfolio? OAQ(4)0655(FIN)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business
I held discussions with many people regarding public services, and the outcomes are reflected in the draft budget, 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future', which I published on 8 December.

Cynhaliais drafodaethau gyda llawer o bobl mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn y gyllideb ddrafft, 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol', a gyhoeddais ar 8 Rhagfyr.

13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. Recent figures have revealed that three of the top 10 areas of the United Kingdom that have the highest concentration of asylum seekers are in Wales. Swansea was sixth, Newport eighth, and Cardiff ninth, of the top 10 in the country. What consideration was given to the pressure on local authorities' budgets created by supporting asylum seekers in Wales when allocating funding through the public services portfolio?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae ffigurau diweddar wedi datgelu bod tri o'r 10 ardal yn y Deyrnas Unedig sydd â'r crynodiad mwyaf o geiswyr lloches yng Nghymru. Abertawe oedd y chweched, Casnewydd oedd yr wythfed, a Chaerdydd oedd y nawfed, o'r 10 uchaf yn y wlad. Pa ystyriaeth a roddwyd i'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol a grëwyd drwy gefnogi ceiswyr lloches yng Nghymru wrth ddyrannu cyllid drwy bortffolio'r gwasanaethau cyhoeddus?

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, the Welsh Government funds the third sector in Wales to support refugees and asylum seekers through the equality and inclusion grant. Around £904,000 has been made available to the Welsh Refugee Council, the British Red Cross and the Trinity Centre over three years. And, in addition, Cardiff and Swansea local authorities have used their Supporting People programme grant to provide housing-related support for people with a refugee status.

Wel, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r trydydd sector yng Nghymru i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy'r grant cydraddoldeb a chynhwysiant. Rhoddwyd tua £904,000 i Gyngor Ffoaduriaid Cymru, y Groes Goch Brydeinig a Chanolfan y Drindod dros dair blynedd. Yn ogystal â hynny, mae awdurdodau lleol Caerdydd ac Abertawe wedi defnyddio eu grant rhaglen Cefnogi Pobl i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl â statws ffoadur.

Cyllideb Llywodraeth Cymru

The Welsh Government Budget

13:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar Orllewin De Cymru?
OAQ(4)0658(FIN)

2. Will the Minister make a statement on the impact of the Welsh Government's budget on South Wales West?
OAQ(4)0658(FIN)

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Our spending plans set out in 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future' meet the needs of the people of Wales, including South Wales West.

Mae ein cynlluniau gwariant sydd wedi'u nodi yn 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol' yn diwallu anghenion pobl Cymru, gan gynnwys Gorllewin De Cymru.

13:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. You know, of course, in addition to the second campus by Swansea University, and the proposed second campus for Trinity St David, Neath Port Talbot College are also looking to expand and have a second campus. Can I ask you what capital is available in the budget to help the further education sector with these sorts of aspirations?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ychwanegol at ail gampws Prifysgol Abertawe, a'r ail gampws arfaethedig ar gyfer y Drindod Dewi Sant, fe wyddoch wrth gwrs fod Coleg Castell Nedd Port Talbot hefyd yn ystyried ehangu a chael ail gampws. A gaf fi ofyn i chi pa gyfalaf sydd ar gael yn y gyllideb i helpu'r sector addysg bellach gyda'r mathau hyn o ddyheadau?

13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think you would be very pleased, I'm sure, with the announcements not only last week in the supplementary budget for this year, putting more money into twenty-first century schools, which actually includes money for FE as well, but also with the capital announcements that I made for the next financial year, which, of course, also, as part of the £120 million, includes funding for not only twenty-first schools, but the FE sector.

Wel, rwy'n credu y buasech yn hapus iawn, rwy'n siŵr, gyda'r cyhoeddiadau yr wythnos diwethaf yn y gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn hon yn rhoi mwy o arian i ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sydd mewn gwirionedd yn cynnwys arian ar gyfer addysg bellach hefyd, ond hefyd gyda'r cyhoeddiadau cyfalaf a wneuthum ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sydd wrth gwrs, fel rhan o'r £120 miliwn, yn cynnwys cyllid ar gyfer y sector Addysg Bellach yn ogystal ag ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the announcement of over 1,000 job losses by Tata and the establishment of a taskforce by the Welsh Government actually took place after the publication of the draft budget in December. The budget yesterday was approved, but can you actually tell us whether you are putting funding aside to support the taskforce and its ambitions to support those who are losing their jobs and local investment? And have you had discussions with the Treasury in relation to their financial support for the taskforce?

Weinidog, gwnaed y cyhoeddiad fod dros 1,000 o swyddi wedi'u colli gan Tata a bod tasglu wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr. Cafodd y gyllideb ei chymeradwyo ddoe, ond a allwch ddweud wrthym a ydych chi'n rhoi arian o'r neilltu i gefnogi'r tasglu a'i uchelgais i gefnogi'r rhai sy'n colli eu swyddi a buddsoddiad lleol? Ac a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r Trysorlys mewn perthynas â'u cefnogaeth ariannol i'r tasglu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank David Rees for that question. The Minister for Economy, Science and Transport updated Members, of course, last week in her oral statement on the second meeting of the Tata Steel taskforce and the actions that are being taken. As the Minister outlined, all four of the work streams have developed key initial actions that need to be taken forward. That includes the provision of a one-stop shop for support and advice to employees and the development of an enterprise zone submission. But we're also, as the Minister explained, in discussions with the UK Government in terms of potential for enhanced capital allowances, and we'll continue to press the case with the UK Government for accessing funding under the European globalisation adjustment fund. But also, as far as my role is concerned, I'm also meeting Commissioner Thyssen, from the European Commission, next month, to discuss these matters in Brussels, including any support that the European Commission may provide.

Diolch i David Rees am y cwestiwn hwnnw. Yr wythnos ddiwethaf, rhoddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddiweddariad i'r Aelodau, wrth gwrs, yn ei datganiad ar lafar ynglŷn ag ail gyfarfod tasglu Tata Steel a'r camau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith. Fel yr amlinellodd y Gweinidog, mae pob un o'r pedair ffrwd waith wedi datblygu camau cychwynnol allweddol sydd angen eu datblygu. Mae hynny'n cynnwys darparu siop un stop i gynnig cymorth a chynghor i weithwyr a datblygu cyflwyniad ardal fenter. Yn ogystal â hynny, fel yr eglurodd y Gweinidog, rydym mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y potensial ar gyfer lwfansau cyfalaf uwch, a byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael mynediad at gyllid o gronfa addasiad globaleiddio Ewrop. Ond hefyd, o ran fy rôl i, rwyf hefyd yn cyfarfod â'r Comisiynydd Thyssen, o'r Comisiwn Ewropeaidd, fis nesaf, i drafod y materion hyn ym Mrwsel, gan gynnwys unrhyw gymorth y gallai'r Comisiwn Ewropeaidd ei ddarparu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, your draft budget shows a cut of almost £7 million to the flood protection budget. Considering the unprecedented weather that we've experienced so far this year, with heavy rain and winds of up to 100 mph in places like Porthcawl, what information did you have from the Minister for Natural Resources about the impact such a cut would have on the safety of my constituents, their homes and their businesses?

Weinidog, mae eich cyllideb ddrafft yn dangos toriad o bron i £7 miliwn yn y gyllideb amddiffyn rhag llifogydd. O ystyried y tywydd digynsail rydym wedi'i brofi hyd yma eleni, gyda glaw trwm a gwyntoedd o hyd at 100 mya mewn llefydd fel Porthcawl, pa wybodaeth a gawsoch gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol am yr effaith y byddai toriad o'r fath yn ei gael ar ddiogelwch fy etholwyr, eu cartrefi a'u busnesau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, the Welsh Government received £10.7 million in consequential funding in 2015-16 from the UK Government in response to the flood damage, for example, caused by storm Desmond and storm Eva. We've already announced £2.3 million for maintenance schemes and emergency repairs across Wales, and £0.5 million for A55 flood drainage improvement works, and, indeed, £1.9 million for the A55 Talybont flood alleviation scheme. Since 2011, we've also committed £300 million, including European funding, to manage flood risk and with an additional £150 million we're investing in coastal risk management from 2018.

Wel, cafodd Llywodraeth Cymru £10.7 miliwn o gyllid canlyniadol yn 2015-16 gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i ddifrod llifogydd, er enghraifft, a achoswyd gan storm Desmond a storm Eva. Rydym eisoes wedi cyhoeddi £2.3 miliwn ar gyfer cynlluniau cynnal a chadw ac atgyweirio brys ledled Cymru, a £0.5 miliwn ar gyfer gwaith gwella draeniau llifogydd ar yr A55, ac yn wir, £1.9 miliwn ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd ar yr A55 ger Talybont. Ers 2011, rydym hefyd wedi ymrwymo £300 miliwn, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, i reoli perygl llifogydd a chyda £150 miliwn yn ychwanegol rydym yn ei fuddsoddi ar gyfer rheoli perygl arfordirol o 2018 ymlaen.

13:35 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, yesterday I raised with you the concerns of those in Swansea, whereby the council has removed funding for music services, and they were in a contract with Neath Port Talbot County Borough Council, who have said that they will retain that service. But, how feasible it will be for them to be able to do so without that funding from Swansea is to be questioned. Minister, this has come before the budget has even reached local authorities. What will you be doing in conjunction with the task and finish group that the Minister recently put forward on music to make sure that this does not go ahead?

Weinidog, ddoe soniais wrthych am bryderon pobl yn Abertawe, lle y mae'r cyngor wedi dileu cyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, ac roedd ganddynt gontract gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi dweud y byddant yn cadw'r gwasanaeth hwnnw. Ond rhaid holi pa mor ymarferol fydd hi iddynt allu gwneud hynny heb y cyllid o Abertawe. Weinidog, mae hyn wedi digwydd cyn i'r gyllideb gyrraedd yr awdurdodau lleol hyd yn oed. Beth fyddwch chi'n ei wneud ar y cyd â'r grŵp gorchwyl a gorffen a gyflwynodd y Gweinidog ar gerddoriaeth yn ddiweddar i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd?

13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, of course the Welsh Local Government Association and, indeed, all the local authorities were very pleased that I managed to deliver a budget that had a far lower cut than was originally anticipated: an average of 1.4 per cent. So, now, and, indeed, as the budget was passed yesterday, providing more certainty to local authorities in terms of their budget setting process, of course, they will be, I'm sure, taking account of the outcomes of that task group in terms of music education, which, of course, was led by the Minister.

Wel, wrth gwrs roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn wir, yr holl awdurdodau lleol yn falch iawn fy mod wedi llwyddo i gyflwyno cyllideb a oedd yn cynnwys toriad llawer llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol: cyfartaledd o 1.4 y cant. Felly, yn awr, ac yn wir, gan fod y gyllideb wedi'i phasio ddoe, gan roi mwy o sicrwydd i awdurdodau lleol o ran eu proses o bennu'r gyllideb, wrth gwrs, byddant, rwy'n siŵr, yn ystyried canlyniadau'r grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw ar addysg cerdd, a oedd, wrth gwrs, yn cael ei arwain gan y Gweinidog.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions by the party spokespeople and, first this afternoon, Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:36 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn. A allwch chi roi rhagor o fanylion i ni am y newidiadau i'r gyllideb ddrafft ddoe? Rydym ni'n croesawu'r arian ychwanegol i'r sector addysg uwch, wrth gwrs. O'r £31 miliwn sydd wedi'i roi yn ôl yng nghyllideb HEFCW, a allwch chi ddweud wrthym ni o ble daw'r arian yma—ai o'r arian wrth gefn ac, os nad hynny, o ba gyllideb?

Thank you very much. Can you give us further details about the changes to the draft budget that were announced yesterday? We welcome the additional funding for the higher education sector, of course. Of that £31 million that has been returned to the HEFCW budget, can you tell us where this funding will come from, whether that be the reserves, or, if it's not from reserves, from which budget will it come?

- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I can assure the Member, Alun Ffred Jones, that this will come from reserves. Gallaf sicrhau'r Aelod, Alun Ffred Jones, y bydd hwn yn dod o gronfeydd wrth gefn.
- 13:37 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr iawn. Yr un cwestiwn, ac efallai eich bod chi wedi esbonio hwn ddoe: o ran yr arian ar gyfer cyngorau lleol, sef £2.5 miliwn, wrth gwrs, i helpu'r rhai oedd wedi cael eu heffeithio waethaf gan y toriadau, o ble mae'r arian yma'n dod? Ai o'r 'reserfaeu' neu o gyllideb arall? Thank you very much. And the same question—and perhaps you explained this yesterday: in terms of the funding for local authorities, namely the £2.5 million to assist those that were hardest hit by cuts, where is that funding coming from? Is that from reserves or from another budget?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, that is from reserves as well and, of course, it is being allocated as a specific grant to those three local authorities. Mae hwnnw'n dod o gronfeydd wrth gefn hefyd, ac wrth gwrs, mae'n cael ei ddyrannu fel grant penodol i'r tri awdurdod lleol hynny.
- 13:37 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr. Wrth ymateb i'ch sylwadau chi ddoe, fe groesawyd hefyd yr addewid i adeiladu canolfan gofal critigol yn Nhorfaen, yn Llanfdechfa os ydw i'n deall yn iawn, ac mae'n debyg bod cost hon yn tua £500 miliwn. A allwch chi ddweud beth ydy proffil gwariant y cynllun yma a sut y bydd o'n effeithio ar y gyllideb gyfalaf o fewn y gwasanaeth iechyd dros y blynyddoedd nesaf yma? Thank you. In responding to your comments yesterday, the pledge to build a critical care centre in Torfaen, in Llanfdechfa as I understand it, was welcomed, and it appears that the cost of that will be some £500 million. Can you tell us what the expenditure profile for this scheme is and how it will impact on the capital budget within the health service over the next few years?
- 13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, of course, as part of my budget for 2016-17 I also announced, yesterday, a further £120 million in capital allocations. But, of course, the allocations in the pipeline as part of the Wales infrastructure investment plan include those allocations—those priorities set by Ministers in terms of their departmental allocations—and the updated pipeline was, indeed, published as part of my capital announcements. Wel, wrth gwrs, fel rhan o fy nghyllideb ar gyfer 2016-17, ddoe, cyhoeddais £120 miliwn pellach mewn dyraniadau cyfalaf hefyd. Ond wrth gwrs, mae'r dyraniadau piblinell sy'n rhan o'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn cynnwys y dyraniadau hynny—y blaenoriaethau a bennwyd gan Weinidogion mewn perthynas â'u dyraniadau adrannol—ac yn wir, cyhoeddwyd y biblinell wedi'i diweddarau yn rhan o fy nghyhoeddiadau cyfalaf.
- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay. Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.
- 13:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Presiding Officer. Minister, the devolution of tax powers in 2018 will be a huge development for the Assembly and, in many ways, uncharted territory. What is certain is that for every tax that is devolved, the block grant funding to us will be reduced. What discussions have you had with the Treasury regarding the formula that will be used to calculate these reductions? Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, bydd datganoli pwerau trethu yn 2018 yn ddatblygiad enfawr i'r Cynulliad ac mewn sawl ffordd, yn dir newydd. Yr hyn sy'n sicr yw y bydd y cyllid grant bloc i ni yn cael ei leihau am bob treth a ddatganolir. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Trysorlys ynghylch y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r gostyngiadau hyn?
- 13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, I thank Nick Ramsay for that question. I have, of course, been engaged in discussions in terms of fair funding for our budget for the last six years as finance Minister and, of course, we welcome the fact that a funding floor was announced by the Prime Minister and the Chancellor last year. But, of course, what we have in terms of that commitment does fall short of delivering fair funding over the long term, because the floor is set only for the course of the Parliament. Wel, diolch i Nick Ramsay am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, rwyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar ariannu teg i'n cyllideb dros y chwe blynedd diwethaf fel Gweinidog cyllid ac wrth gwrs, rydym yn croesawu'r ffaith fod cyllid gwaelodol wedi'i gyhoeddi gan y Prif Weinidog a'r Canghellor y llynedd. Ond wrth gwrs, mae'r hyn sydd gennym o ran yr ymrwymiad hwnnw yn brin o fod yn gyllid teg dros y tymor hir, am mai ar gyfer y tymor Seneddol yn unig y gosodir y cyllid gwaelodol.

- 13:39 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister, and I also welcome the Barnett floor, but I was actually asking you about changes that will happen to the block grant because of the devolution of tax powers. Minister, while the initial reductions in the first year should be straightforward, future reductions will have to be indexed to economic growth and inflation or the Welsh Government budget could be subject to a new Barnett squeeze, but this time at the taxation end of the formula rather than the spending end. What form of indexing have you argued for with the Treasury?
- Diolch i chi, Weinidog, ac rwyf hefyd yn croesawu'r llawr Barnett, ond roeddwn yn gofyn i chi mewn gwirionedd am y newidiadau a fydd yn digwydd i'r grant bloc oherwydd datganoli pwerau trethu. Weinidog, er y dylai'r gostyngiadau cychwynnol yn ystod y flwyddyn gyntaf fod yn syml, bydd yn rhaid mynegeoio gostyngiadau yn y dyfodol yn ôl twf economaidd a chwyddiant neu gallai cyllideb Llywodraeth Cymru fod yn destun i wasgfa Barnett newydd, ond y tro hwn ar ben trethiant y fformiwla yn hytrach na'r pen gwariant. Pa fath o fynegeoio rydych wedi dadlau o'i blaid gyda'r Trysorlys?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, you're quite right, Nick Ramsay, that we have to negotiate the offset to our block grant as a result of the devolution of those taxes that will come in April 2018. Now, it's very interesting that the Scottish Government is still debating and negotiating the offset to their block grant, and, of course, I am working with the Chief Secretary to the Treasury to ensure that we have a fiscal framework for Wales that can clearly identify those offsets, and clearly identify those against those wider needs. And I do again call on the fact that we do need to ensure that our block grant, in terms of the Barnett formula, is secured in a fair way with the funding floor.
- Wel, rydych yn hollol iawn, Nick Ramsay, yn dweud bod yn rhaid i ni drafod y gwrthbwyriad i'n grant bloc o ganlyniad i ddatganoli'r trethi a ddaw ym mis Ebrill 2018. Nawr, mae'n ddiddorol iawn bod Llywodraeth yr Alban yn parhau i drafod a negodi'r gwrthbwyriad i'w grant bloc, ac wrth gwrs, rwy'n gweithio gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i sicrhau bod gennym fframwaith cyllidol i Gymru sy'n gallu nodi'r gwrthbwyriad yn glir, ac sy'n gallu ei nodi'n glir yn erbyn yr anghenion ehangach hynny. Ac rwy'n ailadrodd y ffaith bod angen i ni sicrhau bod ein grant bloc, o ran fformiwla Barnett, yn cael ei sicrhau mewn ffordd deg gyda'r cyllid gwaelodol.
- 13:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister. I quite agree that joint agreement on this area is absolutely crucial for tax devolution to succeed. Do you agree with me that any indexing of block grant reductions needs to be per capita, and could you tell us a little bit more about the progress that you've made in agreeing a fiscal framework over the longer term, to ensure that reductions in block grant funding are proportionate to the level of tax being levied in Wales so that we do not end up out of pocket?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Cytunaf yn llwyr fod cytundeb ar y cyd yn y maes hwn yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau y bydd datganoli treth yn llwyddo. A ydych yn cytuno bod angen i unrhyw fynegeoio sy'n digwydd ar ostyngiadau i'r grant bloc fod fesul y pen, ac a allech ddweud ychydig mwy wrthym am y cynnydd a wnaethoch ar gytuno ar fframwaith cyllidol dros y tymor hwy, er mwyn sicrhau bod gostyngiadau yn y cyllid grant bloc yn gymesur â lefel y dreth a godir yng Nghymru fel na fyddwn ar ein colled yn y pen draw?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Again, I'm very grateful for the question from Nick Ramsay, the opposition finance spokesperson, because it's clearly important. I went to the chief secretary before Christmas, in our last meeting, to say, 'I have got cross-party backing for my negotiations; cross-party backing for a fiscal framework.' It can't be just a one-off, it has to be a long-term fiscal framework, and it has to include that appropriate indexing, as you say, and ensure that we do have the offsetting of our block grant appropriate to our needs.
- Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar iawn am y cwestiwn gan Nick Ramsay, llefarydd cyllid yr wrthblaid, am ei fod yn amlwg yn bwysig. Euthum i weld y prif ysgrifennydd cyn y Nadolig, yn ein cyfarfod diwethaf, i ddweud, 'Mae gennyf gefnogaeth drawsbleidiol i fy nhrafodaethau; cefnogaeth drawsbleidiol i fframwaith cyllidol.' Ni all fod yn ddigwyddiad untro; mae'n rhaid iddo fod yn fframwaith cyllidol hirdymor, ac mae'n rhaid iddo gynnwys y mynegeoio priodol, fel y dywedwch, a sicrhau bod y gwrthbwyriad yn ein grant bloc yn briodol i'n hanghenion.
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- And now the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Ac yn awr llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

- 13:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, following on from those questions from Nick Ramsay, the press reports that the obstacle between the UK Treasury and the Scottish Government around these negotiations centres on the no-detriment principle, which the Treasury appears to be reluctant to agree to. Can I ask: is this a principle that you're also taking forward in your talks with the Treasury, and what reaction have you had to putting that proposal to them?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn dilyn y cwestiynau hynny gan Nick Ramsay, mae'r wasg yn adrodd bod y rhwystr rhwng Trysorlys y DU a Llywodraeth yr Alban ynglŷn â'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr egwyddor 'dim niwed', ac mae'r Trysorlys i'w weld yn amharod i gytuno i hyn. A gaf fi ofyn: a yw hon yn egwyddor rydych chi hefyd yn bwrw ymlaen â hi yn eich trafodaethau gyda'r Trysorlys, a pha ymateb a gawsoch yn sgil cyflwyno'r cynnig hwnnw iddynt?
- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, we not only learn lessons, but ensure that we don't fall into the same traps in terms of the Scottish Government, in terms of their negotiations, and, of course, this principle is very important to us in terms of no detriment.
- Unwaith eto, rydym nid yn unig yn dysgu gwersi, ond rydym yn sicrhau nad ydym yn syrthio i'r un maglau â Llywodraeth yr Alban yn eu trafodaethau hwy, ac wrth gwrs, mae'r egwyddor hon yn bwysig iawn i ni o ran sicrhau nad oes niwed.
- 13:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister, but you haven't made it clear whether or not this is a principle that the Treasury are open to hearing from you. The Scottish Government reckon that, without this principle in place, they will lose £3 billion over 10 years. Have you made any similar calculations as to what our loss would be on the limited taxes that we currently have access to if the Treasury don't agree a no-detriment principle in negotiations with us?
- Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond nid ydych wedi dweud yn glir a yw hon yn egwyddor y mae'r Trysorlys yn barod i'w chlywed gennych. Mae Llywodraeth yr Alban yn tybio, os nad ydynt yn rhoi'r egwyddor hon ar waith, y byddant yn colli £3 biliwn dros 10 mlynedd. A ydych chi wedi gwneud unrhyw gyfrifiadau tebyg o ran maint ein colled ar y trethi cyfyngedig y mae gennym fynediad atynt ar hyn o bryd os nad yw'r Trysorlys yn cytuno ar egwyddor 'dim niwed' yn eu trafodaethau â ni?
- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- We're very clear, again, in terms of the no-detriment principle. It is very early days, I would say, in terms of those negotiations, and the negotiations at the moment are still very much focused around the fact that we are seeking a long-term inter-governmental agreement, as Nick Ramsay said, in terms of our fiscal framework, and, as we move towards the devolution of those taxes in April 2018, this is going to be the key point and purpose of our negotiations.
- Rydym yn glir iawn, unwaith eto, o ran yr egwyddor 'dim niwed'. Buaswn yn dweud ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar y trafodaethau hynny, ac mae'r trafodaethau ar hyn o bryd yn parhau i ganolbwyntio ar y ffaith ein bod yn chwilio am gytundeb rhynglywodraethol hirdymor, fel y dywedodd Nick Ramsay, o ran ein fframwaith cyllidol, ac wrth i ni symud tuag at ddatganoli'r trethi ym mis Ebrill 2018, dyna fydd pwynt allweddol a diben ein trafodaethau.
- 13:43 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. My concern, Minister, is that Scotland appears to have more clout than we do with the Treasury, and if they can't shift the Treasury on this particular principle, then what chance do we have? Are you working with the Scottish Government to try to put joint pressure on the Treasury in relation to this, and maybe with Northern Ireland as well, to ensure that the Treasury understands that this is a fundamental point in terms of those negotiations?
- Diolch. Fy mhryder, Weinidog, yw ei bod yn ymddangos bod gan yr Alban fwy o rym na ni gyda'r Trysorlys, ac os na allant newid barn y Trysorlys ar yr egwyddor benodol hon, yna pa obaith sydd gennym ni? A ydych yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i geisio rhoi pwysau ar y cyd ar y Trysorlys mewn perthynas â hyn, ac efallai gyda Gogledd Iwerddon hefyd, er mwyn sicrhau bod y Trysorlys yn deall bod hwn yn bwynt sylfaenol yn y trafodaethau hynny?

13:44

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that's a very fair point. What is very disappointing is that we have not had a finance quadrilateral—that's within our devolution settlement and code—since November 2013. And, as the finance Ministers for Scotland, Northern Ireland and Wales, we met indeed last year. We called for a quadrilateral to, exactly, as you say, press on these points of joint interest, and not only, of course, these points, but there are many other issues that we're concerned about trilaterally, such as, for example, the apprenticeship levy and the implications of that, and the lack of recognition of devolution in terms of those impacts.

We have our own joint Exchequer committee process. The only time that has met was when Danny Alexander was the Chief Secretary to the Treasury, and that was back in 2015 that we met. So, at the moment, the devolution engagement, and indeed respect for devolution, in terms of those negotiations and relationships, is not there. Again, I welcome cross-party support here in this Chamber to ensure that we can move forward on this and to demonstrate that we, as a Welsh Government, backed by our National Assembly, have got the clout with Treasury.

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt teg iawn. Yr hyn sy'n siomedig iawn yw nad ydym wedi cael cyfarfod cyllid pedairochrog—sydd o fewn ein setliad a'n cod datganoli—ers mis Tachwedd 2013. Ac fel Gweinidogion cyllid yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, cyfarfuom y llynedd mewn gwirionedd. Galwasom am gyfarfod cyllid pedairochrog, yn union fel y dywedwch, er mwyn pwysleisio'r pwyntiau hyn o ddiddordeb cyffredin, ac nid y pwyntiau hyn yn unig, wrth gwrs, ond mae llawer o faterion eraill rydym yn bryderus amdanynt yn dairochrog, megis, er enghraifft, yr ardoll prentisiaethau a goblygiadau hynny, a diffyg cydnabyddiaeth i ddatganoli mewn perthynas â'r effeithiau hynny.

Mae gennym ein proses cydbwyllgor y Trysorlysoedd ein hun. Yr unig adeg y mae hwnnw wedi cyfarfod oedd yn ôl yn 2015 pan oedd Danny Alexander yn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Felly, ar hyn o bryd, ni cheir ymgysylltiad datganoli, na pharch tuag at ddatganoli yn wir, yn y trafodaethau a'r cysylltiadau hynny. Unwaith eto, rwy'n croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol yma yn y Siambr hon er mwyn sicrhau y gallwn symud ymlaen gyda'r mater hwn a dangos bod gennym, fel Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth ein Cynulliad Cenedlaethol, rym i ddylanwadu ar y Trysorlys.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Keith Davies.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Keith Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad Polisi Caffael Cymru

The Welsh Procurement Policy Statement

13:45

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd datganiad polisi caffael Cymru?
OAQ(4)0659(FIN)[W]

3. Will the Minister provide an update on the progress of the Welsh procurement policy statement?
OAQ(4)0659(FIN)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The policy statement has been widely adopted across the Welsh public sector and is reaping real benefits, creating jobs and training and increasing opportunities for Wales-based firms.

Mae'r datganiad polisi wedi ei fabwysiadu'n eang ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n sicrhau manteision gwirioneddol, gan greu swyddi a hyfforddiant a chynyddu cyfleoedd i gwmnïau a leolwyd yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cyn bo hir, cawn weld, gobeithio, y gwaith yn dechrau i ddefnyddio technoleg morlynnoedd llanw ym mae Abertawe. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i hybu'r defnydd o ddur o'r Deyrnas Unedig yn y prosiectau mawr sydd mewn golwg yn y dyfodol agos?

We will hopefully soon see the work starting to use the tidal lagoon technology in Swansea bay. What can the Welsh Government do to promote the use of steel from the UK in these major infrastructure projects that are in the pipeline now?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, Keith Davies, we do hope that we can benefit from the proposed Swansea bay tidal lagoon and ensure that the decisions are made by the UK Government to move this forward in terms of the opportunities. And then, of course, it can ensure that we can take every opportunity in terms of contracts to source steel products.

Yn amlwg, Keith Davies, rydym yn gobeithio y gallwn elwa ar y morlyn llanw arfaethedig ym mae Abertawe a sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU i fwrw ymlaen â hyn o ran y cyfleoedd. Ac yna, wrth gwrs, gall sicrhau y gallwn fanteisio ar bob cyfle o ran contractau i ddod o hyd i gynnyrch dur.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it's essential that the Welsh Government does all it can to support our farmers in tendering for public sector contracts. I appreciate that, last year, the National Procurement Service brought the procurement of food within its scope and was developing a food strategy. Therefore, can you provide us with an update on this food strategy and can you tell us how the Welsh Government is ensuring that there are robust supplier selection procedures in place for food contracts across Wales so that Welsh farmers don't miss out on these contracts?

Weinidog, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i gynorthwyo ein ffermwyr i dendro am gontractau sector cyhoeddus. Rwy'n sylweddoli bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, y llynedd, wedi dod â chaffael bwyd o fewn ei gwmpas a'i fod yn datblygu strategaeth fwyd. Felly, a allwch chi roi diweddariad ar y strategaeth fwyd hon ac a allwch chi ddweud wrthym sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i ddethol cyflenwyr ar gyfer contractau bwyd ledled Cymru fel nad yw ffermwyr Cymru yn colli cyfle o ran y contractau hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The NPS has already established itself. It already has 30 live contracts and frameworks as of 1 February, as far as the NPS is concerned. It has awarded six contracts and frameworks in other areas such as managed service, employee benefit schemes, supply of biomass fuels, all-Wales printing services and facilities management. So, clearly, the fact that the NPS is up and running and clearly delivering on those contracts and frameworks will also apply to the all-important food procurement contracts.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol eisoes wedi'i sefydlu. Ar 1 Chwefror, mae ganddo 30 o gontractau a fframweithiau byw eisoes, o ran y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae wedi dyfarnu chwech o gontractau a fframweithiau mewn meysydd eraill megis gwasanaethau a reolir, cynlluniau buddiannau gweithwyr, cyflenwad tanwydd biomas, gwasanaethau argraffu Cymru gyfan a rheoli cyfleusterau. Felly, yn amlwg, bydd y ffaith fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn weithredol ac yn amlwg yn cyflawni ar y contractau a'r fframweithiau hynny hefyd yn berthnasol i'r contractau caffael bwyd hollbwysig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn y Siambr ddoe, mi wnaeth y Prif Weinidog wrthod fy awgrym i y dylid deddfu er mwyn ceisio cynyddu'r gyfran o gytundebau cyhoeddus sy'n cael eu rhoi i gwmnïau o Gymru. Y gwir amdani ydy bod Llywodraeth Cymru yn dweud y pethau iawn yn aml iawn ar gaffael, ond yn methu â sicrhau gweithredu effeithiol ar draws y sector cyhoeddus, a dyna pam y byddai Plaid Cymru yn deddfu. Ond mater arall sydd angen sylw, heb os, ydy capasiti caffael ar draws y sector cyhoeddus. A all y Gweinidog ddweud wrthym ni sut mae cyllideb y Llywodraeth yn caniatáu buddsoddiad mewn cynyddu capasiti ac arbenigedd?

In the Chamber yesterday, the First Minister rejected my suggestion that we should legislate in order to increase the percentage of public contracts that are awarded to Welsh companies. The truth is that the Welsh Government is saying the right things very often on procurement but failing to secure effective action across the public sector. That's why Plaid Cymru would legislate in this area. But another issue that needs to be addressed is procurement capacity across the public sector. Can the Minister tell us how the Government's budget allows investment in capacity building and expertise?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In thanking you for that question, I would say that our Wales procurement policy statement has been greatly strengthened now by the new powers that we have to regulate on procurement matters in Wales. Of course, this will lead to regulation rather than advice notes and guidance and officials now are working to develop community benefits as the first area of regulation. So, I think you will see that difference in terms of the strength of those new powers. Of course, you're right to say that consistency and, indeed, delivering on capacity in procurement are crucial. That is something where we not only have the European social fund to support us in building up procurement capability; the Home Grown Talent project saw 28 trainees helping their host organisations save in excess of £7 million.

Wrth ddiolch i chi am y cwestiwn hwnnw, buaswn yn dweud bod datganiad polisi caffael Cymru wedi cael ei gryfhau'n fawr yn awr gan y pwerau newydd sydd gennym i reoleiddio ar faterion caffael yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd hyn yn arwain at reoleiddio yn hytrach na nodiadau cyngor a chanllawiau ac mae swyddogion bellach yn gweithio i ddatblygu manteision cymunedol fel y maes rheoleiddio cyntaf. Felly, rwy'n credu y byddwch yn gweld y gwahaniaeth hwnnw o ran cryfder y pwerau newydd hynny. Wrth gwrs, rydych yn gywir i ddweud bod cysondeb, ac yn wir, cyflawni o ran capasiti ym maes caffael yn hanfodol. Mae hynny'n rhywbeth lle y mae gennym nid yn unig nawdd cronfa gymdeithasol Ewrop i'n cynorthwyo i ddatblygu ein gallu caffael; yn ogystal â hynny, llwyddodd 28 o hyfforddeion prosiect Doniau Cymru i helpu'r sefydliadau a'u cyflogai i arbed dros £7 miliwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnyrch a Wnaed yng Nghymru

Welsh-made Products

13:49	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	<p><i>4. Faint o gynnyrch a wnaed yng Nghymru a gafwyd mewn perthynas â phrosiectau adeiladu a seilwaith a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0657(FIN)</i></p>	<p><i>4. How much Welsh made products have been procured in relation to Welsh Government-awarded construction and infrastructure projects over the term of the fourth Assembly? OAQ(4)0657(FIN)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
13:49	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>We're analysing contract pipelines to provide a picture of future requirements for Welsh-made products. For example, the Heads of the Valleys road scheme delivered 84 per cent spend with Welsh business.</p>	<p>Rydym yn dadansoddi llwybrau contract i roi darlun o'r galw yn y dyfodol am gynnyrch a wnaed yng Nghymru. Er enghraifft, llwyddodd cynllun ffordd Blaenau'r Cymoedd i sicrhau gwariant o 84 y cant gyda busnesau yng Nghymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:50	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that one specific answer there. I was trying to understand how many contracts have been awarded by Welsh Government to Welsh steelmakers in the last five years and what value this represents. I think it would aid people in my area, especially now with potential job losses at Tata, to understand fully how best the Welsh Government can utilise the steel that is produced there. I appreciate the procurement group is up and running with the taskforce, but perhaps if we had some figures, it might help those people understand better.</p>	<p>Diolch am yr un ateb penodol hwnnw. Roeddwn yn ceisio deall sawl contract a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchwyr dur Cymru yn y pum mlynedd diwethaf a pha werth y mae hyn yn ei gynrychioli. Rwy'n credu y byddai'n helpu pobl yn fy ardal, yn enwedig yn awr gyda'r posibilrwydd o golli swyddi yn Tata, i ddeall, yn llawn, beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r dur sy'n cael ei gynhyrchu yno. Rwy'n sylweddoli bod y grŵp caffael yn weithredol gyda'r tasglu, ond efallai pe bai gennym rai ffigurau, gallai helpu'r bobl hynny i ddeall yn well.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:50	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>It's a very important part of the steel taskforce, which I've already been responding to, that it's interrogating future procurement pipelines, including the Wales infrastructure investment plan, to ensure that construction and infrastructure-related tendering opportunities are known and visible to Welsh business. And, of course, the Welsh Government is clearly involved, not just in terms of the steel taskforce, but also with the UK Government in terms of procurement opportunities. Procurement does play a very important opportunity in addressing some of the issues facing construction and steel suppliers in the current market. I would expect contracting authorities in Wales to use procurement as a lever to reduce those barriers to those suppliers bidding for public contracts.</p>	<p>Mae'n rhan bwysig iawn o waith y tasglu dur, y bŵm eisoes yn ymateb iddo, ei fod yn holi ynghylch llwybrau caffael yn y dyfodol, gan gynnwys y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, er mwyn sicrhau bod y gwaith adeiladu a chyfleoedd tendro sy'n gysylltiedig â seilwaith yn hysbys ac yn weladwy i fusnesau Cymru. Ac wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn cymryd rhan, nid yn unig o ran y tasglu dur, ond hefyd gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyfleoedd caffael. Mae caffael yn gyfle pwysig iawn wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n wynebu cyflenwyr adeiladu a dur yn y farchnad ar hyn o bryd. Buaswn yn disgwyl i awdurdodau contractio yng Nghymru ddefnyddio caffael fel lifer i leihau'r rhwystrau hynny i gyflenwyr sy'n gwneud cais am gontractau cyhoeddus.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:51	David Rees Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that answer, Minister. It's very important that we ensure that public contracts are actually used to the benefit of our Welsh industries. But on that point, beyond the steel are also industries that service the steel, in particular, Fairwood fabrications, for example, which are losing 100 employees as a consequence of the loss of contracts with Tata, and their skills can be used in infrastructure projects. Will you ensure that procurement rules also look at the subcontractors to ensure that those type of businesses that are also going to struggle, can benefit from procurement rules to allow their skills and workforce to be used in contracts such as this?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod contractau cyhoeddus yn cael eu defnyddio er budd ein diwydiannau Cymreig. Ond ar y pwynt hwnnw, mae yna hefyd ddiwydiannau y tu hwnt i'r dur sy'n gwasanaethu'r dur, yn arbennig, Fairwood fabrications, er enghraifft, sy'n colli 100 o weithwyr o ganlyniad i golli contractau gyda Tata, a gellir defnyddio eu sgiliau mewn prosiectau seilwaith. A wnewch chi sicrhau bod rheolau caffael hefyd yn edrych ar yr isgontractwyr i sicrhau bod y mathau hynny o fusnesau sy'n mynd i'w chael hi'n anodd hefyd, yn gallu elwa o reolau caffael er mwyn caniatáu i'w sgiliau a'u gweithlu gael eu defnyddio mewn contractau fel hyn?</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the supply chain question is key, David Rees, and, of course, the charter for sustainable British steel is crucial to that in terms of its aims. In fact, my procurement policy statement fully complements the aims of that charter. The adoption of key principles of the Wales procurement policy statement is to open up supply chain opportunities for Wales-based businesses, and that's why we're supporting this procurement stream, as I've said, of the taskforce established by Edwina Hart.
- Rwy'n credu bod y cwestiwn ar y gadwyn gyflenwi yn allweddol, David Rees, ac wrth gwrs, mae'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig yn hanfodol i hynny o ran ei amcanion. Yn wir, mae fy natganiad polisi caffael yn cydweddu ag amcanion y siarter yn llawn. Bydd mabwysiadu egwyddorion allweddol datganiad polisi caffael Cymru yn ehangu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau wedi'u lleoli yng Nghymru, a dyna pam ein bod, fel y dywedais, yn cefnogi ffrwd gaffael y tasglu a sefydlwyd gan Edwina Hart.
- 13:52 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- In relation to the procurement of steel, in particular around public sector contracts, there is a campaign, obviously, that has been campaigning for some time around the use of British standard steel in particular, and making sure that that is a key caveat of the contracts. Are you confident that public sector contracts in Wales are serving the best interest of companies based here in affording them the best opportunity to access the market with British standard product, but above all, have not been undermined by substandard imports that might be coming in at a cheaper price, but have no lifespan equivalent to what the Welsh product might be?
- Mewn perthynas â chaffael dur, yn enwedig contractau sector cyhoeddus, mae yna ymgyrch, yn amlwg, sydd wedi bod yn ymgyrchu ers peth amser ynghylch y defnydd o ddur o safon Brydeinig, yn arbennig, a sicrhau bod hynny'n gafeat allweddol yn y contractau. A ydych yn hyderus fod contractau sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwarchod lles cwmnïau sydd wedi'u lleoli yma drwy roi'r cyfle gorau iddynt gael mynediad i'r farchnad gyda chynnyrch o safon Brydeinig, ond yn bennaf oll, nad ydynt wedi cael eu tanseilio gan fewnforion sy'n is na'r safon a allai fod yn dod i mewn am bris rhatach, ond nad oes ganddynt hyd oes sy'n cyfateb i'r hyn sydd gan y cynnyrch o Gymru o bosibl?
- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, that, again, in answer to that, the importance, I think, of the charter for sustainable British steel is crucial to this. As I've said, the fact that we do have a Wales procurement policy statement actually underpinning the way we contract is crucial—it's fully complementing, as I said, that charter, and also ensuring that procurement policy is supporting Welsh businesses to access public contracts. Take on board the fact that we have an opportunity here and we have an opportunity with British steel in terms of those contracts.
- Wel, mae hynny, unwaith eto, yn ateb i hynny, rwy'n credu bod pwysigrwydd y siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig yn allweddol i hyn. Fel rwyf wedi'i ddweud, mae'r ffaith fod gennym ddatganiad polisi caffael i Gymru yn sail i'r ffordd rydym yn llunio contractau yn allweddol—mae'n ategu'r siarter yn llwyr, fel y dywedais, a hefyd yn sicrhau bod polisi caffael yn cynorthwyo busnesau Cymru i gael mynediad at gontractau cyhoeddus. Ystyriwch y ffaith fod gennym gyfle yma ac mae gennym gyfle gyda dur Prydeinig o ran y contractau hynny.
- 13:53 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you'll know, Celsa in my region produce reinforcing bar for reinforced concrete and not only does it meet the highest British standards, as Andrew R.T. Davies has suggested, but it's also being undercut by importers of grey imports into the steel market that are not fully traceable. How does the Welsh Government make absolutely sure that none of the steel being used in the Welsh supply chain and public purchasing is a grey import that isn't fully traceable back to its source?
- Weinidog, fel y byddwch yn gwybod, mae Celsa yn fy rhanbarth yn cynhyrchu barrau atgyfnerthu ar gyfer concridd wedi'i atgyfnerthu, ac nid yn unig y mae'n cyrraedd y safonau uchaf ym Mhrydain, fel y mae Andrew R.T. Davies wedi'i awgrymu, ond y mae hefyd yn cael ei danbriso gan fewnforwyr mewnforion llwyd i'r farchnad ddur nad ydynt yn gwbl olrheiniadwy. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad oes dim o'r dur sy'n cael ei ddefnyddio yn y gadwyn gyflenwi a phrynu cyhoeddus yng Nghymru yn fewnforion llwyd nad yw'n gwbl bosibl eu holrhain yn ôl i'w ffynhonnell?

13:54

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think again, these are very valuable questions. They're questions that, of course, are being addressed, not just by the taskforce chaired by the Minister for Economy, Science and Transport, but also the UK steel procurement working group. And, of course, my officials have also attended three of those four UK Government steel procurement working group meetings. Key outputs from the working group have been the publication of guidance on the procurement of steel in major projects and the development of a growth balance score card to monitor results. We, of course, are in very close discussions, not only with the Cabinet Office about our policies and statement, but also about the fact that we are leading the way in providing intelligent interpretation of the buy local policy.

Rwy'n meddwl eto fod y rhain yn gwestiynau gwerthfawr iawn. Maent yn gwestiynau, wrth gwrs, sy'n cael sylw, nid yn unig gan y tasglu dan gadeiryddiaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond hefyd gan weithgor caffael dur y DU. Ac, wrth gwrs, mae fy swyddogion wedi mynychu tri o bedwar cyfarfod gweithgor caffael dur Llywodraeth y DU. Allbynnau allweddol o'r gweithgor oedd cyhoeddi canllawiau ar gaffael dur mewn prosiectau mawr a datblygu cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer twf er mwyn monitro canlyniadau. Rydym, wrth gwrs, yn cynnal trafodaethau agos iawn, nid yn unig gyda Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â'n polisiau a'n datganiad, ond hefyd ynglŷn â'r ffaith ein bod yn arwain y ffordd o ran darparu dehongliad deallus o'r polisi prynu'n lleol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arian Ewropeaidd

European Funding

13:55

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio arian Ewropeaidd? OAQ(4)0665(FIN)

5. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's use of European funding? OAQ(4)0665(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have invested £455 million of structural funds in 15 months, representing a quarter of our total funding allocation and a total investment of £990 million to support communities, businesses and people across Wales.

Rydym wedi buddsoddi £455 miliwn o gronfeydd strwythurol mewn 15 mis, sef chwarter cyfanswm ein dyraniad cyllid a buddsoddiad o £990 miliwn i gyd i gefnogi cymunedau, busnesau a phobl ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch ichi am eich ateb. Rwy'n siŵr y byddwch chi'n ymwybodol o gonsyrn nifer yn y sector amaeth ynglŷn ag arafwch y Llywodraeth yn dod â rhaglenni gerbron er mwyn creu diwydiant mwy cydnerth a mwy cynaliadwy o dan y cynllun datblygu gwledig. Mae yna gonsyrn bod y nifer sydd yn gallu cael mynediad i'r grantiau, er enghraifft y cynllun grant cynhyrchu cynaliadwy, yn fychan. Mae lefel y buddsoddiad angenrheidiol yn golygu bod hynny, mewn gwirionedd, yn allgau nifer fawr o ffermwyr Cymru. Nawr, gan dderbyn bod angen i'r buddsoddiad gael ei wneud mewn modd sydd yn cryfhau'r sector ac yn creu, fel roeddwn i'n dweud, sector mwy cynaliadwy, a wnewch chi roi pwysau ar y Dirprwy Weinidog? Fel y Gweinidog, wrth gwrs, sy'n gyfrifol am orolwg ar y gwariant Ewropeaidd, a wnewch chi sicrhau bod yna gynllun grantiau llai yn cael ei gyflwyno ar fyrder er mwyn gweld y trawsnewidiad rydym ni am ei weld ar draws y sector, yn hytrach na dim ond ymhlith grŵp bychan sy'n gallu cael y buddsoddiad angenrheidiol?

Thank you for that response. I'm sure you'll be aware of the concern of many people in the agricultural sector in terms of the slow pace within Government in bringing programmes forward to create a more robust and resilient industry under the RDP. There is concern that the numbers that can access the grants, for example the sustainable production grant, is very low. The level of investment required means that many people are excluded in terms of Welsh farms. Now, in accepting that investment needs to be made in a way that strengthens the sector and makes it more sustainable, will you put pressure on the Deputy Minister? As the Minister responsible for taking an overview of European expenditure, will you ensure that there's a smaller grant scheme introduced as a matter of urgency, in order to see the transformation that we want to see across the sector, rather than just among a small group who actually can get the necessary investment?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The rural development plan is under way and is open to applications. Indeed, we know, across Wales, that it is not only under way, but also the support that is provided, not only by local authorities and by Welsh Government, but also intermediary bodies, is clearly helping move this forward. What I'm sure you would agree with me on, in terms of your question, Llyr Gruffydd, is thank goodness we have got an EU-funded rural development plan to boost the economy and diversity in our rural communities.

Mae'r cynllun datblygu gwledig ar y gweill ac ar agor i geisiadau. Yn wir, ledled Cymru, fe wyddom ei fod ar y gweill, ond hefyd mae'r cymorth a ddarperir, nid yn unig gan awdurdodau lleol a chan Lywodraeth Cymru, ond hefyd gan gyrff cyfryngol, yn amlwg yn helpu i symud ymlaen â hyn. Yr hyn rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi yn ei gylch, o ran eich cwestiwn, Llyr Gruffydd, yw diolch byth fod gennym gynllun datblygu gwledig a rienir gan yr UE i roi hwb i'r economi a sicrhau amrywiaeth yn ein cymunedau gwledig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, the Welsh Government used European funding in order to provide the rather fantastic lido facility in Pontypridd in Ynysangharad park. Today, the council announced that, in fact, for the coming year, there are going to be no charges for the use of that facility and that this is intended not only to make the facility more available across the whole of Wales for those who want to use it, but also in order to improve the business opportunities and the footfall, in the town of Pontypridd and assist with the regeneration of the town. Do you agree with me that that is an excellent cross-cutting use of European funding and will you write to the council to congratulate them on their far-sighted decision?

Weinidog, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyllid Ewropeaidd er mwyn darparu'r pwll nofio gwyh ym Mhontypridd ym mharc Ynysangharad. Heddiw, cyhoeddodd y cyngor, am y flwyddyn sydd i ddod mewn gwirionedd, na fydd rhaid talu am ddefnyddio'r cyfleuster hwnnw, ac mai'r bwriad drwy hyn nid yn unig yw gwneud y cyfleuster yn fwy hygyrch ledled Cymru gyfan i'r rhai sydd am ei ddefnyddio, ond hefyd gwella'r cyfleoedd busnes a nifer yr ymwelwyr â thref Pontypridd a helpu i adfywio'r dref. A ydych yn cytuno â mi fod hwn yn ddefnydd trawsbynciol ardderchog o gyllid Ewropeaidd ac a fyddwch yn ysgrifennu at y cyngor i'w llongyfarch ar eu penderfyniad pellgyrhaeddol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:57

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I certainly agree with Mick Antoniw, the Member for Pontypridd. This is an excellent use of European funding, and I was delighted to officially open the lido last August. I certainly encourage everyone to go and have a swim down there. Maybe you were there on New Year's Day, I don't know, but there were certainly many who crowded into the pool and the park. But this is about how we can see, at first hand, a transformation that's taken place with the support of EU and, indeed, heritage funds and the Welsh Government. I congratulate Rhondda Cynon Taf council for now opening this up as a key destination and tourist facility.

Rwy'n sicr yn cytuno â Mick Antoniw, yr Aelod dros Bontypridd. Mae hwn yn ddefnydd rhagorol o gyllid Ewropeaidd ac roeddwn wrth fy modd yn agor y pwll nofio'n swyddogol fis Awst diwethaf. Rwy'n sicr yn annog pawb i fynd i nofio yno. Efallai eich bod yno ar Ddydd Calan, nid wyf yn gwybod, ond yn sicr, roedd yno nifer o bobl wedi ymgasglu yn y pwll a'r parc. Ond mae hyn yn ymwneud â sut y gallwn weld â'n llygaid ein hunain y trawsnewid sydd wedi digwydd gyda chefnogaeth yr UE ac yn wir, cronfeydd treftadaeth a Llywodraeth Cymru. Rwy'n llongyfarch Cyngor Rhondda Cynon Taf am agor y pwll nofio yn awr fel cyrchfan allweddol a chyfleuster i dwristiaid.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, in the year 2000, Welsh Labour announced that EU funding was a once-in-a-lifetime opportunity. Here we are, nearly 16 years later, with many areas of Wales remaining well within the criteria for structural funding. Would you care to hazard a guess when your Government's policy will actually lift most of Wales out of its structural problems?

Weinidog, yn y flwyddyn 2000, cyhoeddodd Llafur Cymru fod cyllid gan yr UE yn gyfle unwaith mewn oes. Dyma ni, bron i 16 mlynedd yn ddiweddarach, gyda llawer o ardaloedd yng Nghymru yn parhau i fod ymhell o fewn y meini prawf ar gyfer cyllid strwythurol. A hoffech ddyfalu pa bryd y bydd polisi eich Llywodraeth yn codi'r rhan fwyaf o Gymru allan o'i phroblemau strwythurol mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

If you look at how important EU funds are to Wales, and we've had a couple of examples already this afternoon, helping us—and I hope you would recognise this, William Graham—helping people into work and training through multi-million-pound apprenticeships, traineeships, Healthy Working Wales, recently announced growing workforces through learning and development, Gwlad, materials and manufacturing education, training and learning, the METal 2 scheme at Swansea bay, and companies such as Tata Steel—William Graham—the Royal Mint and Oceaneering benefiting from more employee training—. Do I have to continue with the list to demonstrate the importance of EU funding investment levered in by the Welsh Government?

Os edrychwch ar ba mor bwysig yw cronfeydd yr UE i Gymru, ac rydym wedi cael ambell enghraifft eisoes y prynhawn yma, yn ein helpu ni—ac rwy'n gobeithio y byddech yn cydnabod hyn, William Graham—i helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant drwy brentisiaethau gwerth llawer o filiynau o bunnoedd, hyfforddeiaethau, Cymru lach ar Waith, tyfu gweithluoedd drwy ddysgu a datblygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, Gwlad, addysg, hyfforddiant a dysgu deunyddiau a gweithgynhyrchu, cynllun METal 2 ym mae Abertawe, a chwmnïau megis Tata Steel—William Graham—y Bathdy Brenhinol ac Oceaneering yn elwa o fwy o hyfforddiant i weithwyr—. A oes rhaid i mi barhau â'r rhestr i ddangos pa mor bwysig yw buddsoddiad cyllid yr UE a ddenwyd i mewn gan Lywodraeth Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Prosiectau Seilwaith

Infrastructure Projects

13:59

John Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu prosiectau seilwaith? OAQ(4)0669(FIN)

6. Will the Minister provide details of meetings held with the UK Government regarding the funding of infrastructure projects? OAQ(4)0669(FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I meet regularly with a wide range of parties to discuss infrastructure investment across Wales, including the UK Government. Last week, I met Lord Adonis, chair of the new National Infrastructure Commission.
Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag ystod eang o bartion i drafod buddsoddi yn y seilwaith ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth y DU. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â'r Arglwydd Adonis, cadeirydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol newydd.
- 13:59 **John Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Minister, I think we've seen in recent times that countries at the forefront of wind energy reap great benefits from that role of leadership. Wales and the UK now have an opportunity with regard to tidal energy and, personally, I would very much like to see a tidal lagoon in Newport after Swansea and Cardiff and, obviously, there are plans to extend them elsewhere. Would you agree with me that there are great opportunities here to develop manufacturing capacity with the skills, jobs and technology that go along with that, which could then be exported to the rest of the world, but we will only realise these benefits if the UK Government stopped delaying and very quickly now make a commitment to back that project for a tidal lagoon at Swansea, which can then be rolled out elsewhere? And will you continue to urge the Minister to get off the fence and commit to this project as quickly as possible?
Weinidog, rwy'n meddwl ein bod wedi gweld yn ddiweddar fod gwledydd sydd ar y blaen gydag ynni gwynt yn elwa'n fawr ar y rôl arweiniol honno. Mae gan Gymru a'r DU gyfle yn awr mewn perthynas ag ynni'r llanw ac yn bersonol, byddwn yn falch iawn o weld morlyn llanw yng Nghasnewydd ar ôl Abertawe a Chaerdydd ac yn amlwg, mae cynlluniau i'w hymestyn i fannau eraill. A fydech yn cytuno bod yna gyfleoedd gwych yma i ddatblygu gallu gweithgynhyrchu gyda'r sgiliau, swyddi a thechnoleg sy'n cyd-fynd â hynny, y gellid eu hallforio wedyn i weddill y byd, ond ni wireddwn y manteision hyn hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi'r gorau i oedi a gwneud ymrwymiad yn gyflym iawn yn awr i gefnogi prosiect y morlyn llanw yn Abertawe, y gellir ei gyflwyno mewn manau eraill wedyn? Ac a fyddwch yn parhau i annog y Gweinidog i ddod oddi ar y ffens ac i ymrwymo i'r prosiect hwn cyn gynted â phosibl?
- 14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Well, I'm sure that your point, John Griffiths, will be shared across this Chamber in terms of this message to the UK Government. Indeed, we have engaged with the UK Government to ensure that maximum benefit is delivered for the proposed Swansea bay tidal lagoon, and to ensure the longer term UK policy for tidal range. That's crucial to the UK, and not just for Wales, and reflects Welsh aspirations whilst protecting the environment. I would say, of course, that the Swansea bay tidal lagoon is one of our key Welsh infrastructure investment plan pipeline projects with the potential to bring economic and environmental benefits to Wales, and, of course, it's the first of six tidal lagoon schemes, four of which are located in Wales, and Tidal Lagoon Powers identify the next phase of two lagoons to be located at Cardiff and Newport.
Wel, rwy'n siŵr y bydd eich pwynt, John Griffiths, yn cael ei rannu ar draws y Siambr o ran y neges hon i Lywodraeth y DU. Yn wir, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau cymaint o fudd â phosibl i forlyn llanw arfaethedig bae Abertawe, ac i sicrhau polisi amrediad llanw y DU yn y tymor hwy. Mae hynny'n hollbwysig i'r DU, ac nid yn unig i Gymru, ac yn adlewyrchu dyheadau Cymru gan ddiogelu'r amgylchedd. Byddwn yn dweud, wrth gwrs, fod y morlyn llanw ym mae Abertawe yn un o brosiectau piblinell allweddol ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru sydd â'r potensial i ddod â manteision economaidd ac amgylcheddol i Gymru, ac wrth gwrs, dyma'r cyntaf o chwe chynllun morlyn llanw, pedwar ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru, ac mae Tidal Lagoon Power wedi nodi cam nesaf y ddau forlyn sydd i'w lleoli yng Nghaerdydd a Chasnewydd.
- 14:01 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
The Circuit of Wales, Minister, has potential to regenerate not only Ebbw Vale, but large parts of south-east Wales. Could you outline what discussions you've had with Cabinet colleagues to bring financing this project to an end?
Weinidog, mae gan Gylchffordd Cymru botensial i adfywio, nid yn unig Glyn Ebwy, ond rhannau helaeth o ddeddwyrain Cymru. A allech amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet i ddod ag ariannu'r prosiect hwn i ben?
- 14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Well, a very constructive discussion and negotiation is continuing.
Wel, mae trafodaeth adeiladol iawn yn parhau.

14:02 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn gwybod a ydych chi'n ymwybodol, ond rhai munudau yn ôl, daeth yn amlwg bod Llywodraeth Prydain wedi dweud eu bod nhw'n cynnal adolygiad o lagwnau llanw ar draws y Deyrnas Gyfunol. Wrth ystyried y ffaith bod y posibiliad o lagwn yn y gogledd o dan ystyriaeth, heblaw am ddyfodol y lagwn ym mae Abertawe, a ydych chi'n rhannu â mi y siom o weld Llywodraeth Prydain yn troi eu cefnau ar ynni adnewyddol, sydd yn effeithio nid yn unig ar fuddsoddiad yma yng Nghymru ond ar swyddi ein pobl ni yng Nghymru?

I don't know whether you are aware, but some minutes ago, it became evident that the UK Government has stated that they will undertake a review of tidal lagoons across the whole of the UK. Considering the fact that there is a possibility of having a tidal lagoon in north Wales, notwithstanding the future of the Swansea lagoon, do you share with me the disappointment of seeing the UK Government turning their backs on renewable energy, which impacts not only on investment here in Wales but on jobs for our people in Wales?

14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Aled Roberts, you're quite right. We have noted the UK Government's decision to establish a UK energy review. It's not reporting until autumn, and we are disappointed that this initiative could potentially add a further delay to the Swansea tidal lagoon.

Aled Roberts, rydych yn hollol gywir. Rydym wedi nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i sefydlu adolygiad o ynni'r DU. Nid yw'n cyflwyno'i adroddiad tan yr hydref, ac rydym yn siomedig y gallai'r cynllun hwn olygu oedi pellach i'r morlyn llanw yn Abertawe o bosibl.

Portffolio Cyfoeth Naturiol

The Natural Resources Portfolio

14:03 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad ariannol i'r portffolio Cyfoeth Naturiol yng nghyllideb ddrafft 2016-17? OAQ(4)0668(FIN)

7. Will the Minister make a statement on the funding allocation to the Natural Resources portfolio in the 2016-17 draft budget? OAQ(4)0668(FIN)

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As set out in the draft budget, 'Fairer, Better Wales', the proposed budget for the natural resources portfolio next year stands at £367 million.

Fel y nodir yn y gyllideb ddrafft, 'Cymru Decach, Cymru Well', y gyllideb arfaethedig ar gyfer y portffolio cyfoeth naturiol y flwyddyn nesaf yw £367 miliwn.

14:03 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, during a recent environment committee budget scrutiny session I asked the Minister what assessment had been made of the level of EU-sourced funds dedicated both to flood alleviation but also to coastal management schemes, and he's kindly undertaken to report back to committee on that shortly. Given the growing threat of a potential Brexit later this year, what contingency plans does the Welsh Government have in place to actually supply the funding necessary to continue with this valuable work, should we make that disastrous decision?

Weinidog, yn ystod sesiwn graffu ar gyllideb y pwyllgor amgylchedd yn ddiweddar, gofynnais i'r Gweinidog pa asesiad a wnaed o lefel cronfeydd yr UE a bennwyd ar gyfer lliniaru llifogydd ond hefyd ar gyfer cynlluniau rheoli'r arfordir, ac yn garedig iawn, mae wedi addo adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hynny cyn bo hir. O ystyried y byggythiad cynyddol o Brydain yn gadael yr UE yn ddiweddarach eleni, pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle i gyflenwi'r cyllid angenrheidiol i barhau gyda'r gwaith gwerthfawr hwn, pe baem yn gwneud y penderfyniad trychinebus hwnnw?

14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I think it's worth, again, repeating the fact—and this is for the record, in terms of the importance of the European Union—that since 2011, we've committed almost £300 million, including European funding, to managing flood risk and an additional £150 million, which we're investing into the future. It's quite clear that this shows how Wales benefits significantly from being part of the EU. Of course, we have always maintained, as you know, as the Welsh Government, that a UK exit would be bad for the economy, the Labour market and the environment in Wales.

Wel, rwy'n credu ei bod yn werth ailadrodd y ffaith unwaith eto—ac mae hyn ar gyfer y cofnod, o ran pwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd—ers 2011, rydym wedi ymrwymo bron i £300 miliwn, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, i reoli perygl llifogydd, a £150 miliwn ychwanegol a fuddsoddir gennym at y dyfodol. Mae'n gwbl glir fod hyn yn dangos sut y mae Cymru yn elwa'n sylweddol o fod yn rhan o'r UE. Wrth gwrs, rydym bob amser wedi dweud fel Llywodraeth Cymru, fel y gwyddoch, y byddai i'r DU adael yn ddrwg i'r economi, y farchnad Lafur a'r amgylchedd yng Nghymru.

14:04 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I was pleased to hear that Conway county's bid for assistance from the flood recovery fund has been successful. Conway county are keen to continue preparation of flood prevention plans, but to proceed with this, they need the Natural Resources Wales reports to be completed to inform this work. Minister, can you ensure that NRW will have the budget available to them to complete this important work, and, Minister, can you offer a guarantee today, Minister, that further funds will be made available from this Welsh Government's reserves to support this important and urgent work?

Weinidog, roeddwn yn falch o glywed bod cais sir Conwy am gymorth o'r gronfa adfer wedi'r llifogydd wedi bod yn llwyddiannus. Mae sir Conwy yn awyddus i barhau i barato cynlluniau atal llifogydd, ond er mwyn bwrw ymlaen â hyn, maent angen i adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu cwblhau i lywio'r gwaith hwn. Weinidog, a allwch sicrhau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael y gyllideb i gwblhau'r gwaith pwysig hwn, ac a allwch warantu heddiw, Weinidog, y rhyddheir arian pellach o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith pwysig hwn sydd ei daer angen?

14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I think, Janet Haworth, that perhaps I could just assure you—and I thought you would have understood this—that once a bid has been accepted, then the money will come.

Wel, rwy'n credu, Janet Haworth, efallai y gallaf eich sicrhau—ac roeddwn yn meddwl y byddech wedi deall hyn—pan fydd cais wedi'i dderbyn, yna bydd yr arian yn dod.

14:05 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu gostyngiad sylweddol yn ei chyllideb unwaith eto eleni, er gwaethaf yr heriau amlwg gan lifogydd a newid hinsawdd. Wrth benderfynu ar eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, a wnaed asesiad o oblygiadau'r costau ychwanegol sydd wedi'u hadnabod oherwydd deddfwriaeth newydd: Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru)?

Natural Resources Wales is facing a significant cut in its budget once again this year, despite the obvious challenges posed by climate change and flooding. Now, in deciding upon your budget for next year, was any assessment made of the additional cost implications that have been identified because of new legislation: the Planning (Wales) Act 2015, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Environment (Wales) Bill?

14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, just looking at the budget for Natural Resources Wales, for the main expenditure group, the Minister's whole portfolio, if you look at revenue and capital together, is going to be £9 million higher than the 2015-16 baseline of £357 million. It's clear that we have cushioned the impact of revenue reductions with a capital increase—which is key and very important, just in terms of infrastructure investment, as we've just been talking about, in terms of flood prevention—of £26 million, which is a 41 per cent uplift. And let's just look at things that we are supporting with Natural Resources Wales: £3 million for the St Asaph flood-risk management scheme to reduce risk along the River Elwy and protect over 400 properties; £5 million for the coastal risk-management programme for preparatory work; £8 million for Warm Homes; and £10 million for 'Green Growth Wales: Local Energy'—and that's going to increase and accelerate projects to deliver green investment in Wales. So, of course, this is all in support of natural resources, and Natural Resources Wales is involved in implementing those new developments.

Wel, gan edrych ar y gyllideb ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer y prif grŵp gwariant, bydd portffolio cyfan y Gweinidog, os edrychwch ar refeniw a chyfalaf gyda'i gilydd, £9 miliwn yn uwch na llinell sylfaen 2015-16 o £357 miliwn. Mae'n amlwg ein bod wedi lleddfu effaith gostyngiadau refeniw â chynnydd cyfalaf—sy'n allweddol ac yn bwysig iawn, o ran buddsoddi mewn seilwaith, fel rydym newydd ei drafod, o ran atal llifogydd—o £26 miliwn, sy'n gynydd o 41 y cant. A gadewch i ni edrych ar bethau rydym yn eu cefnogi gyda Cyfoeth Naturiol Cymru: £3 miliwn i gynllun rheoli perygl llifogydd Llanellwy i leihau'r risg ar hyd Afon Elwy a diogelu dros 400 o eiddo; £5 miliwn ar gyfer y rhaglen rheoli perygl arfordiroedd ar gyfer gwaith paratoadol; £8 miliwn ar gyfer Cartrefi Clyd; a £10 miliwn ar gyfer 'Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol'—ac mae hwnnw'n mynd i gynyddu a chyflymu prosiectau i ddarparu buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Felly, wrth gwrs, mae hyn i gyd yn cefnogi adnoddau naturiol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â'r gwaith o weithredu'r datblygiadau newydd hynny.

Portffolio Addysg a Sgiliau

The Education and Skills Portfolio

14:07 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Addysg a Sgiliau? OAQ(4)0662(FIN)

8. What priorities were considered by the Welsh Government when allocating funding to the Education and Skills portfolio? OAQ(4)0662(FIN)

- 14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Our spending plans reflect our priority of raising standards and continuing the new momentum in Welsh education.
- Mae ein cynlluniau gwariant yn adlewyrchu ein blaenoriaeth i godi safonau a pharhau â'r momentwm newydd mewn addysg yng Nghymru.
- 14:07 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response, and I welcomed very much the written announcement today that £85 million in funding is being allocated to education and training programmes for healthcare professionals—and I think that includes nurses, physiotherapists and clinical scientists and a number of other people. Does the Minister agree that it's very important that we do have this increase in numbers, in order that we can cope with the needs of some of the very frail, elderly people who we now have to care for in the hospitals, and that the 10 per cent increase in nurses will be very welcome?
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw, ac roeddwn yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad ysgrifenedig heddiw fod £85 miliwn mewn cyllid yn cael ei ddyrannu i raglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol—a chredaf ei fod yn cynnwys nyrsys, ffisiotherapyddion a gwyddonwyr clinigol a nifer o bobl eraill. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn i ni gael y cynnydd hwn yn y niferoedd, er mwyn i ni allu ymdopi ag anghenion rhai o'r henoed bregus iawn y mae'n rhaid i ni ofalu amdanynt yn awr yn yr ystybai, a bod y cynnydd o 10 y cant yn nifer y nyrsys i'w groesawu'n fawr?
- 14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question because the £85 million package that was announced today by the Minister for Health and Social Services will support that range, as Julie Morgan has said, of education and training programmes for healthcare professionals—including nurses, physiotherapists and radiographers—in a range of health science training opportunities.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw gan y bydd y pecyn £85 miliwn a gyhoeddwyd heddiw gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi'r amrediad hwnnw, fel y mae Julie Morgan wedi'i ddweud, o raglenni addysgu a hyfforddi ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol—gan gynnwys nyrsys, ffisiotherapyddion a radiograffwyr—mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi yn y gwyddorau iechyd.
- 14:08 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, over the next five to 10 years, there are going to be seismic changes in education, such as the curriculum review. In order for those changes to be successful, there will need to be significant resources put in place—not just people, but funds. What I'd like to know is: when are you planning to start accruing funds within the portfolio to support those changes as they come through, and what order of magnitude do you think those funds will need to be?
- Weinidog, yn ystod y pump i 10 mlynedd nesaf, bydd newidiadau seismig mewn addysg, megis yr adolygiad o'r cwricwlwm. Er mwyn i'r newidiadau hynny fod yn llwyddiannus, bydd angen rhoi adnoddau sylweddol ar waith—nid pobl yn unig, ond arian. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw pa bryd rydych chi'n bwriadu dechrau cronni arian o fewn y portffolio i gefnogi'r newidiadau hynny wrth iddynt gael eu cyflwyno, a pha mor fawr y credwch y bydd angen i'r cronfeydd hynny fod?
- 14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, throughout the term of this Government, we've protected school funding by 1 per cent above the overall change to the Wales departmental expenditure limit, and this uplift will continue in 2016-17, with an extra £39.7 million in front-line funding for schools to help pupils in Wales to achieve their maximum potential.
- Wel, drwy gydol tymor y Llywodraeth hon, rydym wedi diogelu cyllid ysgolion 1 y cant yn uwch na'r newid cyffredinol i derfyn gwariant adrannol Cymru, a bydd y cynnydd hwn yn parhau yn 2016-17, gyda £39.7 yn ychwanegol i gyllid rheng flaen ar gyfer ysgolion i helpu disgyblion yng Nghymru i gyflawni eu potensial llawn.
- 14:09 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome the fact that there was a reversal yesterday in the budget of the proposed cut to higher education in Wales. Obviously, you've had evidence in the budget consultation process about the impact of that cut, and the need for the Welsh Government to close that gap. However, at least £20 million of the money that you're not now cutting was dedicated to the tuition fee policy, which is a demand-led policy, and you have no control over that demand. Could you confirm, therefore, for the Assembly, where the money has come from in other portfolios that you've clearly had to add in now to the education and skills portfolio to close that cut that you announced yesterday?
- Weinidog, rwy'n croesawu'r newid cyfeiriad a welwyd ddoe yn y gyllideb o ran y toriad arfaethedig i addysg uwch yng Nghymru. Yn amlwg, fe gawsoch dystiolaeth yn ystod y broses ymgynghori ar y gyllideb ynghylch effaith y toriad, a'r angen i Lywodraeth Cymru gau'r bwlch hwnnw. Fodd bynnag, roedd o leiaf £20 miliwn o'r arian nad ydych bellach yn ei dorri wedi'i bennu ar gyfer y polisi ffioedd dysgu, sy'n bolisi a arweinir gan alw, ac nid oes gennych unrhyw reolaeth dros y galw hwnnw. A allwch gadarnhau, felly, ar gyfer y Cynulliad, o ble y daeth yr arian mewn portffolios eraill rydych yn amlwg wedi gorfod ei ychwanegu yn awr at y portffolio addysg a sgiliau i gau'r toriad a gyhoeddwyd gennych ddoe?

14:10	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	The money came from reserves.	Daeth yr arian o gronfeydd wrth gefn.	Senedd.tv Fideo Video
Pwerau Caffael		Procurement Powers		
14:10	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	<i>9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd a gynigir gan y pwerau caffael newydd arfaethedig? OAQ(4)0666(FIN)</i>	<i>9. Will the Minister provide an update on the opportunities provided by the impending new procurement powers? OAQ(4)0666(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:10	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	The first area for regulation will be community benefits, helping to boost the economy through creating jobs and tackling poverty, and work is in hand to identify how regulation will drive adoption of Wales's procurement policy.	Y maes cyntaf ar gyfer rheoleiddio fydd manteision cymunedol, gan helpu i roi hwb i'r economi drwy greu swyddi a threchu tlodi, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi sut y bydd rheoleiddio yn ysgogi'r broses o fabwysiadu polisi caffael Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:10	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	I thank you very much for that, Minister. You've rightly put a big emphasis on how these powers can deliver community benefits. That is something that the cross-party construction group has focused on as well, as you, indeed, are aware of, having taken part in the process. But the Wales TUC has also done good work around how public spending projects can support local jobs. Can I ask you, Minister, when we move forward with those powers, whether you'll bring updates to the Chamber?	Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Rydych yn briodol wedi rhoi pwyslais mawr ar sut y gall y pwerau hyn sicrhau manteision cymunedol. Dyna rywbeth y mae'r grŵp adeiladu trawsbleidiol wedi canolbwyntio arno hefyd, fel y gwyrddoch ar ôl cymryd rhan yn y broses. Ond mae TUC Cymru hefyd wedi gwneud gwaith da ar sut y gall prosiectau gwariant cyhoeddus gefnogi swyddi lleol. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, pan fyddwn yn symud ymlaen gyda'r pwerau hynny, a fyddwch yn rhoi diweddariadau gerbron y Siambr?	Senedd.tv Fideo Video
14:11	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	I've answered a question earlier on this afternoon on the point about our new powers. You will have welcomed the fact that we now have that designation Order that I negotiated with the UK Government. We have new regulating powers, and the first area that we're developing in terms of regulation is community benefits. So, just in terms of our Better Jobs, Closer to Home project, which of course was championed by the Wales TUC, I already have a working group that's been set up, and it's already identifying suitable contracts, for example, to be delivered by employment hubs. There's an options appraisal of those hubs, and we're looking at those new regulatory powers, again, and how we can develop a definition of 'disadvantaged worker' so as to maximise the benefit realised from this project.	Rwyf wedi ateb cwestiwn yn gynharach y prynhawn yma ar y pwynt ynglŷn â'n pwerau newydd. Byddwch wedi croesawu'r ffaith fod gennym bellach y gorchymyn dynodi a negodais gyda Llywodraeth y DU. Mae gennym bwerau rheoleiddio newydd, a'r maes cyntaf rydym yn ei ddatblygu o ran rheoleiddio yw manteision cymunedol. Felly, o ran ein prosiect Swyddi Gwell, yn Nes at Adref, a gafodd ei hyrwyddo gan TUC Cymru, mae gennyf weithgor eisoes wedi'i sefydlu, ac mae eisoes yn nodi contractau addas, er enghraifft, i gael eu cyflwyno gan ganolbwyntiau pwysig i gyflogaeth. Ceir arfarniad opsiynau o'r canolbwyntiau hynny, ac rydym yn edrych ar y pwerau rheoleiddio newydd hynny, unwaith eto, a sut y gallwn ddatblygu diffiniad o 'weithiwr dan anfantais' er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf o'r prosiect hwn.	Senedd.tv Fideo Video
14:12	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Minister, can I echo the earlier comments in a question of Bethan Jenkins that the news over the last few weeks has been dominated by the contraction of the steel industry, particularly in Port Talbot? How do you intend to make sure that the new procurement powers are used to ensure that more Welsh steel is used in public sector construction projects in Wales, and, more generally, how do you envisage the new powers being used to support home-grown manufacturing in general?	Weinidog, a gaf fi adleisio'r sylwadau cynharach mewn cwestiwn gan Bethan Jenkins fod y newyddion yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn llawn o'r crebachu yn y diwydiant dur, yn enwedig ym Mhort Talbot? Sut rydych yn bwriadu sicrhau bod y pwerau caffael newydd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod mwy o ddur Cymru yn cael ei ddefnyddio mewn prosiectau adeiladu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn fwy cyffredinol, sut rydych yn rhagweld y defnyddir y pwerau newydd i gefnogi gweithgynhyrchu yn y wlad hon yn gyffredinol?	Senedd.tv Fideo Video

14:12	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I have answered those questions quite fully this afternoon. Again, there's the steel taskforce that has a procurement pipeline and procurement working group, and also the work that we're doing with the UK Government in terms of their steel procurement taskforce, and the Welsh Government playing a leading role in terms of adopting these policies.</p>	<p>Wel, rwyf wedi ateb y cwestiynau hynny yn eithaf llawn y prynhawn yma. Unwaith eto, mae yna dasglu dur sydd â phiblinell gaffael a gweithgor caffael, a hefyd y gwaith rydym yn ei wneud gyda Llywodraeth y DU o ran eu tasglu caffael dur, a Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan flaenllaw yn mabwysiadu'r polisiau hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol'</p>		<p>'Fairer, Better Wales—Investing for the Future'</p>	
14:13	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amcanion 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol'? OAQ(4)0663(FIN)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on the objectives of 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future'? OAQ(4)0663(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future' provides the foundations for ensuring the economic, social, environmental and cultural wellbeing for our own and future generations in Wales.</p>	<p>Wel, mae 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol' yn darparu'r sylfeini ar gyfer sicrhau lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>I'm grateful to the Minister for her answer. Could she outline how that mirrors or replicates invest-to-save, which equally is a successful policy?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. A allai amlinellu sut y mae hynny'n adlewyrchu neu'n atgynhyrchu buddsoddi i arbed, sy'n bolisi yr un mor llwyddiannus?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I'm grateful that William Graham, the Member, recognises the importance and the impact of invest-to-save. With invest-to-save, of course, in terms of every pound invested, £3 is returned. Invest-to-save is, of course, about innovation, but it's also about energy efficiency, it's about collaboration, and it's about recycling of funding in an innovative way.</p>	<p>Wel, rwy'n ddiolchgar fod William Graham, yr Aelod, yn cydnabod pwysigrwydd ac effaith buddsoddi i arbed. Gyda buddsoddi i arbed, wrth gwrs, am bob punt a fuddsoddir, dychwelir £3. Mae buddsoddi i arbed, wrth gwrs, yn ymwneud ag arloesi, ond mae hefyd yn ymwneud â defnyddio ynni'n effeithlon, mae'n ymwneud â chydweithredu, ac mae'n ymwneud ag ailgylchu cyllid mewn ffordd arloesol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Rhaglenni Cyfalaf</p>		<p>Capital Projects</p>	
14:14	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni cyfalaf yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0664(FIN)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on capital projects in west Wales? OAQ(4)0664(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:14	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>The Wales infrastructure investment plan pipeline provides details of our current and planned capital projects across all parts of Wales, including west Wales, and I published an updated pipeline last week.</p>	<p>Mae piblinell y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn darparu manylion am ein prosiectau cyfalaf presennol ac arfaethedig ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys gorllewin Cymru, a chyhoeddais biblinell wedi'i diweddarau yr wythnos diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:14 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I would be interested to understand how your department looks at lost opportunity costs, and what evaluation is made of them when you're looking at capital projects. So, for example, the A40 is a capital project that's had delay after delay. I know it is now coming downstream, but, nonetheless, over the last five years, there have been significant lost opportunity costs on that particular project. So, what evaluation do you make of it, and how do you monitor these lost opportunities?

Weinidog, byddai gennyf ddiddordeb mewn deall sut y mae eich adran yn edrych ar gostau cyfleoedd a gollwyd, a pha werthusiad a wneir ohonynt pan fyddwch yn edrych ar brosiectau cyfalaf. Felly, er enghraifft, mae'r A40 yn brosiect cyfalaf lle y cafwyd oedi ar ôl oedi. Rwy'n gwybod ei fod bellach yn cael ei roi ar waith, ond serch hynny, dros y pum mlynedd diwethaf, bu costau cyfleoedd a gollwyd sylweddol ar y prosiect penodol hwnnw. Felly, pa werthusiad rydych yn ei wneud ohono, a sut rydych yn monitro'r cyfleoedd a gollwyd?

14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, we have seven investment priorities for the Wales infrastructure investment plan, but faced with a 30 per cent cut to our capital programme by the UK Government, of course then we have to ensure that we're funding the priorities in terms of the infrastructure investment plan.

Wel, mae gennym saith blaenoriaeth fuddsoddi ar gyfer y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ond yn wyneb toriad o 30 y cant i'n rhaglen gyfalaf gan Lywodraeth y DU, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn ariannu'r blaenoriaethau mewn perthynas â'r cynllun buddsoddi yn y seilwaith.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

2. Questions to the Minister for Public Services

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. Question 1 is Andrew R.T. Davies.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Daw cwestiwn 1 gan Andrew R.T. Davies.

Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Armed Forces Veterans

14:15 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog? OAQ(4)0673(PS)

1. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for Armed Forces veterans? OAQ(4)0673(PS)

14:15 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Llywydd, we are committed to supporting both serving members and ex-members of the armed forces in Wales. Our package of support sets out how the Welsh Government supports armed forces veterans in Wales.

Llywydd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a chyn-aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru. Mae ein pecyn cymorth yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru.

14:15

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that answer. I recently visited Change Step in Cardiff, which is a veterans-led organisation that offers to give support in the community to veterans who experience, in particular, mental health issues. One of the examples of the work that was led there was how this is a veterans-led organisation, so there is an understanding of the complex issues that many people present when looking for support. But, the armed forces in their make-up are very diverse today. In particular, many young female recruits are now entering the armed forces. What assessment have you made, Minister, of the support the Welsh Government is able to provide to work with armed forces charities to make sure that support represents the diversity of veterans who are leaving the armed forces and meets the needs of that diverse group of individuals?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn ddiweddar, ymwelais â Newid Cam yng Nghaerdydd, sef sefydliad a arweinir gan gyn-filwyr sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i gyn-filwyr sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn benodol. Roedd un enghraifft o'r gwaith a wnaed yno yn dangos sut y mae'n sefydliad a arweinir gan gyn-filwyr, felly ceir dealltwriaeth o'r materion cymhleth sydd gan lawer o bobl wrth chwilio am gymorth. Ond mae'r lluoedd arfog o ran eu gwedd yn amrywiol iawn heddiw. Yn benodol, mae llawer o recriwtiaid benywaidd ifanc yn mynd i mewn i'r lluoedd arfog bellach. Pa asesiad rydych wedi'i wneud, Weinidog, o'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn gallu ei darparu i weithio gydag elusennau'r lluoedd arfog i wneud yn siŵr fod y cymorth yn cynrychioli amrywiaeth y cyn-filwyr sy'n gadael y lluoedd arfog ac yn bodloni anghenion y grŵp amrywiol hwn o unigolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is right to stress the value of veterans-led charities and third sector organisations. There are many of them, of course, and indeed organisations such as the Royal British Legion have veterans at their head in Wales. It's important that we, within the package of support, are able to reflect the diverse needs of the armed forces community and he's right to raise that. I'm certainly happy that, as we carry forward our review of the armed forces package for Wales, we refresh it with a view to ensuring that all groups who leave the armed forces are served well by it.

Mae'r Aelod yn iawn i bwysleisio gwerth elusennau a arweinir gan gyn-filwyr a sefydliadau trydydd sector. Ceir llawer ohonynt, wrth gwrs, ac yn wir mae gan sefydliadau fel y Lleng Brydeinig Frenhinol gyn-filwyr yn eu harwain yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod ni, o fewn y pecyn cymorth, yn gallu adlewyrchu anghenion amrywiol cymuned y lluoedd arfog ac mae'n gywir i nodi hynny. Rwy'n sicr yn hapus, wrth i ni fwrw ymlaen â'n hadolygiad o'r pecyn ar gyfer lluoedd arfog Cymru, ein bod yn ei adnewyddu gyda golwg ar sicrhau bod pob grŵp sy'n gadael y lluoedd arfog yn cael eu gwasanaethu'n dda ganddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Ministry of Defence is clearly aware of the date when military personnel end their service to their country. But, I don't think it's right that the Welsh Government should pick up many of the tabs, as clearly they are doing. What pressure can you bring, as Minister, to ensure that there is better liaison between the DWP, local authorities and health authorities to, at the very least, ensure that people have access to decent homes, jobs and health services?

Weinidog, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn amlwg yn ymwybodol o'r dyddiad y bydd gwasanaeth personél milwrol i'w gwlad yn dod i ben. Ond nid wyf yn credu ei bod yn iawn mai Llywodraeth Cymru sy'n gorfod talu llawer o'r biliau, fel y maent yn amlwg yn ei wneud. Pa bwysau y gallwch ei roi fel Gweinidog i sicrhau bod cyswllt gwell rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd i sicrhau, fan lleiaf, fod pobl yn cael cartrefi, swyddi a gwasanaethau iechyd gweddus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me start by saying I think there's very good liaison between the Welsh Government and the armed forces. The First Minister and I met the chief of general staff this morning and we discussed a number of issues related to this agenda. I think the armed forces are very pleased with the successes that we've been able to make in Wales in terms of our investment in our armed forces package, but also the way in which we engage with them and with many other different agencies through the armed forces expert group, which I chair. That brings together both devolved and non-devolved services on a regular basis. The Ministry of Defence, I think, is aware, for example, of our success in Wales in promoting the defence privilege card and the way in which we collaborated with them in the advertising of that card to boost its take-up here in Wales. I think there may be issues in respect of data sharing. Increasingly, those kind of data sharing challenges are being overcome. Obviously, if there are specific issues that the Member is aware of, I invite him to write to me about them.

Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud fy mod yn credu bod cyswllt da iawn rhwng Llywodraeth Cymru a'r lluoedd arfog. Cyfarfu'r Prif Weinidog a minnau â phennaeth y staff cyffredinol y bore yma a thrafodasom nifer o faterion yn ymwneud â'r agenda hon. Rwy'n credu bod y lluoedd arfog yn falch iawn o'r llwyddiannau y gallasom eu sicrhau yng Nghymru o ran ein buddsoddiad yn ein pecyn ar gyfer y lluoedd arfog, ond hefyd y modd rydym yn ymgysylltu â hwy a llawer o wahanol asiantaethau eraill drwy'r grŵp arbenigol ar y lluoedd arfog dan fy nghadeiryddiaeth i. Mae hynny'n dwyn ynghyd y gwasanaethau datganoledig a'r gwasanaethau heb eu datganoli yn rheolaidd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn, rwy'n meddwl, yn ymwybodol, er enghraifft, o'n llwyddiant yng Nghymru o ran hyrwyddo'r cerdyn braint amddiffyn a'r ffordd y cydweithiasom â hwy wrth hysbysebu'r cerdyn i roi hwb i'r defnydd ohono yma yng Nghymru. Rwy'n credu y gall fod materion yn codi mewn perthynas â rhannu data. Yn gynyddol, mae'r mathau hynny o heriau sy'n ymwneud â rhannu data yn cael eu goresgyn. Yn amlwg, os oes materion penodol y mae'r Aelod yn ymwybodol ohonynt, rwy'n ei wahodd i ysgrifennu ataf yn eu cylch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Glyndŵr University in Wrexham has recently embarked upon a two-year research project to explore the specific difficulties experienced by ex-servicewomen and ex-servicemen in the transition back to civilian life. Given that much of the evidence around those difficulties is currently anecdotal, I feel that this research could be of significant benefits. Are you prepared to consider the findings when they become available forming part of the refresh that you referred to in an earlier answer?

Weinidog, yn ddiweddar mae Prifysgol Glyndŵr yn Wrecsam wedi cychwyn ar brosiect ymchwil dwy flynedd i archwilio'r anawsterau penodol a brofir gan gyn-filwyr wrth newid yn ôl i fywyd sifil. O ystyried bod llawer o'r dystiolaeth ynghylch yr anawsterau hynny yn anecdotaidd ar hyn o bryd, rwy'n teimlo y gallai'r gwaith ymchwil hwn fod o fantais sylweddol. A ydych yn barod i ystyried y canfyddiadau pan gânt eu cyhoeddi i ffurfio rhan o'r ailwampio y cyfeirioch chi ato mewn ateb cynharach?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very happy to do so. I think that quite a lot of work has been done, actually, on a more-than-anecdotal basis, let me say, by third sector organisations and by statutory organisations. There's been some excellent work undertaken, for example, within the prison service, within the national offender management service, in addition to our own devolved services. But, certainly, I'd be very happy to look at any evidence that is brought forward by that academic review.

Rwy'n hapus iawn i wneud hynny. Credaf fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud, mewn gwirionedd, ar sail fwy nag anecdotaidd, gadewch i mi ddweud, gan sefydliadau trydydd sector a chan sefydliadau statudol. Gwnaed gwaith ardderchog, er enghraifft, yn y gwasanaeth carchardai, yn y gwasanaeth cenedlaethol rheoli troseddwy, yn ogystal â'n gwasanaethau datganoledig ein hunain. Ond yn sicr, byddwn yn hapus iawn i edrych ar unrhyw dystiolaeth y mae'r adolygiad academaidd hwnnw yn ei gyflwyno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Trais Domestig

Domestic Abuse

14:19

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gefnogaeth i ddiodefnywyr trais domestig yng Nghymru? OAQ(4)0663(PS)

2. What plans does the Welsh Government have to increase support for victims of domestic abuse in Wales? OAQ(4)0663(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar drais domestig? OAQ(4)0677(PS) [W]

5. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's strategy for domestic violence? OAQ(4)0677(PS)[W]

14:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lywydd, I understand that you've given your permission for questions 2 and 5 to be grouped. The implementation of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 will improve prevention, support and protection for victims of domestic abuse in Wales. The draft budget proposes an increase in the budget for this area of work.

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i grwpio cwestiynau 2 a 5 gyda'i gilydd. Bydd gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gwella gwaith atal, cynorthwyo a diogelu i ddiodefwr cam-drin domestig yng Nghymru. Mae'r gyllideb ddrafft yn argymhell cynnydd yn y gyllideb ar gyfer y maes gwaith hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that reply, Minister. Refuges provide a vital package of support for women and children living in fear of domestic abuse or violence. Welsh Women's Aid has expressed concern that such life-saving services do not have sustainable funding to protect and support the most vulnerable women and children in Wales. Will the Minister commit to sufficiently funding women's refuges and providing them with a sustainable funding model?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae llochesi yn darparu pecyn cymorth hanfodol i fenywod a phlant sy'n byw mewn ofn o gam-drin neu drais domestig. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi mynegi pryder nad oes gan wasanaethau o'r fath sy'n achub bywydau gyllid cynaliadwy i ddiogelu a chynorthwyo'r menywod a'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i roi cyllid digonol i lochesau menywod a darparu model cyllido cynaliadwy iddynt?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this was an item that was discussed in the violence against women expert group last week, and Welsh Women's Aid were present. There are some issues around the sustainability of some refuge services. Of course, funding for those comes from a variety of sources, including local government, but also from other Welsh Government budgets, such as those held by my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty. I think what is important is that we move to a sustainable basis for the future and also a basis that reflects the entirety of need across Wales. I think that some of the services that have developed have not necessarily developed on the most planned basis possible, and that's why we're engaged in mapping the availability of services across Wales at the present time.

Wel, roedd hon yn eitem a drafodwyd yn y grŵp arbenigol ar drais yn erbyn menywod yr wythnos diwethaf, ac roedd Cymorth i Fenywod Cymru yn bresennol. Ceir rhai problemau ynglŷn â chynaliadwyedd rhai gwasanaethau lloches. Wrth gwrs, daw cyllid ar eu cyfer o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llywodraeth leol, ond hefyd o gyllidebau eraill Llywodraeth Cymru, fel y rhai a ddelir gan fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig yw ein bod yn symud tuag at sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a sail sydd hefyd yn adlewyrchu'r holl anghenion ledled Cymru. Nid wyf yn credu bod rhai o'r gwasanaethau sydd wedi datblygu wedi gwneud hynny o reidrwydd ar y sail fwyaf cynlluniedig posibl, a dyna pam ein bod wrthi'n mapio argeledd gwasanaethau ledled Cymru ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gerbron y Pwyllgor Cyllid, fe ddywedodd Cymorth i Ferched fod 250 o ferched wedi cael eu gwrthod o lochesi yng Nghymru y llynedd oherwydd diffyg capasiti, ac fe fynegon nhw hefyd bryder bod yr arian y maen nhw'n ei dderbyn yn lleol er mwyn cynnal y llochesi yna yn cael ei dorri, yn cael ei gwtogi, ar gyfer y flwyddyn nesaf oherwydd y pwysau sydd ar lywodraeth leol, am un peth. Rydych newydd gyfeirio at y ffaith bod angen creu trefn sy'n gynaliadwy i'r dyfodol. Wel, sut fath o drefn fydd honno os ydy'r darlun ar y llawr yn golygu y gallai rhai llochesi gau, yn ôl tystiolaeth Cymorth i Ferched?

In the Finance Committee, Women's Aid said that 250 women had been rejected from refuges in Wales last year because of a lack of capacity, and they expressed concern that the funding that they receive locally in order to maintain these refuges is being cut for next year because of the pressures on local government, for one thing. You've just referred to the fact that we need to create a system that is sustainable for the future. Well, what sort of system could that be if the picture on the ground shows that some refuges could close, according to the evidence of Women's Aid?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:22 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, we discussed this with Welsh Women's Aid last week, and let me say that I made it clear to third sector organisations that their budgets would be maintained for the next financial year. The issue, I think, is one worthy of wider consideration, however, because I do think that the provision across Wales does not necessarily meet need, and I think there are areas of Wales where those services are not currently available. That's why we want to look at this more systematically, and certainly we will be gathering evidence to support that systematic look with the assistance of my ministerial adviser—sorry, with the assistance of the national adviser on violence against women.

Fel y dywedais, trafodwyd hyn gyda Cymorth i Fenywod Cymru yr wythnos diwethaf, a gadewch i mi ddweud fy mod wedi dweud yn glir wrth sefydliadau trydydd sector y byddai eu cyllidebau'n cael eu cynnal ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r mater, rwy'n meddwl, yn un sy'n haeddu ystyriaeth ehangach, fodd bynnag, gan fy mod yn credu nad yw'r ddarpariaeth ledled Cymru o reidrwydd yn diwallu'r angen, ac rwy'n meddwl bod yna ardaloedd yng Nghymru lle nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael ar hyn o bryd. Dyna pam ein bod yn awyddus i edrych ar hyn yn fwy systematig, ac yn sicr, byddwn yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r olwg systematig honno gyda chymorth fy nghyngorydd gweinidogol—mae'n ddrwg gennyf, gyda chymorth y cyngorydd cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, responding to domestic abuse is an important area of work for the police service in Wales, in partnership with other statutory and voluntary organisations. Regrettably, the Tory UK Government has slashed funding for the police over the last five years, as well as for public services generally. Do you agree with me, Minister, that whilst we in Wales will do our very best to support this vital work, victims of domestic abuse in Wales are not helped by the Tory UK Government's continued austerity programme?

Weinidog, mae ymateb i gam-drin domestig yn faes gwaith pwysig i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru, mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill. Yn anffodus, mae Llywodraeth Doriaidd y DU wedi torri cyllid ar gyfer yr heddlu dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. A ydych yn cytuno, Weinidog, er y byddwn ni yng Nghymru yn gwneud ein gorau glas i gefnogi'r gwaith hanfodol hwn, nad yw rhaglen galedi barhaus Llywodraeth Doriaidd y DU yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Caerphilly is absolutely right to point to the cuts in spending on police that have been undertaken by the UK Government. He may be present later—I think the Police Federation has an event in the Senedd this evening, and no doubt we will hear further from them about some of the challenges that the police service is facing. I'm pleased that, as a Government, we have invested in the programme of police community support officers, so that there are 500 more police community support officers in Wales than would otherwise have been the case. We've been investing in supporting our police while the UK Government has been cutting the funding to them.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gaerffili, yn hollol iawn i dynnu sylw at doriadau Llywodraeth y DU i wariant yr heddlu. Efallai y bydd yn bresennol yn nes ymlaen—credaf fod Ffederasiwn yr Heddlu yn cynnal digwyddiad yn y Senedd heno, ac mae'n siŵr y byddwn yn clywed ymhellach ganddynt am rai o'r heriau y mae'r gwasanaeth heddlu yn eu hwynebu. Rwy'n falch ein bod, fel Llywodraeth, wedi buddsoddi yn rhaglen swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, fel bod 500 yn rhagor o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru nag y byddai fel arall. Rydym wedi bod yn buddsoddi i gefnogi ein heddlu er bod Llywodraeth y DU wedi bod yn torri'r cyllid sydd ar gael iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, preventing young women and men falling into manipulative and unhealthy relationships is surely key to making sure that we can reduce the harm that domestic violence does in our society. I wonder what progress has been made since the completion of the violence against women Act towards developing a curriculum and support materials for teachers, so that they can take forward this agenda within their personal and social education lessons.

Weinidog, mae atal menywod a dynion ifanc rhag mynd i berthynas ystrywgar ac afiach yn sicr yn allweddol i wneud yn siŵr y gallwn leihau'r niwed y mae trais domestig yn ei wneud yn ein cymdeithas. Tybed pa gynnydd a wnaed ers cwblhau'r Ddeddf trais yn erbyn menywod tuag at ddatblygu cwricwlwm a deunyddiau cymorth i athrawon, fel y gallant fwrw ymlaen â'r agenda hon yn eu gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, indeed. We held an event in the autumn, at which I spoke and the Minister for Education and Skills spoke. It was a very well-attended event held, if I remember rightly, in the SSE SWALEC stadium. We had representatives of a wide variety of organisations who work with young people, as well as people from within the education service. There were many teachers there who take an active interest in this area, and I thought the discussions on that day were very valuable and will inform our work going forward.</p>	<p>Ie, yn wir. Cynaliasom ddigwyddiad yn yr hydref, lle bûm yn siarad, a lle siaradodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Roedd llawer iawn o bobl yn bresennol yn y digwyddiad a gynhaliwyd, os cofiaf yn iawn, yn stadiwm SSE SWALEC. Roedd cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yno, yn ogystal â phobl o'r gwasanaeth addysg. Roedd yno lawer o athrawon sy'n cymryd diddordeb gweithredol yn y maes hwn, a chredaf fod y trafodaethau ar y diwrnod hwnnw yn werthfawr iawn a byddant yn llywio ein gwaith yn y dyfodol.</p>
	Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau	Questions Without Notice from Party Spokespeople
14:25	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.</p>
14:25	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Presiding Officer. Minister, I hope, like me, that you are delighted by the news of the mayor for Cardiff campaign—a move that could see our first democratically and directly elected mayor here in Wales. This, of course, would bring forward full democratic participation, true community engagement and absolute democratic accountability. I am personally pleased about such an initiative going forward, and it comes with cross-party support, and I wish them all the best with this campaign. Do you?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, rwy'n gobeithio eich bod, fel finnau, yn falch iawn o glywed y newyddion ynglŷn â'r ymgyrch dros gael maer i Gaerdydd—cam a allai arwain at gael ein maer cyntaf a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd ac yn uniongyrchol yma yng Nghymru. Byddai hyn, wrth gwrs, yn sicrhau cyfranogiad democrataidd llawn, gwir ymgysylltiad cymunedol ac atebolrwydd democrataidd llwyr. Yn bersonol, rwy'n falch o weld menter o'r fath yn cael ei chyflwyno, a chaiff ei chefnogi'n drawsbleidiol, ac rwy'n dymuno'r gorau iddynt gyda'r ymgyrch hon. A ydych chi?</p>
14:26	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I'm very interested; I wasn't aware that the Welsh Conservatives now wanted to see elected mayors in the place of all local authorities. That may come as news to some of their serving councillors, I suspect. Let me say that there is a campaign, I understand, in Cardiff. They have a threshold to reach before they can take forward their plans. We'll wait and see if they reach that threshold.</p>	<p>Wel, mae genyf ddiddordeb mawr; nid oeddwn yn ymwybodol fod y Ceidwadwyr Cymreig bellach yn awyddus i weld meiri etholedig yn lle'r holl awdurdodau lleol. Rwy'n tybio efallai y bydd hynny'n newyddion i rai o'u cyngorwyr presennol. Gadewch i mi ddweud bod yna ymgyrch, rwy'n deall, yng Nghaerdydd. Mae ganddynt drothwy i'w gyrraedd cyn y gallant fwrw ymlaen â'u cynlluniau. Fe arhoswn i weld a fyddant yn cyrraedd y trothwy hwnnw.</p>
14:26	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. [Interruption.]</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. [Torri ar draws.]</p>
14:26	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order, order.</p>	<p>Trefn, trefn.</p>

- 14:26 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Now, of course, following the Localism Act 2011, referendums were held in 10 English cities for directly elected mayors. There are now 17 such mayors in England, with more on the way in greater Manchester, Liverpool city region, Sheffield city region, the north-east of England, Tees valley and the west midlands. Clearly, there is popular support for such an accountable and democratic representative. It's vital that the residents of Cardiff have their say on whether they will have such a representative, yet the campaign here in Wales has to gain 10 per cent as opposed to 5 per cent over the border. Minister, as part of your local government reform, will you address this to ensure that our people do have that choice and that freedom? And considering local government reform is in such chaos at the moment, isn't this a good initiative for you to get behind?
- 14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Conservatives, of course, control one local authority in Wales. I assume, therefore, that they will be bringing forward proposals for a mayor of Monmouthshire in due course. Perhaps we will look to see those. I wasn't aware that they were planning to replace Councillor Peter Fox in that way.
- 14:27 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, moving on, Minister, Welsh Conservatives have advocated the freezing of council tax, particularly so for the three years where adequate funding came across from the UK Government. Plaid Cymru and Labour-led Conwy County Borough Council are now proposing to move towards a four-weekly bin collection, the first in Wales, whilst at the same time proposing yet another 5 per cent council tax increase. Minister, are you proud of the legacy under Welsh Labour that our residents pay more and get less?
- 14:28 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Residents in Wales pay, on average, £157 a year less in council tax than residents in England. In England, this next financial year will see cuts to council budgets of double the cuts that councils in Wales are having to undergo, even if you take into account the bung that was given to the Conservative-led south-east of England councils yesterday by the UK Conservative Government. And what do we see in England as well? They've tried to bribe councils into holding council tax freezes, but 50 per cent of them, including dozens of English Conservative councils, will not implement that council tax freeze policy.
- 14:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Oh, maybe they've learnt from this Government then.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.
- Nawr, wrth gwrs, yn dilyn Deddf Lleoliaeth 2011, cynhaliwyd refferenda mewn 10 dinas yn Lloegr ar feiri a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Erbyn hyn, ceir 17 o feiri o'r fath yn Lloegr, gyda mwy ar y ffordd ym Manceinion Fwyaf, dinas-ranbarth Lerpwl, dinas-ranbarth Sheffield, gogledd-ddwyrain Lloegr, Tees Valley a gorllewin canolbarth Lloegr. Yn amlwg, ceir cefnogaeth boblogaidd i gynrychiolydd atebol a democrataidd o'r fath. Mae'n hanfodol fod trigolion Caerdydd yn cael dweud eu barn ynglŷn ag a fydd ganddynt gynrychiolydd o'r fath, ac eto mae'n rhaid i'r ymgyrch yma yng Nghymru ennill 10 y cant o'i gymharu â 5 y cant dros y ffin. Weinidog, fel rhan o'ch gwaith ar ddiwygio llywodraeth leol, a fyddwch yn mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod y dewis hwnnw a'r rhyddid hwnnw gan ein pobl? Ac o ystyried bod cymaint o anhrefn ynghlwm wrth ddiwygio llywodraeth leol ar hyn o bryd, onid yw hon yn fenter dda i chi ei chefnogi?
- Wel, mae'r Ceidwadwyr, wrth gwrs, yn rheoli un awdurdod lleol yng Nghymru. Rwy'n tybio, felly, y byddant yn cyflwyno cynigion ar gyfer maer Sir Fynwy yn y man. Efallai y gallwn edrych ar y rheini. Nid oeddwn yn ymwybodol eu bod yn bwriadu disodli'r Cynghorydd Peter Fox yn y ffordd honno.
- Wel, gan symud ymlaen, Weinidog, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi argymhell rhewi'r dreth gyngor, yn enwedig felly am y tair blynedd pan ddaeth cyllid digonol oddi wrth Lywodraeth y DU. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o dan arweiniad Plaid Cymru a Llafur bellach yn argymhell newid i gasgliadau bin bob pedair wythnos, y cyntaf yng Nghymru, ac ar yr un pryd yn argymhell cynnydd arall o 5 y cant yn y dreth gyngor. Weinidog, a ydych yn falch o'r etifeddiaeth o dan Lafur Cymru sy'n peri bod ein trigolion yn talu mwy a chael llai?
- Mae preswylwyr Cymru yn talu, ar gyfartaledd, £157 y flwyddyn yn llai o dreth gyngor na phreswylwyr Lloegr. Bydd toriadau i gyllidebau cynghorau yn Lloegr yn y flwyddyn ariannol nesaf yn ddwbl y toriadau y mae cynghorau yng Nghymru yn gorfod eu hwynebu, hyd yn oed os ystyriwch y cildwrn a roddwyd i gynghorau de-ddwyrain Lloegr a arweinir gan y Ceidwadwyr ddoe gan Lywodraeth Geidwadol y DU. A beth rydym yn ei weld yn Lloegr hefyd? Maent wedi ceisio llwgrwobrwyo cynghorau i rew'i'r dreth gyngor, ond ni fydd 50 y cant ohonynt, gan gynnwys dwsinau o gynghorau Ceidwadol Lloegr, yn gweithredu'r polisi hwnnw i rew'i'r dreth gyngor.
- O, efallai eu bod wedi dysgu gan y Llywodraeth hon, felly.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:29

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, further to the question that Alun Ffred Jones asked in terms of domestic abuse, I'm not sure if you're familiar with the evidence that Welsh Women's Aid gave to the Finance Committee at the beginning of January regarding this issue. They told the committee that they know of 284 women who were turned away from refuges in Wales last year because there was no space, and 161 women in Wales couldn't be accommodated in refuges for the same reason. Minister, given that a lot of these services are commissioned by local government as opposed to the Welsh Government, can I ask how your review is going to be addressing those particular issues?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, i ddilyn y cwestiwn a ofynnodd Alun Ffred Jones mewn perthynas â cham-drin domestig, nid wyf yn siŵr a ydych yn gyfarwydd â'r dystiolaeth a roddodd Cymorth i Fenywod Cymru gerbron y Pwyllgor Cyllid ar ddechrau mis Ionawr ynglŷn â'r mater hwn. Dywedasant wrth y pwyllgor eu bod yn gwybod am 284 o fenywod a gafodd eu troi ymaith o lochesau yng Nghymru y llynedd gan nad oedd lle, a 161 o fenywod yng Nghymru na allai gael llety mewn llochesau am yr un rheswm. Weinidog, o ystyried bod llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu gan lywodraeth leol yn hytrach na Llywodraeth Cymru, a gaf fi ofyn sut y bydd eich adolygiad yn mynd i'r afael â'r materion penodol hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the point has already been made by the Member for Arfon, in an earlier question. And, as I said to him, we've discussed these issues in the violence against women expert group just last week, with Welsh Women's Aid. I want the national adviser for violence against women to look at these issues with the third sector organisations. I think it's fair to say that refuges have not grown up on a planned basis across Wales, and the distribution of them is variable. It's important we move to better planning of those resources, and that's what we're engaged with at the present time.

Credaf fod y pwynt wedi'i wneud eisoes gan yr Aelod dros Arfon, mewn cwestiwn cynharach. Ac fel y dywedais wrtho, rydym wedi trafod y materion hyn yn y grŵp arbenigol ar drais yn erbyn menywod yr wythnos diwethaf, gyda Cymorth i Fenywod Cymru. Rwyf am i'r cynghorydd cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod edrych ar y materion hyn gyda'r sefydliadau trydydd sector. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud nad yw llochesau wedi datblygu ar sail gynlluniedig ledled Cymru, ac mae'r dosbarthiad ohonynt yn amrywio. Mae'n bwysig ein bod yn newid i gynllunio'r adnoddau hynny'n well, a dyna rydym wrthi'n ei wneud ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you for that answer, Minister. That's very helpful. I think that part of the problem is the way these services are commissioned. I'm interested in your approach to this through your national adviser. Are you suggesting that, in future, you're looking at a centrally commissioned process around Wales, or are you looking to work with local government and the third sector and health services to try to rationalise the services they provide?

Wel, diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Rwy'n meddwl mai rhan o'r broblem yw'r ffordd y comisiynir y gwasanaethau hyn. Mae gennyf ddiddordeb yn eich dull o weithredu hyn drwy eich cynghorydd cenedlaethol. A ydych yn awgrymu, yn y dyfodol, eich bod yn edrych ar broses a gomisiynir yn ganolog ledled Cymru, neu a ydych yn ystyried gweithio gyda llywodraeth leol a'r trydydd sector a gwasanaethau iechyd er mwyn ceisio rhesymoli'r gwasanaethau y maent yn eu darparu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We're certainly looking, in due course, to move to a more of a regional commissioning model, and work is already under way in that regard in Gwent, for example. That will involve engagement, let me say, between ourselves, local government, the health service, and third sector organisations. We will seek to move out more of a regional commissioning model across Wales, probably more towards the beginning of the 2017-18 financial year, looking at the experience that we have from what has been undertaken in Gwent.

Rydym yn sicr yn gobeithio symud, maes o law, tuag at fodel comisiynu rhanbarthol, ac mae gwaith eisoes ar y gweill yn hynny o beth yng Ngwent, er enghraifft. Bydd hynny'n golygu ymgysylltu, gadewch i mi ddweud, rhyngom ni, llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, a sefydliadau trydydd sector. Byddwn yn ceisio cyflwyno model comisiynu mwy rhanbarthol ledled Cymru, tuag at ddechrau blwyddyn ariannol 2017-18 yn ôl pob tebyg, gan edrych ar y profiad sydd gennym o'r hyn a wnaed yng Ngwent.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That's very helpful. The other issue that Welsh Women's Aid raised with the committee was the inconsistency within Welsh Government itself. I mean, you obviously have oversight of this issue, but they referred to other departments in the Assembly to take account of these issues, such as economic development. I'm just wondering what cross-cutting work is going on within the Welsh Government to try to get a more coordinated approach to these issues of domestic violence in all departments.
- Mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Y mater arall a gododd Cymorth i Fenywod Cymru gyda'r pwyllgor oedd yr anghysondeb o fewn Llywodraeth Cymru ei hun. Hynny yw, mae'n amlwg eich bod yn goruchwyllo'r mater hwn, ond roeddent yn cyfeirio at adrannau eraill yn y Cynulliad i ystyried y materion hyn, megis datblygu economaidd. Rwy'n meddwl tybed pa waith trawsbynciol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i geisio cael dull mwy cydgysylltiedig o drin materion trais domestig ym mhob adran.
- 14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Act that we passed, obviously, lies on the entire Government, and there is a responsibility across the entire Government. The principal budgets for this do fall to myself and the Minister for Communities and Tackling Poverty, and, obviously, these are issues that we have discussed, including looking at the regional commissioning model between our departments. But there is regular dialogue between officials on these issues.
- Wel, mae'r Ddeddf a basiwyd gennym, yn amlwg, yn berthnasol i'r Llywodraeth gyfan, ac mae yna gyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth gyfan. Mae'r prif gyllidebau ar gyfer hyn yn dod i'r Gweinidog Cymunedau a Threchlu Tlodi a minnau, ac yn amlwg, mae'r rhain yn faterion rydym wedi'u trafod, gan gynnwys edrych ar y model comisiynu rhanbarthol rhwng ein hadrannau. Ond mae yna ddeialog reolaidd rhwng swyddogion ar y materion hyn.
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.
- 14:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd, ac rwy'n aros gyda thrais yn y cartref, Weinidog. Roeddech chi'n glir iawn yn ateb cwestiynau gynnu fach yn dweud nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu torri'r arian sy'n mynd i'r gwasanaethau hyn. Ond, wrth gwrs, mae llawer o gwestiynau wedi cael eu codi ynglŷn â thoriadau ar lefel leol. A ydych chi wedi cael, neu a ydych chi wedi ceisio, sicrhad gan awdurdodau lleol nad ydyn nhw'n bwriadu torri'r gwasanaethau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf?
- Thank you, Presiding Officer, and I'm staying with the issue of domestic violence, Minister. You were very clear in answering questions earlier, saying that the Welsh Government doesn't intend to cut the funding provided for these services. But, of course, a number of questions have been raised about cuts at a local level. Have you had, or have you sought, assurances from local authorities that they don't intend to make any cuts to these services during the next financial year?
- 14:32 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, we've been very clear to local government that these are important services. Obviously, I've protected—well, I've more than protected—the budget; in fact, we've added to the budget for the next financial year. As we move to a regional commissioning model, I think that will give us a better planning focus for the provision of services in the future. And, certainly, we are well aware of the issues that are being raised by Welsh Women's Aid, and, indeed, discussed them just last week.
- Rydym wedi dweud yn glir iawn wrth lywodraeth leol fod y rhain yn wasanaethau pwysig. Yn amlwg, rwyf wedi diogelu—wel, rwyf wedi mwy na diogelu—y gyllideb; mewn gwirionedd, rydym wedi ychwanegu at y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Wrth i ni symud tuag at fodel comisiynu rhanbarthol, rwy'n credu y bydd hwnnw'n rhoi gwell ffocws cynllunio i ni ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Ac yn sicr, rydym yn ymwybodol iawn o'r materion sy'n cael eu crybwyll gan Cymorth i Fenywod Cymru, ac yn wir, fe'u trafodasom yr wythnos diwethaf.

14:33

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb. Rydych chi eisoes wedi crybwyll y comisiynu rhanbarthol yma, ac, wrth ateb Peter Black, fe wnaethoch chi sôn yn benodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Ac, wrth gwrs, y pryd hynny hefyd, mae'r Ddeddf trais yn erbyn menywod yn dod i rym yn llawn o safbwynt y bwriad i gyflwyno canllawiau statudol ynglŷn â darparu gwasanaethau. A fedrwn chi gadarnhau, felly, ei bod yn fwiad gyda chi i fynd â'r canllawiau statudol law yn llaw â darparu'r gwasanaethau a'r arian fydd ar gael? Hynny yw, gallwn ni ddisgwyl gweld yr hyn rydych chi newydd ei grybwyll a'i amlinellu yn y Siambr yn dod i rym yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gyda chefnogaeth canllawiau statudol y tu ôl iddi hi.

Thank you for that response. You've already mentioned this regional commissioning, and, in response to Peter Black, you specifically spoke of the 2017-18 financial year, and that, of course, is when the violence against women Act will come into force in full in terms of the intention to introduce statutory guidance on the provision of services. Can you confirm, therefore, that it is your intention to take the statutory guidance along with the provision of services and the funding available? That's to say that we could expect to see what you've just outlined in the Chamber being put in place during that financial year, with the support of statutory guidance.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think the answer is, broadly, 'yes' to the question he's asked. Just to explain: clearly, we have the regional commissioning model already in operation in Gwent, and we're learning from that. I looked at the possibility of making this happen faster, but that would have meant a very difficult transition for all third sector organisations that are currently running some of those services, which would have had greater uncertainty for the next financial year, as it were. So, I think we've got to move to this on a phased basis, but I think there's no reason why, as we develop the guidance, that shouldn't also inform some of the funding judgments that we need to make.

Wel, rwy'n meddwl mai'r ateb yn fras i'r cwestiwn a ofynnodd yw 'gallaf'. I egluro: yn amlwg, mae'r model comisiynu rhanbarthol eisoes ar waith gennym yng Ngwent, ac rydym yn dysgu o hwnnw. Edrychais ar y posibilrwydd o wneud i hyn ddigwydd yn gyflymach, ond byddai hynny wedi golygu trawsnewid anodd iawn i'r holl sefydliadau trydydd sector sydd ar hyn o bryd yn darparu rhai o'r gwasanaethau hynny, a byddai hynny wedi golygu mwy o ansicrwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf, fel petai. Felly, rwy'n credu bod rhaid i ni symud hyn ymlaen fesul cam, ond nid wyf yn meddwl bod rheswm pam hefyd na ddylai hynny, wrth i ni ddatblygu'r canllawiau, lywio rhai o'r penderfyniadau cyllido y mae angen i ni eu gwneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you, Minister, and to move to something slightly different, as they say, you'll remember Michael Gove. [Laughter.] He and the Prime Minister have said something quite interesting, I think, around prison reform over the last few days, something that, perhaps, you might be interested, and I'm certainly interested, to see whether we can make use of here in Wales, because if we're going to move to a reforming prison system then some questions arise about the superprison in Wrexham and whether that's actually fit for purpose. But questions also arise about how we deal with women in our judicial system and young offenders, which I know you're particularly interested in and concerned about. What opportunity do you think you now have to re-engage with Michael Gove in developing a distinct Welsh approach to female and young offenders in Wales?

Wel, diolch i chi, Weinidog, ac i symud at rywbeth ychydig yn wahanol, fel y maent yn ei ddweud, fe fyddwch yn cofio Michael Gove. [Chwerthin.] Mae ef a'r Prif Weinidog wedi dweud rhywbeth eithaf diddorol, yn fy marn i, ynglŷn â diwygio carchardai yn ystod y dyddiau diwethaf, rhywbeth, efallai, y bydd gennych chi ddiddordeb, fel y mae gennyf i ddiddordeb yn sicr, mewn gweld a allwn wneud defnydd ohono yma yng Nghymru, oherwydd os ydym am symud tuag at system garchar sy'n diwygio yna mae rhai cwestiynau'n codi am y carchar mawr yn Wrecsam a pha un a yw hwnnw, mewn gwirionedd, yn addas i'r diben. Ond mae cwestiynau'n codi hefyd ynglŷn â'r ffordd rydym yn ymdrin â menywod yn ein system farnwrol a throseddwy'r ifanc, maes y gwn eich bod â diddordeb arbennig ynddo ac yn bryderus yn ei gylch. Pa gyfle a gewch yn awr i ailgysylltu â Michael Gove i ddatblygu ymagwedd Gymreig amlwg at droseddwy'r benywaidd a throseddwy'r ifanc yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, Michael Gove phoned me yesterday—[Laughter.]—to discuss the report that was published yesterday, the interim review on youth offending, and we had an initial conversation about some of the implications of that for Wales. That review, of course, raises the possibility that, as the review progresses, it will consider the devolution of budgets and commissioning to Wales. That is something, clearly, we would like to engage with and we will be taking forward.

Lywydd, ffoniodd Michael Gove fi ddoe—[Chwerthin.]—i drafod yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe, yr adolygiad interim ar droseddau ieuenctid, a chawsom sgwrs gychwynnol ynglŷn â rhai o oblygiadau hwnnw i Gymru. Mae'r adolygiad hwnnw, wrth gwrs, yn codi'r posibilrwydd, wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, y bydd yn ystyried datganoli cyllidebau a chomisiynu i Gymru. Dyna rywbeth, yn amlwg, y byddem yn hoffi ymwneud ag ef ac y byddwn yn ei ddatblygu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 3 [OAQ(4)0675(PS)] will not be asked this afternoon.	Ni ofynnir cwestiwn 3 [OAQ(4)0675(PS)] y prynhawn yma.	Senedd.tv Fideo Video
Cyllid Llywodraeth Leol		Local Government Funding	
14:36	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography <i>4. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am gyllid llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0678(PS)</i>	<i>4. Will the Minister make a statement on local government funding in Wales? OAQ(4)0678(PS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography The majority of the funding provided to local government by the Welsh Government is delivered through the revenue settlement. I announced the provisional settlement for 2016-17 on 9 December. The average reduction of 1.4 per cent was considerably better than was anticipated.	Mae mwyafrif y cyllid a ddarperir i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw. Cyhoeddais y setliad dros dro ar gyfer 2016-17 ar 9 Rhagfyr. Roedd y gostyngiad cyfartalog o 1.4 y cant yn sylweddol well nag a ragwelwyd.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography Thank you for that answer. Minister, will you agree with me that the improved settlement will give Welsh councils the opportunity to protect the vulnerable's access to services like social care and this is in direct contrast to the huge cuts in England?	Diolch am eich ateb. Weinidog, a ydych yn cytuno y bydd y setliad gwell yn rhoi'r cyfle i gynghorau Cymru ddiogelu mynediad y rhai sy'n agored i niwed at wasanaethau fel gofal cymdeithasol a bod hyn yn cyferbynnu'n llwyr â'r toriadau anferth yn Lloegr?	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Yes, indeed, and my colleague the Member for Islwyn is quite right to raise this question and I know that he will be working with his colleagues in Caerphilly to ensure that services that are provided, such as social care, are protected at a local level. We have protected the funding for local government in Wales over the course of this Assembly term. This means that local government in Wales has not been subject to the level of cuts experienced by councils in England.	Ydw, yn wir, ac mae fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Islwyn yn gywir i ofyn y cwestiwn hwn, a gwn y bydd yn gweithio gyda'i gydweithwyr yng Nghaerffili i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, megis gofal cymdeithasol, yn cael eu diogelu ar lefel leol. Rydym wedi diogelu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Golyga hyn nad yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi profi'r un lefel o doriadau â chynghorau Lloegr.	Senedd.tv Fideo Video
14:37	Russell George Bywgraffiad Biography Minister, the direction from the Welsh Government to local authorities is to protect social services and education budgets. Clearly, these are local authorities' largest budget areas. As a result of the large amount of savings that have to be made in other areas, and given the fact that a large amount of savings would have already been made from those areas, can I ask you how sustainable you think this is?	Weinidog, y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yw diogelu gwasanaethau cymdeithasol a chyllidebau addysg. Yn amlwg, dyma feysydd mwyaf awdurdodau lleol o ran cyllidebau. O ganlyniad i'r swm mawr o arbedion sy'n rhaid eu gwneud mewn meysydd eraill, ac o ystyried y ffaith y byddai llawer iawn o arbedion wedi'u gwneud eisoes yn y meysydd hynny, a gaf fi ofyn pa mor gynaliadwy yw hyn yn eich barn chi?	Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Llywydd, I'm disappointed that as the Member is a member of Powys County Council he didn't start by welcoming the additional money found by the finance Minister for his local authority. I think that would have been generous of him to have done so, but he didn't. We have made additional money available to that local authority. We've also made additional money available in respect, of course, across the piece, of social services, and we've honoured throughout the lifetime of this Assembly our commitment to ensure that local government benefits by additional school spending 1 per cent above the money we get from the UK Government for education.

Wel, Lywydd, rwy'n siomedig, gan fod yr Aelod yn aelod o Gyngor Sir Powys, na chychwynnodd drwy groesawu'r arian ychwanegol a ganfu'r Gweinidog cyllid ar gyfer ei awdurdod lleol. Credaf y byddai wedi bod yn hael iawn pe bai wedi gwneud hynny, ond ni wnaeth. Rydym wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw. Rydym hefyd wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael yn gyffredinol, wrth gwrs, o ran gwasanaethau cymdeithasol, a thrwy gydol oes y Cynulliad hwn rydym wedi anrhydeddu ein hymrwymiad i sicrhau bod llywodraeth leol yn elwa o wariant ychwanegol ar gyfer ysgolion sydd 1 y cant yn uwch na'r arian a gawn gan Lywodraeth y DU ar gyfer addysg.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 5 was grouped with question 2, so we now move to question 6, which is Keith Davies.

Gwrpiwyd cwestiwn 5 gyda chwestiwn 2, felly symudwn yn awr at gwestiwn 6, sef Keith Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Setliad Llywodraeth Leol 2016-17

The Local Government Settlement for 2016-17

14:38 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith setliad llywodraeth leol 2016-17 ar orllewin Cymru? OAQ(4)0666(PS)[W]

6. Will the Minister provide an update on the impact of the local government settlement for 2016-17 on public services in Wales? OAQ(4)0666(PS)[W]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fe wnes i gyhoeddi'r setliad dros dro ar gyfer 2016-17 ar 9 Rhagfyr. Y gostyngiad ar gyfartaledd oedd 1.4 y cant ac roedd hynny gryn dipyn yn well na'r disgwyl.

I announced the provisional settlement for 2016-17 on 9 December. The average reduction of 1.4 per cent was considerably better than was anticipated.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Hoffwn groesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Lywodraeth Lafur Cymru i ysgolion drwy ddarparu cynnydd o 1 y cant ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn sir Gâr mae'r weinyddiaeth sy'n cael ei harwain gan Plaid Cymru yn cynllunio ei chyllideb ddrafft i dorri cyllidebau ar gyfer ysgolion gan £3.6 miliwn mewn termau real. A ydych yn cytuno â mi bod Plaid Cymru yn gadael ein pobl ifanc i lawr yn sir Gâr?

Thank you, Minister. I'd like to welcome the commitment shown by the Welsh Labour Government to schools by providing an increase of 1 per cent for school budgets in the local government settlement in Wales. However, in Carmarthenshire, the administration led by Plaid Cymru is planning their draft budget to cut budgets for schools by £3.6 million in real terms. Do you agree with me that Plaid Cymru is letting our young people down in Carmarthenshire?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, can I say to my colleague the Member for Llanelli, obviously, the settlement that we have provided reflects our commitment to protect schools funding to ensure the delivery of the best outcomes for Welsh children? I'd be very disappointed if any local authority was not passing that money straight on to the schools in their area and I'm sure that if my colleague the Member for Llanelli thinks there are specific problems in Carmarthenshire he will want to draw them to the attention of the Minister for Education and Skills.

Wel, a gaf fi ddweud wrth fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Lanelli ei bod yn amlwg fod y setliad rydym wedi'i ddarparu yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant Cymru? Byddwn yn siomedig iawn os ceir unrhyw awdurdod lleol nad yw'n trosglwyddo'r arian hwnnw yn syth i'r ysgolion yn ei ardal, ac rwy'n sicr os yw fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Lanelli, yn meddwl bod problemau penodol yn Sir Gaerfyrddin, fe fydd yn dymuno tynnu sylw'r Gweinidog Addysg a Sgiliau atynt.

14:40

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, despite a favourable settlement and a rumoured council tax rise of around 5 per cent, Swansea council are considering cutting £400,000 from residential placements for children, £97,000 from libraries, and £90,000 from the Wales National Pool and National Waterfront Museum. This is the council, you remember, which failed to apply for a second tranche of discretionary housing payments, and returned almost £1 million as it was unable to spend it on reducing poverty. It's your Government's view that both appropriate care and contact with heritage and sport improve a child's life chances, so how do you ensure that local authorities, in making their savings choices, don't undermine your Government's policy objectives?

Weinidog, er gwaethaf setliad ffafriol a'r si ynglŷn â chynnydd o tua 5 y cant yn nhreth y cyngor, mae cyngor Abertawe yn ystyried toriadau o £400,000 i'r ddarpariaeth o leoliadau preswyl i blant, £97,000 i lyfrgelloedd a £90,000 i Bwll Cenedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Fe gofiwch mai dyma'r cyngor a fethodd â gwneud cais am ail gyfran o daliadau tai yn ôl disgrisiwn, a dychwelyd bron i £1 filiwn gan na allai ei wario ar leihau tlodi. Barn eich Llywodraeth chi yw bod gofal priodol a chyswllt â threftadaeth a chwaraeon yn gwella cyfleoedd bywyd plentyn, felly sut rydych chi'n sicrhau nad yw awdurdodau lleol, wrth wneud dewisiadau ynglŷn ag arbedion, yn tanseilio amcanion polisi eich Llywodraeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we don't dictate to local government as to how they spend the money they receive from the Welsh Government. We do not allocate hypothecated budgets. I think all local authorities are clear of their statutory responsibilities and of the expectations that this Welsh Government has of them. I would say that these are difficult times for all councils in Wales, whatever their political hue, and all councils are facing very difficult challenges because of the cuts imposed by the UK Conservative Government.

Wel, nid ydym yn dweud wrth lywodraeth leol sut i wario'r arian a gânt gan Lywodraeth Cymru. Nid ydym yn dyrannu cyllidebau wedi'u neilltuo. Credaf fod pob awdurdod lleol yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol ac ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt. Byddwn yn dweud ei bod yn gyfnod anodd ar bob cyngor yng Nghymru, o ba liw bynnag yn wleidyddol, a bod pob cyngor yn wynebu heriau anodd iawn oherwydd toriadau Lywodraeth Geidwadol y DU.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Bil Undebau Llafur

The Trade Union Bill

14:41

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wrthwynebiad Llywodraeth Cymru i Fil Undebau Llafur Llywodraeth y DU? OAQ(4)00668(PS)

7. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's opposition to the UK Government's Trade Union Bill? OAQ(4)00668(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wrote to the Minister, Nick Boles, following this Assembly's decision to withhold legislative consent. I've subsequently had a telephone conversation with him. The UK Government is clearly aware of the National Assembly's opposition to the Bill.

Ysgrifennais at y Gweinidog, Nick Boles, yn dilyn penderfyniad y Cynulliad hwn i wrthod cydsyniad deddfwriaethol. Rwyf wedi cael sgwrs dros y ffôn gydag ef ers hynny. Mae Llywodraeth y DU yn amlwg yn ymwybodol o wrthwynebiad y Cynulliad Cenedlaethol i'r Bil.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister, and, before I ask my question, I want to put on record my membership of Unite the Union, and my former role as a University and College Union lay officer for the trade union. Following yesterday's questions to the First Minister on this matter, it's clear that the Tory Ministers and Government lawyers in the UK Government are at odds with one another regarding the impact of the Bill here in Wales. Minister, I'm sure you agree with me that the role of trade unions is critical in ensuring that employees are supported and protected from challenges to their rights and safe working, amongst many other things. This is clearly an ideological attack on trade unions by the Tories to ensure that those positions are weakened. Will you continue to remind UK Tories that, in fact, this does not apply here in Wales, and that this Assembly has made a strong statement where we oppose the imposition of a trade union Bill on our public sector workers?

Diolch am eich ateb, Weinidog, a chyn i mi ofyn fy nghwestiwn, hoffwn gofnodi fy mod yn aelod o Unite the Union, a fy rôl flaenorol fel swyddog lleyg Undeb Prifysgolion a Cholegau i'r undeb llafur. Yn dilyn y cwestiynau ddoe i'r Prif Weinidog ar y mater hwn, mae'n amlwg fod Gweinidogion Toriaidd a chyfreithwyr Llywodraeth y DU yn anghytuno â'i gilydd ynglŷn ag effaith y Bil yma yng Nghymru. Weinidog, rwy'n sicrhau bod yn cytuno bod rôl undebau llafur yn hanfodol o ran sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi a'u diogelu rhag heriau i'w hawliau a'u gallu i weithio'n ddiogel, ymhlith llawer o bethau eraill. Mae'n amlwg mai ymosodiad ideolegol ar undebau llafur gan y Toriaid yw hyn er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau hynny'n cael eu gwanhau. A fyddwch yn parhau i atgoffa Toriaid y DU nad yw hyn, mewn gwirionedd, yn gymwys yma yng Nghymru, a bod y Cynulliad hwn wedi gwneud datganiad cryf yn gwrthwynebu gosod Bil undebau llafur ar ein gweithwyr sector cyhoeddus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Aberavon is absolutely right to put this question in those terms. I think, as we are now clear, the UK Government has legal advice on this Bill that makes it clear that it has a very weak case to legislate in respect of public services in Wales. The First Minister, of course, explained our position on this just yesterday. I know that amendments are being pursued in the House of Lords to raise the concerns of the Welsh Government, and they will no doubt be raised subsequently, and I will be giving evidence to the House of Lords committee tomorrow on this matter. But let me make it clear: if the UK Government does go ahead and try to legislate in respect of Wales, we will work on a Welsh Bill, in the next Assembly, to legislate quickly to rescind the key provisions of the Trade Union Bill as they affect Wales.

Mae fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Aberafan yn hollol gywir i ofyn ei gwestiwn yn y ffordd honno. Fel y gwyddom erbyn hyn, credaf fod Llywodraeth y DU wedi cael cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r Bil hwn sy'n ei gwneud yn glir mai achos gwan iawn sydd ganddi i ddeddfu mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth gwrs, eglurodd y Prif Weinidog ein safbwynt ar hyn ddoe. Gwn fod rhai yn ceisio gwneud newidiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi er mwyn mynegi pryderon Llywodraeth Cymru, ac mae'n siŵr y cânt eu trafod wedi hynny, a byddaf yn rhoi tystiolaeth yfory i bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar y mater hwn. Ond gadewch i mi fod yn glir: os aiff Llywodraeth y DU yn ei blaen a cheisio deddfu mewn perthynas â Chymru, byddwn yn gweithio ar Fil Cymru, yn y Cynulliad nesaf, i ddeddfu'n gyflym i ddiddymu darpariaethau allweddol y Bil Undebau Llafur fel yr effeithiant ar Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would the Minister not agree with me that this Bill is, in fact, a wonderful measure in enshrining the individual rights of trade union members in agreeing or not agreeing to have a strike? It is the first time that this legislation actually proposes that, where every member's vote counts, and, if the Minister is so concerned about the provisions of this Bill, perhaps it might become an amendment to the current Wales Bill.

Oni fyddai'r Gweinidog yn cytuno â mi fod y Bil hwn, mewn gwirionedd, yn fesur gwyb i ddiogelu hawliau unigol aelodau undebau llafur o ran cytuno neu beidio â chytuno i gael streic? Dyma'r tro cyntaf i'r ddeddfwriaeth hon gynnig hynny, lle y mae pleidlais pob aelod yn cyfrif, ac os yw'r Gweinidog yn pryderu cymaint am ddarpariaethau'r Bil hwn, efallai y gallai ddod yn welliant i'r Bil Cymru cyfredol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think you have to ask what problem the Bill is trying to solve. Where are the junior doctors on strike today? In England, not in Wales. We do not have an issue on public sector strikes here in Wales. This is not, to use the Member's phrase 'a wonderful measure'. Indeed, even UK Government lawyers clearly don't think it's a wonderful measure, because they are very clear that they're on very weak ground when it comes to Wales.

Credaf fod yn rhaid i chi ofyn pa broblem y mae'r Bil yn ceisio'i datrys. Ble mae'r meddygon iau ar streic heddiw? Yn Lloegr, nid yng Nghymru. Nid oes gennym broblem ynghylch streiciau yn y sector cyhoeddus yma yng Nghymru. Nid yw hwn, i ddefnyddio geiriau'r Aelod, yn 'fesur gwyb'. Yn wir, mae'n amlwg nad yw cyfreithwyr Llywodraeth y DU, hyd yn oed, yn credu ei fod yn fesur gwyb, gan eu bod dweud yn glir iawn eu bod ar dir gwan iawn mewn perthynas â Chymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Roeddwn i eisiau dechrau lle roeddech chi wedi gorffen, Weinidog, achos mae un elfen o'r llythyr hwnnw yn dweud bod angen tynnu yn ôl ymhellach yng Nghymru a'r Alban yn sgil barn y Llywodraethau hynny, a barn y Senedd yma. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael yn hynny o beth, a pha drafodaethau rydych chi wedi'u cael gydag undebau llafur, sydd yn dweud nad yw'r confensiynau yn y llythyr penodol hynny yn mynd yn ddigon pell?</p>	<p>I wanted to start where you left off, Minister, because one element of that letter states that there needs to be further withdrawal in Wales and Scotland in terms of the views of the Governments there and the Parliament here. So, what discussions have you had in that regard, and what discussions have you had with trade unions that say that the conventions in that letter don't go far enough?</p>
14:45	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, as I said in my earlier answer, I spoke to the relevant UK Minister on Friday. I have had regular meetings with the trade unions and met with the Wales TUC and their legal adviser in the last fortnight, certainly. I've had other meetings with trade unions and I've had discussions with other representatives in Westminster who take a dim view of the Trade Union Bill's provisions. We are very clear in our opposition to that Bill, and we will sustain that opposition and, if necessary, reverse the provisions of the Trade Union Bill, should it be passed by Westminster in its current form.</p>	<p>Wel, fel y dywedais yn fy ateb cynharach, bûm yn siarad â Gweinidog perthnasol y DU ddydd Gwener. Rwyf wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau llafur ac wedi cyfarfod gyda TUC Cymru a'u cynghorydd cyfreithiol yn ystod y pythefnos diwethaf, yn sicr. Rwyf wedi cael cyfarfodydd eraill gydag undebau llafur ac rwyf wedi cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr eraill yn San Steffan sy'n feirniadol o ddarpariaethau'r Bil Undebau Llafur. Rydym yn glir iawn yn ein gwrthwynebiad i'r Bil, a byddwn yn parhau â'r gwrthwynebiad hwnnw, ac yn gwrthdroi darpariaethau'r Bil Undebau Llafur os oes angen, pe bai'n cael ei basio gan San Steffan yn ei ffurf bresennol.</p>
	Dyfodol y Gwasanaethau Tân	The Future of the Fire Services
14:45	Ann Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y gwasanaethau tân yng Nghymru? OAQ(4)0664(PS)</p>	<p>8. Will the Minister make a statement on the future of fire services in Wales? OAQ(4)0664(PS)</p>
14:45	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I'm committed to maintaining the fire and rescue service's proud record of keeping people and communities safe.</p>	<p>Rwyf wedi ymrwymo i gynnal record wych y gwasanaeth tân ac achub o ddiogelu pobl a chymunedau.</p>
14:45	Ann Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much for that answer, Minister. Can I seek assurances from you on behalf of the fire services in Wales that you will not allow police and crime commissioners to take over the running of the fire services here in Wales?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. A gaf fi holi am sicrwydd gennych ar ran y gwasanaeth tân yng Nghymru na fyddwch yn caniatáu i'r comisiynwyr heddlu a throseddu gymryd yr awenau o ran y gwaith o redeg y gwasanaethau tân yma yng Nghymru?</p>
14:46	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I can absolutely confirm that we will not be allowing the police and crime commissioners to run fire services in Wales. The UK Government's proposals would imperil the fire services' arson reduction and community engagement work, they would subject a devolved public service to non-devolved control and would yield no financial savings. They have nothing to commend them at all and they will not happen here.</p>	<p>Gallaf gadarnhau na fyddwn yn caniatáu i'r comisiynwyr heddlu a throseddu redeg y gwasanaethau tân yng Nghymru. Byddai cynigion Llywodraeth y DU yn peryglu gallu'r gwasanaethau tân i atal tanau bwriadol ac i ymgysylltu â'r gymuned, byddent yn darostwng gwasanaeth cyhoeddus datganoledig i reolaeth corff heb ei ddatganoli ac ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion ariannol. Nid oes unrhyw beth i'w ganmol am y cynigion ac ni fyddant yn digwydd yma.</p>

14:46

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the 2016-17 budget, the combined line for fire and rescue services has fallen by 8.8 per cent over the two separate budget lines for fire and rescue resilience and fire and rescue framework. If you marry that with the council tax harmonisation project, which could take local authorities up to nine years to implement and which would also have consequential impacts on fire and rescue authorities, fire services will come under immense pressure. What, Minister, will you do to ensure that fire services such as mid and west Wales are not further jeopardised by these reductions and people's lives put at risk?

Yng nghyllideb 2016-17, mae'r llinell wariant gyfunol ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub wedi disgyn 8.8 y cant dros y ddwy linell wariant ar wahân yn y gyllideb ar gyfer cadernid gwasanaethau tân ac achub a'r fframwaith tân ac achub. Os cyfunwch hynny gyda'r prosiect i gysoni'r dreth gyngor, a allai gymryd hyd at naw mlynedd i awdurdodau lleol ei weithredu ac a fyddai hefyd yn cael effeithiau canlyniadol ar awdurdodau tân ac achub, byddai gwasanaethau tân o dan bwysau aruthrol. Beth a wnewch, Weinidog, i sicrhau na fydd gwasanaethau tân megis canolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu peryglu ymhellach gan y gostyngiadau hyn gan roi bywydau pobl mewn perygl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we've been able to provide, in the last financial year, mid and west Wales with additional funding, for example, to buy a drone. So, we've been very receptive to requests for further assistance from fire and rescue authorities. I think it's important that she looks carefully at the budget, because I was scrutinised on this in the Communities, Equality and Local Government Committee and I had to explain some of the changes that have been made. We are confident that the fire and rescue authorities are well resourced. We are pleased with their success in reducing the number of fires over recent years, and they have a very active engagement with the community safety agenda, which we welcome.

Wel, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi gallu darparu rhagor o arian i ganolbarth a gorllewin Cymru, er enghraifft, i brynu drôn. Felly, rydym wedi bod yn barod iawn i dderbyn ceisiadau am gymorth pellach gan awdurdodau tân ac achub. Credaf ei bod yn bwysig iddi edrych yn ofalus ar y gyllideb, oherwydd bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn craffu ar fy ngwaith ar hyn a bu'n rhaid i mi esbonio rhai o'r newidiadau a wnaed. Rydym yn hyderus fod yr awdurdodau tân ac achub yn cael digon o adnoddau. Rydym yn falch o'u llwyddiant yn lleihau'r nifer o danau dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn ymgysylltu'n weithgar iawn â'r agenda diogelwch cymunedol, ac rydym yn croesawu hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mi gefais i gyfarfod ardderchog efo swyddogion tân yng Nghaerdybi yn ddiweddar. Maen nhw'n griw cwbl ymroddedig i'w gwaith nhw, ond mae'n bryder ganddyn nhw, fel finnau, fod problem recriwtio swyddogion tân wrth gefn, neu 'retained', yn creu problemau gwirioneddol i ddarparu cyfar tân mewn ardaloedd gwledig fel Ynys Môn. A ydy'r Gweinidog yn cytuno, felly, fod angen i ymgyrchoedd recriwtio ganolbwyntio'n wirioneddol ar y lleol a phwysleisio bod swyddogion tân 'retained' yn darparu gwasanaeth hanfodol i'w cymunedau nhw?

I had an excellent meeting with fire officers in Holyhead recently. They are entirely committed to their work, but it is a cause of concern for them, as it is for me, that the recruitment problem in terms of retained firefighters does create very real problems in terms of providing cover in rural areas such as Ynys Môn. Does the Minister therefore agree that recruitment exercises need to concentrate on the truly local and emphasise that retained firefighters do provide a crucial service for their own communities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I endorse what the Member has said in respect of the important role played by retained firefighters in stations such as Holyhead, but let me say that there has been an all-Wales recruitment exercise by the fire and rescue authorities combined over recent months, and they've had a very high level of applicants for that. In fact, it's well exceeded the number of vacancies that were available. So, I'm confident that the recruitment that is being undertaken by the fire and rescue service is delivering what is necessary.

Atefag yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud o ran y rôl bwysig sydd gan ddiffoddwyr tân wrth gefn mewn gorsafoedd megis Caerdybi, ond gadewch i mi ddweud bod yr awdurdodau tân ac achub wedi cyfuno i gynnal ymarfer recriwtio ledled Cymru dros y misoedd diwethaf, a chawsant lawer iawn o ymgeiswyr mewn perthynas â hynny. Yn wir, mae'r lefel yn llawer uwch na nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Felly, rwy'n hyderus fod y recriwtio sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth tân ac achub yn cyflawni'r hyn sydd ei angen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, mae ymgynghoriad awdurdod tân y gogledd yn ei gwneud hi'n glir, heblaw am y broses recriwtio rydych chi newydd gyfeirio ati, mai, erbyn hyn, dim ond naw brigad dân, neu beiriant, yn y gogledd sy'n cael ei staffio gan weithwyr llawn amser. Maen nhw'n dweud, o achos hynny, eu bod nhw'n symud oddi wrth y model o gael dynion tân wrth gefn i sefyllfa lle maen nhw'n edrych ar ddynion tân sydd ar gytundeb llawn ond sydd yn rhan amser. A ydy hynny, felly, yn batrwm y bydd yn rhaid ei ystyried ar draws Cymru wrth gofio, wrth gwrs, fod y broblem yma efo dynion tân wrth gefn, mae'n ymddangos yn yr ymgynghoriad, yn un sy'n cynyddu?</p>	<p>Minister, the consultation by north Wales fire authority makes it clear, apart from the recruitment process that you've just alluded to, that, by now, only nine fire brigades, or engines, within north Wales are staffed by full-time officers. Because of that, they say that they're moving away from the retained fire officer model to a situation where they look at contracted fire officers. They would be on a full contract but on a part time basis. Is that a pattern that will have to be considered across the whole of Wales, bearing in mind that it appears from the consultation that this problem with retained firefighters is one that is on the increase?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I think these decisions overall are matters for the fire and rescue authorities. So, in respect of north Wales, North Wales Fire and Rescue Authority needs to make the right decisions to support the staffing of the stations within its own region. I think, as I've said, there has been a recruitment exercise undertaken by the three fire and rescue authorities in Wales, and that has clearly been very well supported and they've had a very high number of applicants for that recruitment exercise.</p>	<p>Wel, credaf mai materion i'r awdurdodau tân ac achub yw'r penderfyniadau hyn ar y cyfan. Felly, o ran gogledd Cymru, mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud y penderfyniadau cywir i gefnogi'r broses o staffio'r gorsafoedd yn ei ranbarth ei hun. Fel y dywedais, credaf fod y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi cynnal ymarfer recriwtio, ac mae hynny'n amlwg wedi cael cefnogaeth dda iawn ac maent wedi cael nifer uchel iawn o ymgeiswyr ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Diogelwch Cymunedol</p>		<p>Community Safety</p>	
14:50	<p>Altaf Hussain Bywgraffiad Biography</p> <p><i>9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0669(PS)</i></p>	<p><i>9. What actions is the Welsh Government taking to improve community safety in Wales? OAQ(4)0669(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>As part of our work on community safety, we have provided funding for an additional 500 community support officers in Wales.</p>	<p>Fel rhan o'n gwaith ar ddiogelwch cymunedol, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Altaf Hussain Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, unless we have fully integrated communities, community safety and community cohesion is at risk. Part and parcel of a truly integrated community is respect for the laws of the United Kingdom and respect for those who police those laws. What action is the Welsh Government taking to promote respect for the police across all communities in Wales?</p>	<p>Weinidog, oni bai fod gennym gymunedau hollol integredig, mae diogelwch cymunedol a chydlyniant cymunedol mewn perygl. Mae parch at gyfreithiau'r Deyrnas Unedig a pharch at y rhai sy'n plismona'r cyfreithiau hynny yn rhan annatod o gymuned wirioneddol integredig. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo parch tuag at yr heddlu ar draws holl gymunedau Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>Hear, hear. Good question.</p>	<p>Clywch, clywch. Cwestiwn da.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:51 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's an important question. We do, obviously, work very closely with the police and I think they themselves are engaged in a wide range of community cohesion activities. I think, for example, just to illustrate, in recent months, along with the Minister for Education and Skills and the Minister for Communities and Tackling Poverty, we've been looking at issues around countering extremism; we've been looking at addressing issues such as Islamophobia in Wales. These are issues on which we've also had regular discussions with the police forces in Wales. I think they are very sensitive to those issues in how they are taken forward across all communities in Wales, recognising that we want to reflect the diversity of our communities in Wales, but we also want to ensure we do have community cohesion. The police are very active as well, let me say, in targeting those right-wing extremists who would do serious damage to the diversity of our communities in Wales.

Mae'n gwestiwn pwysig. Yn amlwg, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r heddlu a chredaf eu bod hwy eu hunain yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau cydlyniant cymunedol. I ddangos hynny, rwy'n credu, yn y misoedd diwethaf, er enghraifft, gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rydym wedi bod yn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag atal eithafiaeth; rydym wedi bod yn edrych ar fynd i'r afael â materion fel Islamoffobia yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r heddluoedd yng Nghymru ar y materion hyn. Credaf eu bod yn sensitif iawn i'r materion hynny o ran y modd y cânt eu datblygu yn holl gymunedau Cymru, gan gydnabod ein bod yn dymuno adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru, ond ein bod hefyd eisiau sicrhau cydlyniant cymunedol. Gadewch i mi ddweud bod yr heddlu'n weithgar iawn hefyd o ran targedu'r eithafwyr asgell dde a fyddai'n gwneud niwed difrifol i amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, would you join me in applauding the mosque open day series of events that took place just last Sunday? I attended one in Newport along with the Presiding Officer and other prominent local politicians, and it was very encouraging to see different sections of the community coming together, learning more about the Muslim faith and developing relationships. Would you agree with me that it's very important that Welsh Government continues to support that integration within our local communities?

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo'r gyfres o ddigwyddiadau diwrnod agored y mosgiau a gynhaliwyd ddydd Sul diwethaf? Mynychais un yng Nghasnewydd, ynghyd â'r Llywydd a gwleidyddion lleol blaenllaw eraill, ac roedd yn galonogol iawn gweld gwahanol rannau o'r gymuned yn dod at ei gilydd, a dysgu mwy am y ffydd Fwslimaidd a datblygu cysylltiadau. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig iawn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi integreiddio o'r fath yn ein cymunedau lleol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, indeed. And, I'm well aware that not only colleagues from Newport attended those events, but many others did, and that they ran a series of successful events over the weekend to promote mosques. Let me say that my own department has been engaged, following discussions with the Minister for Education and Skills and the Minister for Communities and Tackling Poverty, in looking at ways in which we can open up greater access from the Welsh Government and, indeed, from the National Assembly, to a wide variety of organisations within the Muslim faith. We've held break-out sessions recently in the National Assembly with up to 80 participants in different groups— young men, young women, older men and older women— and those have been very well engaged. The engagement has been excellent and I think it has given the Welsh Government a lot of ideas for future development.

Ydw, yn wir. Ac rwy'n ymwybodol iawn nad cyd-Aelodau o Gasnewydd yn unig a fynychodd y digwyddiadau hynny, a bod llawer o rai eraill wedi gwneud hynny, a'u bod wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus i hyrwyddo mosgiau dros y penwythnos. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gadewch i mi ddweud bod fy adran i wedi cymryd rhan yn edrych ar ffyrdd y gallwn sicrhau mwy o fynediad gan Lywodraeth Cymru, ac yn wir, gan y Cynulliad Cenedlaethol, i amrywiaeth eang o sefydliadau o fewn y ffydd Fwslimaidd. Rydym wedi cynnal sesiynau grŵp yn ddiweddar yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda hyd at 80 o gyfranogwyr mewn gwahanol grwpiau—dynion ifanc, menywod ifanc, dynion hŷn a menywod hŷn—a bu llawer o ymwneud â'r rheini. Mae'r ymgysylltiad wedi bod yn ardderchog ac rwy'n credu ei fod wedi rhoi llawer o syniadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae pryderon mawr yn ardal Wrecsam, Weinidog, ynglŷn ag eiddo a thai yn cael eu rhoi ar dân. Mae yna 55 achos o losgi ceir wedi bod yn Wrecsam yn y flwyddyn ddiwethaf. Nawr, mae'r heddlu wedi cyfaddef eu bod nhw'n methu â chael gwybodaeth o'r gymuned mewn rhai ardaloedd a bod hynny'n llesteirio ymdrechion i ddatrys y broblem. A fydddech chi, felly, yn cefnogi bwriad y cyngor cymuned ym Mharc Caia i gynnis gwobr o £1,000 er mwyn dal un o'r llosgwyr?

There are great concerns in the Wrexham area, Minister, about property and homes being the subject of arson. There have been 55 cases of setting fire to cars in Wrexham recently, and the police have admitted that they can't get information from the community in some areas and that that hampers efforts to solve the problem. Would you, therefore, support the intention of the community council in Caia Park to offer a reward of £1,000 in order to catch one of these arsonists?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Well, let me start by saying that arson is a crime that has a devastating effect on individuals and on communities in many cases. And arson itself has been the subject of a series of campaigns by all the fire and rescue authorities in Wales to seek diminution of cases occurring. I welcome attempts by local organisations to seek to work with the police to bring forward information on perpetrators.</p>	<p>Wel, gadewch i mi ddechrau drwy ddweud bod llosgi bwriadol yn drosedd sy'n cael effaith ddinistriol ar unigolion a chymunedau mewn llawer o achosion. Ac mae llosgi bwriadol wedi bod yn destun cyfres o ymgyrchoedd gan yr holl awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i geisio lleihau nifer yr achosion. Croesawaf ymdrechion gan sefydliadau lleol i geisio gweithio gyda'r heddlu i gyflwyno gwybodaeth am droseddwyr.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Fformiwla Llywodraeth Leol		The Local Government Formula		
14:55	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	<p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith fformiwla llywodraeth leol Cymru ar y gyfran o'r gyllideb ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0665(PS)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on the impact that the Welsh local government formula has on the budget share for 2016-17? OAQ(4)0665(PS)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Llywydd, each authority is responsible for setting its budget, taking account of the range of sources of funding available to it. These include its allocation through the local government settlement and sources such as grants, council tax and income from fees and charges.</p>	<p>Llywydd, mae pob awdurdod yn gyfrifol am bennu ei gyllideb, gan ystyried yr amrywiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddo. Mae'r rhain yn cynnwys ei ddyraniad drwy'r setliad llywodraeth leol a ffynonellau megis grantiau, y dreth gyngor ac incwm o ffioedd a thaliadau.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	<p>Thank you, Minister. Whilst the formula is quite complicated, it really has three major drivers: population or relative population change, sparsity and deprivation. It has nothing in there for places like Cardiff or Swansea that provide regional centres and provide services for a much larger area in terms of art galleries, et cetera, and it certainly, perhaps, needs to do that. Of course, everybody thinks that a change to the formula will mean they'll have more money. With the same amount of money in the system, for every winner, there's a loser, but who actually agreed the formula?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Er bod y fformiwla yn eithaf cymhleth, mae iddi dair prif elfen: newid poblogaeth neu boblogaeth gymharol, teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd. Nid oes unrhyw beth ynddi ar gyfer lleoedd fel Caerdydd neu Abertawe sy'n darparu canolfannau rhanbarthol ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer ardal fwy o lawer o ran orielau celf, ac yn y blaen, ac yn sicr, efallai fod angen iddi wneud hynny. Wrth gwrs, mae pawb yn meddwl y bydd newid i'r fformiwla yn golygu y byddant yn cael mwy o arian. Gyda'r un swm o arian yn y system, am bob un sy'n ennill, mae rhywun yn colli, ond pwy a gytunodd ar y fformiwla mewn gwirionedd?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>The funding formula is agreed with local government through the partnership council for Wales and its sub-groups, including the distribution sub-group and the finance sub-group. However, of course, as well as representatives of local government on those groups, there are independent members as well who have validated the elements within the formula. So, it's been a collective agreement this year, as it always is.</p>	<p>Cytunir ar y fformiwla ariannu gyda llywodraeth leol drwy gyngor partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau, gan gynnwys yr is-grŵp dosbarthu a'r is-grŵp cyllid. Fodd bynnag, wrth gwrs, yn ogystal â'r cynrychiolwyr llywodraeth leol ar y grwpiau hynny, ceir aelodau annibynnol sydd wedi dilysu'r elfennau o fewn y fformiwla. Felly, roedd yn gytundeb ar y cyd eleni, fel y mae bob amser.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	<p>Minister, we had a really good evidence session this morning in committee, with evidence coming forward from the WLGA and other council leaders. Now, one of the fundamental questions posed was actually about the funding of reorganisation and local government reform, and you made it quite clear that, you know, it's down to local authorities to actually fund this. Minister, you've seen the poor settlements that you've given to our local authorities—[Interruption.] Oh, yes.</p>	<p>Weinidog, cawsom sesiwn dystiolaeth dda iawn y bore yma yn y pwyllgor, gyda thystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr cynghorau eraill. Nawr, roedd un o'r cwestiynau sylfaenol a ofynnwyd yn ymwneud ag ariannu ad-drefnu a diwygio llywodraeth leol, ac fe ddywedoch yn hollol glir, wyddoch chi, mai mater i'r awdurdodau lleol yw ariannu hyn mewn gwirionedd. Weinidog, rydych wedi gweld y setliadau gwael rydych wedi'u rhoi i'n hawdurdodau lleol—[Torri ar draws.] O, do.</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Question. Cwestiwn.
- 14:57 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You have seen the very poor—some in particular, of course, the more rural ones—. How on earth do you expect your local government reorganisation programme to go forward when you've already cut our rural authorities to the bone? Rydych wedi gweld y setliadau gwael iawn—rhai yn arbennig, wrth gwrs, y rhai mwy gwledig—. Sut ar y ddaear ydych chi'n disgwyl i'ch rhaglen ad-drefnu llywodraeth leol symud ymlaen a chithau eisoes wedi torri ein hawdurdodau gwledig at yr asgwrn?
- 14:57 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Can I start by reminding the Member that yesterday she voted against the additional money for Powys, Ceredigion and Monmouthshire when the budget was discussed? Let me talk about the consultation—let me talk about the local government reform programme. We are currently out to consultation on this; the consultation finishes on Monday. We have published, with the draft Bill, a regulatory impact analysis and a detailed breakdown of costs. It is very clear from our estimates and, indeed, from the estimates provided by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy for the Welsh Local Government Association, that there are major savings to be made as a result of local government reorganisation. There is no difference in the figures. The Wales Audit Office has also said that it thinks that the figures we have produced are a reasonable estimate of the likely costs of merger and the likely potential savings. Can I just say, finally, that I remind her that the local government settlement in Wales, again, is far better than the settlement that's being given to councils in England by the Conservative Government in Westminster? A gaf fi ddechrau drwy atgoffa'r Aelod ei bod wedi pleidleisio ddoe yn erbyn yr arian ychwanegol ar gyfer Powys, Ceredigion a Sir Fynwy pan drafodwyd y gyllideb? Gadewch i mi siarad am yr ymgynghoriad—gadewch i mi siarad am y rhaglen ddiwygio llywodraeth leol. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o ymgynghori ar hyn; daw'r ymgynghoriad i ben ddydd Llun. Gyda'r Bil drafft, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad effaith rheoleiddiol a dadansoddiad manwl o'r costau. Mae'n glir iawn o'n hamcangyfrifon, ac yn wir, o'r amcangyfrifon a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fod modd gwneud arbedion mawr o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol. Nid oes unrhyw wahaniaeth yn y ffigurau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi dweud ei bod yn credu bod y ffigurau a gynhyrchwyd gennym yn amcangyfrif rhesymol o gostau tebygol uno a'r arbedion posibl tebygol. A gaf fi ddweud yn olaf fy mod yn ei hatgoffa bod y setliad llywodraeth leol yng Nghymru, unwaith eto, yn llawer gwell na'r setliad a roddwyd i gynghorau yn Lloegr gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan?

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

The South Wales Fire and Rescue Service

- 14:58 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith addysgol Gwasanaeth Tân De Cymru? OAQ(4)0670(PS) *11. Will the Minister make a statement on the educational work carried out by the South Wales Fire Service? OAQ(4)0670(PS)*
- 14:58 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The South Wales Fire and Rescue Service operates several highly effective education programmes. These both improve fire safety and divert young people away from fire-related crime. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu nifer o raglenni addysg effeithiol iawn. Mae'r rhain yn gwella diogelwch tân yn ogystal â dargyfeirio pobl ifanc rhag cyflawni troseddau sy'n gysylltiedig â tân.

14:59

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Minister, the loss of Porth fire station was a big blow not just for the local community, but for the wider area, and this station and its loyal and dedicated firefighters served with distinction. We are well aware of the heroics that these firefighters performed on a regular basis, but the educational work that they performed behind the scenes was also of vital importance. Now, I understand from speaking to contacts from the station that the school visits that were happening before and the work carried out with the young adults who are deemed at risk of offending would have been carried out with distinction by the Porth firefighters, but that work has dropped off dramatically since the station's closure. What provisions can be made to ensure that this vital educational work takes place ahead of the imminent grass fire period? Secondly, do you regret your Welsh Government did not do more to stop the closure of Porth fire station, given that you have powers and duties to ensure public safety?

Weinidog, bu colli gorsaf dân y Porth yn ergyd fawr, nid yn unig i'r gymuned leol, ond i'r ardal ehangach, a gwasanaethodd yr orsaf hon a'i diffoddwyr tân teyrngar ac ymroddedig yn rhagorol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r gorchestion roedd y diffoddwyr tân hyn yn eu cyflawni'n rheolaidd, ond roedd y gwaith addysgol y buont yn ei gyflawni y tu ôl i'r llenni hefyd yn hanfodol bwysig. Nawr, deallaf o siarad â chynrychiolwyr o'r orsaf mai diffoddwyr tân y Porth fyddai wedi bod yn cynnal yr ymweliadau ysgol a oedd yn digwydd yn flaenorol a'r gwaith a gâi ei wneud gyda'r oedolion ifanc yr ystyrid eu bod mewn perygl o droseddu, ond bod y gwaith hwnnw wedi lleihau'n ddramatig ers cau'r orsaf. Pa ddarpariaethau y gellir eu gwneud i sicrhau bod y gwaith addysgol hanfodol hwn yn digwydd cyn y cyfnod o danau glaswellt sydd ar fin dechrau? Yn ail, a ydych yn difaru na wnaeth eich Llywodraeth fwy i atal cau gorsaf dân y Porth, o ystyried bod gennych bwerau a dyletswyddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:00

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, there were a series of points which I have to correct the Member on. Let me start, however, by paying tribute to the work of firefighters at Porth, who I met on many occasions. They did excellent work in the local community, both in their role as firefighters but also in terms of the education and community work they also carried out. The Member is simply wrong on the position in respect of the Welsh Government and its powers. These are matters for the south Wales fire and rescue authority.

Wel, mae'n rhaid i mi gywiro'r Aelod ar gyfres o bwytiau. Gadewch i mi ddechrau, fodd bynnag, drwy dalu teyrnged i waith ymladdwyr tân yn y Porth, y cyfarfûm â hwy ar sawl achlysur. Maent yn gwneud gwaith rhagorol yn y gymuned leol yn eu rôl fel diffoddwyr tân, ond hefyd o ran y gwaith addysgol a chymunedol y maent wedi'i wneud hefyd. Mae'r Aelod yn gwbl anghywir o safbwynt Llywodraeth Cymru a'i phwerau. Materion ar gyfer awdurdod tân ac achub de Cymru yw'r rhain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In respect of the educational programmes, let me say that the educational programmes are continuing. It's only in the last week, I think, that the south Wales fire and rescue authority launched the Bernie education programme about mountain fires and grass fires in Darran Park Primary School in Ferndale in the Rhondda. I'm sorry that the Member wasn't aware of that. Throughout the south Wales fire and rescue area, there are a range of educational activities that are well under way being delivered by firefighters in the south Wales fire and rescue authority.

O ran y rhaglenni addysgol, gadewch i mi ddweud bod y rhaglenni addysgol yn parhau. Rwy'n credu mai yn ystod y wythnos diwethaf y lansiodd awdurdod tân ac achub de Cymru raglen addysg Bernie, sy'n ymwneud â thanau mynydd a thanau glaswellt, yn Ysgol Gynradd Parc y Darren yng Nglynrhedynog yn y Rhondda. Mae'n ddrwg gennyf nad oedd yr Aelod yn ymwybodol o hynny. Mae diffoddwyr tân o awdurdod tân ac achub de Cymru wedi hen fwrw iddi gyda'r gwaith o gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau addysgol ledled yr ardal.

15:01

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, grass fires are a very serious issue in south Wales. We are now entering the spring and, ironically, it was the spring that saw the worst grass fires last year, because of a rather damp summer. Can you inform the Chamber—because you've set up various working groups to support the fire service in their work, both in education and in tackling these fires—what new ideas you might be having coming out of those working groups that will enhance the fire service in south Wales, and indeed across Wales, to deal with these terrible acts of vandalism that blight so many communities?

Weinidog, mae tanau glaswellt yn broblem ddifrifol iawn yn ne Cymru. Rydym ar drothwy'r gwanwyn yn awr ac yn eironig, yn y gwanwyn y cafwyd y tanau glaswellt gwaethaf y llynedd, gan fod yr haf braidd yn wlyb. A allwch chi roi gwybod i'r Siambr—gan eich bod wedi sefydlu gweithgorau amrywiol i gynorthwyo'r gwasanaeth tân yn eu gwaith, ym maes addysg ac i fynd i'r afael â'r tanau hyn—pa syniadau newydd a allai fod gennych o'r gweithgorau hynny ar gyfer gwella gallu'r gwasanaeth tân yn ne Cymru, ac yn wir ledled Cymru, i fynd i'r afael â'r fandaliaeth ofnadwy hon sy'n difetha cynifer o gymunedau?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:01

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member is right to raise the issue. You'll recall that the First Minister and I held a grass fires summit, which involved members of the local authorities in south Wales, the fire and rescue service in south Wales, South Wales Police and others, and we have made investments to assist the fire and rescue services. I referred earlier to the unmanned aerial vehicle, commonly known as a drone, that we've provided for mid and west Wales, which will be deployed beyond the mid and west Wales fire and rescue authority boundaries. We've also invested in additional equipment in the form of vehicles for south Wales fire and rescue as well. As I mentioned in answer to the earlier question, of course, south Wales fire and rescue is continuing with its educational work in the community. I think it's fair to say that the engagement that we've had over the last 12 months has brought greater attention to this issue and, I think, a renewed focus by agencies such as the police. I was pleased to see the prosecutions that took place last year as a result of combined fire and rescue and police activity.

Mae'r Aelod yn iawn i grybwyll y mater. Fe gofiwch fod y Prif Weinidog a minnau wedi cynnal uwchgynhadledd ar danau glaswellt a oedd yn cynnwys aelodau o'r awdurdodau lleol yn Ne Cymru, gwasanaeth tân ac achub de Cymru, Heddlu De Cymru ac eraill, ac rydym wedi gwneud buddsoddiadau i gynorthwyo'r gwasanaethau tân ac achub. Cyfeiriais yn gynharach at y cerbyd awyr di-griw, a adwaenir yn gyffredin fel drôn, a ddarparwyd gennym ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru, ac a fydd yn cael ei ddefnyddio y tu hwnt i ffiniau awdurdodau tân ac achub canolbarth a gorllewin Cymru. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn cyfarpar ychwanegol ar ffurf cerbydau ar gyfer tân ac achub de Cymru yn ogystal. Fel y soniais wrth ateb y cwestiwn cynharach, wrth gwrs, mae awdurdod tân ac achub de Cymru yn parhau â'i waith addysgol yn y gymuned. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod ein hymgysylltiad dros y 12 mis diwethaf wedi rhoi mwy o sylw i'r mater hwn a ffocws o'r newydd, rwy'n credu, gan asiantaethau megis yr heddlu. Roeddwn yn falch o weld yr erlyniadau a ddigwyddodd y llynedd o ganlyniad i weithgaredd cyfunol rhwng awdurdodau tân ac achub a'r heddlu.

15:02

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:02

3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Cau Canghennau Banc

3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Bank Branch Closures

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to item 3, which is a debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call on Julie Morgan to move the motion.

Symudwn ymlaen yn awr at eitem 3, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf ar Julie Morgan i gynnig y cynnig.

Cynnig NNDM5942 Julie Morgan, Elin Jones, Darren Millar, Aled Roberts

Motion NNDM5942 Julie Morgan, Elin Jones, Darren Millar, Aled Roberts

Cefnogwyd gan Christine Chapman, Janet Finch-Saunders, Russell George, Rhun ap Iorwerth, Mark Isherwood, Jenny Rathbone, John Griffiths, Mike Hedges, David Rees, Sandy Mewies, Llyr Gruffydd, Ann Jones, Alun Ffred Jones, Gwyn Price, Joyce Watson.

Supported by Christine Chapman, Janet Finch-Saunders, Russell George, Rhun ap Iorwerth, Mark Isherwood, Jenny Rathbone, John Griffiths, Mike Hedges, David Rees, Sandy Mewies, Llyr Gruffydd, Ann Jones, Alun Ffred Jones, Gwyn Price, Joyce Watson.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at nifer y canghennau banc sydd wedi'u cau yng Nghymru ac, yn arbennig, pa mor aml y mae canghennau yn cael eu cau hyd yn oed pan mai'r gangen banc yw'r banc olaf yn yr ardal.

1. Deplores the number of bank branch closures in Wales, and in particular the frequency of closures even when the bank branch may be the last bank in the area.

2. Yn galw ar fanciau i ystyried effaith cau canghennau banc ar gymunedau trefol a gwledig ac unigolion, yn enwedig pobl hŷn a busnesau bach, cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ynghylch eu cau.

2. Calls on banks to consider the impact of bank branch closures on urban and rural communities and individuals, especially older people and small businesses before final decisions on closures are made.

3. Yn galw ar fanciau i gynnal ymgynghoriad ystyrion, gan gynnwys sefydliadau cymunedol lleol, sefydliadau pensïynwyr a grwpiau busnes cyn dod i benderfyniadau terfynol ynghylch cau canghennau, yn enwedig pan mai'r gangen banc dan sylw yw'r unig un sydd ar ôl yn yr ardal.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau eu bod yn ystyried effaith cau canghennau banc wrth lunio eu polisiau perthnasol ar wasanaethau ariannol, datblygu economaidd a rheoleiddio ariannol.

Cynigiwyd y cynnig.

3. Calls on banks to carry out meaningful consultation, including local community organisations, pensioner organisations and business groups before final closure decisions, especially when the bank branch concerned is the only one remaining in the area.

4. Calls on the UK Government, the Welsh Government and the Financial Conduct Authority to ensure that they take the impact of bank branch closures into account when formulating their respective policies on financial services, economic development, and financial regulation.

Motion moved.

15:03

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. I'm very pleased to have obtained this debate on bank closures in Wales today. I'd like to thank my cross-party sponsors of the debate, Aled Roberts, Darren Millar and Elin Jones. Aled Roberts will conclude the debate. I'd also like to thank all those Assembly Members who signed up to the debate, giving their support. I think the large number shows the strength of feeling on this issue here in the Senedd.

In my introduction to the debate, I want to cover the extent of the closures in Wales, the meaningfulness of the consultations undertaken by the banks before closure, and the effect on individuals and customers in my own constituency.

In the UK, a House of Commons briefing paper in 2015 shows the trend of bank branch closures from 1988 to 2012. In 1988, there were 20,583 main banks and building societies. In 2012, there were just 8,873—a really drastic reduction. So, obviously this is an issue that is wide. It is wide across the border, not just in Wales. I note that the Member of Parliament for Clwyd South, Susan Elan Jones, has written to the Chair of the Business, Innovation and Skills Committee in the House of Commons to call for a full inquiry into bank closures. Just to quote from Susan Elan Jones, she says:

'There are plenty of countries in the Western world that would never put up with the sort of shabby behaviour we are now getting from our so-called national banks.'

I think that shabby behaviour has been reflected in Wales.

In Wales, according to the Assembly Research Service, there appears to be no centrally held list of bank branches in Wales. The Campaign for Community Banking Services was set up to campaign for continued provision of bank branch networks, and began collecting data in 2003. The CCBS estimates that, since 2011, there have been an estimated 108 bank branch closures in Wales—47 HSBC, 43 NatWest and 18 Barclays. Other bank closures have been announced in the last two weeks, and it seems to be a never-ending trail of bank closures throughout Wales. There are now approximately 30 sole banking communities in Wales that have had no bank branch at all since 2011, which I think we'd all agree is a very difficult situation for a town or a village—to have no bank at all.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwy'n falch iawn o fod wedi cael y ddadl hon ar gau banciau yng Nghymru heddiw. Hoffwn ddiolch i noddwyr trawsbleidiol fy nadl, Aled Roberts, Darren Millar ac Elin Jones. Bydd Aled Roberts yn cloi'r ddadl. Hoffwn ddiolch hefyd i holl Aelodau'r Cynulliad sydd wedi ymuno â'r ddadl a rhoi eu cefnogaeth. Rwy'n meddwl bod y nifer fawr yn dangos cryfder y teimlad ynglŷn â'r mater yma yn y Senedd.

Yn fy nghyflwyniad i'r ddadl, hoffwn sôn am raddau'r cau yng Nghymru, pa mor ystyrion yw'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y banciau cyn cau, a'r effaith ar unigolion a chwsmeriaid yn fy etholaeth fy hun.

Yn y DU, mae papur briffio i'r Tŷ'r Cyffredin yn 2015 yn dangos y duedd i gau canghennau banciau rhwng 1988 a 2012. Ym 1988, roedd yna 20,583 o brif fanciau a chymdeithasau adeiladu. Yn 2012, roedd yna 8,873—gostyngiad gwirioneddol enfawr. Felly, yn amlwg mae'n fater eang. Mae'n fater eang ar draws y ffin, nid yng Nghymru'n unig. Nodaf fod yr Aelod Seneddol dros Dde Clwyd, Susan Elan Jones, wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn Nhŷ'r Cyffredin i alw am ymchwiliad llawn i gau banciau. Dyfynnaf o eiriau Susan Elan Jones, sy'n dweud:

Mae digonedd o wledydd yn y byd Gorllewinol na fyddai byth yn dioddef y math o ymddygiad gwael a gawn bellach gan ein banciau cenedlaethol fel y'u gelwir.

Rwy'n meddwl bod ymddygiad gwael o'r fath wedi'i weld yng Nghymru.

Yn ôl Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, ymddengys nad oes rhestr yn cael ei chadw'n ganolog o ganghennau banciau yng Nghymru. Sefydlwyd yr Ymgyrch dros Wasanaethau Bancio Cymunedol i ymgyrchu dros barhau i ddarparu rhwydweithiau o ganghennau banciau, a dechreuodd gasglu data yn 2003. Ers 2011, mae'r Ymgyrch yn amcangyfrif bod 108 o ganghennau banciau yng Nghymru wedi cau—47 HSBC, 43 NatWest a 18 Barclays. Yn ystod y pythefnos diwethaf, cyhoeddwyd bod banciau eraill yn mynd i gau ac mae'n ymddangos fel pe bai trywydd diddiwedd o fanciau'n cau ledled Cymru. Erbyn hyn mae tua 30 o gymunedau un banc yng Nghymru wedi bod heb gangen o fanc o gwbl ers 2011, ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno bod honno'n sefyllfa anodd iawn i dref neu bentref—bod heb fanc o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

These bank closures have taken place all over Wales, and many Assembly Members have campaigned against them. I campaigned against the closure of the NatWest in Rhiwbina, and the closure of Barclays at the crossroads in Birchgrove, which—despite all efforts—is due to close on 19 February. The Assembly Member for the Rhondda, Leighton Andrews, has also been campaigning against bank closures in his constituency, particularly the NatWest in Pentre, Lloyds Bank in Porth and HSBC in Porth and Treorchy. I know that Jane Hutt led the campaign to stop the closure of NatWest in Llantwit Major, which closed last November. This was shortly followed by an announcement that Barclays, as well, was pulling out. I'm sure that other Members during this debate will tell us about their experience of bank closures.

The closure of a bank branch can have a profound impact on a community, especially when it is the only bank left, which is certainly the position in Rhiwbina when the bank closed in my constituency. A huge amount of concern was expressed to me by local residents, especially the elderly. For them, many of the trips to the local branch were part of their way of life. The other group, of course, that is very strongly affected is small traders, because small traders need to bank their money at the end of the day. The closure of a local bank can be a death blow to a community in terms of attracting small businesses and enabling small businesses to continue. I'd also make the point about small local charities. They need local branches to be able to go in and personally deal with.

One of my constituents in Rhiwbina said of the closure of NatWest in Rhiwbina: 'I'm 93 years old and find going to Heol Llanishen Fach post office difficult, or to go to another bank. The assistance I get from the bank staff is invaluable to help me remain independent.' Another Rhiwbina constituent told me: 'I've written a strong letter to NatWest saying I have been a customer for 60 years. I feel let down, and I feel that they have betrayed my trust in them.'

It does seem to me that, when banks announce that they intend to close a branch, a big effort is usually made to try to stop this, but it just doesn't seem to make any difference. I had meetings with bank staff, including the regional manager of NatWest, and the same with Barclays. I wrote letters explaining why the closures would be detrimental to people's lives and businesses. I've written to George Osborne, organised petitions, and collated information for so-called impact statements. Yet those impact statements don't seem to have any effect whatsoever. Jane Hutt, Vaughan Gething and I together wrote a letter to Sajid Javid, the Secretary of State for business, about the protocol for closures, which appears to have no effect on the final decision at all. I know that Jane Hutt has also been through a similar process as I've been through in trying to prevent the closure of a bank in her constituency. Despite chairing a very well attended public meeting, gathering signatures for a petition, providing evidence on the impact on vulnerable and elderly customers and businesses, this was disregarded.

Gwelwyd cau'r banciau hyn ar hyd a lled Cymru, ac mae llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi ymgyrchu yn erbyn eu cau. Ymgyrchais yn erbyn cau banc y NatWest yn Rhiwbina, a chau banc Barclays ar y groesffordd yn Birchgrove, sydd—er yr holl ymdrechion—yn mynd i gau ar 19 Chwefror. Mae'r Aelod Cynulliad dros y Rhondda, Leighton Andrews, hefyd wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn cau banciau yn ei etholaeth, yn enwedig y NatWest yn Pentre, Banc Lloyds yn y Porth a HSBC yn y Porth a Threorci. Gwn fod Jane Hutt wedi arwain yr ymgyrch i atal cau banc NatWest yn Llanilltud Fawr, a gaeodd fis Tachwedd diwethaf. Yn fuan wedyn, cafwyd cyhoeddiad fod banc Barclays hefyd yn cau. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau eraill yn ystod y ddaidl hon yn sôn wrthym am eu profiad o fanciau'n cau.

Gall cau cangen o fanc effeithio'n fawr ar gymuned, yn enwedig lle nad oes banc arall ar ôl, a dyna'n bendant yw'r sefyllfa yn Rhiwbina pan gaeodd y banc yn fy etholaeth. Lleisiodd trigolion lleol lawer iawn o'u pryder wrthyf, yn enwedig trigolion oedrannus. Iddynt hwy, roedd llawer o'r teithiau i'r cangen leol yn rhan o'u ffordd o fyw. Y grŵp arall yr effeithir arno'n fawr iawn, wrth gwrs, yw masnachwyr bach, am fod angen i fasnachwyr bach fancio'u harian ar ddiwedd y dydd. Gall cau banc lleol fod yn ergyd farwol i gymuned o ran denu busnesau bach a galluogi busnesau bach i barhau. Byddwn yn gwneud y pwynt hefyd am elusennau bach lleol. Mae arnynt angen canghennau lleol i allu mynd i mewn ac ymdrin â hwy'n bersonol.

Dyweddodd un o fy etholwyr yn Rhiwbina ynglŷn â chau banc NatWest yn Rhiwbina: 'Rwy'n 93 mlwydd oed ac yn ei chael hi'n anodd mynd i swyddfa bost Heol Llanishen Fach, neu i fanc arall. Mae'r cymorth rwy'n ei gael gan staff y banc yn amhrisiadwy i fy helpu i aros yn annibynnol.' Dywedodd etholwr arall yn Rhiwbina wrthyf: 'Rwyf wedi ysgrifennu llythyr cryf at NatWest yn dweud fy mod wedi bod yn gwsmer ers 60 mlynedd. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael cam, ac rwy'n teimlo eu bod wedi bradychu fy ffydd ynddynt.'

Pan fydd banciau'n cyhoeddi eu bod yn bwriadu cau cangen, mae'n ymddangos i mi fod ymdrech fawr yn cael ei wneud fel arfer i geisio atal hyn, ond nid yw i'w weld yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Cefais gyfarfodydd gyda staff banciau, gan gynnwys rheolwr rhanbarthol NatWest, a'r un peth gyda Barclays. Ysgrifennais llythyrau'n egluro pam y byddai'r cau yn niweidiol i fywydau a busnesau pobl. Rwyf wedi ysgrifennu at George Osborne, wedi trefnu deisebau ac wedi casglu gwybodaeth ar gyfer yr hyn a elwir yn ddatganiadau effaith. Eto i gyd nid yw'n ymddangos bod y datganiadau effaith hynny'n cael unrhyw effaith o gwbl. Ysgrifennodd Jane Hutt, Vaughan Gething a minnau llythyr ar y cyd at Sajid Javid, yr Ysgrifennydd Gwladol dros fusnes, ynglŷn â'r protocol ar gyfer cau yr ymddengys nad yw'n effeithio mewn unrhyw fodd o gwbl ar y penderfyniad terfynol. Gwn fod Jane Hutt hefyd wedi bod drwy broses debyg i minnau wrth geisio atal banc rhag cau yn ei etholaeth. Er iddynt gadeirio cyfarfod cyhoeddus gyda nifer fawr o bobl yn bresennol, casglu llofnodion ar ddeiseb, darparu tystiolaeth ar yr effaith ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed, cwsmeriaid oedrannus a busnesau, diystyrwyd hyn.

We do know that the reason banks are giving for closures is the fall in customer numbers and growth in online banking. I think that there is no doubt that we have to accept that that is a trend; many more people are banking online. But many of my constituents told me that they were very surprised by the figures produced by the bank for the number of regular users that leads to a closure decision. One local GP told me that she was surprised to hear the figure that was given as the number of regular users for the Rhiwbina branch. She said: 'I have to say that every time I go into this branch, there is a queue. It is very well used, often full of elderly folk or local business owners cashing in their takings.' That is my impression when I've been in that branch as well. I'm pleased to say that, in Rhiwbina, the bank has at least recognised the need for some form of continued service, and it will be providing a weekly mobile banking van from 10 March, which will be there for two hours. It's certainly not ideal, but at least it's some help to customers.

So, one of the things I think we need to look at is how we get independent scrutiny of the figures banks provide about their regular customer numbers. I also think there should be an absolute presumption against closure if the bank is the last one in a particular area. I do not think that the banks should go ahead with the closure if it is the only one there, because it does destroy communities.

Lastly, I think consultation needs to be meaningful, because at the moment it seems that whatever petitions, protests and meetings we have with the banks, the community impact is simply disregarded. Perhaps the banks should focus more on providing a service to their customers, their more vulnerable customers in some cases, the small businesses who provide the lifeblood to our country, and perhaps they should consider putting more money into doing that than sponsoring high-profile events or football championships. Perhaps they should re-think their priorities and concentrate on continuing to provide the very valuable service they do to our constituents.

Gwyddom mai'r rheswm y mae banciau'n ei roi dros gau yw gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid a chynnydd mewn bancio ar-lein. Credaf nad oes unrhyw amheuaeth fod yn rhaid i ni dderbyn bod honno'n duedd; mae llawer mwy o bobl yn bancio ar-lein. Ond dywedodd llawer o fy etholwyr wrthyf eu bod wedi'u synnu'n fawr gan y ffigurau a gynhyrchwyd gan y banc o ran nifer y defnyddwyr rheolaidd sy'n arwain at benderfyniad i gau. Dywedodd un meddyg teulu lleol wrthyf ei bod yn synnu clywed y ffigur a roddwyd fel nifer defnyddwyr rheolaidd y gangen yn Rhiwbeina. Dywedodd: 'Mae'n rhaid i mi ddweud, bob tro rwy'n mynd i mewn i'r gangen hon, mae yna giw. Mae defnydd da iawn arni, mae'n aml yn llawn o bobl oedrannus neu berchnogion busnesau lleol yn bancio'u henillion.' Dyna'r argraff a gawn innau wrth ymweld â'r gangen honno hefyd. Yn Rhiwbeina, rwy'n falch o ddweud bod y banc o leiaf wedi cydnabod yr angen am ryw fath o wasanaeth parhaus, a bydd yn darparu fan bancio symudol wythnosol o 10 Mawrth ymlaen, a bydd yno am ddwy awr. Nid yw'n ddelfrydol yn bendant, ond o leiaf mae'n rhywfaint o help i gwsmeriaid.

Felly, un o'r pethau rwy'n credu bod angen inni edrych arno yw sut i sicrhau craffu annibynnol ar y ffigurau y mae banciau'n eu darparu ar niferoedd eu cwsmeriaid rheolaidd. Rwy'n credu hefyd y dylid cael rhagdybiaeth lwyr yn erbyn cau os mai'r banc yw'r olaf mewn ardal benodol. Nid wyf yn credu y dylai'r banciau fwrw ymlaen â'r cau os mai dyna'r unig fanc sydd yno, gan fod hynny'n dinistrio cymunedau.

Yn olaf, rwy'n credu bod angen i ymgynghori fod yn ystyrlon, oherwydd ar hyn o bryd, waeth pa ddeisebau, protestiadau a chyfarfodydd a gawn gyda'r banciau, mae'n ymddangos bod yr effaith ar y gymuned yn cael ei diystyru. Efallai y dylai'r banciau ganolbwyntio mwy ar ddarparu gwasanaeth i'w cwsmeriaid, eu cwsmeriaid mwy agored i niwed mewn rhai achosion, y busnesau bach sy'n anadl einioes i'n gwlad, ac efallai y dylent ystyried rhoi mwy o arian tuag at wneud hynny yn hytrach na noddi digwyddiadau proffil uchel neu bencampwriaethau pêl-droed. Efallai y dylent ailystyried eu blaenoriaethau a chanolbwyntio ar barhau i ddarparu'r gwasanaeth gwerthfawr iawn y maent yn ei ddarparu i'n hetholwyr.

15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Well, this item has obviously generated a lot of interest from Members. I've had 12 requests to speak. I don't think we're going to get through them all, but we will try. But I may not get through them all. Darren Millar.

Wel, mae'r eitem hon yn amlwg wedi creu llawer o ddiddordeb o blith yr Aelodau. Rwyf wedi cael 12 o geisiadau i siarad. Nid wyf yn credu ein bod yn mynd i fynd drwy bob un, ond fe ymdrechwn i wneud hynny. Ond efallai na lwyddaf i fynd drwyddynt i gyd. Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and thank you to Julie for suggesting this debate to Members today. I think it's a very important issue that has often been overlooked by this Assembly Chamber, but nevertheless, I know that many Assembly Members have taken a great deal of interest in this in their own constituencies. Like Julie and other Members of this Chamber, I unfortunately have had to battle over the future of banks up in Clwyd West, and other people in north Wales have had to contend with these too. The first bank that closed in my constituency was in the last Assembly term, in Kinmel Bay, and I can remember the tussle that I had with the HSBC over the future of that branch. Kinmel Bay is quite a large community, with 8,000 people there, and yet there's not a single bank in that community. It struck me as very concerning indeed that there should be no bank serving a community of that size. I think that there are significant flaws in the processes that all banks go through when deciding where their branch distribution should be, and I've been astonished, frankly, at the disregard that they show to the views of local customers. Their businesses rely on customers, and at the end of the day, you cannot afford to overlook their views.

I've also since that time seen branches close. The HSBC branches closed in Rhos-on-Sea, and indeed, most recently, in Cerrigydrudion, and I have to say that the rural communities are much more affected, I think, than many of our urban communities by bank closures, because of course when a branch closes in a community, if it's the last branch in that community, they have much further to travel in order to access banking services elsewhere. I know that a recent report was published into access to rural branches, and some people are having to travel 8 miles and more in order to get to a local branch facility. That clearly is not acceptable at all.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i Julie am awgrymu'r ddatl hon i'r Aelodau heddiw. Rwy'n credu ei fod yn fater pwysig iawn sy'n aml wedi cael ei esgeuluso gan Siambr y Cynulliad hwn, ond serch hynny, gwn fod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi dangos diddordeb mawr yn hyn yn eu hetholaethau eu hunain. Fel Julie ac Aelodau eraill o'r Siambr hon, yn anffodus, rwyf wedi gorfod brwydro dros ddyfodol banciau i fyny yng Ngorllewin Clwyd, ac mae pobl eraill yn y gogledd wedi gorfod ymgodymu â hyn hefyd. Caeodd y banc cyntaf yn fy etholaeth yn ystod tymor y Cynulliad diwethaf, ym Mae Cinnel, a gallaf gofio'r frwydr a gefais gyda'r HSBC ynghylch dyfodol y gangen honno. Mae Bae Cinnel yn gymuned eithaf mawr, gydag 8,000 o bobl yno, ac eto nid oes un banc yn y gymuned honno. Roeddwn yn ei ystyried yn destun pryder mawr yn wir nad oedd unrhyw fanc yn gwasanaethu cymuned o'r faint. Rwy'n meddwl bod yna ddiffygion sylweddol yn y prosesau y mae pob banc yn mynd drwyddynt wrth benderfynu ble y dylent ddosbarthu eu canghennau, ac rwyf wedi rhyfeddu, a dweud y gwir, ynglŷn â'u diffyg ystyriaeth i farn cwsmeriaid lleol. Mae eu busnesau'n dibynnu ar gwsmeriaid, ac yn y pen draw, ni allwch fforddio diystyru eu barn.

Rwyf wedi gweld canghennau'n cau ers hynny hefyd. Caeodd canghennau HSBC yn Llandrillo-yn-Rhos, ac yn wir, yn fwyaf diweddar, yng Ngherrigydrudion, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod y cymunedau gwledig yn dioddef llawer mwy, rwy'n meddwl, na llawer o'n cymunedau trefol yn sgil cau banciau, oherwydd pan fo cangen yn cau mewn cymuned, wrth gwrs, os mai dyna'r gangen olaf yn y gymuned honno, mae'n rhaid iddynt deithio'n llawer pellach er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau bancio yn rhywle arall. Gwn fod adroddiad diweddar wedi'i gyhoeddi ar fynediad i ganghennau gwledig, ac mae rhai pobl yn gorfod teithio wyth milltir a mwy er mwyn cyrraedd cyfleuster cangen leol. Mae'n amlwg nad yw hynny'n dderbyniol o gwbl.

But it's not only branch closures. Some branches are simply reducing the number of hours that they are open, and that too can have a big restricting factor on the ability of customers to access services. I've seen that happen to a Royal Bank of Scotland branch over in Colwyn Bay, which reduced its hours back in 2011 and, again, caused a great deal of distress to those customers who use that facility on a regular basis. NatWest also has been closing branches in my constituency in Abergele and Rhos-on-Sea, and you can see that this trend, if it continues, is going to further disadvantage those people who rely on the services. Julie's quite rightly pointed out that older people are more disadvantaged by branch closures than many others, and that is because many of them are not online and are not able to avail themselves of some of the more modern technology that younger people might use to be able to access their banking facilities. Let's face it, lots of people like a face-to-face service when it comes to banking. They have trusted, over the years, their banks, up until many recent events over the past few years, and I think it is important that there is a counter service available in many of our communities, and not just something that is a hole in the wall, which is very often the only thing a bank might leave behind in some of these communities. A hole in the wall does not represent a decent banking service and can never be regarded as acceptable in my opinion.

I want to also stress the importance of the banking network to visitors to Wales. We forget sometimes that Wales has a booming tourism economy and part of what makes that attractive is being able to access, yes, things like broadband and Wi-Fi these days, but also the availability of a local branch to get some currency, particularly for overseas visitors, is incredibly important. We can't overlook the fact that, when you lose branches—particularly in rural parts of Wales, beautiful parts of Snowdonia, along some of our trunk road network in places like Cerrigydrudion—it does have an impact on the visitors that come to see us and it can leave them with a very sour taste in the mouth when they are unable to get cash out to be able to spend in our economy. It's not good from an economic point of view.

So, I think it is important to recognise the disproportionate impact on rural communities, the disproportionate impact on older people and this adverse impact on the tourism industry, in particular, when our bank branch network is in decline. So, I support you, Julie, in calling for everybody who's involved in these decisions to pay more regard to these issues in the future and to actually listen to the voice of their customers when making these decisions.

15:16

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Most of the time people discuss or oppose bank closures, they are about the problems—as Darren Millar talked about—in rural Wales. It's not just rural Wales. I want to highlight what has happened in Woodfield Street, Morriston, in the last 25 years. It's a major suburb of Swansea and the area of Woodfield Street, Clase Road and Pentrepoeth Road is a major retail area. It includes a large number of small businesses but also national chains such as Iceland and Wilkinson.

Ond nid mater o gau canghennau'n unig yw hyn. Mae rhai canghennau'n cyfyngu ar yr oriau y maent ar agor, a gall hynny hefyd gyfyngu'n fawr ar allu cwsmeriaid i wneud defnydd o wasanaethau. Gwelais hynny'n digwydd i gangen o'r Royal Bank of Scotland draw ym Mae Colwyn, a oedd yn cwtogi ei oriau yn ôl yn 2011 ac unwaith eto, achosodd lawer iawn o ofid i'r cwsmeriaid sy'n defnyddio'r cyfleuster yn rheolaidd. Mae NatWest hefyd wedi bod yn cau canghennau yn fy etholaeth yn Abergele a Llandrillo-yn-Rhos, a gallwch weld bod y duedd hon, os yw'n parhau, yn mynd i fod o anfantais bellach i bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau. Nododd Julie, yn gwbl briodol, y ffaith fod pobl hyn dan fwy o anfantais yn sgil cau canghennau na llawer o bobl eraill, a'r rheswm am hynny yw nad oes llawer ohonynt yn mynd ar-lein ac nid ydynt yn gallu manteisio ar rai o'r technolegau mwy modern y gallai pobl iau eu defnyddio i allu gwneud defnydd o'u cyfleusterau bancio. Gadewch i ni ei wynebu, mae llawer o bobl yn hoffi gwasanaeth wyneb yn wyneb mewn perthynas â bancio. Maent wedi ymddiried yn eu banciau dros y blynyddoedd, tan y nifer o ddigwyddiadau diweddar dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig fod yna wasanaeth cownter ar gael yn llawer o'n cymunedau, ac nid rhywbeth sy'n ddim mwy na thwll yn y wal, sef yr unig beth y bydd banc yn ei adael ar ôl yn rhai o'r cymunedau hyn yn aml iawn. Nid yw twll yn y wal yn wasanaeth bancio gweddus ac ni ellir byth ei ystyried yn dderbyniol yn fy marn i.

Hefyd, rwyf am bwysleisio pa mor bwysig yw'r rhwydwaith bancio i bobl sy'n ymweld â Chymru. Rydym yn anghofio weithiau fod gan Gymru economi dwristiaeth ffyniannus a rhan o'i hatyniad yw gallu defnyddio, ie, pethau fel band eang a Wi-Fi y dyddiau hyn, ond hefyd mae argaeledd cangen leol i gael rhywfaint o arian, yn hynod o bwysig, enwedig i ymwelwyr tramor. Ni allwn anwybyddu'r ffaith, pan fyddwch yn colli canghennau—yn enwedig mewn rhannau gwledig o Gymru, rhannau hardd o Eryri, ar hyd peth o'n rhwydwaith cefnffyrdd mewn llefydd fel Cerrigydrudion—mae'n effeithio ar yr ymwelwyr sy'n dod i'n gweld ni a gall adael blas sur iawn yn y geg pan na allant godi arian parod i'w wario yn ein heconomi. Nid yw'r dda o safbwynt economaidd.

Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod yr effaith anghymesur ar gymunedau gwledig, yr effaith anghymesur ar bobl hyn ac effaith niweidiol hyn ar y diwydiant twristiaeth, yn arbennig, pan fydd ein rhwydwaith o ganghennau banc yn dirywio. Felly, rwy'n eich cefnogi, Julie, wrth i chi alw ar bawb sy'n rhan o'r penderfyniadau hyn i roi mwy sylw i'r materion hyn yn y dyfodol ac i wrando'n iawn ar lais eu cwsmeriaid wrth wneud y penderfyniadau hyn.

Y rhan fwyaf o'r amser pan fydd pobl yn trafod neu'n gwrthwynebu cau banciau, maent yn sôn am y problemau—fel y soniodd Darren Millar—yng nghefn gwlad Cymru. Nid cefn gwlad Cymru yn unig sy'n dioddef. Rwyf am dynnu sylw at yr hyn sydd wedi digwydd yn Stryd Woodfield, Treforys, dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae'n un o brif faestrefi Abertawe ac mae ardal Stryd Woodfield, Heol y Clâs a Heol Pentrepoeth yn ardal siopa bwysig. Mae'n cynnwys nifer fawr o fusnesau bach, a chadwyni cenedlaethol fel Iceland a Wilkinson hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

When I was first elected as a county councillor in 1989, the complaint I regularly heard was, 'There are too many banks and building societies here. We don't need them all'—an example of the need to be careful about what you wish for. Of the five banks—Barclays, Lloyds, NatWest, HSBC and TSB—two have closed and one branch was closed following the Lloyds TSB merger. We now have two banks left on Woodfield Street—Lloyds and HSBC. But Lloyds are busy closing branches—Skewen, in the constituency of David Rees, and Uplands, in the constituency of Julie James, were announced for closure this week. Does the following quote from the 'South Wales Evening Post' sound familiar?

'Lloyds say customers from the branches have been told of the closures via a letter.'

The closures come despite calls from both customers and councillors urging the banking giant not to go ahead with the plan, but they're going ahead with it anyway. The complaints, which we've all taken part in—. We've all sent a letter, we've all signed the petition. I don't know of anywhere it's ever worked. If somebody can tell me where it's ever worked—. But, once they seem to make this decision, they pay no attention to anybody.

Unfortunately—I feel I might slightly disagree with Darren Millar—sometimes the banks close the cash points at the same time—a cash point is not a bank, but it does give access to money for people—in many cases leaving the option of either paying for cash withdrawals or travelling several miles to access cash. Of course, this is not just a British phenomenon. In Des Moines in Iowa—empty bank branches are starting to litter small-town business districts across the nation as the financial institutions that own them focus their resources.

Whilst in city centres, such as Wind Street, banks that have closed can and have been converted into pubs and wine bars, such opportunities do not exist in suburbs, smaller towns and villages. In the case of Morriston, both the former Barclays and HSBC bank buildings are still empty. I fear they will remain empty for some time. Banks are a specific type of building. They don't actually lend themselves to any other form of retail. Turning a bank into general A1 retail is difficult. They've tried that with a TSB in Morriston several times and it doesn't seem to have worked for any of them.

Whilst I accept internet banking has reduced footfall in banks, there is still a need for businesses and the general population to visit banks. We cannot afford to allow the number of banks to further dwindle. [Inaudible.] Certainly —

Pan gefais fy ethol gyntaf fel cynghorydd sir yn 1989, y gŵyn a glywn yn rheolaidd oedd, 'Mae gormod o fanciau a chymdeithasau adeiladu yma. Nid oes arnom eu hangen i gyd'—enghraifft o'r angen i fod yn ofalus ynglŷn â'r hyn rydych yn ei ddyfuno. O'r pump banc—Barclays, Lloyds, NatWest, HSBC a TSB—mae dau wedi cau a chaeodd un gangen yn sgil uno Lloyds TSB. Erbyn hyn mae gennym ddau fanc ar ôl ar Stryd Woodfield—Lloyds a HSBC. Ond mae Lloyds yn brysur yn cau canghennau—cafwyd cyhoeddiad yr wythnos hon fod canghennau Sgiwen, yn etholaeth David Rees, a'r Uplands, yn etholaeth Julie James, i gau. A yw'r dyfyniad canlynol o'r 'South Wales Evening Post' yn swnio'n gyfarwydd?

Mae Lloyds yn dweud bod cwsmeriaid o'r canghennau wedi cael gwybod am y cau drwy lythyr.

Mae'r cau'n digwydd er gwaethaf galwadau gan gwsmeriaid a chynghorwyr yn annog y cawr bancio i beidio â bwrw yn ei flaen â'r cynllun, ond maent yn bwrw ymlaen ag ef beth bynnag. Roedd y cwynion, y cyfrannodd pawb ohonom tuag atynt—. Rydym i gyd wedi anfon llythyr, rydym i gyd wedi llofnodi'r ddeiseb. Nid wyf yn gwybod am unrhyw le y mae wedi gweithio erioed. Os gall rhywun ddweud wrthyf ble mae wedi gweithio—. Ond pan ymddengys eu bod yn gwneud y penderfyniad hwn, nid ydynt yn talu sylw i neb.

Yn anffodus—rwy'n teimlo efallai y byddwn yn anghytuno â Darren Millar i raddau—weithiau mae'r banciau'n cau'r twll-yn-y-wal ar yr un pryd—nid banc yw twll-yn-y-wal, ond mae'n darparu arian i bobl—sy'n golygu mewn llawer o achosion mai'r unig ddewis yw talu am godi arian neu deithio sawl milltir i gael gafael ar arian parod. Wrth gwrs, nid ffenomen Brydeinig yn unig yw hon. Yn Des Moines yn Iowa mae canghennau banc gwag yn dechrau amlhau yn ardaloedd busnes trefi bach ar draws y wlad wrth i'r sefydliadau ariannol sy'n berchen arnynt ganoli eu hadnoddau.

Yng nghanol dinasoedd, megis Stryd y Gwynt, mae'n bosibl y bydd banciau sydd wedi cau'n cael eu troi'n dafarndai a bariau gwin, ac mae hynny wedi digwydd, ond nid oes cyfleoedd o'r fath mewn maestrefi, trefi llai o faint a phentrefi. Yn achos Treforys, mae adeiladau hen fanciau Barclays a HSBC yn dal yn wag. Rwy'n ofni y byddant yn parhau'n wag am beth amser. Mae banciau yn fath penodol o adeilad. Nid ydynt yn addas ar gyfer unrhyw ffurf arall ar fanwerthu mewn gwirionedd. Mae troi banc yn lleoliad manwerthu A1 cyffredinol yn anodd. Maent wedi rhoi cynnig ar hynny gyda banc TSB yn Nhreforys sawl gwaith ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi gweithio i unrhyw un.

Er fy mod yn derbyn bod bancio ar y rhyngwyd wedi lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio banciau, mae angen o hyd i fusnesau a'r boblogaeth yn gyffredinol i ymweld â banciau. Ni allwn fforddio gadael i nifer y banciau leihau ymhellach. [Anghlywadwy.] Yn bendant—

15:19 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to you for taking an intervention. One of the key things that is lost when a bank is shut is that business connection—the small businesses, in particular, build up a relationship. Very often, when that entrepreneurial spirit comes into the business, and they need a small loan, because that personal contact is lost, the business really does struggle to access finance. That opportunity for small-scale employment in rural or urban areas does decline dramatically because of the lack of access to finance.

Rwy'n ddiolchgar i chi am dderbyn ymyriad. Un o'r pethau allweddol sy'n cael ei golli pan fydd banc yn cau yw cyswllt busnes—mae busnesau bach, yn arbennig, yn meithrin perthynas. Yn aml iawn, pan fydd yr ysbryd entrepreneuriaidd yn taro'r busnes, a bod angen benthyciad bychan arnynt, oherwydd bod y cyswllt personol yn cael ei golli mae'r busnes yn ei chael hi'n anodd iawn i gael gafael ar gyllid. Mae'r cyfle hwnnw i sicrhau cyflogaeth ar raddfa fach mewn ardaloedd gwledig neu drefol yn gostwng yn ddramatig oherwydd diffyg mynediad at gyllid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:19 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As unusual as this is, I actually agree with every word Andrew R.T. Davies just said. Also, the other problem is that a number of businesses need change on a daily basis—pubs, for example, restaurants and cafes need to get change, and they don't know how much change they're going to need tomorrow until the cash up the night before. So, you have this situation where they can't get change, or they have to travel several miles to get change, which certainly causes disruption to the businesses.

Er mor anarferol yw hyn, rwy'n cytuno â phob gair y mae Andrew R.T. Davies newydd ei ddweud. Hefyd, y broblem arall yw bod nifer o fusnesau angen newid mân yn ddyddiol—mae tafarndai, er enghraifft, bwytai a chaffis angen cael newid, ac nid ydynt yn gwybod faint o newid y byddant ei angen yfory tan y byddant yn cyfrif yr arian parod y noson cynt. Felly, mae gennyh y sefyllfa hon lle na allant gael newid, neu mae'n rhaid iddynt deithio sawl milltir i gael newid, sy'n sicr yn tarfu ar y busnesau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think it really is time for the Westminster Government to act. It is too late for many communities—not for Woodfield Street in Morriston, for example, but it is for a number of other communities. We need to act before we only have odd banks in city centres or in major retail centres and the rest of us will have to make our way there. Can I just give the warning that we've seen what's happening with the decline of petrol stations, and how few petrol stations there are? There are actually fewer petrol stations in Britain now than there were in 1921, according to figures I read. So, this decline can take place. We need to start fighting against them, we need to start opposing them, and we need to hold the banks to account for it. It's our money they're holding, they just won't let us get hold of it.

Rwy'n credu ei bod yn sicr yn bryd i Lywodraeth San Steffan weithredu. Mae'n rhy hwyr i lawer o gymunedau—nid i Stryd Woodfield yn Nhreforys, er enghraifft, ond i nifer o gymunedau eraill. Mae angen i ni weithredu cyn i fanciau fynd yn bethau a welwn yng nghanol dinasoedd neu mewn canolfannau manwerthu mawr yn unig a bydd yn rhaid i'r gweddill ohonom deithio yno. A gaf fi roi'r rhybudd ein bod wedi gweld yr hyn sy'n digwydd gyda dirywiad gorsafoedd petrol, a chyn lleied o orsafoedd petrol sydd ar ôl? Mewn gwirionedd, ceir llai o orsafoedd petrol ym Mhrydain yn awr nag a oedd yn 1921, yn ôl ffigurau a ddarllenais. Felly, mae'r dirywiad hwn yn gallu digwydd. Mae angen i ni ddechrau ymladd yn eu herbyn, mae angen i ni ddechrau eu gwrthwynebu, ac mae angen i ni ddwyn y banciau i gyfrif am y dirywiad. Ein harian ni y maent yn ei gadw, ac nid ydynt yn gadael i ni gael gafael arno.

15:21 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch eto i Julie Morgan am gynnig hwn fel testun trafod pwysig iawn, a rhywbeth sydd wedi cyffwrdd â phob un ohonom ni, rwy'n siŵr, yn ein hetholaethau. Mi wnaif i drio peidio ag ailadrodd yn ormodol, achos rwy'n meddwl ei bod hi'n eithaf dealladwy y bydd yna lawer o bynciau cyffredin yn ein taro ni fel Aelodau o bob cwr o Gymru. Wrth gwrs, mae colli banc lleol yn ergyd fawr i unrhyw un yn unrhyw gymuned. Ar y gorau, gallai hynny olygu bod rhywun yn gorfod newid cyfrif banc i'r banc arall lawr y ffordd; ar y gwaethaf, ac yn llawer rhy aml, y realiti, wrth gwrs, ydy mai'r banc sy'n gadael ydy'r banc olaf yn y gymuned.

I thank Julie Morgan once again for proposing this as an important topic for discussion, something that has touched each and every one of us in our constituency. I'll try not to repeat what's already been said, because, obviously, there will be some common ground for us as Members in all parts of Wales. Of course, losing a local bank is a huge blow to any community. At best, perhaps, it can mean that one has to change bank accounts to another branch down the road. At worst, and far too often, the reality is, of course, that the bank to close is the very last bank in that community,

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y ddwy enghraifft sydd gen i o fy etholaeth i yn ddiweddar ydy Porthaethwy ac Amlwch. Ym Mhorthaethwy, mae HSBC yn cau yn y fan honno—tref ffyniannus, llawn bwrlwm economaidd, ac nid yw'n gwneud dim synnwyr i unrhyw un sy'n edrych o'r tu allan pam y byddai HSBC yn bwriadu cau'r gangen honno, yn enwedig o ystyried mai mater o flwyddyn neu ddwy sydd yna ers i'r gangen ym Miwmares gau. Yr hyn a ddywedwyd wrth gwsmeriaid y banc ar y pryd oedd: 'Peidiwch â phoeni, ewch i Borthaethwy i wneud eich bancio.' Yn Amlwch, mae'r gangen yn y fan honno'n cau. Mae Amlwch yn dref sydd yn mynd i fod yng nghanol bwrlwm economaidd rhyfeddol yn y degawd nesaf, ond mae'n amlwg nad oes edrych ymlaen tua'r dyfodol wedi digwydd gan y banc yn y cyd-destun hwnnw. Beth sy'n cael ei ddweud wrth gwsmeriaid rŵan? 'Peidiwch â phoeni, mi allwch chi wneud eich bancio yn y post.' Ond rydym yn gwybod yn Amlwch fod yna ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y post yn y fan honno ac rydym yn gwybod am ormod o gymunedau yng Nghymru lle mae'r post wedi cael ei golli hefyd.

Rydym yn gwybod bod hyn, yn ôl y banciau, yn cael ei yrru gan newid yn ein harferion bancio, ac, wrth gwrs, rydym ni, bob un ohonom ni, rwy'n siŵr, yn y Siambr yma yn gwneud mwy o'n bancio ar-lein ac ati. Ond mae'r penderfyniadau i gau'r canghennau yn digwydd ar adeg lle nad yw'n cymunedau ni drwyddi draw yn barod i allu dweud, 'Ydyn, rydym yn gymunedau sy'n llwyr fancio ar-lein.' Mae yna ormod o bobl sy'n fregus, yn oeddrannus yn ein cymunedau ni nad ydynt yn barod i allu cymryd rhan yn yr oes fodern o fancio ar-lein. Rydym yn siarad hefyd yn y Siambr yma'n ddigon aml am broblemau efo band llydan yn ein hardaloedd gwledig ni. Mae yna ormod o ardaloedd nad oes ganddynt y gallu o ran yr isadeiledd digidol i allu cymryd rhan lawn mewn bancio ar-lein.

Yr hyn mae'r banciau yn ei ddweud, wrth gwrs, ydy nad ydy'r canghennau yma'n broffidiol. Mae'n siŵr eu bod nhw'n iawn, o ystyried y canghennau eu hunain. Mi gyfeiriaf at bapur a gafodd ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ym mis Awst y llynedd fel rhan o ymchwiliad i'r farchnad bancio a manwerthu:

'the "retail banking" divisions constituted an important source of income for the five largest UK banks. In 2014, these banks on an average, derived close to 60% of their total revenues from the retail divisions. The retail banking divisions across the five banks reported a total income of £42.1 billion and profit before tax of £14.2 billion in 2014. Figures...show that, while total reported income of the banks has remained relatively stable between 2012 and 2014, the reported profit has, in general, shown an upward trend during this period'

The two examples I have from my own constituency are Menai Bridge and Amlwch. In Menai Bridge, HSBC closed there. It's a prosperous town, full of economic activity, and it makes no sense whatsoever to anyone looking from the outside why HSBC would intend to close that branch, particularly given that it's only a year or two since the branch in Beaumaris closed, and the customers of that bank were told at that point, 'Don't worry, you can go to Menai Bridge to do your banking.' Now, in Amlwch the branch there is closing. Amlwch is a town that's going to be at the heart of great economic activity over the next decade, yet it is clear that they are not looking to the future at all in terms of the bank in Amlwch. What have customers been told? 'Don't worry, you can actually do your banking in the post office.' But we know that there is uncertainty about the future of the post office in Amlwch, and we know of too many communities in Wales where the post office has also been lost.

We know that this, according to the banks, is driven by changes in our own banking practices, and, of course, we, each and every one of us in this Chamber, I'm sure, are doing more of our banking online and so on. But the decision to close these branches is happening at a time when our communities, generally speaking, aren't ready to say, 'Yes, we are communities that do all of our banking online'. There are too many vulnerable and older people in our communities who aren't ready to participate in this modern online banking age. Also, we regularly in this Chamber talk of problems in relation to broadband in our rural areas. There are too many areas that don't have the necessary digital infrastructure to enable them to fully participate in online banking.

What the banks say, of course, is that these branches aren't profitable. I'm sure that they're right in terms of the branches themselves. I'll refer to a paper published by the Competition and Markets Authority in August of last year as part of an inquiry into retail banking:

Roedd yr is-adrannau "bancio manwerthu" yn ffynhonnell bwysig o incwm i'r pum banc mwyaf yn y DU. Yn 2014, deilliai yn agos at 60% o'u cyfanswm refeniw, ar gyfartaledd, o'r is-adrannau manwerthu. Cofnododd yr is-adrannau bancio manwerthu ar draws y pum banc gyfanswm incwm o £42.1 biliwn ac elw cyn treth o £14.2 biliwn yn 2014. Mae ffigurau... yn dangos, er bod cyfanswm yr incwm a gofnodwyd gan y banciau wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2012 a 2014, mae'r elw a gofnodwyd, yn gyffredinol, wedi dangos tueddiad ar i fyny yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r banciau'n gwneud arian oddi ar eu bancio manwerthu. Beth ddylai ddigwydd ydy bod banciau yn gweithredu fel rhwydwaith, efo canghennau proffidiol yn helpu, yn eu tro, i gynnal y rhai llai proffidiol, mewn ffordd y mae rheoleiddio yn sicr yn digwydd efo marchnad breifat ffonau symudol, er enghraifft—dydy mastiau yn Ynys Môn ddim yn gwneud arian i'r cwmnïau ffôn, ond fel rhan o rwydwaith maen nhw'n gorfod, wrth gwrs, darparu gwasanaeth ehangach. Felly, dyna ddylai ddigwydd efo'r banciau, ond yn amlwg nid oes gan y banciau ddi-ddordeb yn hynny. Felly, mae'n rhaid inni gadw'r pwysau ar y banciau ac ar Lywodraethau i sicrhau bod yna ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi gan y sefydliadau yma o effaith eu penderfyniadau nhw ar gymunedau.

Fe allwn ni wneud ymdrechion i sicrhau hyfywedd y stryd fawr, er enghraifft, er mwyn dod â rhagor o gwsmeriaid i'r banciau, ond, wrth gwrs, banc ydy un o'r pethau hynny sydd yn creu stryd fawr ffyniannus. Mi wnawn ni chwarae'n rhan, wrth gwrs, o ran ceisio sicrhau bod yna bobl a 'footfall' mewn banciau, ond mae'n rhaid i banciau ystyried eu cyfrifoldebau fel rhan, fel rwy'n dweud, o rwydwaith sy'n gwasanaethu nid ein hardaloedd poblog a chyfoethog yn unig, ond ein hardaloedd gwledig a thlotach hefyd.

The banks are profiting from their retail banking. What should happen is that the banks operate as a network, with profitable branches assisting, in turn, to maintain the less profitable branches, in a way that regulation certainly happens with the private mobile phone market, for example—the masts in Anglesey don't make a profit for the telecommunications companies, but as part of the network they do have to provide that wider coverage, of course. So, that is what should happen with the banks, but, clearly, the banks aren't interested in that. So, we must maintain pressure on the banks and on Governments to ensure that full consideration is given by these institutions to the impact of their decisions on communities.

We can make our own efforts to ensure the viability of our high streets, for example, in order to attract more customers to the banks, but, of course, the bank is one of those things that actually makes for a viable high street. We will play our part, of course, to try to ensure that there is footfall through our banks, but the banks do have to consider their responsibility as part, as I say, of a network that serves not just our prosperous and highly populated areas, but also our poorer, rural areas.

15:26

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Could I say how much I welcome the debate supported by Members across the Chamber here this afternoon on access to banking in Wales? Like many Members have already outlined for their constituencies, Brecon and Radnorshire has been badly hit by closures, losing banks in Ystradgynlais and Talgarth in the past. In the most recent wave of closures, we've seen Barclays close the last bank in Llanwrtyd Wells, and NatWest close its branch in Crickhowell. We're currently awaiting the closure of HSBC in Builth Wells and the HSBC in Rhayader, which, again, will be the last bank in town.

The attitude from the banks, it must be said, has done nothing to rehabilitate the image the industry currently enjoys after their recklessness and their behaviour helped bring our country's economy to the edge. They seem to have forgotten what this country did to assist them. They have been impervious to the impact that their withdrawal from communities will have on local people, the stock answer being that people are urged to use a different or alternative branch many, many miles away, use telephone services or internet banking services—not so very easy to do when there is a lack of public transport in many parts of Brecon and Radnorshire, and a lack of adequate mobile and internet infrastructure.

They are also very happy to pass the buck to the Post Office, with little or no consultation with that organisation to see if they can actually pick up the slack. Now, I am very grateful to the Post Office and their operatives who have responded so positively in many of our communities. In Llanwrtyd Wells, the Post Office agreed to upgrade the facilities that were available so that more financial transactions could take place, and I'm very grateful to the postmistress there, as I am to the postmistresses in Rhayader who are really trying to bridge the gap for local people, and, again, in Crickhowell.

A gaf fi ddweud cymaint rwy'n croesawu'r ddadl a gefnogir gan Aelodau ar draws y Siambr yma y prynhawn yma ar fynediad at fancio yng Nghymru? Fel y mae nifer o'r Aelodau eisoes wedi'i ddisgrifio yn eu hetholaethau, mae Brycheiniog a Sir Faesyfed wedi cael ei tharo'n wael gan y cau, ac mae wedi colli banciau yn Ystradgynlais a Thalgarth yn y gorffennol. Yn y don ddiweddaraf i gau, rydym wedi gweld Barclays yn cau'r banc olaf yn Llanwrtyd, a NatWest yn cau ei gangen yng Nghrucywel. Ar hyn o bryd mae disgwyl i gangen HSBC yn Llanfair-ym-Muallt gau, yn ogystal â changen HSBC yn Rhaeadr Gwy, sef y banc olaf yn y dref, unwaith eto.

Mae'n rhaid dweud, nid yw agwedd y banciau wedi gwneud dim i adfer delwedd y diwydiant ar hyn o bryd ar ôl i'w byrbwylltra a'u hymddygiad helpu i fynd ag economi ein gwlad at ymyl y dibyn. Mae'n ymddangos eu bod wedi anghofio'r hyn a wnaeth y wlad hon i'w cynorthwyo. Nid ydynt wedi bod yn barod i wrando ar yr effaith y bydd cau canghennau mewn cymunedau yn ei chael ar bobl leol, a'r ateb ystrydebol yw bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio cangen wahanol neu amgen filltiroedd lawer i ffwrdd, neu ddefnyddio gwasanaethau ffôn neu wasanaethau bancio ar y rhyngwrwyd—nad yw'n hawdd iawn i'w wneud pan fo diffyg cludiant cyhoeddus mewn sawl rhan o Frycheiniog a Sir Faesyfed, a diffyg seilwaith digonol ar gyfer ffonau symudol a'r rhyngwrwyd.

Maent hefyd yn barod iawn i drosglwyddo'r baich i Swyddfa'r Post, heb ymgynghori fawr ddim gyda'r sefydliad hwnnw, os o gwbl, i weld a allant ysgwyddo'r baich mewn gwirionedd. Nawr, rwy'n ddiolchgar iawn i Swyddfa'r Post a'u gweithwyr sydd wedi ymateb mor gadarnhaol mewn llawer o'n cymunedau. Yn Llanwrtyd, cytunodd Swyddfa'r Post i uwchraddio'r cyfleusterau a oedd ar gael fel y gellid cyflawni mwy o drafodion ariannol, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r bostfeistres yno, fel i'r postfeistresi yn Rhaeadr Gwy sy'n mynd ati o ddirif i geisio pontio'r bwlch i bobl leol, ac yng Nghrucywel hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Also, bank closures potentially mean the loss of the only access that community has to free 24-hour cash machines. Now, I'm glad to say that after a lot of campaigning and a lot of hard work, we've been successful in maintaining the cash point in Llanwrtyd Wells and in Crickhowell, yet the future for the only 24-hour free cash machine in Rhayader is still very much in doubt. HSBC have made it quite clear that they have no intention of keeping that cash point available, and we are now in the hands of Cashzone to see whether they will consent to keeping that there.

Powys has the second lowest average wage in the whole of this country. Having access to free cash withdrawals that allow people to withdraw small cash amounts at each transaction is absolutely crucial in these communities.

Can I turn to the issue, then, of the access to banking code? It is, at best, given lip service by the banks that I have recently been engaged with. And at worst, in the case of HSBC and the person who was charged with closing those branches, I had to tell them it existed; he had no idea he had any obligations under that access to banking code. It is simply not good enough. But, of course, who can blame the banks when they know they are not going to be held to account? I am still waiting, as is the community council of Llanwrtyd Wells, for responses from the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Sajid Javed, who has simply not bothered to respond to our correspondence with regard to ensuring that he is enforcing the access to banking code.

Hefyd, gallai cau banc olygu colli'r unig beiriannau twll-yn-y-wal 24 awr rhad ac am ddim sydd gan y gymuned. Nawr, ar ôl llawer o ymgyrchu a llawer o waith caled, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi llwyddo i gadw'r twll-yn-y-wal yn Llanwrtyd ac yng Nghrucywel, ond dyfodol ansicr sydd i'r unig beiriant twll-yn-y-wal 24 awr rhad ac am ddim yn Rhaeadr Gwy. Mae HSBC wedi'i gwneud yn gwbl glir nad oes ganddynt unrhyw fwriad o sicrhau y bydd y twll-yn-y-wal yn dal ar gael, ac rydym yn awr yn nwylo Cashzone i weld a fyddant yn cydsynio i'w gadw yno.

Ym Mhowys y ceir y cyflog cyfartalog isaf ond un yn y wlad hon. Mae mynediad at gyfleusterau codi arian am ddim sy'n caniatáu i bobl godi symiau bach o arian ar y tro yn gwbl hanfodol yn y cymunedau hyn.

A gaf fi droi at y cod mynediad i fancio felly? Ar ei orau, sylw ystrydebol y mae'r cod yn ei gael gan y banciau y bŵm yn ymwneud â hwy'n ddiweddar. Ac ar ei waethaf, yn achos HSBC a'r person a oedd yn gyfrifol am gau'r canghennau hynny, bu'n rhaid i mi ddweud wrthynt ei fod yn bodoli; nid oedd ganddo syniad fod ganddo unrhyw rwymedigaethau o dan y cod mynediad i fancio. Nid yw'n ddigon da. Ond wrth gwrs, pwys all feio'r banciau pan fyddant yn gwybod nad ydynt yn mynd i gael eu dwyn i gyfrif? Rwy'n dal i aros, fel y mae cyngor cymuned Llanwrtyd, am ymatebion gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Sajid Javed, nad yw wedi trafferthu ymateb i'n gohebiaeth mewn perthynas â sicrhau ei fod yn gorfodi'r cod mynediad i fancio.

15:30 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate and understand what you say, because, do you not accept that when Vince Cable was business Secretary and was negotiating the protocol with the banks, which rejected it, that was the opportunity to regulate, when regulation should have been brought in, and he failed to actually do that? And had regulations been brought in then—because it's only by regulation that the banks can be brought to heel in terms of delivering public services.

Rwy'n gwerthfawrogi ac yn deall yr hyn a ddywedwch, oherwydd, onid ydych yn derbyn pan oedd Vince Cable yn Ysgrifennydd busnes ac yn trafod y protocol gyda'r banciau, a'i gwrthododd, dyna oedd y cyfle i reoleiddio, pan ddyldid bod wedi cyflwyno rheoleiddio, a methodd â gwneud hynny mewn gwirionedd? A phe bai rheoliadau wedi'u cyflwyno bryd hynny—gan mai drwy reoleiddio'n unig y gellir cadw rheolaeth ar y banciau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mick, I wouldn't disagree. It's clear to me that the access to banking code does not work, and is not worth the paper it's written on for my constituents. Therefore, it seems to me the only way forward is to provide a statutory underpinning of that code, to make banks accountable for their actions. I am quite clear on that. It's the only way in which we are going to ensure that our communities are properly looked after in this regard.

Mick, ni fyddwn yn anghytuno. Mae'n amlwg i mi nad yw'r cod mynediad i fancio yn gweithio, ac nid yw'n werth y papur y mae wedi'i ysgrifennu arno i fy etholwyr. Felly, mae'n ymddangos i mi mai'r unig ffordd ymlaen yw darparu sail statudol i'r cod, i wneud banciau'n atebol am eu gweithredoedd. Rwy'n eithaf clir ynglŷn â hynny. Dyna'r unig ffordd y gallwn sicrhau bod ein cymunedau yn cael gofal priodol yn hyn o beth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

But as well as a statutory underpinning of that code—which I don't see happening any time soon, it must be said—we do need to look for other solutions, especially what we can do to promote other methods of access to financial services in communities, such as, for instance, the credit union. If you look at the development and the breadth of credit union services, for instance, in the United States of America, as opposed to what we have here, I think it's time that we looked to develop alternatives to the big banking institutions, which have demonstrated, quite clearly, they're not interested in many parts of Wales.

Ond yn ogystal â sail statudol i'r cod—ac nid wyf yn gweld hynny'n digwydd yn y dyfodol agos, rhaid dweud—mae angen i ni chwilio am atebion eraill, yn enwedig yr hyn y gallwn ei wneud i hyrwyddo dulliau eraill o sicrhau mynediad at wasanaethau ariannol mewn cymunedau, megis yr undeb credyd er enghraifft. Os edrychych ar ddatblygiad ac ehangder gwasanaethau undebau credyd, yn Unol Daleithiau America er enghraifft, yn hytrach na'r hyn sydd gennym yma, rwy'n credu ei bod yn bryd inni edrych ar ddatblygu dewisiadau eraill yn lle'r sefydliadau bancio mawr, sydd wedi dangos, yn eithaf amlwg, nad oes ganddynt ddiddordeb mewn sawl rhan o Gymru.

15:31

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Well, unlike the idiots who were allowed to wreck our banking system, I am a qualified banker, who previously worked in the building society sector, and I've campaigned against the closures of both bank and mutual building society branches.

Speaking here in November 2013, after HSBC announced the closure of branches in Llangollen, Conwy and Beaumaris, I stated that widespread concerns had been raised by constituents regarding the impact this will have on them, the wellbeing of the businesses in their towns, their communities, and the thousands of tourists who visit the area. They're afraid that rural areas are taking the brunt and believe that we need to take a longer term, truly customer-focused approach. However, HSBC told me that low customer usage meant that the bank was unable to reverse its decision.

Last June, we heard that the village bank that starred in a NatWest television advert pledging to keep every branch open as long as it was the last in the community was being shut down. We learned this month that Barclays is to shut its branch in Buckley, Flintshire, with accounts moved to Mold—a 6-mile round trip for customers. It's the third bank to announce a closure in the town over the last six months, leaving just one branch.

Following HSBC's announcement of the proposed closure of branches in Chirk and Ruabon, Simon Baynes, the prospective Welsh Conservative candidate for Clwyd South, carried out community bank surveys and held public meetings in both communities. And, accompanied by two county councillors, he then met HSBC and put questions to them, raised by the public. These included: 'Please be specific about the factors in your decision to close; customers have trouble understanding the decision, given that there are often queues in these two bank branches.' 'Doesn't this decision betray a lack of forethought?' In practice, it's very difficult for many customers to go to Wrexham, particularly shops that need to cash up takings, and given that there are few cashiers now in the Wrexham branch. 'Surely, this closure is discrimination against people without the internet, who cannot drive.' 'Doesn't HSBC take into account the knock-on effect of closure on the surrounding areas and businesses, as well as the two towns themselves?' I give way.

Wel, yn wahanol i'r ffyliaid a gafodd eu caniatáu i ddinistrio ein system fancio, rwy'n fanciwr cymwysedig, a arferai weithio yn y sector cymdeithasau adeiladu, ac rwyf wedi ymgyrchu yn erbyn cau canghennau o fanciau a chymdeithasau adeiladu cydfuddiannol.

Wrth siarad yma ym mis Tachwedd 2013, ar ôl i HSBC gyhoeddi eu bod yn cau canghennau yn Llangollen, Conwy a Biwmares, dywedais fod pryderon eang wedi'u mynegi gan etholwyr ynghylch yr effaith y bydd hyn yn ei gael arnynt, lles y busnesau yn eu trefi, eu cymunedau, a'r miloedd o dwristiaid sy'n ymweld â'r ardal. Maent yn ofni mai ardaloedd gwledig sy'n ei chael hi waethaf ac yn credu bod angen i ni weithredu'n fwy hirdymor gan ganolbwyntio ar y cwsmer go iawn. Fodd bynnag, dywedodd HSBC wrthyf fod lefelau defnydd isel gan gwsmeriaid yn golygu na allai'r banc newid ei feddwl.

Fis Mehefin diwethaf, clywsom fod y banc pentref a serennodd mewn hysbyseb teledu NatWest, yn addo cadw pob cangen ar agor cyhyd âi bod yr olaf yn y gymuned, yn mynd i gau. Clywsom y mis hwn fod Barclays yn cau ei gangen ym Mwcle, Sir y Fflint, a chyfrifon yn mynd i gael eu symud i'r Wyddgrug—taith gron o chwe milltir i gwsmeriaid. Dyma'r trydydd banc i gyhoeddi ei fod yn cau yn y dref yn ystod y chwe mis diwethaf, gan adael un gangen yn unig.

Yn dilyn cyhoeddiad HSBC o'r bwriad i gau canghennau yn y Waun a Rhiwabon, cynhaliodd Simon Baynes, darpar ymgeisydd y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer De Clwyd, arolygon banciau cymunedol a chyfarfodydd cyhoeddus yn y ddwy gymuned. A chyda dau gyngorydd sir, cyfarfu â HSBC a chyflwyno cwestiynau iddynt a ofynnwyd gan y cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys: 'Byddwch yn benodol ynglŷn â'r ffactorau yn eich penderfyniad i gau; mae cwsmeriaid yn cael trafferth deall y penderfyniad, o gofio bod ciwiau yn aml yn y ddwy gangen hon o'r banc.' 'Onid yw'r penderfyniad hwn yn dangos diffyg meddwl ymlaen llaw?' Yn ymarferol, mae'n anodd iawn i lawer o gwsmeriaid fynd i Wrexham, yn enwedig siopau sydd angen bancio arian parod, ac o ystyried mai ychydig o arianwyr sydd i'w cael bellach yn y gangen yn Wrexham. 'Yn sicr, mae cau o'r fath yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd heb y rhyngwyd, a phobl nad ydynt yn gallu gyrru.' 'Onid yw HSBC yn ystyried sgil-ffeithiau cau ar yr ardaloedd a'r busnesau cyfagos, yn ogystal â'r ddwy dref eu hunain?' Fe idiaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:33

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I agree wholeheartedly about the lack of forethought, and I'm sure that you would agree with me that it is regrettable that when the Corwen branch closed, of HSBC, everybody was told, 'Go to Llangollen.' Then, they closed Llangollen and told people to go to Chirk or Ruabon. Now, they're closing Chirk and Ruabon and people are ending up going even further to Wrexham. That lack of forethought shows complete disregard of people's rights in their own communities.

Cytunaf yn llwyr ynglŷn â'r diffyg meddwl ymlaen llaw, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno mai testun gofid oedd cau cangen Corwen o HSBC, pan ddywedwyd wrth bawb, 'Ewch i Langollen.' Yna, caewyd Llangollen a dywedwyd wrth bobl am fynd i'r Waun neu Riwabon. Yn awr, maent yn cau'r Waun a Rhiwabon ac yn y pen draw, mae pobl yn mynd hyd yn oed ymhellach, i Wrexham. Mae diffyg meddwl ymlaen llaw o'r fath yn dangos diffyg parch llwyr tuag at hawliau pobl yn eu cymunedau eu hunain.

15:34

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Precisely. And, as they said, 'Why doesn't HSBC care more about the effect on the elderly of these branch closures, and the cost of getting to other banks?' And, 'What links do you have', they said, 'with community banking models, and credit unions, and can you help such institutions, given your departure?' However, I understand they said they had no intention of changing their decision.

Yn union. Ac fel roeddent yn dweud, 'Pam nad yw HSBC yn poeni mwy am effaith cau'r canghennau hyn ar yr henoed, a'r gost o gyrraedd banciau eraill?' A 'Pha gysylltiadau sydd gennych', meddent, "â modelau bancio cymunedol, ac undebau credyd, ac a allwch helpu sefydliadau o'r fath, o ystyried eich bod yn gadael?' Fodd bynnag, deallaf eu bod yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw friad o newid eu penderfyniad.

So, let us heed the key survey findings. People feel strongly they need a bank. Footfall is significant in both banks. They are important for older people, those without transport, shopkeepers and small businesses. Chirk has 0.5 million tourists a year and banks play a role in that, and the post office will not be able to fill the void of bank closures.

Felly, gadewch i ni wrando ar ganfyddiadau allweddol yr arolwg. Mae pobl yn teimlo'n gryf eu bod angen banc. Mae nifer y defnyddwyr yn sylweddol yn y ddau fanc. Maent yn bwysig i bobl hŷn, y rheini heb gludiant, siopwyr a busnesau bach. Mae 0.5 miliwn o dwristiaid y flwyddyn yn ymweld â'r Waun ac mae banciau yn chwarae rhan yn hynny, ac ni fydd swyddfa'r post yn gallu llenwi'r bwlch a adewir wrth gau banc.

With digital banking decimating the use of traditional services the UK Government and the British Bankers Association entered an agreement early last year that commits banks to working with local communities to establish the impact of the branch closure prior to the closure, finding suitable alternative provision to suit individual communities and putting satisfactory alternative banking services in place before a branch is closed. In May 2015, the access to banking protocol came into effect, outlining consultation and community engagement requirements prior to a branch closing and requiring an assessment of the impact of any proposed closure on the wider community including businesses. Last August's letter from the UK Government to the British Bankers Association outlined their position stating:

Gyda bancio digidol yn dinistrio'r defnydd o wasanaethau traddodiadol, ffurfiwyd cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Chymdeithas Bancwyr Prydain yn gynnar y flwyddyn ddiwethaf sy'n rhwymo banciau i weithio gyda chymunedau lleol er mwyn pennu effaith cau'r gangen cyn y cau, gan ddod o hyd i ddarpariaeth arall addas i gymunedau unigol ac i roi gwasanaethau bancio amgen boddhaol ar waith cyn cau'r gangen. Ym mis Mai 2015, daeth y protocol mynediad i fancio i rym, gan amlinellu gofynion ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned cyn cau cangen ac yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad o effaith unrhyw gau arfaethedig ar y gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau. Roedd llythyr mis Awst y llynedd gan Lywodraeth y DU i Gymdeithas Bancwyr Prydain yn amlinellu eu safbwynt drwy ddweud:

'Branch closures continue to be a matter of concern for consumers and small businesses in affected communities... it is important that closure decisions are made responsibly, and that efforts are made to provide adequate alternative banking arrangements reflecting local circumstances—including small business needs—before a branch closes.'

Mae cau canghennau yn parhau i fod yn fater o bryder i ddefnyddwyr a busnesau bach yn y cymunedau yr effeithir arnynt... mae'n bwysig fod y penderfyniadau i gau yn cael eu gwneud mewn ffordd gyfrifol, ac y gwneir ymdrechion i ddarparu trefniadau bancio amgen digonol sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol—gan gynnwys anghenion busnesau bach—cyn y bydd cangen yn cau.

That's why the BBA and the Post Office started to agree a standard set of services to be made available to bank customers at post office counters and why that remains vital. The letter also asks the BBA for the industry's view on the viability of shared branch arrangements. The operation of the protocol is due to be independently reviewed in summer 2016—this summer. So, let this debate help inform and influence that review. Thank you.

Dyna pam y dechreuodd Cymdeithas Bancwyr Prydain a Swyddfa'r Post gytuno ar set safonol o wasanaethau a fyddai ar gael i gwsmeriaid banciau dros gownteri swyddfeydd post a pham y mae hynny'n dal yn hanfodol. Mae'r llythyr hefyd yn gofyn i Gymdeithas Bancwyr Prydain am farn y diwydiant ar hyfywedd trefniadau rhannu canghennau. Mae gweithrediad y protocol i fod i gael ei adolygu'n annibynnol yn haf 2016—yr haf hwn. Felly, gadewch i'r ddadl hon helpu i lywio a dylanwadu ar yr adolygiad hwnnw. Diolch.

15:36

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today. The spate of bank closures across Wales is undoubtedly a great cause of concern. I'm aware, as my colleague Julie Morgan has said already, of the moves afoot at Westminster to debate bank closures and I'm very pleased that Susan Elan Jones MP has written to the chair of the Business, Innovation and Skills Select Committee to request that this issue goes before members sitting on that committee. I thank Julie Morgan AM for facilitating this debate and I'm sure that all Members—as they have done so far—contributing to this debate will be able to draw on examples from their own constituencies—

Sandy Mewies a gododd—

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Mae'r gyfres o fanciau sy'n cau ledled Cymru yn sicr yn achos pryder mawr. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Julie Morgan eisoes, rwy'n ymwybodol o'r symudiadau sydd ar y gweill yn San Steffan i drafod cau banciau ac rwy'n falch iawn fod Susan Elan Jones AS wedi ysgrifennu at gadeirydd y Pwyllgor Dethol Busnes, Arloesedd a Sgiliau i ofyn am roi'r mater gerbron aelodau'r pwyllgor hwnnw. Diolch i Julie Morgan AC am hwyluso'r ddadl hon ac rwy'n siŵr y bydd pob Aelod sy'n cyfrannu at y ddadl—fel y maent wedi'i wneud hyd yma—yn gallu cyfeirio at enghreifftiau o'u hetholaethau eu hunain—

Sandy Mewies rose—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In one second. Examples from their own constituencies and regions of how bank changes have inconvenienced loyal customers when they either relocate or go entirely. I'll take the intervention.

Mewn un eiliad. Enghreifftiau o'u hetholaethau a'u rhanbarthau o sut y mae newidiadau bancio wedi peri anghyfleustra i gwsmeriaid ffyddlon pan fyddant naill ai'n adleoli neu'n mynd yn gyfan gwbl. Fe gymeraf yr ymyriad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. While I agree with everything that's been said up until now about the closures of the banks, would you agree with me that this is just further disenfranchisement of people who do not have access to the internet? Banks are continually encouraging people to pay bills through the internet. Benefits can be accessed through the internet. You're being told now they want your bills to utility companies paid through the internet. What will happen to people who don't have that access, who don't have access to banks, who can't get to places—this is all ages—if things do not change to accommodate the people who need to be accommodated?

Diolch. Er fy mod yn cytuno â phopeth a ddywedwyd hyd yma ynglŷn â chau'r banciau, a fydddech yn cytuno bod hyn yn difreinio pobl heb fynediad at y rhyngwrwd ymhellach? Mae banciau yn annog pobl yn barhaus i dalu biliau drwy'r rhyngwrwd. Gellir cael mynediad at fudd-daliadau drwy'r rhyngwrwd. Bellach, maent yn dweud wrthyh eu bod eisiau i'ch biliau i gwmnïau cyfleustodau gael eu talu drwy'r rhyngwrwd. Beth fydd yn digwydd i'r bobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd, nad oes ganddynt fynediad i fanciau, nad ydynt yn gallu cyrraedd llefydd—pobl o bob oed—os nad yw pethau'n newid i ddarparu ar gyfer y bobl sydd angen y ddarpariaeth honno?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:38

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with you completely. Banking services are a public service in effect. People have every right to access their own money in order to pay bills and the internet is not for everyone. I agree absolutely with the sentiments that you've expressed.

In August 2014, the HSBC branch at Bargoed in my constituency closed and relocated to Blackwood, some 5 miles away. Some might say that 5 miles isn't that far away, but the topography of our valleys coupled with lower than average car ownership has made it very difficult for some of my constituents in the Bargoed area to continue banking with HSBC. Local councillors have been concerned with the impact of such a closure on the footfall of the town, especially after significant Welsh Government, European Union and local authority money has gone into the regeneration of Bargoed. The construction of a park-and-ride facility; a new bus station at the northern end of the town; the construction of a £25 million new road, Angel Way; and a new retail development, Plateau, have breathed new life into the town of Bargoed. At a time when public money on a big scale was being invested in Bargoed, HSBC's decision to relocate sent out the wrong message to local people and potential investors.

Rwy'n cytuno'n llwyr â chi. Mae gwasanaethau bancio yn wasanaeth cyhoeddus i bob pwrpas. Mae gan bobl bob hawl i gael mynediad at eu harian eu hunain er mwyn talu biliau ac nid yw'r rhyngwrwd yn addas i bawb. Cytunaf yn llwyr â'r teimladau rydych wedi'u mynegi.

Ym mis Awst 2014, caeodd cangen HSBC ym Margoed yn fy etholaeth i a symud i'r Coed Duon, tua phum milltir i ffwrdd. Efallai y bydd rhai'n dweud nad yw pum milltir mor bell â hynny, ond mae topograffi'r cymoedd ynghyd â'r ffaith fod llai na'r cyfartaledd o bobl yn berchen ar geir wedi'i gwneud yn anodd iawn i rai o fy etholwyr yn ardal Bargoed i barhau i fancio gyda HSBC. Mae cynghorwyr lleol wedi bod yn pryderu ynglŷn ag effaith cau o'r fath ar nifer yr ymwelwyr â'r dref, yn enwedig ar ôl i arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a'r awdurdod lleol fynd tuag at adfywio Bargoed. Mae'r gwaith o adeiladu cyfleuster parcio a theithio, gorsaf fysiau newydd ym mhen gogleddol y dref, adeiladu ffordd newydd gwerth £25 miliwn, Angel Way, a datblygiad manwerthu newydd, Plateau, wedi rhoi bywyd newydd i dref Bargoed. Ar adeg pan fo arian cyhoeddus ar raddfa fawr yn cael ei fuddsoddi ym Margoed, mae penderfyniad HSBC i adleoli yn cyfleu'r neges anghywir i bobl leol a buddsoddwyr posibl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We should not underestimate the close relationship between long-standing customers and employees at the bank. In particular, older people who have been banking with the same branch for 30 or 40 years will tend to visit their local branch more than school leavers and young adults. There does have to be a recognition, as has been mentioned, that not everybody wants to or is comfortable with online banking. For those who do choose to stay loyal to their bank, they could well have to depend on public transport. We all know, unfortunately, that sometimes our buses don't operate to schedule, and the twice-hourly service from Blackwood to Bargoed could slip causing further inconvenience. It's also right to highlight the travel costs to those individuals not old enough to obtain a free bus pass. In effect, therefore, the residents of Bargoed, who have remained loyal to HSBC and made the switch to Blackwood, have had to pay through their own pockets for a decision that was completely taken out of their hands.

Llywydd, can I finish by endorsing the call of Kirsty Williams regarding the importance of credit unions as a viable alternative to high street banks? And I trust that all AMs are members of their local credit unions.

15:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a member of my local credit union in the Rhondda, I'm delighted to follow on from this last contribution. Plaid Cymru in the Rhondda has campaigned vigorously against bank branch closures affecting the Rhondda as well. HSBC, who ironically market themselves as the world's local bank, have announced that they're going to be shutting their branches in Porth and Treorchy. Customers have been told that they will need to travel to Pontypridd if they want a counter service, and, unfortunately, there is more bad news on the way as Lloyds Bank have also said that they intend to close their branch in Porth as well. So, if you're fit and healthy, and you have your own car, travelling to Pontypridd will still be a major inconvenience for many Rhondda residents, but if you're not fit, and you're not healthy, and you don't have your own car, then travelling to Pontypridd from the top of the Valley may well be a high impossibility.

HSBC don't seem to realise, or perhaps they don't even care, that not everyone is able to do internet banking. Rhondda Cynon Taf has one of the lowest take-ups of the internet throughout the UK, with around a quarter of the population never having been on the internet. Furthermore, as a trader in Maerdy remarked last week, how can he internet bank his change? This news comes after the loss of many local facilities and services, some by public bodies. Our local council, for example, has recently shut libraries, day centres, and we've also lost pubs, shops and post offices—all lost in our communities in recent times. This is why I feel it's important that we do all we can to make strong representations to HSBC about their plans, and that's why Plaid Cymru has spent so much time rallying with residents, with plans for a petition and so on.

Ni ddylem danbriso'r berthynas agos rhwng cwsmeriaid hirsefydlog a gweithwyr yn y banc. Yn benodol, bydd pobl hŷn a fu'n bancio gyda'r un gangen ers 30 neu 40 mlynedd yn tueddu i ymweld â'u cangen leol yn fwy na rhai sydd newydd adael yr ysgol ac oedolion ifanc. Rhaid cydnabod, fel y crybwyllwyd, nad yw pawb eisiau, neu'n gyfforddus gyda bancio ar-lein. I'r rhai sy'n dewis parhau'n ffyddlon i'w banc, gallai'n hawdd fod yn rhaid iddynt ddbynnau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym i gyd yn gwybod, yn anffodus, nad yw ein bysiau bob amser yn gweithredu yn ôl yr amserlen, a gallai'r gwasanaeth ddwywaith yr awr o'r Coed Duon i Fargoed lithro gan achosi anghyfleustra pellach. Mae hefyd yn gywir i dynnu sylw at y costau teithio i unigolion nad ydynt yn ddigon hen i gael tocyn bws am ddim. I bob pwrpas, felly, mae trigolion Bargoed, sydd wedi aros yn ffyddlon i HSBC ac sydd wedi gwneud y newid i'r Coed Duon, wedi gorfod talu o'u pocedi eu hunain am benderfyniad nad oedd ganddynt lais o gwbl ynddo.

Llywydd, a gaf fi orffen drwy ategu galwad Kirsty Williams ynghylch pwysigrwydd undebau credyd fel dewis amgen ymarferol yn lle banciau'r stryd fawr? A hyderaf fod pob AC yn aelodau o'u hundebau credyd lleol.

Fel aelod o fy undeb credyd lleol yn y Rhondda, rwyf wrth fy modd yn dilyn ymlaen o'r cyfraniad diwethaf. Mae Plaid Cymru yn y Rhondda wedi ymgyrchu'n frwd yn erbyn cau canghennau banciau sy'n effeithio ar y Rhondda hefyd. Mae HSBC, sydd, yn eironig, yn marchnata eu hunain fel banc lleol y byd, wedi cyhoeddi eu bod yn mynd i gau eu canghennau yn y Porth a Threorci. Mae cwsmeriaid wedi cael gwybod y bydd angen iddynt deithio i Bontypridd os ydynt am gael gwasanaeth cownter ac yn anffodus, mae mwy o newyddion drwg ar y ffordd gan fod Banc Lloyds hefyd wedi dweud eu bod yn bwriadu cau eu cangen yn y Porth hefyd. Felly, os ydych yn ffit ac yn iach ac yn berchen ar eich car eich hun, bydd teithio i Bontypridd yn dal i fod yn anghyfleustra mawr i lawer o drigolion y Rhondda, ond os nad ydych yn ffit ac yn iach, a heb fod yn berchen ar eich car eich hun, yna gallai fod bron iawn yn amhosibl i chi deithio i Bontypridd o ben uchaf y Cwm.

Nid yw'n ymddangos bod HSBC yn sylweddoli, neu efallai nad ydynt hyd yn oed yn malio, nad yw pawb yn gallu bancio dros y rhyngwrwyd. Yn Rhondda Cynon Taf y ceir un o'r lefelau isaf ledled y DU o rai newydd yn defnyddio'r rhyngwrwyd, gyda thua chwarter y boblogaeth erioed wedi bod ar y rhyngwrwyd. Ar ben hynny, fel y dywedodd masnachwr ym Maerdy yr wythnos diwethaf, sut y gall fancio'i arian parod dros y rhyngwrwyd? Daw'r newyddion ar ôl colli llawer o gyfleusterau a gwasanaethau lleol, a rhai ohonynt gan gyrff cyhoeddus. Yn ddiweddar, er enghraifft, caeodd ein cyngor lleol lyfrgelloedd, canolfannau dydd, ac rydym hefyd wedi colli tafarndai, siopau a swyddfeydd post—collwyd y rhain oll yn ein cymunedau yn y cyfnod diweddar. Dyma pam rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i ni wneud popeth a allwn i gyflwyno sylwadau cryf i HSBC ynglŷn â'u cynlluniau, a dyna pam y mae Plaid Cymru wedi treulio cymaint o amser yn cefnogi trigolion, gyda chynlluniau ar gyfer deiseb ac yn y blaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

But, I must ask the question: is anyone listening to all of these people and all of these campaigns and all of these petitions against these losses of local services? So far, the record has not been great. Not many of those campaigns have actually been successful. We have lost so much despite great efforts on the part of many local people. That said, we will not give up on our town centres and the communities that they serve. We must do all that we can to keep these vital services in our communities. Those facilities, after all, make them the communities that they are.

15:43

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for bringing forward this debate today. Much of what's been said isn't news to me, but I have had my eyes opened by the fact that this is very much an urban problem as well as a rural issue affecting our rural banks. In my constituency in Montgomeryshire, HSBC have recently announced their intention to close two of its branches in Llanfyllin and Llanfair Caereinion. Other banks have closed across north Powys: the Royal Bank of Scotland has closed branches in Montgomery, Llanidloes, and Llanfair Caereinion, and HSBC have also closed branches in Llanidloes and Machynlleth. Barclays have also reduced the opening hours in Llanidloes. This isn't over the last 10 years; this is just over the last 18 months, two years. The closure of these banks in my constituency, of course, is having the same devastating effect as it is on other villages and high streets across Wales.

I have had the same experience as Julie Morgan and other Members, where a bank has written to me and informed me of their decision; I have then written to the bank and asked to meet with them; I then meet with them and ask them to change their position and they say 'no'. That's the short version, but whatever you do to involve yourself in petitions, in campaigns, in surveys, you still get the same negative answer. Leanne Wood just mentioned that most campaigns are not successful. Well, I've yet to know of any campaign that's been successful. If anyone can tell me that they have had a successful campaign, please intervene and let me know what their secret is. My approach, rather than doing petitions, more recently has been to conduct my own consultation, because banks aren't doing it. So, as soon as I've known, I've conducted my own survey and then I've presented the results of those data to the banks when I've met them, and I've met all banks in the last 18 months in my constituency—HSBC, Barclays, NatWest. I've met with their regional managers, presented data to them that I've collected as a result of my own surveys and, very often, those data are different to the information they present to me, as well. I met with HSBC bank in December in Llanfyllin. They were telling me, 'This is how many people used our bank last year.' I said, 'Well, how many's that per day?' They worked it out for me whilst I was there and it was three per day. Well, I was sitting in the room next to them and I could see on the monitor that there were three people standing in the queue. So, I do question sometimes the data that they provide. I think they're very selective with their data.

Ond mae'n rhaid i mi ofyn y cwestiwn: a oes unrhyw un yn gwrandao ar yr holl bobl a'r holl ymgyrchoedd a'r holl ddeisebau yn erbyn yr holl golledion gwasanaethau lleol? Hyd yn hyn, nid yw'r record wedi bod yn wych. Nid oes llawer o'r ymgyrchoedd wedi bod yn llwyddiannus mewn gwirionedd. Rydym wedi colli cymaint er gwaethaf ymdrechion mawr ar ran llawer o bobl lleol. Wedi dweud hynny, ni fyddwn yn troi cefn ar ganol ein trefi a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n rhaid i ni wneud popeth a allwn i gadw'r gwasanaethau hanfodol hyn yn ein cymunedau. Y cyfleusterau hynny, wedi'r cyfan, sy'n gwneud y cymunedau yr hyn ydynt.

Diolch i Julie Morgan am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Nid yw llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud yn newyddion i mi, ond mae'r ffaith fod hon yn broblem drefol fawr yn ogystal â phroblem wledig sy'n effeithio ar ein banciau cefn gwlad wedi bod yn agoriad llygad i mi. Yn fy etholaeth yn Sir Drefaldwyn, yn ddiweddar cyhoeddodd HSBC eu bwriad i gau dwy o'u canghennau yn Llanfyllin a Llanfair Caereinion. Mae banciau eraill wedi cau ar draws gogledd Powys: mae'r Royal Bank of Scotland wedi cau canghennau yn Nhrefaldwyn, Llanidloes, a Llanfair Caereinion ac mae HSBC hefyd wedi cau canghennau yn Llanidloes a Machynlleth. Mae Barclays hefyd wedi cyfyngu ar yr oriau agor yn Llanidloes. Nid yn ystod y 10 mlynedd diwethaf y digwyddodd hyn; digwyddodd dros y 18 mis i ddwy flynedd ddiwethaf yn unig. Mae cau'r banciau hyn yn fy etholaeth yn cael yr un effaith ddinistriol, wrth gwrs, ag y mae ar bentrefi a strydoedd mawr eraill ledled Cymru.

Rwyf wedi cael yr un profiad â Julie Morgan ac Aelodau eraill, lle y mae banc wedi ysgrifennu ataf a rhoi gwybod i mi am eu penderfyniad; yna rwyf wedi ysgrifennu at y banc ac wedi gofyn iddynt am gyfarfod; yna, rwy'n eu cyfarfod ac yn gofyn iddynt newid eu safbwynt ac maent yn dweud 'na'. Dyna'r fersiwn fer, ond beth bynnag a wnewch i gymryd rhan mewn deisebau, mewn ymgyrchoedd, mewn arolygon, fe fyddwch yn dal i gael yr un ateb negyddol. Mae Leanne Wood newydd grybwyll nad yw'r rhan fwyaf o ymgyrchoedd yn llwyddiannus. Wel, rwyf eto i glywed am unrhyw ymgyrch sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Os gall unrhyw un ddweud wrthyf eu bod wedi cael ymgyrch lwyddiannus, os gwelwch yn dda a wnewch chi ymyrryd a gadael i mi wybod beth yw eich cyfrinach. Yn fwy diweddar, yn hytrach na ffurfio deisebau, fy null i o weithredu yw cynnal fy ymgyngoriad fy hun, gan nad yw'r banciau'n gwneud. Felly, cyn gynted ag y caf wybod, rwyf wedi cynnal fy arolwg fy hun ac wedi cyflwyno canlyniadau'r data hwnnw i'r banciau wrth i mi eu cyfarfod, ac rwyf wedi cyfarfod â'r holl fanciau yn fy etholaeth yn y 18 mis diwethaf—HSBC, Barclays, NatWest. Rwyf wedi cyfarfod â'u rheolwyr rhanbarthol, wedi cyflwyno data iddynt a gesglais o ganlyniad i fy arolygon fy hun, ac yn aml iawn hefyd, mae'r data'n wahanol i'r wybodaeth y maent hwy'n ei chyflwyno i mi. Cyfarfûm â banc HSBC yn Llanfyllin ym mis Rhagfyr. Roeddent yn dweud wrthyf, 'Dyma faint o bobl a ddefnyddiodd ein banc y llynedd.' Dywedais, 'Wel, faint yw hynny bob dydd?' Buont yn ei gyfrifo i mi tra oeddwn i yno ac roedd yn dri o bobl y dydd. Wel, roeddwn yn eistedd yn yr ystafell nesaf atynt a gallwn weld ar y monitor fod yna dri o bobl yn aros yn y ciw. Felly, rwy'n cwestiynu'r data y maent yn ei ddarparu weithiau. Rwy'n credu eu bod yn ddetholus iawn gyda'u data.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

From my experience, the groups that are most affected are small businesses, of course, particularly if they're engaged in retail activity, because there are issues with banking money and obtaining change quickly without fuss. Charity organisations are very much affected, because of the types of bank accounts they have to hold—they have to go into a bank—disabled residents as well and elderly residents are obviously affected. Also, communities that have little or no broadband or mobile signal are obviously affected as well. Of course, as has been pointed out, there's a reduction in footfall as a result of bank closures, which affects other local businesses as well.

Now, I think I understand to a point—as I think we all do—why the banks are taking this approach. To a point, we understand that there are technological advances, and that's the main factor. I'm guilty anyway of using online banking, and therefore I go into my bank less as a result. But, for me, that's all the more reason why we need banks to come together and explore a new model of banking that will see them sharing buildings, sharing services and continuing to serve customers.

There is a role here as well for Welsh Government—I've raised this with Ministers in the past and spoken in debates—to act as a facilitator to bring the banks together—

Yn fy mhrofiad i, y grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf yn busnesau bach, wrth gwrs, yn enwedig os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd manwerthu, oherwydd bod problemau gyda bancio arian a chael newid yn gyflym a heb ffwdan. Effeithir ar sefydliadau elusennol yn fawr iawn oherwydd y mathau o gyfrifon banc y mae'n rhaid iddynt eu cael—rhaid iddynt fynd i mewn i fanc—ac effeithir ar drigolion anabl a thrigolion hŷn hefyd, mae'n amlwg. Hefyd, effeithir yn amlwg ar gymunedau heb fawr o fand llydan neu signal ffonau symudol, os o gwbl. Wrth gwrs, fel y nodwyd, ceir gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gau banciau, sy'n effeithio ar fusnesau lleol eraill hefyd.

Nawr, rwy'n meddwl fy mod yn deall i raddau—fel y credaf ein bod i gyd yn deall—pam y mae'r banciau'n gweithredu fel hyn. I raddau, rydym yn deall bod yna ddatblygiadau technolegol, a dyna'r prif ffactor. Rwy'n euog beth bynnag o ddefnyddio bancio ar-lein, ac felly rwy'n mynd i mewn i fy manc yn llai aml o ganlyniad i hynny. Ond i mi, dyna fwy o reswm pam y mae angen i'r banciau ddod at ei gilydd i archwilio model newydd o fancio a fydd yn arwain at rannu adeiladau, rhannu gwasanaethau a pharhau i wasanaethu cwsmeriaid.

Mae rôl yma hefyd i Lywodraeth Cymru—rwyf wedi crybwyll hyn wrth Weinidogion yn y gorffennol ac wedi siarad mewn dadleuon—i weithredu fel hwylysydd i ddod â'r banciau at ei gilydd—

15:47 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:47 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, sure.

Gwnaf, yn bendant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:47 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Shouldn't the real direction be that we want the UK Government to actually regulate the banks to require them, as with any other public service, to provide that service? And isn't the reason why the Tory Government won't do it the amount of finance that gets put into its coffers from individual bankers and from the finance industry? The Tory Government will not regulate. Isn't that the problem?

Onid y cyfeiriad go iawn i fynd iddo yw ein bod am i Lywodraeth y DU reoleiddio'r banciau mewn gwirionedd i'w gwneud yn ofynnol iddynt, fel gydag unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall, i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw? Ac onid y rheswm pam na fydd y Llywodraeth Doriaidd yn ei wneud yw'r swm o arian sy'n cael ei roi yn eu coffrau gan fancwyr unigol a chan y diwydiant cyllid? Nid yw'r Llywodraeth Doriaidd yn mynd i reoleiddio. Onid dyna'r broblem?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:48 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I was really hoping, Mick, that we could end this debate on a note where we got cross-party consensus. I agree with the first part of what you said. I agree with the first part of what you said. What I want to see— Let's see all parties in this Chamber have something in their manifesto ahead of the Assembly elections and let's see whoever forms the next Welsh Government taking this forward as a facilitator, bringing banks and the regulators together and doing that on a cross-party basis, with cross-party support.

Roeddwn o ddifrif yn gobeithio, Mick, y gallem ddod â'r ddadl hon i ben ar nodyn lle y caem gonsensws trawsbleidiol. Rwy'n cytuno â rhan gyntaf yr hyn a ddywedoch. Rwy'n cytuno â'r rhan gyntaf o'r hyn a ddywedoch. Yr hyn rwyf am ei weld—. Gadewch i ni weld pob plaid yn y Siambr yn rhoi rhywbeth yn eu manifestos cyn etholiadau'r Cynulliad a gadewch i ni weld pwy bynnag sy'n ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru yn bwrw ymlaen â hyn fel hwylysydd, gan ddod â banciau a'r rheoleiddwyr at ei gilydd a gwneud hynny ar sail drawsbleidiol, gyda chefnogaeth drawsbleidiol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government—Edwina Hart.

Galwaf yn awr ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Edwina Hart.

15:48

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Even though, of course, I'm replying to the debate, Presiding Officer, as a Government Minister, I fully understand and agree with the concerns that are raised in this Chamber by all Members who represent constituencies here, because we all see it at first hand. I thought what was very interesting was Llyr's intervention, when he said, first off, you start off with one and then you're allowed to go a mile down the road, then you go to that bank and you're told you've got to go 3 miles down the road. So, when does 3 miles become 10 and when does 3 miles become 30? That's actually the issue because, all along, I think, they've sometimes had an understanding that they'd have a wider closure programme rather than the one branch that they might discuss with you in one year and what happens in the year after.

Er fy mod, wrth gwrs, yn ymateb i'r ddadl, Lywydd, fel Gweinidog y Llywodraeth, rwy'n deall yn llawn ac yn cytuno â'r pryderon a leisiwyd yn y Siambur hon gan yr holl Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau yma, oherwydd rydym i gyd yn ei weld â'n llygaid ein hunain. Roeddwn i'n meddwl bod ymyrraeth Llyr yn ddiddorol iawn, pan ddywedodd eich bod, yn gyntaf, yn dechrau gydag un ac yna rydych chi'n cael mynd filltir i lawr y ffordd, yna fe ewch i'r banc hwnnw ac maent yn dweud wrthyfod fod yn rhaid i chi fynd dair milltir i lawr y ffordd. Felly, pa bryd y mae tair milltir yn troi'n 10 a pha bryd y mae tair milltir yn troi'n 30? Dyna mewn gwirionedd yw'r broblem oherwydd, drwy'r amser, rwy'n meddwl, weithiau maent wedi bod â'r ddealltwriaeth y byddai ganddynt raglen gau ehangach yn hytrach na'r un gangen y byddent yn ei thrafod gyda chi mewn blwyddyn a beth sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn wedyn.

Obviously, we've got to put this debate in some sort of context because banking is a matter for the UK Government and, ultimately, decisions on bank closures are commercial matters for the banks. We may be their customers, but they're actually only interested in how the market responds to their profits or not and how, of course, they're regarded within the City and how they see the wider economy and their relationship with it.

Yn amlwg, mae'n rhaid i ni roi'r ddadl hon mewn rhyw fath o gyd-destun gan fod bancio'n fater i Lywodraeth y DU ac yn y pen draw, materion masnachol ar gyfer y banciau yw penderfyniadau ynglŷn â chau. Efallai mai ni yw eu cwsmeriaid, ond nid oes ganddynt ddiddordeb mewn dim mewn gwirionedd heblaw sut y mae'r farchnad yn ymateb i'w helw neu fel arall a sut y cânt eu gweld o fewn y Ddinas a sut y maent yn gweld yr economi ehangach a'u perthynas â hi.

Can I say, there are obviously a number of reasons for closures? I think Russell George touched on one of those, which was financial innovation and trends in society towards falls in demand for the use of cheques as a payment means, and the increased use of electronic payment services are one of the issues that the banks raised. Also as well, of course, the financial crisis led to several bank mergers and a consequent duplication of branches in some areas. Mike alluded to his constituency, about TSB and Lloyds and what happened there.

Os caf ddweud, mae'n amlwg fod nifer o resymau dros gau. Rwy'n credu bod Russell George wedi cyffwrdd ag un o'r rheini, sef arloesi ariannol a thueddiadau yn y gymdeithas tuag at leihad yn y galw am y defnydd o sicciau fel dull o dalu, ac mae'r defnydd cynyddol o wasanaethau talu electronig yn un o'r materion a nododd y banciau. Hefyd, wrth gwrs, arweiniodd yr argyfwng ariannol at nifer o achosion o fanciau'n uno a dyblygu canghennau mewn rhai ardaloedd yn sgil hynny. Cyfeiriodd Mike at ei etholaeth, am TSB a Lloyds a beth a ddigwyddodd yno.

The financial crisis also placed downward pressure on the banks, forcing banks to look at ways to cut costs. Of course, the British Bankers Association estimates that the number of people going into branches to do their banking fell around 30 per cent between 2012 and 2015. But I think, even on an anecdotal basis, we could question the figures the banks have been using in terms of what we see with our own eyes when we go to the branches on the high street that we pop into for some of our work, in terms of what we're undertaking.

Roedd yr argyfwng ariannol hefyd yn gosod pwysau ar y banciau, gan eu gorfodi i edrych am ffyrdd o dorri costau. Wrth gwrs, mae Cymdeithas Bancwyr Prydain yn amcangyfrif bod nifer y bobl sy'n mynd i ganghennau i fancio wedi gostwng tua 30 y cant rhwng 2012 a 2015. Ond hyd yn oed ar sail anecdotaidd, rwy'n credu y gallem gwestiynu'r ffigurau y mae'r banciau wedi bod yn eu defnyddio o ran yr hyn a welwn â'n llygaid ein hunain pan awn i'r canghennau ar y stryd fawr y byddwn yn taro i mewn iddynt i wneud peth o'n gwaith, o ran yr hyn rydym yn ei gyflawni.

Now, when we look at some of the issues around the fall in numbers, we also recognise the concern about the impact of closures on local communities. I'm not really aware of any recent evidence or research—and it would be good to have some done, actually—specifically on the impact that bank closures have on the local economy, because most of the evidence has been anecdotal. But there was some research done by the University of Nottingham, and that reported that areas with the highest rate of closure are traditional manufacturing areas, where loss of branches is at a rate 3.5 times higher than areas with the lowest rate of decline. It's quite interesting now that we need to recognise it's not all rural communities, but it's industrial communities as well that have been impacted.

Now, I have to say, like Julie Morgan, I think we can say what an excellent job consumer organisations, such as the campaign for community banking services, have done when they've been set up to look at branch networks, and they've highlighted the issues. The issue is access to financial services, the economic cost and inconvenience to small business, the elderly, the disabled and others of having to use alternative banking locations and facilities. Into that context, of course, come the points that have been made about credit unions, about what alternatives we can engage in in looking to help and assist that could be alternatives for individuals.

There's also the social cost of excluding low-income consumers from mainstream financial services, exacerbated by the absence of a community-based banking presence, and that also links into the digital issues, I think, and the points made by Sandy Mewies.

There's also the sustainability of communities, which I think Jeff Cuthbert and others covered. Bank branch closures contribute to the commercial decline of communities, as better-off consumers change their purchasing habits, along with the need to travel further afield for banking services. Businesses close and regeneration is rendered more unlikely and start-up finance for local business becomes more difficult to obtain. Even though some people think you can still go into the local branch and have a decision on some aspects of lending as a business, you'll find sometimes that's done a lot further away now.

Also as well it's the environment, because we've got to look at the environmental issues, because, if we're asking people to travel further, we're also having an environmental impact, which I think we also need to recognise.

Also as well, and one thing that hasn't come up in the discussion, I don't think, from any of the contributors today, is the impact of the closure of branches on jobs and people. There are jobs going out of these communities. People are employed and they will no longer be employed. That is extremely important in all areas. I meet regularly with senior representatives of the main banks and have pressed them for better access to finance for business and to give full consideration to the effects of community branch closures before deciding to do so.

Nawr, pan edrychwn ar rai o'r problemau gyda'r gostyngiad yn y niferoedd, rydym hefyd yn cydnabod y pryder ynglŷn ag effaith cau ar gymunedau lleol. Nid wyf yn ymwybodol mewn gwirionedd o unrhyw dystiolaeth neu ymchwil yn ddiweddar—a byddai'n werth gwneud peth, mewn gwirionedd—yn benodol ar effaith cau banciau ar yr economi leol, gan fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi bod yn anecdotaidd. Ond gwnaed rhywfaint o ymchwil gan Brifysgol Nottingham, a oedd yn nodi mai'r ardaloedd sydd â'r gyfradd uchaf o gau yw ardaloedd gweithgynhyrchu traddodiadol, lle y collir canghennau ar gyfradd 3.5 gwaith yn uwch na'r ardaloedd sydd â'r gyfradd isaf o ddirywiad. Mae'n ddiddorol iawn yn awr fod angen i ni gydnabod nad cymunedau gwledig yn unig yr effeithiwyd arnynt, ond cymunedau diwydiannol yn ogystal.

Nawr, rhaid i mi ddweud, fel Julie Morgan, rwy'n meddwl y gallwn ddweud gwaith mor rhagorol y mae sefydliadau defnyddwyr, fel yr ymgyrch dros wasanaethau bancio cymunedol, wedi'i wneud pan gawsant eu sefydlu i edrych ar rwydweithiau o ganghennau, ac maent wedi tynnu sylw at y problemau. Y broblem yw mynediad at wasanaethau ariannol, y gost economaidd a'r anghyfleustra i fusnesau bach, yr henoed, yr anabl ac eraill o orfod defnyddio lleoliadau a chyfleusterau bancio amgen. Yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs, daw'r pwyntiau a wnaed am undebau credyd, am ba ddewisiadau eraill y gallwn eu defnyddio i geisio helpu a chynorthwyo a allai fod yn ddewisiadau amgen i unigolion.

Hefyd ceir y gost gymdeithasol o eithrio defnyddwyr incwm isel o wasanaethau ariannol prif ffrwd, wedi'i gwaethygu gan ddiffyg presenoldeb bancio yn y gymuned, ac mae hynny hefyd yn cysylltu â'r materion digidol, rwy'n meddwl, a'r pwyntiau a wnaeth Sandy Mewies.

Hefyd ceir cynaladwyedd cymunedau, a chredaf fod Jeff Cuthbert ac eraill wedi nodi hyn. Mae cau canghennau o fanciau yn cyfrannu at ddirywiad masnachol cymunedau, wrth i ddefnyddwyr gwell eu byd newid eu harferion prynu, ynghyd â'r angen i deithio ymhellach i gael gwasanaethau bancio. Mae busnesau'n cau ac adfywio'n mynd yn fwy annhebygol a chyllid cychwynnol ar gyfer busnesau lleol yn mynd yn anos ei gael. Er bod rhai pobl yn meddwl y gallwch ddal i fynd i mewn i'r gangen leol a chael penderfyniad ar rai agweddau o fenthycia fel busnes, weithiau fe welwch fod hynny'n cael ei wneud yn llawer pellach i ffrwd yn awr.

Hefyd, mae'n ymwneud â'r amgylchedd, oherwydd mae'n rhaid i ni edrych ar y materion amgylcheddol, oherwydd, os ydym yn gofyn i bobl deithio ymhellach, rydym hefyd yn effeithio ar yr amgylchedd, a chredaf fod angen i ni gydnabod hynny hefyd.

Un peth hefyd nad wyf yn credu ei fod wedi cael sylw yn y drafodaeth gan unrhyw un o'r cyfranwyr heddiw, yw effaith cau canghennau ar swyddi a phobl. Mae swyddi'n mynd allan o'r cymunedau hyn. Mae pobl yn cael eu cyflogi ac ni fyddant yn cael eu cyflogi mwyach. Mae hynny'n eithriadol o bwysig ym mhob ardal. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag uwch gynrychiolwyr o'r prif fanciau ac rwyf wedi pwyso arnynt am well mynediad i gyllid ar gyfer busnesau ac i roi ystyriaeth lawn i effeithiau cau canghennau cymunedol cyn penderfynu gwneud hynny.

People have alluded to the business Secretary Vince Cable, who actually wrote to banks calling for clear procedures, I think, in 2014, setting out the steps that banks would take when closing a branch to ensure customers in rural and deprived areas do not lose out. I do agree with Mick Antoniw when he said that there should be a statutory underpinning to all of this. I think we're all agreed across the Chamber that, if we take anything away from this, we need to have some element of regulation in here to make sure that they do pay attention to what their customers are telling them. In March 2015, the major high street banks and consumer groups did sign up to the industry-wide agreement that Mark's alluded to, and that protocol is due to be reviewed—it is important that we're involved and do something on that review, because the review will look at how we work with local communities, find suitable alternative provision, and put in satisfactory alternative banking. That has to be a reality in terms of the code.

Local post offices do provide an excellent range of services and I think it was in August 2015 that Anna Soubry actually wrote to the chief executive of the British Bankers Association welcoming the green access to banking protocol, and emphasising the importance of banks following the process set out in the protocol. It also looked at the heads of terms agreement between the banks and the Post Office on provision of services.

But, as Kirsty Williams illustrated, the reality is totally different to what is happening in terms of the code. There is no proper consultation. Sometimes in post offices, their postmasters and mistresses are rushing to aid and assist because there hasn't been a dialogue. So, there are definitely problems with this code that do have to be, I think, taken seriously.

I think we've had a very good debate today, and we need to all use the opportunities I've indicated of making representations on the code, and I will be writing to Anna Soubry, but the whole issue for me is regulation. Leanne asked, 'Is anybody listening? Are the banks listening?' I can tell you the banks are not listening, and we have to ask ourselves the question, 'Who bailed out the banks? Who owns part of the banks?' That's the public. At the end of the day, we need to make very strong representations on taking matters forward, and I very much welcome the context of this debate today.

Mae pobl wedi cyfeirio at yr Ysgrifennydd busnes Vince Cable, a ysgrifennodd mewn gwirionedd at fanciau yn galw am weithdrefnau clir, yn 2014 rwy'n meddwl, gan nodi'r camau y byddai banciau'n eu cymryd wrth gau cangen i sicrhau nad oedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig a diffreintiedig ar eu colled. Rwy'n cytuno â Mick Antoniw pan ddywedodd y dylai fod sylfaen statudol i hyn oll. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cytuno ar draws y Siambr, os ydym yn mynd i elwa o hyn o gwbl, fod angen i ni gael rhyw elfen o reoleiddio yma i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi sylw i'r hyn y mae eu cwsmeriaid yn ei ddweud wrthynt. Ym mis Mawrth 2015, fe ymrwymodd prif fanciau'r stryd fawr a grwpiau defnyddwyr i'r cytundeb ar draws y diwydiant y soniodd Mark amdano, ac mae'n bryd adolygu'r protocol hwnnw—mae'n bwysig ein bod yn cymryd rhan ac yn gwneud rhywbeth ar yr adolygiad hwnnw, oherwydd bydd yn edrych ar sut rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol, yn dod o hyd i ddarpariaeth addas arall, ac yn darparu dulliau bancio amgen boddhaol. Rhaid i hynny fod yn realiti o safbwynt y cod.

Mae swyddfeydd post lleol yn darparu ystod ardderchog o wasanaethau ac rwy'n credu mai ym mis Awst 2015 yr ysgrifennodd Anna Soubry at brif weithredwr Cymdeithas Bancwyr Prydain mewn gwirionedd yn croesawu'r protocol mynediad gwyrdd i fancio, a phwysleisio pa mor bwysig yw hi i fanciau ddilyn y broses a nodwyd yn y protocol. Edrychai hefyd ar brif elfennau cytundeb telerau rhwng y banciau a Swyddfa'r Post ar ddarparu gwasanaethau.

Ond fel y dangosodd Kirsty Williams, mae'r gwirionedd yn hollol wahanol i'r hyn sy'n digwydd o ran y cod. Ni cheir unrhyw ymgynghori priodol. Weithiau mewn swyddfeydd post, mae postfeistri'n rhuthro i helpu a chynorthwyo am na fu unrhyw ddeialog. Felly, mae'n sicr fod problemau gyda'r cod hwn sy'n rhaid bod o ddirif yn eu cylch, rwy'n credu.

Rwy'n credu ein bod wedi cael dadl dda iawn heddiw, ac mae angen i bawb ddefnyddio'r cyfleoedd a nodais i gyflwyno sylwadau ar y cod, a byddaf yn ysgrifennu at Anna Soubry, ond i mi mae'r holl fater yn ymwneud â rheoleiddio. Gofynnodd Leanne, 'A oes unrhyw un yn gwrando? A yw'r banciau gwrando?' Gallaf ddweud wrthyhch nad yw'r banciau'n gwrando, ac mae'n rhaid i ni ofyn i ni ein hunain, 'Pwy achubodd y banciau? Pwy sy'n berchen ar ran o'r banciau?' Y cyhoedd, dyna pwy. Yn y pen draw, mae angen i ni gyflwyno sylwadau cryf iawn ar sut i symud pethau yn eu blaenau, ac rwy'n croesawu cyd-destun y ddadl hon heddiw yn fawr iawn.

15:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Aled Roberts to reply to the debate. Aled Roberts.

Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl. Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Lywydd, ac a gaf i hefyd ddiolch i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y prynhawn? Diolch yn arbennig i Julie Morgan am ofyn i'r tri ohonom ni gefnogi'r ddadl yma heddiw. Rwy'n meddwl beth sydd yn thema sydd wedi mynd trwy'r ddadl yma ydy rhwystredigaeth, o achos rydym ni i gyd wedi bod drwy'r broses yma am nifer o flynyddoedd. Rwy'n meddwl roedd y ffigurau roedd Julie yn rhoi ar y cychwyn yn dangos mai problem am ryw 20 mlynedd ydy o erbyn hyn, ond mae'r problem yna yn cynyddu.

Rwy'n meddwl, pan wnaeth Ken Skates a minnau gael cyfarfod ar y cyd efo rheolwr rhanbarthol HSBC yn y gogledd, ei bod hi'n amlwg bod hynny'n mynd i gynyddu achos dywedodd o fod yna benderfyniad wedi cael ei wneud gan fwrdd HSBC ar lefel Brydeinig eu bod nhw eisiau mynd ati yn fwy cyflym i gau banciau. Fe ddywedodd o ar y pryd mai rhwydwaith HSBC yng ngorllewin Cymru, yn y gogledd a'r de, fyddai'n gweld y mwyaf o ganghennau yn cau yn y pen draw.

Rwy'n meddwl, erbyn hyn, ein bod ni'n adlewyrchu'r rhwystredigaeth yna. Rwy'n meddwl bod nifer o'r siaradwyr yn dweud—. Mae'n rhaid imi ddweud, o ran Russell George, y broblem sydd gennym ni ydy y gallem ni gyflwyno'r holl bethau o fewn ein maniffestos ni ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, ond, yn y pen draw, problem ar lefel Brydeinig ydy hyn. Mae'n rhaid inni ofyn cwestiynau—pam mae yna nifer o wleidyddion ar lefel Brydeinig o bob plaid fel pe na baen nhw'n barod i fynd i'r afael â'r broblem yma a symud i system o reoleiddio? Rydym ni wedi trio 'protocols' gwirfoddol yn y gorffennol ac mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r 'protocols' hynny yn gweithio.

Mi oedd Darren Millar yn dweud bod yna broblem hefyd o ran hyd yn oed y canghennau hynny sydd ar ôl—bod eu horiau nhw yn cael eu cyfyngu. Mi ddywedodd o hefyd fod angen, yn y pen draw, inni gadw gwasanaethau cownteri os yn bosibl. Er, mae'n rhaid imi ddweud ein bod ni wedi bod yn awyddus iawn yn y gogledd—. Mi oedd Rhun yn sôn am broblemau yn Ynys Môn. Mae yna bum cangen o HSBC yn y gogledd yn mynd trwy'r broses yma o gau: y ddau yn sir Fôn, Betws-y-coed yn ardal Conwy, a hefyd y Waun a Rhiwabon yn Wrecsam. Mae HSBC, hwyrach, ar flaen y gad, ond, fel y dywedodd Mark Isherwood, wrth gwrs, mae Barclays hefyd rŵan yn dechrau edrych ar eu rhwydwaith. Ond Barclays sydd ar ôl yn Ne Clwyd—un banc o fewn etholaeth o ryw 60,000 o bobl, un banc ar ôl yn Llangollen.

Thank you, Presiding Officer. May I also thank everybody for their contributions during the afternoon? May I thank Julie Morgan in particular for asking the three of us to support this debate today? I think that the theme running through this debate is frustration, because we've all been through this process for a number of years. I think the figures that Julie mentioned at the beginning show that this has been a problem for about 20 years by now, but it is on the increase.

I believe that, when Ken Skates and I had a joint meeting with the regional manager of HSBC in north Wales, it was obvious that this problem would be on the increase, because he said that the HSBC board at a UK level had decided that they wanted to close banks more swiftly. He also said at the time that the HSBC network in west Wales, in both north and south, would ultimately see the greatest number of branch closures.

I believe that, by now, we have reflected that frustration, and a number of speakers have said—. I have to say, from the point of view of Russell George's contribution, that the problem we have is that we can introduce all of these elements within our manifestos for the Assembly elections, but, ultimately, it is a UK-wide problem. We have to ask why a number of politicians at a UK level, from every party, don't seem to be willing to address the problem or to move to a system of regulation. We've tried voluntary protocols in the past and it's obvious by now that those protocols don't work.

Darren Millar said that there's also a problem from the point of view of those branches that remain—that their hours are being restricted. He also said that, ultimately, we need to retain the counter service if possible. Although, I must say that we have been most eager in north Wales—. Rhun mentioned the problems on Ynys Môn. Five branches of HSBC in north Wales are going through this process of closure: the two in Anglesey, Betws-y-coed in the Conwy area, and also Chirk and Ruabon in Wrexham. HSBC might be in the vanguard on this, but, as Mark Isherwood said, Barclays is also beginning to look at its network. Only Barclays remains in Clwyd South—one bank in a constituency of about 60,000 people, one bank remaining in Llangollen.

Beth sydd yn fy synnu i ydy'r ffaith nad ydyn nhw'n edrych ymlaen. Fe wnes i gynnal cyfarfod gyda HSBC ar ddiwedd yr haf ac mi oeddwn i'n pryderu bryd hynny am ddyfodol y banc yn y Waun a Rhiwabon. Ryw dri mis cyn iddyn nhw gael y penderfyniad neu'r awgrym eu bod nhw'n mynd i gau'r banciau, roedd y rheolwr rhanbarthol yn dweud, 'O na, nid oes yna ddim problem o gwbl efo Rhiwabon na'r Waun. Mae'r Waun efo busnes Kronospan yn mynd trwyddo fo. Mae Rhiwabon yn brysur o ran pobl sydd wedi cael eu gorfodi i symud yna o'r Rhos.' Felly, nid penderfyniadau sydd yn cael eu cymryd ar lefel rhanbarthol ydy'r rhai yma, ond penderfyniadau ar lefel cenedlaethol. Rwy'n meddwl, fel y dywedodd Mark Isherwood, mae'n anodd deall yn union sut mae'r bobl yma sy'n rheoli ein banciau ni ar hyn o bryd yn gwneud y penderfyniadau yma. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae'n anodd hefyd, fel trethdalwyr, inni dderbyn, ar ôl yr holl arian a aeth i mewn i'r banciau yma yn ystod y dirwasgiad, eu bod nhw ar ôl hynny yn delio efo trethdalwyr yn y modd yma.

Fe ddywedodd Mike Hedges nad problem gwledig ydy hon. Roedd Russell George yn dweud ei fod o rŵan yn deall y sefyllfa yna. Rwy'n meddwl bod Mike wedi'i gwneud hi'n amlwg. Mae o'n wastad yn ein cymryd ni nôl i Dreforys, ac fe soniodd am yr argraff a'r effaith mae hynny'n ei gael—fel Jeff Cuthbert ym Margoed—ar fusnesau o fewn y pentrefi neu'r maestrefi bychain yna, lle mae yna bobl, hwyrach, sy'n gallu mynd i fanciau o fewn trefi cyfagos neu o fewn dinasoedd cyfagos. Yn y pen draw, nid ydynt yn gwario dim o'u harian o fewn y siopau lleol achos maen nhw jest yn mynd ar yr un trip yna. Mae hynny, wrth gwrs, meddai Jeff Cuthbert, yn anodd i'w dderbyn, lle mae yna gymaint o arian cyhoeddus yn mynd i mewn i lefydd fel Bargoed, sy'n ceisio adnewyddu y trefi a'r pentrefi yma. Yn y pen draw, mae penderfyniad masnachol yn meddwl bod y broblem yn dirywio.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni edrych yn sylfaenol ar y system yma. Rwy'n meddwl bod gan y mudiad o fanciau cymunedol batrwm y gallwn ni ei ystyried. Maen ganddynt gwahanol haenau o fanciau, ond yn y pen draw rwy'n meddwl bod angen inni gwestiynu yma ym Mhrydain pam, yn wahanol iawn i'r sefyllfa ar y cyfandir, pam mae'r holl benderfyniadau yma yn cael eu cymryd yn ganolog yn Llundain, achos rwy'n meddwl mai dyna'r broblem. Ni fuasai'r sefyllfa yma yn bod yn yr Almaen neu lefydd felly, lle mae na lawer iawn mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol. Mae'r mudiad banciau cymunedol yn sôn am greu rhyw fath o 'franchise' yn y lle cyntaf, lle mae'r banciau i gyd yn dod at ei gilydd i gadw cangen leol, ond ar ôl hynny, hwyrach symud i system—ac mae nifer wedi sôn am yr undebau credyd—a symud at system lle rydym yn sicrhau rhyw fath o wasanaeth, nid yn unig i'r henoed, nid yn unig i bobl nad oes ganddynt—. Fel y dywedodd Rhun, mae yna ardaloedd lle nad yw band eang yn ddibynadwy. Ond hefyd, mae'r busnesau bychain yma sydd angen arian parod er mwyn iddyn nhw gynnal eu busnesau o fewn yr ardaloedd.

Felly, rwy'n meddwl mai'r neges y prynhawn yma ydy hwyrach bod yr holl amser am greu deisebau, yr holl amser am geisio llythyru efo rheolwyr drosodd, ac mae'n amser inni fynnu bod ein pleidiau ni i gyd ar lefel Brydeinig yn gweithredu ar frys os ydym eisieu gweld banciau yn ein cymunedau ni yn y dyfodol.

What surprises me is the fact that they aren't looking to the future. I held a meeting with HSBC at the end of the summer and I was concerned at that point about the future of the banks in Chirk and Ruabon. About three months before the decision or suggestion that those banks would be closed was made, the regional manager said, 'Oh no, there's no problem whatsoever with either Chirk or Ruabon. Chirk has the Kronospan business going through that branch. Ruabon is busy with the business of people who've been forced to go there from Rhos.' So, these aren't decisions taken on a regional level, but decisions taken on a national level. I believe that, as Mark Isherwood said, it's difficult to understand exactly how the people managing our banks at present take these decisions. As Kirsty Williams said, it's also difficult, as ratepayers, to accept, after all the money that went into the banks during the period of austerity, after all that, that they deal with ratepayers in this manner.

Mike Hedges said that this is not a rural problem. Russell George said also that he now understood that. Mike has always made it obvious. He always takes us back to Morriston, and he mentioned—like Jeff Cuthbert in Bargoed—the impact that that has on businesses within these towns or small suburbs, because there are people who perhaps could bank in adjacent towns or neighbouring cities, whereas they ultimately won't be spending any in the shops locally. They will just go on that one journey to the bank. As Jeff Cuthbert said, that is difficult to accept, as so much public money goes into a place like Bargoed in trying to regenerate those towns and villages. At the end of the day, a commercial decision means that it exacerbates the problem.

I think that we must look fundamentally at the system. I think the movement of community banking is one that we could consider. They have different tiers of banking, but ultimately, we need to question here in the UK why, very differently to the situation on the continent, all these decisions are taken centrally in London. I think that's the problem. This situation would not exist in Germany and such places, where there are very many more decisions taken on a local level. The community banking movement talk about creating some kind of franchise in the first place, where all the banks come together to maintain a local branch, but after that, moving to a system—and many people have alluded to the credit unions—and moving to a system where we secure some kind of service, not only for the elderly, not only for people who don't have—. As Rhun said, there are some areas where broadband is not dependable. Also, there are these small businesses that need cash in order to sustain their businesses within those areas.

So, I think the message this afternoon is that perhaps the whole time taken in signing petitions and corresponding with managers is over. It's high time that we demanded that all the parties on a UK level take urgent action if we want to see the banks remain within our communities for the future.

16:03	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad; felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:03	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Can I remind Members that, if you take part in a debate, it is expected that you stay and listen to the rest of the debate? It's extremely discourteous of Members to leave the Chamber as soon as they've spoken, and I do take a very dim view of that. There were two Members who did that this afternoon.</p> <p><i>Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.</i></p>	<p>A gaf fi atgoffa'r Aelodau, os byddwch yn cymryd rhan mewn dadl, disgwylir i chi aros i wrando ar weddill y ddadl? Mae'n hynod o anghwrtais i Aelodau adael y Siambr cyn gynted ag y maent wedi siarad, ac rwy'n edrych yn anffafriol iawn ar hynny. Gwnaeth dau Aelod hynny y prynhawn yma.</p> <p><i>The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:03	<p>4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi</p> <p>Item 4 is the debate on the Children, Young People and Education Committee's report on supply teaching, and I call on Ann Jones to move the motion.</p> <p>Cynnig NDM5951 Ann Jones</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2015.</p> <p><i>Cynigiwyd y cynnig.</i></p>	<p>4. Debate on the Children, Young People and Education Committee Report on Supply Teaching</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Eitem 4 yw'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar waith athrawon cyflenwi, a galwaf ar Ann Jones i gynnis y cynnig.</p> <p>Motion NDM5951 Ann Jones</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <p>Notes the report of the Children, Young People and Education Committee on the inquiry into Supply Teaching, which was laid in the Table Office on 16 December 2015.</p> <p><i>Motion moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:04	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to present the Children, Young People and Education Committee's report on supply teaching to the Assembly this afternoon for debate.</p> <p>Supply teaching is an essential part of the education system. Teacher absence is inevitable, so it must be a common goal to ensure that where cover teaching is required it can be delivered effectively, and is of the highest standard, in order that we provide pupils with continued quality learning.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar waith athrawon cyflenwi i'r Cynulliad ei drafod y prynhawn yma.</p> <p>Mae athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o'r system addysg. Mae absenoldeb athrawon yn anochel, felly mae'n rhaid cael nod cyffredin i sicrhau, lle y mae angen gwaith athrawon cyflenwi, y gellir ei ddarparu'n effeithiol a'i fod o'r ansawdd gorau er mwyn i ni ddarparu addysg safonol barhaus i ddisgyblion.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

The many challenges and difficulties in meeting these high expectations for supply teaching have been explored in three recent reports produced by the Wales Audit Office, Estyn and the Assembly's Public Accounts Committee. The Children, Young People and Education Committee very much welcomed those reports and noted that concerns were still being raised. So, the committee were particularly keen to learn about whether supply teaching affected pupils and what impact it had on the pupils' journey.

As part of the inquiry, we undertook surveys with young people, parents and carers, which attracted almost 1,500 responses. We are extremely grateful to those who took the time to respond, as this provided a clear picture of how supply teaching is viewed by those on the receiving end. During the course of the inquiry, the Welsh Government published new guidance on effective management of school workforce attendance. It is important to note that much of the evidence referred to in our report was received prior to this guidance being published. The Committee was, however, keen to ensure that the new guidance was considered. The report therefore includes additional evidence from stakeholders on the potential impact of that guidance.

The Committee made 22 recommendations in its report. I won't go through all of these in detail, and I can hear everybody saying, 'Thank goodness.' Instead I'd like to concentrate my comments on what the committee believes are the key areas that emerged. Our overarching recommendation calls on the Welsh Government to look at a range of options for the future employment of supply teachers, including cluster arrangements operated by local authorities or through a national body. We believe closer arrangements between the employers and those with responsibility for providing school education would help resolve many of the issues identified. This view was shared widely across all those who gave evidence. Such a change would be a vital step forward, but is likely to be a longer term goal, as the current contract for supply teachers is due to continue to run until August 2018.

The inquiry identified a number of areas where improvements could be made within the time frame of the current contract. The lack of meaningful, consistent, comparative data, with regard to teacher absence, was a major concern. This lack of data means that the reasons for teacher absences are therefore unclear, making it difficult to manage and reduce sickness absence. Evidence also pointed to a system for supply cover, including data collection, which is overly complex. So, while methods of data collection need to be improved, this needs to be done in a clear and easy-to-manage way.

Archwiliwyd yr heriau a'r anawsterau niferus wrth gyflawni'r disgwyliadau uchel hyn ar gyfer gwaith athrawon mewn tri adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad. Cafodd yr adroddiadau hyn groeso mawr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a nododd fod pryderon yn dal i gael eu crybwyll. Felly, roedd y pwyllgor yn arbennig o awyddus i ddysgu a oedd gwaith athrawon cyflenwi yn effeithio ar ddisgyblion a pha effaith a gâi ar daith y disgyblion.

Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliwyd arolygon gyda phobl ifanc, rhieni a gofawyr, a ddenodd bron i 1,500 o ymatebion. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rheini a roddodd amser i ymateb, gan fod hyn wedi rhoi darlun clir o'r hyn y mae'r rhai sy'n ei dderbyn yn ei feddwl o waith athrawon cyflenwi. Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion yn effeithiol. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r dystiolaeth y cyfeirir ati yn ein hadroddiad wedi'i dderbyn cyn cyhoeddi'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y canllawiau newydd yn cael eu hystyried. Mae'r adroddiad felly yn cynnwys tystiolaeth ychwanegol gan randdeiliaid ar effaith bosibl y canllawiau hynny.

Gwnaeth y Pwyllgor 22 o argymhellion yn ei adroddiad. Nid af drwy bob un o'r rhain yn fanwl, a gallaf glywed pawb yn dweud, 'Diolch byth.' Yn lle hynny, hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar yr hyn y mae'r pwyllgor yn ei gredu yw'r meysydd allweddol a ddaeth yn amlwg. Mae ein hargymhelliad trosfwaol yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi yn y dyfodol, gan gynnwys trefniadau clwstrw a weithredir gan awdurdodau lleol neu drwy gorff cenedlaethol. Rydym yn credu y byddai trefniadau agosach rhwng y cyflogwyr a'r rhai sydd â chyfrifoldeb am ddarparu addysg ysgol yn helpu i ddatrys llawer o'r materion a nodwyd. Câi'r farn hon ei rhannu'n eang gan bawb a roddodd dystiolaeth. Byddai newid o'r fath yn gam hanfodol ymlaen, ond mae'n debygol o fod yn nod yn y tymor hwy, gan fod y contract presennol ar gyfer athrawon cyflenwi i fod i barhau i redeg tan fis Awst 2018.

Nododd yr ymchwiliad nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau o fewn ffrâm amser y contract presennol. Roedd diffyg data ystyrllon, cyson, cymharol ar absenoldeb athrawon yn bryder mawr. Mae'r diffyg data'n golygu bod y rhesymau dros absenoldebau athrawon yn aneglur felly, gan ei gwneud yn anodd rheoli a lleihau absenoldeb oherwydd salwch. Roedd y dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at system ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi, gan gynnwys casglu data, sy'n rhy gymhleth. Felly, er bod angen gwella dulliau o gasglu data, mae angen gwneud hyn mewn ffordd glir a hawdd ei rheoli.

On pupil behaviour and outcomes, evidence received from Estyn, and the responses to the survey, indicated that the use of supply teachers has a negative impact on pupil behaviour, and has a further negative impact on their achievement and progress in lessons. However, Estyn also suggested that, although the progress of pupils in individual lessons may not be as quick as it should have been, this did not necessarily have an overall effect on pupil outcomes. Again, the lack of valid, reliable data in this area makes it very difficult to accurately assess the impact of supply teaching on pupils' outcomes. The committee believes that research should be undertaken in order to gain an understanding of the effects of supply teaching on behaviour and pupil outcomes.

I want to turn to the continuous professional development of teachers now. The provision of CPD to supply teachers was one of the main areas of concern expressed by almost all those who gave evidence. Issues raised suggested that: there is little access to CPD for supply teachers; that meeting the cost of CPD is a major problem; and that the CPD available does not necessarily reflect the Welsh Government's priorities. Although the Minister has restated his commitment that the new deal for the education workforce would apply to supply teachers, it is not clear how this will be delivered. The introduction of school development plans should help deliver better training generally across the school workforce. It is not clear, though, how these development plans will be used to consider the needs of supply teachers who are on day-to-day or short-term contracts. This needs to be addressed as a matter of urgency. The potential use of online learning, particularly the introduction of the professional learning passport, was raised as a positive way forward. There has also been recognition of the importance of sharing professional practice and direct observation. The committee believes the Minister should promote the importance of face-to-face CPD, alongside online learning. The suggestion of mandatory CPD for teachers was supported by many. The committee accepts that there may be potential difficulties in establishing a statutory approach for CPD, but believes this is something that should be explored by the Minister.

I'll move on to newly qualified teachers. The committee was extremely concerned to hear evidence that the lack of support for newly qualified teachers is resulting in a high percentage leaving the profession. The committee believes that there must be adequate and improved support for supply teachers who are newly qualified teachers to enable them to fully demonstrate their attainment of professional teacher standards. On performance management, the committee heard a lot of evidence that suggested there is no real performance management for supply teachers. Many of those providing evidence recognised the difficulties in providing performance management, and questioned the practicality of a system for short-term staff. The committee believes that there must be a more robust system for performance management, including the provision of feedback on all levels, and that the Welsh Government should consider how this could best be achieved.

Ar ymddygiad disgyblion a chanlyniadau, dangosodd tystiolaeth gan Estyn, a'r ymatebion i'r arolwg, fod y defnydd o athrawon cyflenwi yn effeithio'n negyddol ar ymddygiad disgyblion, ac mae'n cael effaith negyddol bellach ar eu cyflawniad a'u cynnydd mewn gwersi. Fodd bynnag, awgrymodd Estyn hefyd, er efallai nad oedd cynnydd disgyblion mewn gwersi unigol mor gyflym ag y dylai fod, nid oedd hyn o reidrwydd yn effeithio'n gyffredinol ar ddeilliannau disgyblion. Unwaith eto, mae'r diffyg data dilys, dibynadwy yn y maes yn ei gwneud yn anodd iawn asesu'n gywir beth yw effaith gwaith athrawon cyflenwi ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r pwyllgor yn credu y dylid gwneud ymchwil er mwyn cael dealltwriaeth o effeithiau gwaith athrawon cyflenwi ar ymddygiad a deilliannau disgyblion.

Rwyf am droi at ddatblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon yn awr. Darparu DPP i athrawon cyflenwi oedd un o'r prif feysydd pryder a fynegwyd gan bron bawb a roddodd dystiolaeth. Roedd y materion a nodwyd yn awgrymu: nad oes llawer o fynediad at DPP ar gyfer athrawon cyflenwi; bod cost DPP yn broblem fawr; ac nad yw'r DPP sydd ar gael o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Er bod y Gweinidog wedi aildatgan ei ymrwymiad y bydd y fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg yn berthnasol i athrawon cyflenwi, nid yw'n glir sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Dylai cyflwyno cynlluniau datblygu ysgol helpu i ddarparu gwell hyfforddiant yn gyffredinol ar draws y gweithlu ysgol. Nid yw'n glir, fodd bynnag, sut y bydd y cynlluniau datblygu hyn yn cael eu defnyddio i ystyried anghenion athrawon cyflenwi sydd ar gontractau dyddiol neu gontractau tymor byr. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys. Crybwyllwyd y defnydd posibl o ddysgu ar-lein, yn arbennig cyflwyno'r pasbort dysgu proffesiynol, fel ffordd gadarnhaol ymlaen. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o bwysigrwydd rhannu arferion proffesiynol ac arsylwi uniongyrchol. Mae'r pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog hyrwyddo pwysigrwydd DPP wyneb yn wyneb ochr yn ochr â dysgu ar-lein. Roedd nifer yn DPP awgrym o DPP gorfodol i athrawon. Mae'r pwyllgor yn derbyn y gallai fod anawsterau posibl wrth sefydlu dull statudol ar gyfer DPP, ond mae'n credu bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Gweinidog ymchwilio iddo.

Fe symudaf ymlaen at athrawon sydd newydd gymhwyso. Roedd y pwyllgor yn bryderus iawn o glywed tystiolaeth fod y diffyg cefnogaeth i athrawon sydd newydd gymhwyso yn arwain at ganran uchel yn gadael y proffesiwn. Mae'r pwyllgor yn credu bod yn rhaid cael cymorth digonol a gwell i athrawon cyflenwi sy'n athrawon newydd gymhwyso i'w galluogi i ddangos eu bod yn cyrraedd safonau athrawon proffesiynol yn llawn. O ran rheoli perfformiad, clywodd y pwyllgor lawer o dystiolaeth a oedd yn awgrymu na cheir rheoli perfformiad go iawn ar gyfer athrawon cyflenwi. Roedd llawer o'r rhai sy'n darparu tystiolaeth yn cydnabod yr anawsterau o ran darparu rheoli perfformiad, ac yn cwestiynu ymarferoldeb system ar gyfer staff tymor byr. Mae'r pwyllgor yn credu bod yn rhaid cael system fwy cadarn ar gyfer rheoli perfformiad, gan gynnwys darparu adborth ar bob lefel, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn.

On quality assurance, again evidence received expressed concern that quality assurance in supply teaching was difficult to measure, particularly as there was no current quality mark or standard that supply agencies were required to meet. The committee believes that Welsh Government should consider whether the establishment of a Welsh quality mark would improve quality assurance.

If I turn to Welsh language supply provision, there was concern expressed about a general shortage of Welsh-medium supply teachers. Although much of the evidence we receive was anecdotal, it was suggested that, because Welsh-medium teacher training graduates were more able to find a permanent post, they were not entering the supply pool. It is vital that an accurate picture is gained of the effect of supply teaching through the Welsh medium, to enable appropriate action to be taken if necessary. The committee believes that Welsh-medium supply issues should be considered as part of the future thematic review of supply teaching that the Minister stated he would request from Estyn.

I mentioned earlier on the Welsh Government's new guidance on effective management of school workforce attendance as a way forward that may help towards resolving some of the issues identified in this inquiry. However, the committee believes that it is too soon to tell if the guidance will achieve its stated purposes and have a positive impact on the effective management of teacher absence. The committee therefore welcomes the Welsh Government's proposals to request the further thematic review on supply teaching by Estyn, at which time the effectiveness of the guidance can be assessed.

To conclude, then, Deputy Presiding Officer, as ever I'd like to thank those who gave evidence to the committee, particularly the young people themselves, as well as members of the committee and the clerking team who helped produce our report. I commend the report to the Assembly. Diolch yn fawr iawn.

Ar sicrhau ansawdd, unwaith eto roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn mynegi pryder ei bod yn anodd mesur sicrwydd ansawdd gwaith athrawon cyflenwi, yn enwedig gan nad oedd unrhyw nod neu safon ansawdd cyfredol yr oedd yn ofynnol i asiantaethau cyflenwi ei fodloni. Cred y pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai sefydlu nod ansawdd ar gyfer Cymru yn gwella sicrwydd ansawdd.

Os caf droi at ddarpariaeth gwaith cyflenwi yn y Gymraeg, mynegwyd pryder ynghylch prinder cyffredinol o athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg. Er bod llawer o'r dystiolaeth a gawn yn anecdotaidd, oherwydd bod graddedigion hyfforddiant athrawon cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o allu dod o hyd i swydd barhaol, awgrymwyd nad oeddent yn mynd i mewn i'r gronfa o athrawon cyflenwi. Mae'n hollbwysig cael darlun cywir o effaith gwaith cyflenwi cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd os oes angen. Cred y pwyllgor y dylid ystyried materion cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r adolygiad thematig o waith cyflenwi yn y dyfodol y dywedodd y Gweinidog y byddai'n gofyn amdano gan Estyn.

Soniais yn gynharach am ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar reolaeth effeithiol ar bresenoldeb y gweithlu ysgolion fel ffordd ymlaen a allai helpu i ddatrys rhai o'r materion a nodwyd yn yr ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn credu ei bod yn rhy fuan i ddweud a fydd y canllawiau'n cyflawni eu dibenion datganedig ac yn effeithio'n gadarnhaol ar reoli absenoldeb athrawon yn effeithiol. Mae'r pwyllgor felly yn croesawu argymhellion Llywodraeth Cymru i ofyn am yr adolygiad thematig pellach ar waith athrawon cyflenwi gan Estyn, ac ar yr adeg honno, bydd modd asesu effeithiolrwydd y canllawiau.

I gloi, felly, Ddirprwy Lywydd, fel bob amser, hoffwn ddiolch i'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, yn enwedig y bobl ifanc eu hunain, yn ogystal ag aelodau o'r pwyllgor a'r tîm clerico a helpodd i lunio ein hadroddiad. Cymeradwyaf yr adroddiad i'r Cynulliad. Diolch yn fawr iawn.

16:12

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to be given the opportunity to speak on another report by the Children, Young People and Education Committee. This shows that it has been consistently effective in scrutinising the Welsh Government, something the Minister for education himself has said. The Chair of the committee has actually very succinctly gone through the majority of the recommendations, so rather than read what I put down here, what I'd like to say is that —. I feel I ought to declare an interest, Deputy Presiding Officer, because I have two children, one at secondary school and one at primary school. For me, it's about the effects that having supply teachers has on children's education. I actually responded to this inquiry as a parent, and I absented myself from much of the inquiry when the evidence was taken, because I had given such evidence.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad ar adroddiad arall gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Dengys ei fod wedi bod yn effeithiol yn gyson wrth graffu ar Lywodraeth Cymru, rhywbeth y mae'r Gweinidog addysg ei hun wedi'i ddweud. Mewn gwirionedd, mae Cadeirydd y pwyllgor wedi mynd drwy'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn gryo iawn, felly yn hytrach na darllen beth a roddais i lawr yma, yr hyn yr hoffwn ei ddweud yw—. Rwy'n teimlo y dylwn ddatgan buddiant, Ddirprwy Lywydd, gan fod gennyf ddaau o blant, un yn yr ysgol uwchradd ac un yn yr ysgol gynradd. I mi, mae'n ymwneud ag effeithiau cael athrawon cyflenwi ar addysg plant. Ymatebais i'r ymchwiliad hwn fel rhiant mewn gwirionedd, ac ymesgusodais o lawer o'r ymchwiliad pan oedd y dystiolaeth yn cael ei chymryd, gan fy mod wedi rhoi tystiolaeth o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will just speak from personal experience. I was very surprised to see how my youngest child, who had always done extremely well at primary school, really suffered in the year that she had a string of supply teachers. It wasn't just her. I also speak on behalf of the majority of her classmates, because they didn't just have one supply teacher that came in and looked after them for a week, or two weeks. It was a very long period of time, and they had one supply teacher for a few days, one supply teacher for the middle day, and then another supply teacher for the end of the week. So, they had three different people. It was very interesting, when I was reading the witnesses that the rest of the committee saw, and of course the report that we've put forward, to see that the children themselves—and I quote here—80 per cent of the pupils who responded to the committee's survey on supply teachers said

'they learnt less with a supply teacher than with their usual class teacher.'

The same proportion of respondents said that their behaviour was worse when taught by a supply teacher. One of the reasons behind these numbers is that pupils do not feel challenged by the work given to them by the supply teachers, and a lot of the time a lot of the work is time filling rather than real learning. I found that, again with my own particular experience and my daughter's friends, they would be given homework by teacher A, but teachers B and C then took over for the rest of the week and they had no-one to give that work in to and no-one to monitor it.

The other thing that became very apparent was that the rate of bullying went up. Now, I'm not talking about big bullying, I'm talking about bullying with a very small 'b'. This was classroom joshing that went just that little bit too far. Again, this comes back to the supply teachers not knowing the characters so well and not having that opportunity. So, I think that there's a very, very clear correlation between what a child learns and how they get on at school and the relationship that they build with their teacher. At primary school age, it is particularly of import.

The other area that really came out when I read the witnesses—and again it's connected with this—is the impact that then has on teachers who work in areas of disadvantage and on the young people who are in more disadvantaged areas. They found it even harder still to cope with a supply teacher. The levels of attainment were not picked up and, again, that whole problem was compounded.

Rwyf am siarad o brofiad personol. Roeddwn yn synnu'n fawr wrth weld sut yr oedd fy mhlentyn ieuengaf, a oedd bob amser wedi gwneud yn dda iawn yn yr ysgol gynradd wedi dioddef go iawn yn ystod y flwyddyn y cafodd gyfres o athrawon cyflenwi. Nid hi'n unig a ddiodeffodd. Rwyf hefyd yn siarad ar ran y rhan fwyaf o'i chyd-ddisgyblion, gan nad un athro cyflenwi yn unig a ddaeth i mewn i edrych ar eu holau am wythnos, neu bythefnos. Roedd yn gyfnod hir iawn o amser, ac roeddent yn cael un athro cyflenwi am rai dyddiau, un athro cyflenwi ar gyfer y diwrnod canol, ac yna athro cyflenwi arall ar gyfer diwedd yr wythnos. Felly, roeddent yn cael tri o bobl wahanol. Pan oeddwn yn darllen y dystiolaeth a welodd gweddill y pwyllgor, a'r adroddiad a gyflwynwyd gennym wrth gwrs, roedd yn ddiddorol iawn gweld bod y plant eu hunain—ac rwy'n dyfynnu yn y fan hon—fod 80 y cant o'r disgyblion ac ymatebodd i arolwg y pwyllgor ar athrawon cyflenwi wedi dweud

'eu bod wedi dysgu llai gydag athro cyflenwi nag yr oeddent gyda'u athro dosbarth arferol.'

Dwydodd yr un gyfran o ymatebwyr fod eu hymddygiad yn waeth wrth gael eu dysgu gan athro cyflenwi. Un o'r rhesymau wrth wraidd y rhifau hyn yw nad yw disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu herio gan y gwaith a roddir iddynt gan yr athrawon cyflenwi, ac yn aml iawn, llenwi amser y mae llawer o'r gwaith yn hytrach na dysgu go iawn. Unwaith eto yn fy mhrofiad fy hun a ffrindiau fy merch, canfûm y byddent yn cael gwaith cartref gan athro A, ond byddai athrawon B a C yn cymryd drosodd am weddill yr wythnos ac nid oedd gan y plant neb i roi'r gwaith iddynt a neb i'w fonitro.

Y peth arall a ddaeth yn amlwg iawn oedd bod cyfraddau bwlio wedi codi. Nawr, nid wyf yn siarad am fwlio mawr, rwy'n siarad am fwlio gyda 'b' fach iawn. Cellwair ystafell ddoosbarth a âi ychydig bach yn rhy bell oedd hwn. Unwaith eto, daw'n ôl at athrawon cyflenwi nad oeddent yn adnabod y cymeriadau cystal â hynny ac nad oeddent yn cael y cyfle hwnnw. Felly, rwy'n meddwl fod yna gydberthynas glir iawn rhwng yr hyn y mae plentyn yn ei ddysgu a sut y mae'n dod yn ei flaen yn yr ysgol a'r berthynas y mae'n ei hadeiladu â'i athro. Mae'n bwysig iawn i blant oed ysgol gynradd.

Y maes arall a ddaeth yn amlwg iawn pan oeddwn yn darllen dystiolaeth y tystion—ac mae'n gysylltiedig â hyn eto—yw'r effaith y mae hynny wedyn yn ei chael ar athrawon sy'n gweithio mewn ardaloedd difreintiedig ac ar y bobl ifanc sydd mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Roeddent yn ei chael hi'n anos fyth ymdopi gydag athro cyflenwi. Ni châr'r lefelau cyrhaeddiad eu nodi ac unwaith eto, roedd yr holl broblem honno'n gwaethygu.

So, whilst the Chair's very clearly gone through the rest of the recommendations, Minister, I think what I would like to do is just have your view, to someone like me who's a parent, who's been through this, and to all those parents out there, that supply teachers are very necessary. We have teachers who need time out for training and who obviously need time out for babies or because they're unwell or because we have quite high levels of stress, or we have schools where they find it very hard to recruit teachers. So, we need supply teachers. They're very, very vital—a fundamental part of our education system. But how do we ensure that they feel knitted into the school? How do we believe that they can be really knitted into the pupils that they are looking after so that there's consistency and coherency so that those are not wasted days at school but instead they're still valuable for those young pupils? Thank you.

Felly, er ei bod yn amlwg fod y Cadeirydd wedi mynd drwy weddill yr argymhellion, Weinidog, rwy'n meddwl mai'r hyn yr hoffwn ei wneud yw cael eich barn, i rywun fel fi sy'n rhiant, sydd wedi bod drwy hyn, ac i'r holl rieni allan yno, fod athrawon cyflenwi yn angenrheidiol iawn. Mae gennym athrawon sydd angen amser i gael hyfforddiant ac sy'n amlwg angen amser i gael babanod neu oherwydd eu bod yn sâl neu oherwydd bod gennym lefelau eithaf uchel o straen, neu mae gennym ysgolion lle y maent yn ei chael yn anodd iawn recriwtio athrawon. Felly, mae arnom angen athrawon cyflenwi. Maent yn rhan hanfodol iawn—yn rhan sylfaenol o'n system addysg. Ond sut rydym yn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o wead yr ysgol? Sut y credwn y gallant gael ymgysylltiad go iawn â'r disgyblion y maent yn gofalu amdanynt fel bod cysondeb a chydlyniant er mwyn sicrhau nad yw'r dyddiau yn yr ysgol yn cael eu gwastraffu ond yn hytrach, eu bod yn werthfawr i'r disgyblion ifanc hynny? Diolch.

16:17

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddiolch hefyd i'r pwyllgor ac i'r clerc am y gwaith manwl a wnaethant yn edrych i mewn i athrawon cyflenwi? Rydych yn gallu gweld pa mor bwysig yr oedd e fod dros 20 o argymhellion o'r ffordd y gallem wella'r sefyllfa. Mae'n debyg—ac mae pawb, rwy'n credu, yn cytuno—nad yw pethau'n dda nawr.

Ond mae lle i ymfalchïo yn llwyddiant ein hysgolion ac yn y ffordd, ar y cyfan, y mae awdurdodau lleol yn gweithredu wrth gynnal a chynorthwyo ein hysgolion. Roedd adeg pan roedd awdurdodau addysg yn trefnu athrawon cyflenwi. Ar y cyfan, mae'r trefniadau erbyn hyn wedi cael eu preifateiddio. Yno, yn y byd addysg, cawn gipolwg ar y ffordd y gallwn ddatblygu yn y dyfodol heb strwythur democrataidd lleol. Nid yw'r darlun yn ffafriol o bell ffordd.

Lle mae athrawon cyflenwi yn y cwestiwn, yn rhy aml, annibyniaeth yw annibendod. Mae sôn wedi bod am raddfeydd cyflog rhanbarthol. Nid yw pethau'n argoeli'n dda os ydym yn gweld athrawon cyflenwi'n braenaru'r ffordd honno. Ar gyfartaledd, mae'r tâl a dderbynir gan athrawon cyflenwi Cymru yn is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

A gawn ni gyhoeddi yn blwmp ac yn blaen yn y Siambr hon nad yw athrawon cyflenwi yn berthnasau eilradd i weddill ein hathrawon? Maent yn haeddu'r un urddas proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd a'r cyfle i gael dyrchafiad, fel dywedodd y Cadeirydd yn gynharach. Rwy'n feirniadol ambell waith ein bod yn rhy aml yn edrych dros Glawdd Offa am ysbrydoliaeth. Serch hynny, a gaf i argymhell enghraifft Cyngor Sefton yn Lloegr? Yno, mae'r awdurdod yn rhedeg ei asiantaeth ei hun ar gyfer athrawon cyflenwi. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyngor Belfast yn cadw cofrestr o athrawon cyflenwi ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn derbyn y tâl sy'n unol â'u cymwysterau a'u profiad, a hefyd yn rhan o gynllun pensiwn yr athrawon ac yn derbyn hyfforddiant proffesiynol. Rwy'n credu bod y ddau beth yna, Sefton a Belfast, yn dangos ffordd inni gefnogi ein hathrawon cyflenwi.

May I also thank the committee and the committee clerk for the detailed work undertaken in looking into the issue of supply teaching? You can see how important it was that over 20 recommendations were made in terms of how we can improve the situation. I think everyone is agreed that things aren't particularly positive now.

But there is room to take pride in the success of our schools and in the way in which local authorities, generally speaking, are maintaining and supporting our schools. There was a time when education authorities actually arranged supply teaching. Generally speaking, those arrangements have been privatised. Now, in education, we see a glimpse of how we could develop in the future if we don't have a structure of local democracy, and the picture isn't positive, by a long straw.

Where supply teachers are concerned, all too often, independence leads to problems, and there's been talk of regional pay scales. Well, things don't bode well if we see supply teachers actually preparing the ground for that. Generally speaking, the wages paid to supply teachers in Wales are lower than in the rest of the United Kingdom.

Let's state quite clearly in this Chamber this afternoon that supply teachers aren't second-class citizens in comparison with the rest of our teachers. They deserve the same professional dignity, including CPD and opportunities for promotion, as the Chair said earlier. I am occasionally critical that we too often look over Offa's dyke for inspiration. However, let me recommend the example set by Sefton Council in England. There, the authority runs its own agency for supply teachers. In Northern Ireland, Belfast council keeps a register of supply teachers and ensures that they receive the pay that corresponds to their experience and qualifications, and they are part of the teachers' pension scheme and receive CPD. I think that those two examples, Sefton and Belfast, do actually show the way for us to support our supply teachers.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hoffwn weld cofrestr genedlaethol dros Gymru benbaladr. Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol a oedd ymysg sylfaenwyr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Dyma'r ffordd ymlaen—nid dyfodol sy'n cynnig elw i'r person yn y canol, ond sylfaen â'i wreiddiau yn nhraddodiad cenedlaethol democrataidd Cymru.

Arwyddair Cymdeithas Bêl-droed Cymru—rydych wedi fy nghlywed yn dweud hyn o'r blaen—yw: 'Gorau chwarae, cyd chwarae'. Nid yng nghwpan Ewrop yn Ffrainc yn unig y bydd hynny'n berthnasol, ond yn ein byd addysg yn ogystal. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn cael ei dderbyn gan y Gweinidog ac y bydd yn edrych ar le mae pethau'n gallu gwella, achos, yn y pen draw, mae'n rhaid inni edrych ar ôl ein hathrawon cyflenwi, neu byddwn ni'n cael rhai o'r problemau yr oedd Angela Burns yn sôn amdanynt yn gynharach. Diolch.

I would like to see a national register for the whole of Wales. In Wales, the local authorities were among the founders of the WJEC. This is the way forward—not a future that makes profit for a middleman, but a base with its roots in the national democratic tradition of Wales.

You've heard me say this before, but the motto of the FAW is that team play is the best kind of play. That won't just be relevant in Euro 2016 in France, but also in education. I very much hope that our report will be adopted by the Minister and that he will look at where things can be improved, because, ultimately, we have to look after our supply teachers, or we will experience some of the problems that Angela Burns mentioned earlier. Thank you.

16:20

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch iawn i allu cyfrannu at y drafodaeth ar adroddiad pwysig iawn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg—adroddiad, wrth gwrs, sydd wedi ei gytuno gan bob plaid ar y pwyllgor hwnnw ac, oherwydd hynny, yn un pwerus, ond oherwydd hynny hefyd, wrth gwrs, nid yw cweit yn adlewyrchu yn llwyr yr hyn y mae Plaid Cymru yn meddwl am y sefyllfa. Felly, gan fod y Cadeirydd wedi gosod allan mor glir yr argymhellion a gytunwyd arny'n nhw gan bob plaid, rwyf am ganolbwyntio yn y ddadl yma ar yr agwedd y bydd Plaid Cymru yn ei chymryd yn yr etholiad ac yn y Cynulliad nesaf.

Nid oes dwywaith gennym ni, fel mae'r adroddiad yn ei ddweud, fod angen ailedrych yn llwyr ar y ffordd rydym yn cefnogi athrawon cyflenwi yng Nghymru. Byddai'n well gan Plaid Cymru weld un asiantaeth genedlaethol ar gyfer darparu athrawon cyflenwi, a gorau oll os yw'r asiantaeth yna'n un â seiliau cydweithredol gyda'r athrawon eu hunain, fel bod unrhyw elw yn cael ei ailgylchu i hyfforddi athrawon ac i dalu graddfeydd cyflog gwell ac ati. Wrth gwrs, nid oes rhaid mynd yn bell i weld hwn ar waith ar yr ynysoedd hyn, achos dyna beth sydd gyda chi yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r un asiantaeth yn darparu ar gyfer cenedl fach o 2 filiwn o bobl, ac mae gennym y gallu, rwy'n meddwl, i'w wneud e yn fan hyn.

I'm very pleased to be able to contribute to the debate on this very important report by the Children, Young People and Education Committee—a report, of course, that has been agreed by every party on that committee and, because of that, is a very powerful one, but also because of that doesn't quite reflect what Plaid Cymru thinks about the situation. So, because the Chair has set out so clearly the recommendations that were agreed by all parties, I want to focus in this debate on the aspects that Plaid Cymru will be focusing on in the election and in the next Assembly.

There's no doubt about it that, as the report says, we need to reconsider the way that we support supply teachers in Wales. Plaid Cymru would prefer to see one national agency for providing supply teachers, and it would be even better if that agency were to have a co-operative basis with the teachers themselves, so that any profit would be recycled into training teachers and into paying better wages and so on. Of course, you don't have to go far to see this in practice in these isles, because that's what you have in Northern Ireland, where there is one single agency providing for a small nation of 2 million people, and we have the ability, I believe, to do that here.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ar hyn o bryd, nid yw athrawon cyflenwi o reidrwydd yn cael unrhyw gyfraniadau pensiwn, ac nid ydynt yn cael y raddfa gyflog y byddai athro yn ei gael. Mae New Directions, rwy'n deall gan y rhai sy'n gweithio i New Directions, yn talu £90 y diwrnod, ac, wrth gwrs, yn codi ychydig mwy na £90 y diwrnod ar yr ysgol sy'n cyflogi'r person hwnnw. Rydym hefyd yn gweld bod asiantaethau fwyfwy—er bod yr adroddiad yma ynglŷn ag athrawon yn benodol—yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall o fanylion gan Gyngor y Gweithlu Addysg, hefyd bellach yn darparu rhai miloedd o gynorthwywyr dosbarth. A dweud y gwir, mae'r gwaith yn ehangu yn gyflym iawn ym maes cynorthwywyr dosbarth, yn fwy na gydag athrawon cyflenwi. Yn yr un cyd-destun, rydych wedyn yn cael athro—rhywun sydd wedi cymhwyso fel athro—yn cael ei dalu a'i ddefnyddio jest i fod yn cyfyr ac nid yn dysgu; rydych yn cael cynorthwywyr dosbarth yn gorfod gweithio gyda phlentyndod gydag anghenion jest ar y diwrnod, heb wybod dim. Mae'r hyn roedd Angela Burns yn ei amlinellu o ran plant eraill yn arbennig o wir ar gyfer plant sy'n fregus ac angen cefnogaeth benodol, wrth gwrs. Felly, un asiantaeth, un ddarpariaeth, un ffordd o wneud pethau, a chyflog teilwng ar gyfer hynny.

Yn sgil hynny, fe ddaw cyfle wedyn i ymwneud ag ail ran y gwendid mwyaf sydd gennym yn fan hyn, sef yr angen am hyfforddiant datblygu proffesiynol yn y maes yma. Mae'r Llywodraeth—ac rwy'n croesawu hyn—wedi bod yn siarad yn gyson yn ddiweddar ynglŷn â'r 'new deal', ynglŷn â'r ffaith bod angen i'r proffesiwn ddatblygu yn broffesiwn sy'n gosod ei safonau ei hunan, yn plismona'r safonau yna, ac wedyn yn gweithredu ar sail hynny. Ni fedrwn gyrraedd y nod os oes 10 y cant neu fwy o'r gweithlu yn gweithio trwy asiantaethau a ddim yn cael chwarae teg yn y maes yna. Fe welsom yn y pwyllgor mai ychydig iawn o hyfforddiant datblygu proffesiynol—a hynny'n elfennol iawn, a dweud y gwir—a oedd yn cael ei wneud gan yr asiantaethau. Pe bai corff mwy priodol ar gyfer Cymru, byddai modd cynnwys pob un wedyn, gan gynnwys rhai o'r cynorthwywyr dosbarth, hefyd, yn y maes yma.

Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, mewn ffordd, fod yn rhaid trin, yn fwyfwy, rwy'n meddwl, dysgu fel athro cyflenwi fel gyrfa. Dylai fod yn bosib i rywun ystyried gyrfa fel athro cyflenwi. Nid yw'n bosib ar hyn o bryd. A dweud y gwir, rydym yn dibynnu ar bobl sydd ar ddechrau eu gyrfa ac ar ddiwedd eu gyrfa i gynnal yr holl system yma. Ond meddyliwch chi, os ydym ni am weld y ddefnydd sydd gan y Gweinidog ar gyfer proffesiwn fel hyn yn dod i fodolaeth, byddai'n golygu lot o athrawon yn y dosbarth yn gorfod gadael y dosbarth ar gyfer hyfforddiant proffesiynol, nid jest ar y pum diwrnod sy'n cael eu caniatáu nawr, ond yn gyson, fel yn yr Alban, drwy'r wythnos, drwy'r misoedd a drwy'r tymor. Mae angen athrawon cyflenwi arnom ni, nid jest ar gyfer salwch, ond ar gyfer rhesymau datblygu'r gweithlu sydd yn gyflogedig. Ac felly rwyf am weld bod modd i rywun feddwl ac ystyried yn y tymor hir fod bod yn athro cyflenwi yn rhywbeth gwerth chweil—rhywbeth sy'n cyfrannu yn llawn at ein system addysg ni, ac nid rhywbeth rydych chi'n ei wneud tra'ch bod yn trio mynd yn athro neu pan fyddwch chi yn trio gadael ac ymddeol o fod yn athro.

At present, supply teachers don't necessarily receive any pension contributions, and they don't receive the wage rate that a teacher would receive. New Directions, I understand from those working for New Directions, pays £90 per day, and, of course, they charge slightly more than £90 of the school that employs that person. We also see that the agencies—even though this report is about teachers specifically—from the details that we've received from the Education Workforce Council, are increasingly also providing thousands of classroom assistants. Truth be told, the work is expanding very quickly in the area of teaching assistants, more so than with supply teachers. In the same context, you see a newly qualified teacher being paid just as cover and not to teach; you see classroom assistants having to work with children with needs just on the day, without knowing anything about the situation. What Angela Burns was saying in terms of other children is especially true for vulnerable children and those who need specific care, of course. So, one agency, one provision, one way of doing things, and a fair wage for doing that.

Following that, there will be an opportunity to look at the second part of the greatest weakness that we have here, which is the need for professional development training in this area. The Government—and I welcome this—has been speaking consistently recently about the new deal, about the fact that the profession needs to develop into a profession that sets its own standards, that polices those standards, and then implements and acts on that basis. We won't be able to achieve that aim if 10 per cent or more of the workforce are working through agencies and don't receive a fair deal in that regard. We saw in the committee that there is very little professional training—and that is very basic, truth be told—that was being offered by the agencies. If there were to be a more appropriate body for Wales, there would be a way of including everyone, including some of the classroom assistants also, in this area.

That means, of course, in a way, that we need to treat, increasingly, I think, supply teaching as a career. It should be possible for someone to consider being a supply teacher as a career. It's not possible at the moment. Truth be told, we are depending on people who are at the beginning of their career and at the end of their career to support this whole system. But think about it, if we want to see the ideal that the Minister has for a profession like this coming into existence, it would mean many teachers in the classroom having to leave the classroom for professional training, not just on the five days that are allowed now, but consistently, such as in Scotland, throughout the week, throughout the months and throughout the term. We need supply teachers, not just to cover illness, but for reasons of developing the workforce that is currently employed. And so I want to see a way for someone to consider in the long term being that being a supply teacher is something worth while—something that contributes fully to our education system, and not just something that you do while you're trying to become a teacher or when you're trying to leave and retire from being a teacher.

Rwy'n credu mai dyna beth sydd yn wynebu y Cynulliad nesaf a'r Llywodraeth nesaf. Rwy'n mawr obeithio, felly, y bydd yr adroddiad yma yn gam pwysig ymlaen i'r Llywodraeth nesaf fynd i'r afael â'r broblem yma.

I think that that is what is facing the next Assembly and the next Government. I very much hope, therefore, that this report will be an important step forward for the next Government to get to grips with this problem.

16:26

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to speak to the report on the issues of supply teaching, and put on record my thanks to the clerking team and the witnesses to the committee. I think the Chair of the committee has outlined in detail the issues that were raised in the committee, so I'll keep on a couple of points.

Rwy'n falch o siarad am yr adroddiad ar waith athrawon cyflenwi, ac i gofnodi fy niolch i'r tîm clericio a'r tystion i'r pwyllgor. Rwy'n meddwl bod Cadeirydd y pwyllgor wedi amlinellu'n fanwl y materion a grybwyllwyd yn y pwyllgor, felly cadwaf at un neu ddau o bwyntiau.

Supply teachers are a vital part of the education system here in Wales. Without them, we would see many children missing out on parts of their education on a daily basis. Almost a quarter of school pupils are taught by a supply teacher at least once a week, and 30 per cent are taught by different supply teachers each time. And whilst work is often left by teachers being covered, or heads of department tell the supply teacher what needs to be done, in reality we have seen many supply teachers facing challenging classes without the understanding and the context of the lessons being known. I hear from supply teachers who indicate pupils can often be unruly when they take over classes, and the level of support from heads of department and senior staff within the schools does vary dramatically, with one supply teacher telling me they had a chair thrown at them during a lesson she was covering. In addition, supply teachers are often not told about any learning, behavioural or medical conditions that pupils under their care may have, and this often leads to confusion, disorder and incidents such as that I've just noted.

Mae athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o'r system addysg yma yng Nghymru. Hebddynt, byddem yn gweld llawer o blant yn colli allan ar rannau o'u haddysg yn ddyddiol. Mae bron i chwarter y disgyblion ysgol yn cael eu haddysgu gan athro cyflenwi o leiaf unwaith yr wythnos, ac mae 30 y cant yn cael eu haddysgu gan wahanol athrawon cyflenwi bob tro. Ac er bod yr athrawon absennol yn aml yn gadael gwaith iddynt, neu fod pennaeth adran yn dweud wrth yr athro cyflenwi beth sydd angen ei wneud, mewn gwirionedd gwelsom lawer o athrawon cyflenwi yn wynebu dosbarthiadau heriol heb fod dealltwriaeth a chyddestun y gwersi yn hysbys iddynt. Rwy'n dlywed gan athrawon cyflenwi sy'n dynodi bod disgyblion yn aml yn gallu bod yn afreolus pan fyddant yn cymryd dosbarthiadau, a bod lefel y gefnogaeth gan benaethiaid adran ac uwch staff ysgolion yn amrywio'n helaeth iawn, gydag un athrawes gyflenwi yn dweud wrthyf fod cadair wedi'i thafu ati yn ystod gwrs roedd hi'n ei dysgu. Yn ogystal, yn aml ni ddywedir wrth athrawon cyflenwi am unrhyw gyflyrau dysgu neu gyflyrau ymddygiadol neu feddygol a allai fod gan ddisgyblion dan eu gofal, ac mae hyn yn aml yn arwain at ddryswch, anhrefn a digwyddiadau fel yr un a nodais yn awr.

At the outset, I wish to make clear that supply teachers want to teach. They do not want to be classroom supervisors. They want to use their pedagogical skills and help our children learn, but often face difficult behaviour and limited support. They simply want to be treated as equals to the permanent staff, especially in being respected, supported and having the same terms of employment.

Ar y cychwyn, hoffwn ei gwneud yn glir fod athrawon cyflenwi eisiau dysgu. Nid ydynt am fod yn oruchwylwr ystafell ddosbarth. Maent yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau addysgu a helpu ein plant i ddysgu, ond yn aml maent yn wynebu ymddygiad anodd a chymorth cyfyngedig. Yn syml iawn, maent eisiau cael eu trin yn gyfartal â staff parhaol, yn enwedig o ran cael eu parchu, eu cefnogi a chael yr un telerau cyflogaeth.

The current supply teacher system has effectively created a privatised approach, with agencies filling the gap that local authorities previously filled. There are over 40 supply teacher agencies in Wales, and often, in order to find continuous work, many supply teachers are working for more than one agency. This often results in teachers having to pay extra tax on a second job, as an associated discrepancy with their pay. And they often have to pay a fee to use a pay-as-you-earn company, and that money is taken from their pay, which is severely dented already by the supply agencies taking their cut, as Simon Thomas has highlighted already in that case.

Mae'r system bresennol o athrawon cyflenwi wedi creu dull wedi'i breifateiddio i bob pwrpas, gydag asiantaethau'n llenwi'r bwch roedd awdurdodau lleol yn ei llenwi'n flaenorol. Mae yna dros 40 o asiantaethau athrawon cyflenwi yng Nghymru, ac yn aml, er mwyn dod o hyd i waith parhaol, mae llawer o athrawon cyflenwi'n gweithio i fwy nag un asiantaeth. Mae hyn yn aml yn arwain at athrawon yn gorfod talu treth ychwanegol ar ail swydd fel anghysonder sy'n gysylltiedig â'u cyflog. Ac yn aml, rhaid iddynt dalu ffi i ddefnyddio cwmni talu wrth ennill, a chaiff yr arian hwnnw ei gymryd o'u cyflog, sydd wedi cael ergyd ddifrifol eisoes gan yr asiantaethau cyflenwi'n cymryd eu dogn hwy, fel y mae Simon Thomas wedi nodi'n barod yn yr achos hwnnw.

And currently, through the National Procurement Service, the New Directions agency has been given a framework agreement, which runs until August 2018, from which stems a strong encouragement to local authorities and schools to use this particular agency in all 22 local authorities in Wales.

I welcome the Government's response to recommendation 1 that a further thematic review will be carried out by Estyn, because I have great concerns about the current model, and I am against the policy of having a single supply agency across Wales, which effectively acts as the go-to provision of supply teachers. And I have been informed by the National Union of Teachers' representatives in my own constituency that a teacher on supply was effectively told: 'Join New Directions or don't get supply work.' That cannot be the case and should not be the case. I'm, in fact, against the concept of private supply agencies delivering such an important service in our education system.

I believe that we should look at other examples, such as the Northern Ireland model, as mentioned. That has been extremely successful, where all supply teachers are registered on the Northern Ireland supply teacher register, an online web-based facility providing real-time booking systems and a regional central database for all substitute teachers in Northern Ireland. It allows schools to access the database at short notice in order to book substitute teachers. Payment for all approved periods of substitute teaching is then made on a monthly basis, and this allows supply teachers in Northern Ireland to actually have the same pay and conditions as teachers employed in the school. And don't forget the pension issues in relation to supply teachers, which this comes down to, because if you're not paid by a local education authority or a school, you are not necessarily involved in the pay and conditions agreement and the pension agreements.

The current system encourages the use of agencies. It results in less pay to supply teachers than their local authority-employed colleagues, and it even opens the use of Swedish derogation to avoid compliance with the agency worker regulations, which protect workers after 12 weeks in the same job. It's unfair and unjust.

The devolution of teachers' pay and conditions to the Assembly, as identified by Silk, would allow opportunities to ensure that all teachers are subject to the same pay and conditions and able to access the teachers' pension scheme. I look forward, perhaps, to the day when that may happen.

Ac ar hyn o bryd, drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, mae'r asiantaeth New Directions wedi cael cytundeb fframwaith, sy'n weithredol tan fis Awst 2018, ac ohono, deillia anogaeth gref i awdurdodau lleol ac ysgolion ddefnyddio'r asiantaeth benodol hon ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Rwy'n croesawu ymateb y Llywodraeth i argymhelliaid 1 y bydd Estyn yn cynnal adolygiad thematig pellach, oherwydd mae gennyf bryderon mawr ynghylch y model presennol, ac rwyf yn erbyn y polisi o gael un asiantaeth gyflenwi ledled Cymru, sy'n gweithredu i bob pwrpas fel yr unig ddarpariaeth i'w defnyddio ar gyfer athrawon cyflenwi. Ac rwyf wedi cael gwybod gan gynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn fy etholaeth fod athro a wnâi waith cyflenwi wedi cael gwybod i bob pwrpas y dylai ymuno â New Directions neu fethu â chael gwaith cyflenwi. Ni all hynny fod yn wir ac ni ddylai fod yn wir. Mewn gwirionedd, rwyf yn erbyn y cysyniad o asiantaethau cyflenwi preifat yn darparu gwasanaeth mor bwysig yn ein system addysg.

Credaf y dylem edrych ar enghreifftiau eraill, megis model Gogledd Iwerddon, fel y crybwyllwyd. Mae hwnnw wedi bod yn hynod lwyddiannus, lle y caiff yr holl athrawon cyflenwi eu cofrestru ar gofrestr athrawon cyflenwi Gogledd Iwerddon, cyfleuster ar-lein ar y we sy'n darparu systemau archebu amser real a chronfa ddata ganolog ranbarthol ar gyfer pob athro cyflenwi yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n galluogi ysgolion i gael mynediad i'r gronfa ddata ar fyr rybudd er mwyn archebu athrawon llanw. Yna gwneir taliad am bob cyfnod a gymeradwyir o waith cyflenwi ar sail fisol, ac mae hyn yn caniatáu i athrawon cyflenwi yng Ngogledd Iwerddon gael yr un tâl ac amodau ag athrawon a gyflogir yn yr ysgol mewn gwirionedd. A pheidiwch ag anghofio'r materion pensiwn mewn perthynas ag athrawon cyflenwi, sef yr hyn y mae'n ymwneud ag ef yn y bôn, oherwydd os na chewch eich talu gan awdurdod addysg lleol neu ysgol, nid ydych o reidrydd yn rhan o'r cytundeb tâl ac amodau a'r cytundebau pensiwn.

Mae'r system bresennol yn annog y defnydd o asiantaethau. Mae'n arwain at lai o dâl i athrawon cyflenwi na'u cydweithwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol, ac mae hyd yn oed yn agor y ffordd i ddefnydd o randdirymiad Sweden er mwyn osgoi cydymffurfio â'r rheoliadau gweithwyr asiantaethau, sy'n diogelu gweithwyr ar ôl 12 wythnos yn yr un swydd. Mae'n annheg ac yn anghyfiawn.

Mae datganoli tâl ac amodau athrawon i'r Cynulliad, fel y nododd Silk, yn caniatáu cyfleoedd i sicrhau bod pob athro'n cael yr un tâl ac amodau ac yn gallu ymuno â chynllun pensiwn yr athrawon. Edrychaf ymlaen, efallai, at y diwrnod pan fydd hynny'n digwydd.

We also looked at CPD for supply teachers. We must ensure that it's just the same quality and readily available in order for them to improve the quality of teaching and learning in the classrooms. We all want the quality of teaching to be the highest possible for our children. Recommendations 11 through to 18 address CPD. I won't go through them in detail because I've raised CPD on many occasions, but it's vital that our children in our schools are taught to the highest quality. It is vital that every teacher teaching our children, including supply teachers, have access to that quality CPD. It's vital that we support our newly qualified teachers as they progress through the system.

We must ensure that the Welsh Government urgently looks at the impact implications we have, and I urge the Government to actually take these report recommendations and act on them.

Edrychwyd hefyd ar DPP ar gyfer athrawon cyflenwi. Rhaid i ni sicrhau ei fod o'r un ansawdd ac ar gael yn rhwydd er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y dosbarthiadau. Rydym i gyd am i ansawdd yr addysgu fod mor uchel â phosibl i'n plant. Mae argymhellion 11 i 18 yn mynd i'r afael â DPP. Nid af drwyddynt yn fanwl oherwydd fy mod wedi crybwyll DPP ar sawl achlysur, ond mae'n hanfodol fod ein plant yn ein hysgolion yn cael addysg o'r ansawdd uchaf. Mae'n hanfodol fod pob athro sy'n addysgu ein plant, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn cael mynediad at DPP safonol o'r fath. Mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ein hathrawon sydd newydd gymhwyso wrth iddynt symud drwy'r system.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar frys ar oblygiadau'r effeithiau sydd gennym, ac rwy'n annog y Llywodraeth mewn gwirionedd i dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad ac i weithredu arnynt.

16:31

Aled Roberts [Bywgraffiad Biography](#)

A gaf i hefyd ddiolch i'r staff a phawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor? Rwy'n teimlo fy mod i wedi bod yn ymwneud ag athrawon cyflenwi am bron tair blynedd erbyn hyn, o achos mi oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar y sefyllfa ar ôl i ni gael cyhoeddiad adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013. Ond, mi oedd gwaith y pwyllgor plant yn adeiladu ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn flaenorol. Rwy'n meddwl bod y Cadeirydd, fel y mae nifer wedi dweud eisoes, wedi crybwyll y pethau a oedd yn ein pryderu ni, gan fwyaf.

Roedd gennym ni bryderon ynglŷn â data, y ffaith ei bod hi'n anodd iawn gweld beth yn union oedd y sefyllfa ac rwy'n meddwl, hyd yn oed ers i ni gyflawni'n gwaith, fod y sefyllfa wedi gwaethygu i ryw raddau o achos mi oedd adroddiadau yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru ac fe roddwyd y gorau i hynny yn 2013. Felly, hwyrach, pe baem ni'n mynd yn ôl at y sefyllfa byddem ni'n gweld ei bod wedi gwaethygu. Hefyd, roeddem ni, mae'n debyg, yn pryderu ynglŷn â'r hyn glywon ni ynglŷn â'r ffaith bod rhai penaethiaid ddim yn cynnal cyfweiliadau wrth i staff ddychwelyd i weld beth yn union oedd y problemau a oedd wedi achosi eu habsenoldeb yn y lle cyntaf.

May I also thank the staff and everyone who provided evidence to the committee? I feel that I've been dealing with the issue of supply teaching for almost three years now because the Public Accounts Committee looked at this situation when we received the Wales Audit Office report back in 2013. But the work of the Children, Young People and Education Committee did build on the work of the Public Accounts Committee. I believe that the Chair, as many people have already said, did mention our gravest concerns in this area.

We did have some concerns about data, and the fact that it was very difficult to identify what exactly the situation was. I think that, even since we completed our work, the situation has deteriorated because there were reports drawn together by the Welsh Government and that practice came to an end in 2013. So, perhaps if we returned to that situation, we would see that there has been some deterioration. Also, I was concerned about what we heard in relation to the fact that some headteachers don't actually hold return-to-work interviews when staff return from illness or absence to see what the problems were.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl bod cyfran fawr o'r gwaith yma yn dibynnu ar ba mor effeithiol ydy pennaeth o fewn ysgol—rhai o'r materion roedd Angela Burns yn sôn amdanynt—ond, fel dywedodd y Cadeirydd, mi oedd y Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau newydd ym mis Gorffennaf y llynedd, er mae'n debyg bod yr undebau'n teimlo nad yw'r canllawiau hynny yn mynd i'r afael efo'r broblem sylfaenol. Rwyf yn cytuno efo beth ddywedodd Keith Davies, Simon Thomas a David Rees: cafodd camgymeriad ei wneud wrth ailosod y cytundeb yma am dair mlynedd tra yr oeddem ni yn edrych ar y sefyllfa fel pwyllgor. Rwy'n meddwl bod y model yma o fasnachu addysg i ryw raddau yn gamgymeriad. Mae'n anodd i dderbyn fel athro neu athrawes eich bod chi'n derbyn tâl o £90 ac eto bod rhyw gwmni preifat yn derbyn llawer iawn mwy na hynny. Wrth gwrs, mae'r sefyllfa yn mynd i waethygu o achos mae Llywodraeth San Steffan erbyn hyn wedi dweud, o fis Ebrill eleni, mi fydd y gostyngiadau treth ar gyfer athrawon cyflenwi yn newid. Ar hyn o bryd mae'n bosib i chi ofyn am ryw fath o ostyngiad o ran treuliau teithio a hefyd prydau a phethau am eich bod chi'n athro cyflenwi. O fis Ebrill ymlaen, fe fydd hynny'n diflannu. Felly, bydd gennych lawer iawn yn llai yn eich poced na hyd yn oed y £90 roedd Simon Thomas yn cyfeirio ato.

Rwyf wedi cael yr un trafodaethau a Simon Thomas efo Cyngor y Gweithlu Addysg. Maen nhw wedi'u synnu bod 5,000 o gymorthyddion dosbarth erbyn hyn, wedi cofrestru efo nhw, sydd yn cael eu cyflogi gan asiantaethau. Felly nid ydym jest yn sôn am athrawon yma; rydym yn sôn am yr holl weithlu addysg. Dyna beth sy'n ein pryderu ni fel pwyllgor. Rwy'n meddwl bod angen i'r Llywodraeth ddweud wrthym yn union sut maen nhw'n mynd i ddelio efo sefyllfa athrawon newydd eu cymhwys o fewn y trefniadau hyn. Fe glywon ni dystiolaeth fod yna ganran cynyddol o athrawon newydd eu cymhwys sydd yn cael cytundebau cyflenwi yn unig, ac felly mae'r holl broblemau roeddem ni'n eu gweld ynglŷn â faint o hyfforddiant roedden nhw'n ei dderbyn yn y blynyddoedd cynnar hynny—y blynyddoedd lle mae eu proffesiynoldeb yn cael ei ffurfio—a sut yn union gallwn ni fynd i fynd i'r afael efo hynny.

Yn olaf, rwy'n meddwl bod nifer ohonom ni'n teimlo bod y model yng Ngogledd Iwerddon, y model cydweithredol yma—yr oedd Keith hefyd yn sôn am y Sefton—fod hynny, hwyrach, yn rhywbeth y mae angen inni ddechrau gweithio arno fo rŵan. Os ydym ni o ddifri yn y Cynulliad nesaf ac yn awyddus i weld model gwahanol, mae'n rhaid inni baratoi ar sail hynny.

Yn olaf, wrth gwrs, mae yna gyfrifoldeb ar y consortia i edrych ar ôl gwella safonau o fewn ein hysgolion ni, ac rwy'n meddwl bod angen iddyn nhw gael dealltwriaeth gyfan hefyd ynglŷn ag effaith athrawon cyflenwi, hwyrach, sydd yn cael eu penodi ar fyr rybudd mewn rhai ysgolion, ac effaith hynny ar safonau eu disgyblion nhw. Mi oedd y dystiolaeth oddi wrth y plant eu hunain yn eithaf cadarn, ac eto nid oedd yna lawer o arbenigwyr yn gallu dweud wrthym ba fath o effaith yr oedd hynny'n ei chael ar y disgyblion unigol yn y pen draw. Diolch.

I think much of this work depends on the effectiveness of headteachers—and those are some of the issues that Angela Burns mentioned—but, as the Chair said, the Government did issue new guidance in July of last year, although it appears that the unions didn't feel that that guidance got to grips with the fundamental problem. I do agree with what David Rees, Simon Thomas and Keith Davies said that a mistake was made in relaying this contract for three years whilst we as a committee were looking at the issue. I do think that this model of commercialisation of education is a mistake to an extent. It's difficult to accept as a teacher that you receive a rate of pay of £90 whilst a private company is receiving far more than that. And, of course, the situation will deteriorate because the Westminster Government has now stated that, from April of this year, the tax reductions for supply teachers will change. At the moment, it's possible for you to seek some sort of reduction in terms of travel costs and meals because you're a supply teacher, but, from April onwards, that will disappear. So, you will have far less in your pocket than that £90 that Simon Thomas referred to.

I've had the same discussions as Simon Thomas with the Education Workforce Council. They were surprised that 5,000 classroom assistants are now registered with them but are employed by agencies. So, we're not just talking about teachers here; we are talking of the whole education workforce, and that's what concerns us as a committee. I think that the Government needs to tell us exactly how they're going to deal with the situation of newly qualified teachers within these arrangements. We did hear some evidence that an increasing percentage of newly qualified teachers are given supply contracts only, and therefore all of the problems that we identified in terms of the training that they receive in those early years—the years when they are formed as professional teachers—and we need to address that issue and get to grips with it.

Finally, I think that many of us feel that the model in Northern Ireland, the co-operative model—Keith also mentioned Sefton—may be something that we now need to start working on here. If we are serious in the next Assembly and eager to see a different model, then we must prepare the ground for that.

Finally, of course, there is a responsibility on the consortia to sustain and improve standards in our schools, and I think that they need to have a comprehensive understanding as well of the impact of supply teachers who are appointed at short notice in some schools, and the impact of that on standards. The evidence from the children themselves was quite robust, yet there weren't too many experts who were able to tell us what impact that would have on individual pupils ultimately. Thank you.

I think this is a very important subject. I was a member of the Public Accounts Committee during its inquiry into supply teaching following the WAO report. I suppose one of the things that was most surprising was the extent to which supply teaching is being used, because it can't just be explained away by sickness absence; there seems to have been a general use of supply teaching that was worrying, so I hope that that has now been halted as a result of the Government's new guidance.

Clearly, some absence is predictable, but much of it is not. The things that are predictable are things like the time that teachers require to prepare their lessons, their continuous professional development and the supervision and observation of other teachers' practice, which is all part of the important ways of improving teaching and learning.

I think that cluster arrangements are a very good idea. At Ysgol Pen-y-Groes, which is a one-form-entry Welsh-medium primary school in Pentwyn, where I'm a governor, the school already develops common policies, common continuous professional development and observation of each other's teaching along with a whole group of other Welsh-medium schools, both primary and secondary. So, it's perfectly possible to share peripatetic teachers to cover both planned absence as well as occasional unplanned absences. I would've thought that was a very good way, either basing it around Welsh-medium requirements or around a cluster of nearby schools.

My own daughter is currently teaching three days a week, by personal choice, part-time in a primary school with a very high number of children with emotional and behavioural difficulties, as well as disadvantage. Although her core role is to work with those whose learning is falling behind their chronological age, she's not infrequently asked to cover whole-class teaching for absence through sickness at a moment's notice. As an experienced teacher, this is something that she is well able to do, and in a school with well-organised lesson plans, this shouldn't be a significant problem. This works well in those schools, but all too often supply teaching involves the least experienced teachers with little or no access to continuous professional development, and there has to be some concern around the possible prevalence of the use of supply teaching in disadvantaged areas, which I hope the Minister will look into further.

In schools that are struggling to deliver because of poor leadership and poor teaching and learning, we can have a perfect storm of disadvantage where learning objectives are not met, pupils' progress is halted or reversed and behaviour deteriorates to such an extent that it calls into question whether pupils are safe and, indeed, the wellbeing of the teacher who is being supplied. I would be interested to know what the fallout is of NQTs who only ever experience supply teaching, because I would regard supply teaching as one of the most difficult forms of teaching. It seems to me a waste of resources if NQTs are only being used in this way, and who, obviously, in many cases, will give up, thinking that this is just too much of a challenge.

Rwy'n credu bod hwn yn bwnc pwysig iawn. Roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod ei ymchwiliad i waith cyflenwi yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n debyg mai un o'r pethau a oedd y peri fwyaf o syndod oedd i ba raddau y defnyddir gwaith athrawon cyflenwi, oherwydd ni ellir ei egluro drwy gyfeirio at absenoldeb oherwydd salwch yn unig; ymddengys bod defnydd cyffredinol yn cael ei wneud o waith cyflenwi ac roedd hynny'n peri pryder, felly gobeithiaf fod hynny bellach wedi'i atal o ganlyniad i ganllawiau newydd y Llywodraeth.

Yn amlwg, mae modd rhagweld peth absenoldeb, ond mae llawer ohono na ellir ei ragweld. Y pethau sy'n rhagweldadwy yw pethau fel yr amser y mae athrawon ei angen i baratoi eu gwersi, eu datblygiad proffesiynol parhaus a goruchwyllo ac arsylwi ar ymarfer athrawon eraill, ac mae hyn oll yn rhan o'r ffyrdd pwysig o wella addysgu a dysgu.

Credaf fod trefniadau clwstwr yn syniad da iawn. Yn Ysgol Pen-y-Groes, sy'n ysgol gynradd un dosbarth mynediad Cymraeg ei chyfrwng ym Mhentwyn, lle rwy'n llywodraethwr, mae'r ysgol eisoes yn datblygu polisiau cyffredin, datblygu proffesiynol parhaus cyffredin ac arsylwi addysgu ei gilydd gyda grŵp cyfan o ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, cynradd ac uwchradd. Felly, mae'n gwbl bosibl rhannu athrawon peripatetic i gyflenwi dros absenoldeb a gynlluniwyd yn ogystal ag absenoldebau heb eu cynllunio yn achlysurol. Byddwn wedi meddwl bod honno'n ffordd dda iawn, naill ai drwy ei seilio ar ofynion cyfrwng Cymraeg neu ar glwstwr o ysgolion cyfagos.

Ar hyn o bryd mae fy merch yn addysgu dri diwrnod yr wythnos, o'i dewis ei hun, yn rhan-amser mewn ysgol gynradd gyda nifer uchel iawn o blant ag anawsterau emosïynol ac ymddygiadol, yn ogystal ag anfantais. Er mai ei rôl greiddiol yw gweithio gyda rhai y mae eu dysgu yn llithro ar ôl eu hoedran cronolegol, nid yn anfynych gofynnir iddi gyflenwi dros absenoldeb ar fyr rybudd ac addysgu dosbarth cyfan. Fel athrawes brofiadol, mae hyn yn rhywbeth y mae hi'n gallu ei wneud yn dda, ac mewn ysgol gyda chynlluniau gwersi wedi'u trefnu'n dda, ni ddylai hon fod yn broblem fawr. Mae'n gweithio'n dda yn yr ysgolion hynny, ond yn rhy aml mae gwaith cyflenwi yn ymwneud â'r athrawon lleiaf profiadol gydag ond ychydig o fynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus, os o gwbl, ac mae'n rhaid bod rhywfaint o bryder ynglŷn â nifer yr achosion posibl o'r defnydd o waith athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych ymhellach ar hynny.

Mewn ysgolion sy'n cael trafferth i gyflawni oherwydd arweinyddiaeth wael ac addysgu a dysgu gwael, gallwn wynebu storm berffaith o anfantais lle nad yw amcanion dysgu yn cael eu bodloni, caiff cynnydd disgyblion ei atal neu ei wrthdroi a gall ymddygiad ddirywio i'r fath raddau fel bod amheuaeth ynglŷn â diogelwch disgyblion ac yn wir, lles yr athro cyflenwi. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod faint o athrawon newydd gymhwys sydd ond yn cael profiad o waith cyflenwi, oherwydd byddwn yn ystyried gwaith cyflenwi fel un o'r mathau mwyaf anodd o addysgu. Mae'n ymddangos i mi yn wastraff adnoddau os yw athrawon newydd gymhwys ond yn cael eu defnyddio yn y ffordd hon, ac yn amlwg, mewn llawer o achosion, yn rhoi'r gorau iddi, gan feddwl ei bod yn ormod o her.

There are some very excellent supply teachers, and we absolutely want to applaud the work they do, but we simply won't recruit and retain good teachers as supply teachers unless we pay them properly. So, some of the work that's been done to unravel the work of both supply agencies and, I have to say, headteachers in allowing people to go on paying people well below the rate for the job in defiance of the European working time directive, by encouraging or forcing supply teachers to sign away their rights— It is something that I think should be outlawed. I've personally written to all the chairs of governors of all the schools in my constituency, and I'm sorry to say that not many of them have written back, because I fear that, in some cases, the senior management team have not enabled the chair of governors to actually see this letter, as there is, clearly, an issue around heads who are prepared to pay well below the rate for the job just because of their budget. So, I very much hope that the new arrangements that will come into place after 2018 will bear in mind the committee's recommendations, and ensure that we have good-quality supply teachers for the future.

Ceir rhai athrawon cyflenwi rhagorol iawn, ac rydym yn awyddus iawn i ganmol y gwaith a wnânt, ond yn syml iawn, ni fyddwn yn recriwtio a chadw athrawon da fel athrawon cyflenwi oni bai ein bod yn eu talu'n briodol. Felly, mae peth o'r gwaith a wnaed i ddatrys gwaith asiantaethau cyflenwi, a phenaethiaid mae'n rhaid i mi ddweud, yn caniatáu i bobl barhau i dalu llawer llai na'r gyfradd ar gyfer y swydd i bobl yn groes i'r gyfarwydddeb oriau gwaith Ewropeaidd, drwy annog neu orfodi athrawon cyflenwi i arwyddo i golli eu hawliau—. Mae'n rhywbeth rwy'n credu y dylid bod wedi'i wahardd. Rwyf wedi ysgrifennu'n bersonol at holl gadeiryddion llywodraethwyr yr holl ysgolion yn fy etholaeth, ac mae'n ddrwg gennyf ddweud nad oes llawer ohonynt wedi ysgrifennu'n ôl, oherwydd, mewn rhai achosion, rwy'n ofni nad yw'r uwch dîm rheoli wedi dangos y llythyr i gadeirydd y llywodraethwyr mewn gwirionedd, gan fod yna broblem, mae'n amlwg, gyda phenaethiaid sy'n barod i dalu llawer llai na'r gyfradd ar gyfer y swydd a hynny'n syml oherwydd eu cyllideb. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y trefniadau newydd a ddaw i rym ar ôl 2018 yn cadw argymhellion y pwyllgor mewn cof, ac yn sicrhau bod gennym athrawon cyflenwi o ansawdd da ar gyfer y dyfodol.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:41 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I begin by putting on record my thanks to the children and young people committee, and particularly the Chair, for both their inquiry and the subsequent report? As I stated to the committee in evidence, supply teachers form a significant and important part of the teacher workforce in Wales. It's important that we have the appropriate structures in place to support them in their role, and I believe that this report has helped us develop the robust evidence base that we need to make positive changes for the future, because change is needed.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy gofnodi fy niolch i'r pwyllgor plant a phobl ifanc, ac yn enwedig y Cadeirydd, am eu hymchwiliad ac am yr adroddiad dilynol? Fel y dywedais wrth y pwyllgor wrth roi tystiolaeth, mae athrawon cyflenwi yn rhan sylweddol a phwysig o'r gweithlu athrawon yng Nghymru. Mae'n bwysig fod gennym y strwythurau priodol ar waith i'w cefnogi yn eu rôl, a chredaf fod yr adroddiad hwn wedi ein helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth gadarn sydd ei hangen arnom i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol, gan fod angen newid.

I was pleased to see that many of the committee's recommendations fit closely with our own policy direction, and I'm pleased to be able to accept them all, at least in principle. Some do require further work and consideration, but I support the intent of the recommendations and welcome the support of the Assembly in taking the next steps towards a stronger structure for supply teachers across Wales.

Roeddwn yn falch o weld bod llawer o argymhellion y pwyllgor yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi ein hunain, ac rwy'n falch o allu derbyn pob un ohonynt, o leiaf mewn egwyddor. Mae rhai angen gwaith ac ystyriaeth bellach, ond rwy'n cefnogi bwriad yr argymhellion ac yn croesawu cefnogaeth y Cynulliad i roi'r camau nesaf ar waith tuag at sicrhau strwythur cryfach ar gyfer athrawon cyflenwi ar draws Cymru.

Our education system is undergoing profound change: the development of the new curriculum for Wales, the new deal for the education workforce and our work to transform initial teacher training are, taken together, the biggest package of reform in Welsh education since 1944. This changing context provides us with the opportunity to look at new and alternative delivery models for the provision of supply that will reflect the requirements of the new education system that we are forging. In addition to the work arising from the committee's report, there are broader issues for us to address when we consider how to create a more flexible and high-quality workforce for the future.

Mae ein system addysg yn newid yn sylfaenol: datblygiad y cwricwlwm newydd i Gymru, y fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg a'n gwaith i drawsnewid hyfforddiant cychwynnol athrawon, o'u cymryd gyda'i gilydd, yw'r pecyn mwyaf o ddiwygiadau addysg yng Nghymru ers 1944. Mae'r cyd-destun newidiol hwn yn rhoi cyfle inni edrych ar fodelau darparu newydd ac amgen ar gyfer darparu gwaith cyflenwi a fydd yn adlewyrchu gofynion y system addysg newydd rydym yn ei chreu. Yn ychwanegol at y gwaith sy'n codi o adroddiad y pwyllgor, mae yna faterion ehangach i ni fynd i'r afael â hwy pan fyddwn yn ystyried sut i greu gweithlu mwy hyblyg ac o ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol.

Members, of course, will already be aware that teachers' pay and conditions continue to be the responsibility of the UK Government. If pay and conditions were to be devolved, it would allow us to create a system that would reflect the value and regard in which we hold all our teachers here in Wales. The committee recommends looking at a range of options for the employment of supply teachers, and this complements our ongoing work on alternative delivery models across the public sector in Wales. The consultation on our action plan in response to the 'Is the feeling mutual?' report closed back on 13 January. I look forward to working through the responses in relation to the supply teaching model, which will help inform our longer term planning and provision for these public services. We will continue to look at national and international models of delivery to ensure that the structure of covering lessons in Wales supports the development of a high-quality, flexible teaching resource.

At the moment, a framework agreement is let by the national procurement service for the supply of temporary workers via a managed service provider. This framework agreement is in place, as Members have mentioned, until 2018. I must say, though, that schools do not have to wait until 2018 to consider and implement innovative, sustainable and inclusive cover arrangements. I would encourage them to do this now, most particularly, of course, our new deal pioneer schools, which should be considering all these options very deeply.

Schools do have a range of options available to them when considering how to cover lessons. Headteachers and governors should explore the alternative options, as set out in our guidance document, when planning cover arrangements. I would like to see more innovation from schools in this area.

It is worth reminding ourselves at this point, I think, in terms of the points raised by Angela Burns, Keith Davies and David Rees, in particular, that there was no Welsh Government decision to head towards the model of supply teaching that we have in schools presently. This was a system made by local authorities, and these were choices made by headteachers. These are decisions and choices that can be unmade by local authorities and headteachers. I think the role of the Welsh Government here is to hold up better examples in ways of working to give those stakeholders confidence in the potential of a better system. In the meantime, we will work with those who provide supply teachers in our classrooms to ensure that they implement performance management systems that benefit the teacher, the schools, and, ultimately, the learners. As recommended, we will ensure that our guidance document is strengthened in this regard.

Wrth gwrs, bydd yr Aelodau eisoes yn ymwybodol fod tâl ac amodau athrawon yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Pe bai tâl ac amodau yn cael eu datganoli, byddai'n caniatáu i ni greu system a fyddai'n adlewyrchu'r gwerth a'r parch sydd gennym tuag at ein holl athrawon yma yng Nghymru. Mae'r pwyllgor yn argymhell edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi, ac mae hyn yn ategu ein gwaith parhaus ar fodolau cyflawni amgen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad ar ein cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad 'Ai cyfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?' i ben ar 13 Ionawr. Edrychaf ymlaen at weithio drwy'r ymatebion mewn perthynas â'r model gwaith cyflenwi, a fydd yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth yn y tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus hyn. Byddwn yn parhau i edrych ar fodolau cyflawni cenedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod strwythur cyflenwi gwersi yng Nghymru yn cefnogi datblygu adnodd addysgu hyblyg o ansawdd uchel.

Ar hyn o bryd, mae cytundeb fframwaith yn cael ei osod gan y gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer cyflenwi gweithwyr dros dro drwy ddarparwr gwasanaeth a realir. Mae'r cytundeb fframwaith yn ei le, fel y mae Aelodau wedi sôn, tan 2018. Rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, nad oes rhaid i ysgolion aros tan 2018 i ystyried a gweithredu trefniadau cyflenwi arloesol, cynaliadwy a chynhwysol. Byddwn yn eu hannog i wneud hyn yn awr, yn fwyaf arbennig, wrth gwrs, ein hysgolion arloesi y fargen newydd, a ddylai fod yn ystyried yr holl opsiynau hyn yn fanwl iawn.

Mae gan ysgolion ystod o ddewisiadau ar gael iddynt wrth ystyried sut i gyflenwi gwersi. Dylai penaethiaid a llywodraethwyr archwilio'r opsiynau amgen, fel y nodir yn ein dogfen ganllawiau, wrth gynllunio trefniadau cyflenwi. Hoffwn weld mwy o arloesi gan ysgolion yn y maes hwn.

Mae'n werth atgoffa ein hunain ar y pwynt hwn, rwy'n meddwl, am y pwyntiau a nododd Angela Burns, Keith Davies a David Rees, yn arbennig, na chafwyd unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth Cymru i anelu tuag at y model o waith cyflenwi sydd gennym mewn ysgolion ar hyn o bryd. System a wnaed gan awdurdodau lleol yw hon, a dewisiadau a wnaed gan benaethiaid. Mae'r rhain yn benderfyniadau ac yn ddewisiadau y gall awdurdodau lleol a phenaethiaid eu dad-wneud. Rwy'n meddwl mai rôl Llywodraeth Cymru yma yw cynnig enghreifftiau gwell o ffyrdd o weithio er mwyn rhoi hyder i'r rhanddeiliaid ym mhotensial system well. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gyda'r rhai sy'n darparu athrawon cyflenwi yn ein hystafelloedd dosbarth i sicrhau eu bod yn gweithredu systemau rheoli perfformiad sydd o fudd i'r athro, yr ysgolion, ac yn y pen draw, y dysgwyr. Fel yr argymhellwyd, byddwn yn sicrhau bod ein dogfen ganllawiau yn cael ei chryfhau yn hyn o beth.

The committee quite rightly highlights the importance of professional learning for supply teachers, and this is something that is essential for all education practitioners. It's important that every teacher takes responsibility for their career-long professional learning. The new deal will offer everyone, including supply teachers, an entitlement to access high-quality professional learning opportunities to develop their career. The future role of the Education Workforce Council, as the professional body for all teachers, including supply teachers, will be critical in supporting the delivery of many of the committee's recommendations, including access to that high-quality professional learning and any possible quality marking, as I've already spoken about in relation to the workforce council's future role.

Fundamental to delivering an excellent education system is ensuring that all of our education workforce feels highly valued and given the status it deserves. To underpin this work, I'd like to announce this afternoon that I am setting up a taskforce to consider future supply teacher delivery options for Wales. This is a sector issue and, as such, it's vital that employers, unions and key stakeholders actively contribute to the development of options for the future.

So, I want to thank the committee for its support in raising awareness of these issues, and I believe the evidence that's been collected does now provide a strong basis for work in this area as we move forward to a different future concerning supply teaching.

Mae'r pwyllgor yn ddigon teg yn amlygu pwysigrwydd dysgu proffesiynol i athrawon cyflenwi, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer pob addysgwyr. Mae'n bwysig fod pob athro yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol drwy gydol eu gyrfa. Bydd y fargen newydd yn cynnig hawl i bawb, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel er mwyn datblygu eu gyrfa. Bydd rôl y Cyngor Gweithlu Addysg yn y dyfodol, fel y corff proffesiynol ar gyfer yr holl athrawon, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn hanfodol i gefnogi'r broses o gyflawni llawer o argymhellion y pwyllgor, gan gynnwys mynediad at y ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ac unrhyw nodau ansawdd posibl, fel rwyf eisoes wedi sôn amdanynt mewn perthynas â rôl cyngor y gweithlu yn y dyfodol.

Mae sicrhau bod pawb o'n gweithlu addysg yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn cael y statws a haeddant yn allweddol i ddarparu system addysg ragorol. I ategu'r gwaith hwn, hoffwn gyhoeddi y prynhawn yma fy mod yn sefydlu tasglu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi i Gymru yn y dyfodol. Mae hwn yn fater ar gyfer y sector ac fel y cyfryw, mae'n hanfodol fod cyflogwyr, undebau a rhanddeiliaid allweddol yn mynd ati'n weithredol i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Felly, rwyf am ddiolch i'r pwyllgor am ei gefnogaeth yn codi ymwybyddiaeth am y materion hyn, ac rwy'n credu bod y dystiolaeth a gasglwyd yn rhoi sail gref yn awr ar gyfer gwaith yn y maes wrth i ni symud ymlaen i ddyfodol gwahanol o ran gwaith cyflenwi.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ann Jones to reply.

Ann Jones i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:48 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank those members of the committee who took part in this debate as well? I think it was quite clear that we're all singing from the same hymn sheet, which is quite good to do, I think, for a report—that everybody thinks the same way. Angela started off by talking from a parent's perspective, but I can remember being in school when they had supply teachers and I shudder to think how I treated some of those supply teachers. So, it's not always about how well the supply teacher can cope; it's whether they can cope with unruly people like me, but there you go.

I think we've all understood the experiences, and it was interesting to hear Jenny say as well from a PAC perspective how you'd looked at that, and certainly the way in which supply teaching was being used. I think what we're trying to do is say that we don't have a problem with supply teaching, but what we have a problem with is the way in which supply teachers were being treated.

Ie. Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i aelodau'r pwyllgor a gymerodd ran yn y ddatl hon hefyd? Rwy'n credu ei bod yn eithaf amlwg ein bod i gyd yn gweithredu fel un, sy'n beth da i'w wneud, rwy'n meddwl, ar gyfer adroddiad—fod pawb yn meddwl yr un ffordd. Dechreuodd Angela drwy siarad o safbwynt rhiant, ond gallaf gofio bod yn yr ysgol pan oedd ganddynt athrawon cyflenwi ac mae'n gas gennyf feddwl sut roeddwn yn trin rhai o'r athrawon cyflenwi hynny. Felly, nid yw bob amser yn ymwneud â pha mor dda y gall yr athro cyflenwi ymdopi; mae'n ymwneud ag a ydynt yn gallu ymdopi â phobl afreolus fel fi, ond dyna ni.

Rwy'n credu ein bod i gyd wedi deall y profiadau, ac roedd yn ddiddorol clywed Jenny yn dweud hefyd o safbwynt y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sut roeddech wedi edrych ar hynny, ac yn sicr ar y ffordd y câi gwaith athrawon cyflenwi ei ddefnyddio. Rwy'n credu mai'r hyn rydym yn ceisio ei wneud yw dweud nad oes gennym broblem gyda gwaith athrawon cyflenwi, ond yr hyn y mae gennym broblem yn ei glych yw'r ffordd roedd athrawon cyflenwi yn cael eu trin.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

It was good to hear the Minister say that change is needed and that he accepts all our recommendations—well, in principle, anyway. I mean, that's a good start; at least we're saying that we're on the same wavelength as the Minister and the Welsh Government, and that we, as a committee, also accept, Minister, that you are taking through one of the largest packages of reform in education that we probably will see. So, it's to say that we were trying to assist you in doing that, in a way, and trying to smooth the path, particularly so that supply teachers are not forgotten. Yes, it is the local authorities' choices to make, but we know the financial challenges that local authorities are under, despite the fact that we have protected school budgets in this Assembly. It's still very difficult for them to do that. But we welcome your taskforce on this again today.

All in all, I was proud of the report. I was proud of the way in which we dealt with that for supply teachers. I believe it's caused a bit of debate out there among teachers, among supply teachers, which is good, because then, hopefully, for your taskforce, Minister, we will be able to harness that further evidence from our findings into the taskforce, so that we, once and for all, can actually say that we do value supply teachers, which is something the committee was very keen to endorse. I know that you yourself have said that as well.

So, all in all, we look forward to the co-operative model that Simon and Keith referred to. Perhaps we could have—I don't know what we would call it—a Cymru model. I don't know. We can't call it just a Cardiff model, because we'd be accused of it being a south Wales one. That certainly won't do for Simon in the west or Keith in the west and me in the north. So, we'll have to think of something to call it. But nevertheless I think—[Interruption.] Sorry?

Roedd yn dda clywed y Gweinidog yn dweud bod angen newid a'i fod yn derbyn pob un o'n hargymhellion—wel, mewn egwyddor, beth bynnag. Hynny yw, mae'n ddechrau da; o leiaf rydym yn dweud ein bod ar yr un donfedd fel Gweinidog a Llywodraeth Cymru, a'n bod ni, fel pwyllgor, hefyd yn derbyn, Weinidog, eich bod yn cyflwyno un o'r pecynnau mwyaf o ddiwygiadau addysg rydym yn debygol o weld. Felly, mae'n dweud ein bod yn ceisio eich cynorthwyo i wneud hynny, mewn ffordd, ac yn ceisio llyfnhau'r llwybr, yn enwedig fel nad yw athrawon cyflenwi yn cael eu hanghofio. Ie, dewisiadau i'r awdurdodau lleol eu gwneud ydynt, ond gwyddom am yr heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, er gwaethaf y ffaith ein bod wedi diogelu cyllidebau ysgolion yn y Cynulliad hwn. Mae'n dal yn anodd iawn iddynt wneud hynny. Ond rydym yn croesawu gwaith eich tasglu ar hyn eto heddiw.

Ar y cyfan, roeddwn yn falch o'r adroddiad. Roeddwn yn falch o'r ffordd rydym wedi delio â hynny ar ran athrawon cyflenwi. Rwy'n credu ei fod wedi achosi tipyn o ddadlau ymhlith athrawon, ymhlith athrawon cyflenwi, sy'n beth da, oherwydd wedyn, gobeithio, ar gyfer eich tasglu, Weinidog, byddwn yn gallu cyfeirio'r dystiolaeth bellach honno o'n canfyddiadau at ddefnydd y tasglu, fel y gallwn ddweud, unwaith ac am byth, ein bod yn gwerthfawrogi athrawon cyflenwi, sy'n rhywbeth roedd y pwyllgor yn awyddus iawn i'w ategu. Rwy'n gwybod eich bod chi wedi dweud hynny eich hun hefyd.

Felly, ar y cyfan, rydym yn edrych ymlaen at y model cydweithredol y cyfeiriodd Simon a Keith ato. Efallai y gallem gael—nid wyf yn gwybod beth fyddem yn ei alw—model Cymru. Nid wyf yn gwybod. Ni allwn ei alw'n fodel Caerdydd, oherwydd byddem yn cael ein cyhuddo o'i wneud yn un ar gyfer de Cymru. Yn sicr ni fydd hynny'n gwneud y tro i Simon yn y gorllewin na Keith yn y gorllewin a minnau yn y gogledd. Felly, bydd yn rhaid meddwl am rywbeth i'w alw. Ond serch hynny rwy'n meddwl—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf?

16:51 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Clwyd model.

Model Clwyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:51 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Oh no, no, no. [Laughter.] No, no. I don't think so either, for that one. I just think that the way in which we have approached this, we've had some good evidence from teachers themselves, and some of them were very honest with us as well, so we're very grateful to them for putting that in. We hope now that we can move forward, and, as we look at the curriculum review and we look at the way in which the new deal does help teachers, that the supply teachers will be up there with those teachers, and that we will actually now get a workforce that, when they come in and they take over for a sickness or for an absence from the classroom, that will be a seamless transfer for our pupils.

O na, na, na. [Chwerthin.] Na, na. Nid wyf yn credu hynny chwaith. Rwy'n meddwl bod y ffordd rydym wedi ymdrin â hyn, rydym wedi cael tystiolaeth dda gan athrawon eu hunain, ac roedd rhai ohonynt yn onest iawn gyda ni yn ogystal, felly rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am hynny. Rydym yn gobeithio yn awr y gallwn symud ymlaen ac wrth i ni edrych ar yr adolygiad o'r cwricwlwm ac ar y ffordd y mae'r fargen newydd yn helpu athrawon, bydd yr athrawon cyflenwi i fyny yno gyda'r athrawon hynny, ac mewn gwirionedd fe gawn weithlu yn awr a fydd, pan ddônt i mewn i lanw dros salwch neu absenoldeb o'r ystafell ddosbarth, yn trosglwyddo'n llyfn ar gyfer ein disgyblion.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

At the end of the day, that's what we were looking for: to say that we value supply teachers, but that we also want to see that seamless transition from what is the full-time teacher going off and going to do continuous professional development and the supply teacher coming in. There should be no difference in the level of education or in the level of the pupils' behaviour, even if it means that people like me would have to have gone and sat in the corner to write lines. I did many of those in my career as a pupil, so —. I will continue to support teachers in the way in which we should value them. We should be looking forward to ensuring that they are—. Whether they choose to be part-time teachers, we should say, 'That's fine. There is a career for you as a part-time supply teacher. And, in the same way, you're valued as a teacher who works the five days and more on a permanent contract.' Thank you.

Yn y pen draw, am hynny roeddem yn chwilio: dweud ein bod yn gwerthfawrogi athrawon cyflenwi, ond ein bod hefyd yn awyddus i weld y trosglwyddo di-dor o'r adeg y bydd yr athro llawn amser yn mynd i wneud datblygiad proffesiynol parhaus a'r athro cyflenwi yn dod i mewn. Ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth yn lefel yr addysg neu lefel ymddygiad y disgyblion, hyd yn oed os yw'n golygu y byddai'n rhaid i bobl fel fi fynd i eistedd yn y gornel i ysgrifennu llinellau. Gwnes lawer o'r rheini yn fy ngyrfa fel disgybl, felly—. Byddaf yn parhau i gefnogi athrawon yn y ffordd y dylem eu gwerthfawrogi. Dylem edrych ymlaen at sicrhau eu bod yn—. Pa un a ydynt yn dewis bod yn athrawon rhan-amser ai peidio, dylem ddweud, 'Mae hynny'n iawn. Mae yna yrfa i chi fel athro cyflenwi rhan-amser. Ac yn yr un modd, rydych yn cael eich gwerthfawrogi fel athro sy'n gweithio pum niwrnod a mwy ar gytundeb parhaol.' Diolch.

16:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Children, Young People and Education Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

5. Dadl Plaid Cymru: Masnachfrait Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

The following amendments have been selected: amendments 1 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Paul Davies. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

5. Plaid Cymru Debate: The Wales and Borders Rail Franchise

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.

16:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is the Plaid Cymru debate: the Wales and Borders rail franchise. I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru: masnachfrait rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5952 Elin Jones

Motion NDM5952 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i ddatganoli manyleb a phroses gaffael masnachfrait nesaf rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

1. Welcomes the UK Government's intention to devolve the specification and procurement of the next Wales and Borders rail franchise.

2. Yn nodi â braw bwriad Llywodraeth y DU i ddileu rhai gwasanaethau o'r fasnachfrait honno cyn ei datganoli.

2. Notes with alarm the UK Government's intention to remove some services from that franchise prior to its devolution.

3. Yn nodi nad yw cyfyngiad o'r fath yn gymwys, ac ni fu'n gymwys, i'r fasnachfrait rheilffyrdd yn yr Alban.

3. Notes that such a restriction does not and has not applied to rail franchising with respect to Scotland.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

4. Yn credu y byddai ail-lunio map gwasanaethau masnachfaint Cymru a'r Gororau yn sylweddol yn tanseilio'r broses o ddatganoli swyddogaethau trafniadaeth ac yn niweidio buddiannau teithwyr rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau.

Cynigiwyd y cynnig.

4. Believes that radically re-drawing the service map of the Wales and Borders franchise would undermine the devolution of transport functions and harm the interests of rail passengers in Wales and the Borders.

Motion moved.

16:53

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fy mhleser i yw cyflwyno'r cynnig hwn yn enw Elin Jones. Rydym ni'n trafod mater heddiw o ddifrifoldeb mawr, sef dyfodol ein masnachfaint rheilffordd ni—masnachfaint Cymru a'r gororau, a bwriad Adran Drafniadaeth Llywodraeth Prydain i chwalu, 'fragment-io', y fasnachfaint honno. Rydym ni'n gwybod am y mater hwn ers cyhoeddi papur gorchymyn Bil Cymru. Mi godais y mater efo'r Gweinidog y llynedd. Rydym ni'n gwybod bod trafodaethau'n digwydd ers y llynedd, ond yn yr wythnosau diwethaf mae gwir fwriad yr Adran Drafniadaeth wedi dod yn glir, ac mae ein hofnau gwaethaf ni yn cael eu cadarnhau.

The all-Wales franchise was created by the UK Government in 2001 and awarded to the present company, Arriva, in 2003. It wasn't created or awarded by a devolved Government, but devolution was clearly the inspiration behind it, and the Assembly Government of the time warmly welcomed the move. The creation of the all-Wales franchise paved the way for the devolution of performance management and funding of the franchise in 2006, following the transport Act of the year previously. So, in 2006, the National Assembly and the Welsh Government of the time assumed responsibility for managing the Wales and borders franchise, although not at that point for its renewal or reprourement in future. That included—and includes—responsibility, of course, for services that go to destinations in England. The One Wales Government expanded rail services considerably, including services that run along the Welsh Marches line and stop at English stations. The current Government has also funded additional services to Shrewsbury from Aberystwyth, which Plaid Cymru campaigned for, so that's the background.

The previous intention of the UK Government, as we know from the wording of the command paper, was to specify that some services served English markets, and to remove them from the franchise map and re-assign them to rail franchises in England, overlooking the fact, of course, that these English franchises would in fact be running services into Wales, but our Welsh franchise would be prohibited from doing so. This is exactly the same attitude that we've seen in the Wales Bill. When the reserved-powers model was being drawn up, UK Government departments were asked to write down what they wanted to keep reserved, so we have a total failure of devolution policy here.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It's my pleasure to move this motion in the name of Elin Jones. We are discussing an issue of great seriousness this afternoon, and it's the future of our rail franchise—the Wales and borders franchise—and the intention of the Department for Transport in London to fragment that franchise. We've known of this issue since the publication of the Wales Bill command paper. I raised the issue with the Minister last year. We know that negotiations have been ongoing since last year, but it's only in the past few weeks that the real intentions of the Department for Transport have become clear and our worst fears are being realised.

Crëwyd masnachfaint Cymru gyfan gan Lywodraeth y DU yn 2001 a'i dyfarnu i'r cwmni presennol, Arriva, yn 2003. Ni chafodd ei chreu na'i dyfarnu gan Lywodraeth ddatganoledig, ond mae'n amlwg mai datganoli oedd yr ysbrydoliaeth yn sail iddi, a chafodd y newid groeso cynnes gan Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd. Roedd creu masnachfaint Cymru gyfan yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli rheoli perfformiad a chyllido'r fasnachfaint yn 2006, yn dilyn Deddf trafniadaeth y flwyddyn flaenorol. Felly, yn 2006, cymerodd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros reoli masnachfaint Cymru a'r gororau, er nad dros ei hadnewyddu neu ei hailgaffael yn y dyfodol ar y pwynt hwnnw. Roedd hynny'n cynnwys—ac mae'n cynnwys—cyfrifoldeb, wrth gwrs, dros wasanaethau sy'n mynd i gyrchfannau yn Lloegr. Ehangodd Llywodraeth Cymru'n Un y gwasanaethau rheilffyrdd yn sylweddol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n rhedeg ar hyd rheilffordd Gororau Cymru ac sy'n aros mewn gorsafoedd yn Lloegr. Mae'r Llywodraeth bresennol hefyd wedi ariannu gwasanaethau ychwanegol i'r Amwythig o Aberystwyth, yr ymgyrchodd Plaid Cymru drostynt, felly dyna'r cefndir.

Bwriad blaenorol Llywodraeth y DU, fel y gwyddom o'r geiriad yn y papur gorchymyn, oedd pennu bod rhai gwasanaethau yn gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr, a'u tynnu oddi ar fap y fasnachfaint a'u hailaseinio i fasnachfreintiau rheilffyrdd yn Lloegr, gan ddiystyru'r ffaith, wrth gwrs, y byddai'r masnachfreintiau Seisnig hyn mewn gwirionedd yn rhedeg gwasanaethau i mewn i Gymru, ond byddai ein masnachfaint Gymreig ni yn cael ei gwahardd rhag gwneud hynny. Dyma'n union yr un agwedd ag a welsom ym Mil Cymru. Pan oedd y model cadw pwerau yn cael ei lunio, gofynnwyd i adrannau Llywodraeth y DU ysgrifennu beth oeddent eisiau ei gadw'n ôl, felly mae'r polisi datganoli yn methu'n llwyr yn y fan hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, it now appears that the idea of defining English markets actually means any service that doesn't both start and end in Wales. The Holyhead to Cardiff service will be safe, but Holyhead to Manchester won't. Milford Haven to Manchester, running via Cardiff, would be taken away from Welsh Ministers, as would Aberystwyth to Birmingham international. Those services would presumably still operate under English franchises, but we would lose the revenue, we would have no influence over the services or the timetables, and there would be minimal co-ordination. The remaining Welsh franchise would be a hollow shell and we would probably have to cut public services further in order to fund it.

There is of course no such prohibition in Scotland. Even though the rail issues between Scotland and England are different, and there is a separate franchise for the sleeper train to London, that separate franchise is still under the control of Scottish Ministers. The idea of penalising Scotland in such a way is simply unthinkable, and while there is a political lesson there, no doubt, Wales will only be listened to if we unite on these issues.

When taken together, the threat to the Wales and borders franchise map deserves to be treated with the same seriousness with which we are treating the Wales Bill. The UK Government announcement on this clearly said that the Wales and borders franchise will be devolved. That implies the existing map. Losing Chester to Crewe, the shuttle there, may well make sense, as that is entirely in England, but we should be able to procure services for all other routes. Of course, we should have an open consultation mechanism for residents in England who can access our Welsh rail services, and, if necessary, that could be provided for in legislation. But to erode the franchise is to erode the future of rail in Wales.

Turning to the amendments, we accept the Liberal Democrat amendment, certainly. They highlight again the importance of the cross-border route to the Welsh franchise, and, more importantly, to passengers in Wales. The Conservative amendment deletes all of our concerns about the franchise. It is surprising and unfortunate, if I may say, to see them do that, because we want to have cross-party unity on this, and we think that is vital. We regret seeing that Conservative amendment today, because devolution of the rail franchise is the official policy of the Conservative UK Government—presumably the Welsh Conservative Assembly group too. It's very strange to have an amendment before us that suggests that there are no concerns about the franchise map.

Wel, ymddengys bellach fod y syniad o ddiffinio marchnadoedd Lloegr mewn gwirionedd yn golygu unrhyw wasanaeth nad yw'n dechrau ac yn gorffen yng Nghymru. Bydd gwasanaeth Caergybi i Gaerdydd yn ddiogel, ond nid gwasanaeth Caergybi i Fanceinion. Byddai gwasanaeth Aberdaugleddau i Fanceinion, yn rhedeg drwy Gaerdydd, yn cael ei gymryd oddi wrth Weinidogion Cymru, fel y byddai Aberystwyth i Birmingham International. Byddai'r gwasanaethau hynny yn ôl pob tebyg yn dal i weithredu o dan fasnachfreintiau Seisnig, ond byddem yn colli'r refeniw, ni fyddai gennym unrhyw ddylanwad dros y gwasanaethau na'r amserlenni, ac ni fyddai fawr ddim cydgysylltiad. Byddai masnachfrait Cymru sy'n weddill yn gragen wag ac mae'n debyg y byddai'n rhaid i ni dorri gwasanaethau cyhoeddus ymhellach er mwyn ei hariannu.

Wrth gwrs ni cheir unrhyw waharddiad o'r fath yn yr Alban. Er bod materion rheilffyrdd rhwng yr Alban a Lloegr yn wahanol, a masnachfrait ar wahân ar gyfer y trên cysgu i Lundain, mae'r fasnachfrait ar wahân honno'n dal i fod dan reolaeth Gweinidogion yr Alban. Mae'r syniad o gosbi'r Alban yn y fath fodd y tu hwnt i amgyffred yn llwyr, ac er bod gwers wleidyddol yno, yn ddiau, ni wrandewir ar Gymru oni bai ein bod yn uno ar y materion hyn.

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r bygythiad i fap masnachfrait Cymru a'r gororau yn haeddu cael ei drin gyda'r un difrifoldeb a ddangoswn tuag at Fil Cymru. Roedd cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar hyn yn dweud yn glir y bydd masnachfrait Cymru a'r gororau'n cael ei datganoli. Mae hynny'n awgrymu'r map presennol. Efallai'n wir fod colli Caer i Crewe, y trên gwennol yno, yn gwneud synnwyr, gan ei fod yn gyfan gwbl yn Lloegr, ond dylem allu caffael gwasanaethau ar gyfer pob llwybr arall. Wrth gwrs, dylem gael mecanwaith ymgynghori agored i breswylwyr yn Lloegr allu manteisio ar ein gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, ac os oes angen, gellid darparu ar gyfer hynny yn y ddeddfwriaeth. Ond mae erydu'r fasnachfrait yn gyfystyr ag erydu dyfodol rheilffyrdd yng Nghymru.

Gan droi at y gwelliannau, rydym yn derbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, yn sicr. Unwaith eto, maent yn amlygu pwysigrwydd y llwybr trawsffiniol i fasnachfrait Cymru, ac yn bwysicach, i deithwyr yng Nghymru. Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn dileu pob un o'n pryderon ynghylch y fasnachfrait. Os caf ddweud, mae'n syndod ac yn anffodus eu gweld yn gwneud hynny, gan ein bod yn awyddus i sicrhau undod trawsbleidiol ar hyn, ac rydym yn credu bod hynny'n hollbwysig. Rydym yn gresynu at y gwelliant hwnnw gan y Ceidwadwyr heddiw, gan mai datganoli masnachfrait y rheilffyrdd yw polisi swyddogol Llywodraeth Geidwadol y DU—a grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad hefyd, gellid tybio. Mae'n rhyfedd iawn cael gwelliant ger ein bron sy'n awgrymu nad oes unrhyw bryderon yn bodoli ynglŷn â map y fasnachfrait.

So, in conclusion, Plaid Cymru's key argument today is that radically redrawing the service map of the Wales and borders franchise would undermine the devolution of transport functions and harm the interests of rail passengers in Wales and the borders. We obviously still want the devolution of the franchise to go ahead. It's absolutely critical. There are examples both within the UK and even between European countries of cross-border services where revenues are split, and agreements are reached. We don't want another constitutional dispute. But such a constitutional dispute will happen anyway if this radical redesign goes ahead. When that dispute happens, we need to be very clear where the blame lies.

Finally, we call on the Welsh Government here to be clear with the National Assembly about the exact issues at stake as they understand them, the stage that we're at in terms of deliberations on the future of the franchise, and how serious the threat is to the integrity and the very future of the Wales and borders franchise.

Felly, i gloi, dadl allweddol Plaid Cymru heddiw yw y byddai ail-lunio radical ar fap gwasanaethau masnachfaint Cymru a'r gororau yn tanseilio datganoli swyddogaethau trafndiaeth ac yn niweidio buddiannau teithwyr rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau. Rydym yn amlwg yn dal i fod eisiau i ddatganoli'r fasnachfaint fynd yn ei flaen. Mae'n gwbl hanfodol. Ceir enghreifftiau yn y DU a hyd yn oed rhwng gwledydd Ewrop o wasanaethau trawsffiniol lle y caiff refeniw ei rannu, ac o lunio cytundebau. Nid ydym eisiau anghydfod cyfansoddiadol arall. Ond bydd anghydfod cyfansoddiadol o'r fath yn digwydd beth bynnag os yw'r ailgynllunio radical hwn yn mynd rhagddo. Pan fydd yr anghydfod hwnnw'n digwydd, bydd angen i ni fod yn glir iawn ar bwy y mae'r bai.

Yn olaf, galwn ar Lywodraeth Cymru yma i fod yn glir gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr union faterion sydd yn y fantol fel y maent yn eu deall, y cam rydym arno o ran trafodaethau ar ddyfodol y fasnachfaint, a pha mor ddifrifol yw'r bygythiad i uniondeb ac yn wir i ddyfodol masnachfaint Cymru a'r gororau.

16:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Eluned Parrott to move amendments 1 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Gwelliant 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn nodi pwysigrwydd cysylltiadau rheilffordd trawsffiniol i Fanceinion, Lerpwl a Birmingham i economïau gogledd a chanolbarth Cymru.

Notes the importance of cross-border rail connections to Manchester, Liverpool and Birmingham to the economies of north and mid Wales.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Gwelliant 3—Aled Roberts

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

Insert at end of point 2:

' yn enwedig cael gwared ar lwybrau trawsffiniol a all danseilio atyniad masnachol y fasnachfaint'.

' in particular the removal of cross-border routes which may undermine the commercial attractiveness of the franchise'.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 3.

Amendments 1 and 3 moved.

17:00

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'd like to thank Plaid Cymru for bringing this important debate today. Rail is critical to our future economic success and our hopes for driving down our carbon footprint by encouraging people to make more positive choices. Of the 20 million passenger journeys entirely within Wales, 8 million—or 40 per cent—terminate in Cardiff. It's vital to the local economy, and it's vital to the Welsh economy as well, that these routes are not only maintained but, I hope, will expand in the future. We need the levers of power devolved to Wales to control that. However, these current rumours are very disturbing.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Mae rheilffyrdd yn hanfodol i'n llwyddiant economaidd yn y dyfodol ac i'n gobeithion ar gyfer lleihau ein hól troed carbon drwy annog pobl i wneud dewisiadau mwy cadarnhaol. O'r 20 miliwn o deithiau a wneir yn gyfan gwbl yng Nghymru, mae 8 miliwn—neu 40 y cant—yn dod i ben yng Nghaerdydd. Mae'n hanfodol i'r economi leol, ac mae'n hanfodol i economi Cymru yn ogystal, nad cael eu cynnal yn unig y bydd y llwybrau hyn yn y dyfodol, ond y byddant yn cael eu hehangu, rwy'n gobeithio. Mae arnom angen i liferi pŵer gael eu datganoli i Gymru er mwyn rheoli hynny. Fodd bynnag, mae'r sibrydion cyfredol hyn yn peri pryder mawr.

More than 9 million journeys—so, that's more than the number terminating in Cardiff—begin or end their route in England. That cross-border traffic is critical to people living in Wales. I would make the case that that is the market for people living in Wales. The north Wales main line, the Heart of Wales line, the south Wales main line—they all link up down a spine of railway, which is the Marches line, which threads the border, as we know. But, devolving a network without devolving the spine that holds it together is a nonsense. We must make sure that our case, as we put it forward, is a robust one.

Plaid Cymru are correct, in Scotland, no services were removed from the franchise before devolution. But, it's not an entirely fair comparison, as the ScotRail franchise doesn't thread the border in the way that the Marches line does. In fact, only the London sleeper and an infrequent service to Newcastle crosses the border at all. So, I would suggest that we shouldn't be making a case on the comparison; we should be making a good case, a strong case, on its own terms.

Firstly, we must make the case that our cross-border services are critical to Wales's economic development, an area of devolved competence. Routes to Manchester, Liverpool and Birmingham are vital to the local economies of north and mid Wales. Any damage to them would hit Wales disproportionately. That's why we've laid our first amendment.

Secondly, damage to the effectiveness of the services is likely if we continue down this road and we push travellers back into their cars by splitting services. We know that when passengers have to change trains, they're much less likely to use that service. Separating the franchise could lead to a significantly worse service for those individuals. That would be catastrophic to the Welsh economy, for those who don't have the ability to make a choice of alternative transport, and it would be catastrophic to our carbon targets.

Thirdly, we have to look very closely at what the UK Government means when it announced, in February, its intention to transfer services primarily serving English markets into franchises that would remain under their control, after the Wales and borders franchise is devolved. As I suggest, those markets are largely Welsh ones, even when the line is in England. Although people may be starting or ending a journey in an English station, they may well have commuted to that station from a Welsh destination point.

Mae mwy na 9 miliwn o deithiau—felly, mae hynny'n fwy na'r nifer sy'n gorffen eu taith yng Nghaerdydd—yn dechrau neu'n gorffen eu taith yn Lloegr. Mae'r traffig trawsffiniol hwnnw'n hanfodol i bobl sy'n byw yng Nghymru. Byddwn yn dadlau mai dyna'r farchnad i bobl sy'n byw yng Nghymru. Prif reilffordd gogledd Cymru, rheilffordd Calon Cymru, prif reilffordd de Cymru—maent i gyd yn cysylltu i fyny ac i lawr asgwrn cefn o reilffordd, sef rheilffordd y Gororau, sy'n dolennu ar hyd y ffin, fel y gwyddom. Ond byddai datganoli'r rhwydwaith heb ddatganoli'r asgwrn cefn sy'n ei ddal at ei gilydd yn nonsens. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein dadl ni, wrth i ni ei chyflwyno, yn un gadarn.

Mae Plaid Cymru yn gywir; yn yr Alban, ni thynnwyd unrhyw wasanaethau o'r fasnachfaint cyn datganoli. Ond nid yw'n gymharïaeth gwbl deg, gan nad yw masnachfaint ScotRail yn dolennu'r ffin yn y ffordd y mae rheilffordd y Gororau yn ei wneud. Mewn gwirionedd, dim ond trên cysgu Llundain a'r gwasanaeth anfynych i Newcastle sy'n croesi'r ffin o gwbl. Felly, byddwn yn awgrymu na ddylem gyflwyno achos ar sail y gymharïaeth; dylem gyflwyno achos da, achos cadarn, ar ei delerau ei hun.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni gyflwyno'r achos fod ein gwasanaethau trawsffiniol yn hanfodol i ddatblygiad economaidd Cymru, yn faes cymhwysedd datganoledig. Mae llwybrau i Fanceinion, Lerpwl a Birmingham yn hanfodol i economïau lleol gogledd a chanolbarth Cymru. Byddai unrhyw ddfrod iddynt yn taro Cymru'n anghymesur. Dyna pam rydym wedi cyflwyno ein gwelliant cyntaf.

Yn ail, mae'n debygol y niweidir effeithiolrwydd y gwasanaethau os parhawn ar y llwybr hwn, a byddwn yn hel teithwyr yn ôl i mewn i'w ceir drwy hollti gwasanaethau. Pan fo'n rhaid i deithwyr newid trenau, gwyddom eu bod yn llawer llai tebygol o ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Gallai gwahanu'r fasnachfaint arwain at wasanaeth cryn dipyn yn waeth i'r unigolion hynny. Byddai hynny'n drychinebus i economi Cymru, i'r rhai nad oes ganddynt y gallu i ddewis trafndiaeth amgen, a byddai'n drychinebus o ran ein targedau carbon.

Yn drydydd, mae'n rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei olygu pan gyhoeddodd, ym mis Chwefror, ei bwriad i drosglwyddo gwasanaethau sy'n gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf i fasnachfreintiau a fyddai'n parhau i fod o dan eu rheolaeth, ar ôl datganoli masnachfaint Cymru a'r gororau. Fel rwy'n awgrymu, marchnadoedd Cymreig yw'r rheini i raddau helaeth, hyd yn oed pan fydd y rheilffordd yn Lloegr. Er y gall pobl ddechrau neu orffen taith mewn gorsaf yn Lloegr, mae'n bur bosibl y byddant wedi cymudo i'r orsaf honno o gyrchfan yng Nghymru.

Finally, if the UK Government removes the Marches line from the franchise, it will fundamentally undermine the commercial attractiveness of the franchise as a whole. In order to ensure that the Wales and borders franchise is cost-effective as a whole network, it's vital that an operator can cross-subsidise services for rural communities who would otherwise be cut off from the rest of Wales with the profits from the more commercially viable routes. Removing the profit-making lines would mean that the Welsh Government, of any colour, in the future, would be left with a much more expensive subsidy-based railway and a burden on our budget, created solely so that bigger profits can be made by operators in England. That is wholly unacceptable.

Now, the Conservative amendment seeks to paint the world as a much rosier picture than it really is. As I say, when the UK Government announced its intention in February to transfer services into franchises that would remain under its control it, I believe, was not thinking clearly about what the consequences would be of what was left behind. I would welcome clarity on what exactly they mean by 'serving English markets'. But, I would suggest that, either way, the risk at this point is too great should these rumours actually be true.

Yn olaf, os yw Llywodraeth y DU yn tynnu rheilffordd y Gororau o'r fasnachfrait, bydd yn tansilio'n sylfaenol atyniad masnachol y fasnachfrait yn ei chyfanrwydd. Er mwyn sicrhau bod masnachfrait Cymru a'r gororau yn gosteifeithiol fel rhwydwaith cyfan, mae'n hanfodol fod modd i weithredwr groesgymorthdal gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig, a fyddai fel arall wedi'u hynysu rhag gweddill Cymru, â'r elw o'r llwybrau mwy hyfyw'n fasnachol. Byddai cael gwared ar y rheilffordd sy'n gwneud elw yn golygu bod Llywodraeth Cymru o unrhyw liw yn y dyfodol yn cael ei gadael gyda rheilffordd lawer mwy costus yn seiliedig ar gymhorthdal, a baich ar ein cyllideb, wedi'i chreu'n unig er mwyn i weithredwyr yn Lloegr allu gwneud mwy o elw. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.

Nawr, mae gwelliant y Ceidwadwyr yn ceisio peintio darlun llawer mwy gobeithiol o'r byd na'r hyn sy'n wir. Fel rwy'n dweud, pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad ym mis Chwefror i drosglwyddo gwasanaethau i fasnachfreintiau a fyddai'n parhau i fod o dan ei rheolaeth, nid wyf yn credu ei bod yn meddwl yn glir am ganlyniadau'r hyn a fyddai'n cael ei adael ar ôl. Byddwn yn croesawu eglurhad ynghylch beth yn union y maent yn ei olygu wrth 'wasanaethu marchnadoedd yn Lloegr'. Ond byddwn yn awgrymu, y naill ffordd neu'r llall, fod y risg ar y pwynt hwn yn rhy fawr os yw'r sibrydion hyn yn wir mewn gwirionedd.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Graham to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar William Graham i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 2—Paul Davies

Gwelliant 2—Paul Davies

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4.

Delete points 2, 3 and 4.

Cynigiwyd gwelliant 2.

Amendment 2 moved.

17:04 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank, again, Plaid Cymru for bringing this debate. But, I would remark that the Department for Transport has stated, in the terms of the agreement on devolution of rail franchising powers to Wales, that services primarily servicing English markets would be transferred to English franchises, with the commitment that it would ensure the Welsh Government are no better nor worse off as a result of any remapping from 2018.

Diolch i Blaid Cymru unwaith eto am gyflwyno'r ddatl hon. Ond hoffwn nodi bod yr Adran Drafnidiaeth wedi datgan, yn nhelerau'r cytundeb ar ddatganoli pwerau masnachfrait y rheilffordd i Gymru, y byddai gwasanaethau sy'n gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf yn cael eu trosglwyddo i fasnachfreintiau yn Lloegr, gyda'r ymrwymiad y byddai'n sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ar ei hennill nac ar ei cholled o ganlyniad i unrhyw ailfapio o 2018 ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:04 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:04 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We haven't got a great deal of time. If you're very quick, yes.

Nid oes gennym lawer iawn o amser. Os ydych yn gyflym iawn, gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:04

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To be frank, I don't care whether the Welsh Government's better off or worse off, I'm thinking of the Welsh citizen. If I'm travelling from Aberystwyth to Birmingham, if I'm a student attracted to Aberystwyth University, I don't want to have to change in Shrewsbury because an English government doesn't understand how the Welsh economy works.

I fod yn onest, nid wyf yn poeni a yw Llywodraeth Cymru yn well ei byd neu'n waeth ei byd, rwy'n meddwl am y dinesydd yng Nghymru. Os teithiaf o Aberystwyth i Birmingham, os wyf yn fyfyrwr sy'n cael fy nenu at Brifysgol Aberystwyth, nid wyf eisiau gorfod newid yn yr Amwythig am nad yw Llywodraeth Lloegr yn deall sut y mae economi Cymru yn gweithio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Unfortunately, you're not coming from the correct premise. Passengers want to get to destinations—they don't particularly care who operates it as long as they get there on time, reasonably and at a competitive price.

Yn anffodus, nid ydych yn dechrau o'r rhagdybiaeth gywir. Mae teithwyr eisiau cyrraedd cyrchfannau—nid oes ganddynt fawr o wahaniaeth pwy sy'n ei weithredu cyn belled â'u bod yn cyrraedd yno mewn pryd, yn rhesymol ac am bris cystadleuol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This was emphasised by the Chancellor in November when he reiterated that the United Kingdom Government was pressing ahead with the Great Western electrification project as part of a key United Kingdom infrastructure investment. The venture failed the usual Treasury test, and the Great Western electrification is a political recognition of the Conservative Party's commitment to improve the Great Western main line. It's widely acknowledged that the electrification of the main line, the south Wales Valleys lines and the connections to HS2 will potentially have huge economic and social benefits for Wales.

Cafodd hyn ei bwysleisio gan y Canghellor ym mis Tachwedd pan ailadroddodd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwrw ymlaen â phrosiect trydaneiddio'r Great Western fel rhan o fuddsoddiad seilwaith allweddol yn y Deyrnas Unedig. Methodd y fenter brawf arferol y Trysorlys, ac mae trydaneiddio'r Great Western yn gydnabyddiaeth wleidyddol o ymrwymiad y Blaid Geidwadol i wella prif linell y Great Western. Cydnabyddir yn eang y gallai trydaneiddio'r brif reilffordd, rheilffyrdd Cymoedd de Cymru a'r cysylltiadau â HS2 greu manteision economaidd a chymdeithasol enfawr i Gymru.

With greater devolution comes greater responsibility for the Welsh Government, and they are a co-signatory to the current Wales and borders franchise, and they will take over the procurement of the franchise in 2018. In that, they will determine the service commitment expected to be delivered by the franchisee. The primary economic and environmental objectives of those who manage our rail transport network, both within Wales and within the United Kingdom, is to grow passenger numbers, not place barriers in the way of passenger development. In evidence to the Enterprise and Business Committee, the Department for Transport highlighted that no decision on any major investment in Wales is made without taking into account the views of the Welsh Government, and they will be consulted on any in England that have implications for the Welsh franchise. I understand that such discussions between our Minister and the Minister in London were of a robust nature, and I have every confidence that our present Minister for transport will do her best in the circumstances.

Gyda mwy o ddatganoli daw mwy o gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, ac maent yn gyd-lofnodwyr masnachfaint bresennol Cymru a'r gororau, a byddant yn mabwysiadu'r broses o gaffael y fasnachfaint yn 2018. Yn hynny, byddant yn penderfynu ar yr ymrwymiad gwasanaeth y disgwylir i'r fasnachfaint ei ddarparu. Amcanion economaidd ac amgylcheddol sylfaenol y rhai sy'n rheoli ein rhwydwaith trafndiaeth rheilffyrdd, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, yw chwyddo nifer y teithwyr, nid gosod rhwystrau yn ffordd datblygu teithwyr. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes, amlygodd yr Adran Drafndiaeth na wneir penderfyniad ar unrhyw fuddsoddiad mawr yng Nghymru heb ystyried barn Llywodraeth Cymru, ac ymgynghorir â hi ar unrhyw benderfyniad yn Lloegr sy'n creu goblygiadau i'r fasnachfaint Gymreig. Deallaf fod y trafodaethau a gafwyd ar hyn rhwng ein Gweinidog a'r Gweinidog yn Llundain yn rhai cadarn eu natur, ac mae gennyf bob hyder y bydd ein Gweinidog trafndiaeth presennol yn gwneud ei gorau o dan yr amgylchiadau.

The need for co-dependency of rail network services is illustrated by rail freight. This is a nationwide international business that does not correspond neatly to railway administrative boundaries. Most rail freight services operate across at least two, and often more, railway industry boundaries and require that any join between Welsh and English rail infrastructure and management must be seamless. Devolution must deliver ease, efficiency and competitiveness, rather than unnecessary complexity, practical obstacles and further bureaucracy. Although cross-border routes are the most commercially viable routes, in 2014-15, Wales and borders received £101.9 million in subsidies, equating to a subsidy of 8.5p per passenger kilometre, the highest in the United Kingdom. With regard to rail services, comparisons between Wales and Scotland, as previously mentioned, are not valid. Cross-border services in Scotland are clearly geographically different to Wales. There are just two rail connections with England, with no services originating in Scotland, crossing to England, and then returning to Scotland. Wales has nine rail connections with England, including a service that originates in Wales, crosses into England and then returns.

The future franchise will allow an untangling of services, with the majority of English services remaining a Whitehall responsibility, and the majority of Wales services being devolved. At this stage, they continue to be discussed by our Governments, and Wales will gain control of rail services and determine the service delivery expected from the franchisee. A key factor in ensuring passenger and freight growth for our rail network is essentially a seamless service, which requires access to direct rail services and the wider integration of the network.

Mae cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn dangos yr angen am gyd-ddibyniaeth rhwng gwasanaethau'r rhwydwaith rheilffyrdd. Dyma fusnes rhyngwladol ledled y wlad nad yw'n cyfateb yn daclus i ffiniau gweinyddol rheilffyrdd. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cludo nwyddau ar drenau yn gweithredu ar draws o leiaf ddwy ffin diwydiant rheilffyrdd, a mwy na hynny'n aml, ac yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gysylltiad rhwng seilwaith a rheolaeth y rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr fod yn ddi-dor. Mae'n rhaid i ddatganoli gynnig rhywyddineb, effeithlonrwydd a chystadleurwydd, yn hytrach na chymhlethdod diangen, rhwystrau ymarferol a biwrocratiaeth bellach. Er mai llwybrau trawsffiniol yw'r llwybrau mwyaf ymarferol yn fasnachol, yn 2014-15, derbyniodd Cymru a'r gororau £101.9 miliwn mewn cymorthdaliadau, sy'n cyfateb i gymhorthdal o 8.5c y teithiwr y cilometr, sef yr uchaf yn y Deyrnas Unedig. O ran gwasanaethau rheilffyrdd, nid yw cymariaethau rhwng Cymru a'r Alban yn ddilys, fel y soniwyd eisoes. Mae gwasanaethau trawsffiniol yn yr Alban yn amlwg yn ddaearyddol wahanol i Gymru. Dau gysylltiad rheilffordd yn unig a geir â Lloegr, heb unrhyw wasanaethau'n tarddu yn yr Alban, yn croesi i Loegr ac yna'n dychwelyd i'r Alban. Mae gan Gymru naw cysylltiad rheilffordd â Lloegr, gan gynnwys gwasanaeth sy'n tarddu yng Nghymru, yn croesi i Loegr ac yna'n dychwelyd.

Bydd y fasnachfaint yn y dyfodol yn caniatáu i wasanaethau gael eu datgylmu, gyda mwyafrif y gwasanaethau yn Lloegr yn parhau'n gyfrifoldeb i Whitehall, a'r rhan fwyaf o wasanaethau Cymru yn cael eu datganoli. Ar y cam hwn, mae ein Llywodraethau yn parhau i drafod y gwasanaethau, a bydd Cymru yn ennill rheolaeth ar wasanaethau rheilffordd ac yn penderfynu ar y ddarpariaeth o wasanaethau a ddisgwyllir gan y fasnachfaint. Yn y bôn, ffactor allweddol er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y teithwyr a'r nwyddau a gludir ar gyfer ein rhwydwaith rheilffyrdd yw gwasanaeth di-dor, sy'n galw am wasanaethau rheilffyrdd uniongyrchol ac integreiddio'r rhwydwaith yn ehangach.

17:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

William, will you take an intervention?

William, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, if you're very quick; we have very little time.

Wel, os byddwch yn gyflym iawn; ychydig iawn o amser sydd gennym.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I just ask whether you'd accept, therefore, that the Wales Office has a role in actually looking after the interests of Welsh rail passengers, rather than merely accepting the brief from the transport Minister?

A gaf fi i ofyn a fydddech yn derbyn, felly, fod gan Swyddfa Cymru rôl mewn gwirionedd yn edrych ar ôl buddiannau teithwyr rheilffyrdd Cymru, yn hytrach na dim ond derbyn y briff gan y Gweinidog trafniadaeth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I can confirm that they are a consultee, but not a statutory one.

Wel, gallaf gadarnhau eu bod yn ymgynghori, ond nid yn un statudol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, co-operation and collaboration is the way to achieve this, but equally to determine the franchise outcomes and those who bid to deliver them. A Conservative Welsh Government would ensure the new franchise would reflect the needs of Wales.

Felly, cydweithredu a chydweithio yw'r ffordd i gyflawni hyn, ond penderfynu hefyd ar ganlyniadau'r fasnachfaint a'r rhai sy'n gwneud cais i'w cyflawni. Byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn sicrhau bod y fasnachfaint newydd yn adlewyrchu anghenion Cymru.

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf i, hefyd, yn croesawu'r ddadl y prynhawn yma ar ddatganoli masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r gororau. Yn sicr, rwy'n cytuno ag Eluned a Llyr a'r hyn roeddent yn ei ddweud yn gynharach. Beth rwyf fi'n ei weld nawr, a beth sy'n digwydd nawr gyda'r Ceidwadwyr yn Llundain, a nawr, efallai, gyda'r Ceidwadwyr yn fan hyn, yw eu bod yn cynnig llai a llai i ni nag sydd gennym ni nawr. Rwy'n credu y dylem ni gael beth sydd gennym ni nawr ac, efallai, tamaid bach yn fwy. Dyna'r pwyntiau rwyf i eisiau eu gwneud y prynhawn yma. Beth rydym ni eisiau yw mwy nag sydd gyda ni nawr.

I too welcome this debate this afternoon on the devolution of the Wales and borders rail franchise. Certainly, I agree with Eluned and Llyr about what they were saying earlier. What I see now, and what's happening now with the Conservatives in London, and now perhaps with the Conservatives here, is that they are offering less and less to us than we have already. I think we should have what we already have, and perhaps a little bit more. Those are the points that I want to make this afternoon. What we want is more than we have already.

Wythnos diwethaf, roeddwn ni, fel Aelodau, yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes a oedd yn sôn am drafndiaeth ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghaerdydd. Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais i yr wythnos diwethaf, ond rwy'n credu y dylai'r cyfrifoldeb dros ddarparu trafndiaeth i bobl fynychu digwyddiadau mawr yng Nghymru gael ei ysgrifennu i mewn i gontract y fasnachfaint.

Last week, we as Members considered the report of the Enterprise and Business Committee, which talked about transport for the Rugby World Cup in Cardiff. I don't want to repeat what I said last week, but I do think that responsibility for providing transport for people to attend major events in Wales should be written in to the contract of the franchise.

Fel yr Aelod Cynulliad dros Lanelli, hoffwn weld llawer mwy o wasanaethau yn teithio i'r gorllewin o Abertawe yn y dyfodol, yn enwedig gan y dylai mwy o wasanaethau alw mewn gorsafoedd aros ar gais fel Cydweli yn fy etholaeth. Mae pobl sy'n byw mewn trefi fel Cydweli yn dibynnu ar wasanaethau trên i deithio i'r gwaith ac i gysylltu â'r brif rwydwaith, yn enwedig yn absenoldeb gwasanaethau bysiau hwyr ac ar ddyddiau Sul. Fe all gwasanaethau mwy aml wneud bywyd yn haws i fy etholwyr, ac arwain at lai o amser yn cael ei golli yn aros yng ngorsaf Abertawe.

As the Assembly Member for Llanelli, I would like to see many more services travelling to west Wales from Swansea in future, and more services should stop at request stops such as Kidwelly in my constituency. People who live in places like Kidwelly depend on train services to travel to work and to link up with the main network, especially in the absence of bus services late at night and on Sundays. More frequent services can make life easier for my constituents and can lead to less time being wasted waiting at Swansea station.

Mae fy etholwyr hefyd eisiau mwy o ddewis o ran pryd y maent yn teithio. Mae gwasanaethau Great Western yn gadael gorsaf Abertawe yn oriau mân y bore, ond nid oes gwasanaeth yn rhedeg o orllewin Cymru i gysylltu â'r trenau cynnar yna.

My constituents want to have greater choice around when to travel. The Great Western services leave Swansea station in the early hours of the morning, but there's no service from west Wales to link up with those early trains.

Yn olaf—ac efallai nad yw'n rhan o'r ddadl y prynhawn yma—hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn cael dylanwad dros dermau masnachfaint Great Western. Rwy'n gweld trenau Great Western yn ennill estyniad i'w contract hyd at 2019, ond mae gwasanaethau Great Western yn chwarae rhan hanfodol drwy redeg gwasanaethau o Abertawe drwy dde-orllewin Cymru, Caerdydd a thuag at Llundain. Beth rydym ni'n moyn yw mwy na sydd gennym yn awr, ac nid llai.

Finally—and perhaps it's not part of today's debate—I would like to see the Welsh Government having influence over the terms of the Great Western franchise. I see that Great Western trains have won an extension to their contract up until 2019, but Great Western services play a vital part in running services from Swansea, through Cardiff and the south-east of Wales towards London. What we want is more than we have now, not less.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

17:11 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. I very much welcome this debate today and the opportunity to update Members on the transfer of rail franchising functions to Welsh Ministers.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf yn fawr iawn y ddadl hon heddiw a'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am drosglwyddo swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd i Weinidogion Cymru.

We are committed to putting rail services at the heart of our transport system, and I'm very pleased that we've agreed with the UK Government that we will be granted powers to award the next Wales and borders franchise. This is an exciting time for our railways, as decisions about our railways will be taken here in Wales, not only for the awarding of the next franchise but for building on and delivering service improvements in the future. We expect to see the transfer of rail franchising functions to Welsh Ministers in 2017. The next Wales and borders franchise will be the first rail franchise specified by the Welsh Government, and discussions with the UK Government around the detailed terms of the transfer, including which services are included, are ongoing, and are expected to conclude by the middle of this year.

I was very concerned, therefore, to hear recent reports about discussions that were being held at official level within the UK Government regarding the removal of some services from the franchise prior to its transfer. And I really can understand the concerns that have been expressed by Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats on this particular issue. This is not the right way to proceed, in my opinion, and it should not proceed in that way. So, I wish to reassure Members that Ministers at the Department for Transport have not said to me that they want to retain services that run into England, but I intend to have a further meeting with DfT Ministers in due course so I can reassure myself that that is not the case.

These services are valuable to the franchise, and we will be pressing for the franchise arrangements to include all cross-border services. Assessment work undertaken by Arriva Trains Wales has demonstrated that these services are bound up with the other Wales and borders services. Splitting the services away from the franchise will be difficult operationally, as well as inefficient, and I think we've got to bear that in mind as well. My own officials are exploring options for retaining the services in the franchise, and I fully recognise that high-quality cross-border routes and connectivity are important to make the franchise commercially attractive, and we've also got to bear that in mind as we have this process currently in the UK of franchise arrangements.

These cross-border rail connections are important to the economy across all parts of Wales, and that's in terms of connectivity for individuals as well as the issues around business. For example, we continue to support Arriva Trains Wales on its ongoing application to the Office of Rail and Road for powers for additional services for north Wales to Manchester Airport. The franchise will also include rail services to be delivered as part of the south Wales metro announced last November.

Rydym wedi ymrwymo i wneud gwasanaethau rheilffyrdd yn rhan ganolog o'n system drafnidiaeth, ac rwy'n falch iawn ein bod wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU y byddwn yn cael pwerau i ddyfarnu masnachfaint nesaf Cymru a'r gororau. Mae hwn yn amser cyffrous i'n rheilffyrdd, gan y bydd penderfyniadau ynghylch ein rheilffyrdd yn cael eu gwneud yma yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer dyfarnu'r fasnachfaint nesaf ond ar gyfer adeiladu ar a chyflwyno gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl gweld trosglwyddo swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd i Weinidogion Cymru yn 2017. Masnachfaint nesaf Cymru a'r gororau fydd y fasnachfaint rheilffyrdd gyntaf a bennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth y DU ynghylch telerau manwl y trosglwyddiad, gan gynnwys pa wasanaethau a gaiff eu cynnwys, ac mae disgwyl iddynt ddod i ben erbyn canol y flwyddyn hon.

Roeddwn yn bryderus iawn, felly, i glywed adroddiadau diweddar am drafodaethau a oedd yn cael eu cynnal ar lefel swyddogol o fewn Llywodraeth y DU ynglŷn â thynnu rhai gwasanaethau o'r fasnachfaint cyn ei throsglwyddo. Ac yn wir, gallaf ddeall y pryderon a fynegwyd gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ynghylch y mater penodol hwn. Nid dyma'r ffordd iawn o fwrw ymlaen yn fy marn i, ac ni ddylai fynd yn ei flaen yn y ffordd honno. Felly, hoffwn dawelu meddyliau'r Aelodau nad yw Gweinidogion yr Adran Drafnidiaeth wedi dweud wrthyf eu bod am gadw gwasanaethau sy'n teithio i mewn i Loegr, ond rwy'n bwriadu cael cyfarfod pellach gyda Gweinidogion yr Adran Drafnidiaeth maes o law i mi allu sicrhau fy hun nad yw hynny'n wir.

Mae'r gwasanaethau hyn yn werthfawr i'r fasnachfaint, a byddwn yn pwysu i sicrhau bod y trefniadau masnachfaint yn cynnwys yr holl wasanaethau trawsffiniol. Mae gwaith asesu a wnaed gan Drenau Arriva Cymru wedi dangos bod y gwasanaethau hyn ynghlwm wrth y gwasanaethau eraill ar gyfer Cymru a'r gororau. Bydd gwahanu'r gwasanaethau oddi wrth y fasnachfaint yn anodd yn weithredol, ac yn aneffeithlon, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gofio hynny hefyd. Mae fy swyddogion fy hun yn archwilio opsiynau ar gyfer cadw'r gwasanaethau yn y fasnachfaint, ac rwy'n cydnabod yn llawn fod llwybrau a chysylltedd trawsffiniol o ansawdd uchel yn bwysig i wneud y fasnachfaint yn ddeniadol yn fasnachol, ac mae'n rhaid i ni gadw hynny mewn cof hefyd wrth i ni gael y broses hon ar gyfer trefniadau masnachfaint ar hyn o bryd yn y DU.

Mae'r cysylltiadau rheilffordd trawsffiniol hyn yn bwysig i'r economi ar draws pob rhan o Gymru, a hynny o ran cysylltedd i unigolion yn ogystal â materion yn ymwneud â busnesau. Er enghraifft, rydym yn parhau i gefnogi Trenau Arriva Cymru yn ei gais parhaus i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd i gael pwerau i ddarparu gwasanaethau ychwanegol o ogledd Cymru i Faes Awyr Manceinion. Bydd y fasnachfaint hefyd yn cynnwys gwasanaethau rheilffordd sydd i'w cyflwyno'n rhan o fetro de Cymru a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf.

I recognise that the Department for Transport must ensure that services provided to passengers in England are maintained and improved, and we're happy to agree arrangements to this effect. But under current arrangements in Scotland, as Rhun also illustrated, Scottish Ministers are able to include any cross-border services they consider appropriate in the franchise agreement. So, once again, we're second class citizens on some of the issues surrounding rail.

For the Wales and borders franchise, it is essential that the franchise map does not significantly change, so that links between Wales and England can be protected, together with the financial sustainability of the network as a whole. That is one of my main concerns here—it's got to be financially sustainable. The burden of all this can't pass on to us, utilising funds we've got over and above the franchise arrangements to improve services. This is actually key.

So, last month, I opened a consultation to invite opinion on the key quality outcomes for the next franchise specification, including outcomes and priorities for improvement, service configuration and capacity, performance and disruption handling, fares and tickets and, of course, rolling stock. The consultation is the first stage of a programme of public and industry engagement that will run until 18 March. We've already had 30 responses to the consultation and it will be the views of passengers and stakeholders that will inform the way the rail service is delivered after 2018. A report summarising the views expressed during the consultation period will be prepared and published after the election has taken place. There will then be further public consultation on the detailed proposals and specifications for the award of the next franchise.

I've also, of course, established a not-for-dividend wholly owned subsidiary company of the Welsh Government to deliver the franchise, and the company will work with Network Rail to progress physical changes to the railway network, which will be essential to having efficient delivery. It is important that we work with Network Rail to secure infrastructure improvements to our rail network and to ensure that projects are delivered in good time and to cost—something that is not currently happening as it should be with delayed projects and rising costs—and to ensure that we have our fair share of money that is coming out from Network Rail to ensure that we can run things properly here in Wales.

If I may now turn to the amendments, we'll obviously be supporting Aled Roberts's amendment No. 1. In terms of Paul Davies's amendment, we will not be supporting the amendment because we support the original motion. And we're supporting the third amendment from Aled. Can I say that, for me, it is very important that the devolution of rail infrastructure to Wales is our ambition and our intention? We need to continue to press the UK Government on this matter, but they mustn't try to undermine that with these siren voices about how they going to deal—

Rwy'n cydnabod bod yn rhaid i'r Adran Drafnidiaeth sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i deithwyr yn Lloegr yn cael eu cynnal a'u gwella, ac rydym yn hapus i gytuno ar drefniadau i'r perwyl hwn. Ond o dan y trefniadau presennol yn yr Alban, fel y dangosodd Rhun hefyd, gall Gweinidogion yr Alban gynnwys unrhyw wasanaethau trawsffiniol y barnant eu bod yn briodol yn y cytundeb masnachfaint. Felly, unwaith eto, rydym yn ddinasyddion eilradd mewn perthynas â rhai o'r materion sy'n ymwneud â rheilffyrdd.

Ar gyfer masnachfaint Cymru a'r gororau, mae'n hanfodol nad yw map y fasnachfaint yn newid yn sylweddol, fel y gellir diogelu cysylltiadau rhwng Cymru a Lloegr ynghyd â chynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd. Dyna un o fy mhrif bryderon yma—mae'n rhaid iddo fod yn gynaliadwy yn ariannol. Ni all baich hyn i gyd drosglwyddo i'n hysgwyddau ni, a defnyddio cronfeydd sydd gennym yn ychwanegol at y trefniadau masnachfaint ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae hyn yn allweddol mewn gwirionedd.

Felly, y mis diwethaf, cyflwynais ymgynghoriad i wahodd barn ar y canlyniadau ansawdd allweddol ar gyfer manyleb y fasnachfaint nesaf, gan gynnwys canlyniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, cyfluniad gwasanaethau a chapasiti, perfformiad a thrin aflonyddwch, prisiau a thocynnau ac wrth gwrs, cerbydau. Yr ymgynghoriad yw'r cam cyntaf mewn rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd a diwydiant a fydd ar waith tan 18 Mawrth. Rydym eisoes wedi cael 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad a barn teithwyr a rhanddeiliaid fydd yn llywio'r ffordd y caiff y gwasanaeth rheilffordd ei ddarparu ar ôl 2018. Paratoir adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl yr etholiad. Yna cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar y cynigion manwl a'r manylebau ar gyfer dyfarnu'r fasnachfaint nesaf.

Hefyd, wrth gwrs, rwyf wedi sefydlu is-gwmni di-ddidifend sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru i ddarparu'r fasnachfaint, a bydd y cwmni'n gweithio gyda Network Rail i gyflawni newidiadau ffisegol i'r rhwydwaith rheilffyrdd, a fydd yn hanfodol i sicrhau darpariaeth effeithlon. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau gwelliannau seilwaith ar ein rhwydwaith rheilffyrdd ac i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni mewn da bryd ac o fewn y gost—rhywbeth nad yw'n digwydd fel y dylai ar hyn o bryd gydag oedi ar brosiectau a chostau cynyddol—ac i sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg o arian yn dod gan Network Rail i sicrhau y gallwn redeg pethau yn iawn yma yng Nghymru.

Os caf droi at y gwelliannau yn awr, byddwn yn amlwg yn cefnogi gwelliant 1 Aled Roberts. O ran gwelliant Paul Davies, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant am ein bod yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol. Ac rydym yn cefnogi'r trydydd gwelliant gan Aled. A gaf fi ddweud, i mi, mae'n bwysig iawn fod datganoli'r seilwaith rheilffyrdd i Gymru yn uchelgais ac yn fwriad gennym? Mae angen i ni barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ar y mater hwn, ond rhaid iddynt beidio â cheisio tanseilio hynny gyda'u lleisiau croch ynglŷn â sut y maent yn mynd i ymdrin—

17:16

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Most grateful. I was hoping she was going to mention the devolution of railways. Can she give us a very brief, two-sentence progress report of where this is at at the moment?

Diolch yn fawr. Roeddwn yn gobeithio ei bod yn mynd i sôn am ddatganoli'r rheilffyrdd. A all hi roi adroddiad cynnydd byr iawn dwy frawddeg o hyd ar ble y mae hyn arni ar hyn o bryd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. We are proceeding well with discussions on this particular issue, but my concern is that we'll end up having devolution of rail and then we'll have an undermining, perhaps, of the franchise arrangements before everything occurs. Now, there's no point in giving you one thing with one hand and taking it back with the other, and I'm afraid that this Government has got a very poor record on these and on upholding the integrity of the entire settlement.

Gallaf. Rydym yn bwrw ymlaen yn dda gyda'r trafodaethau ar y mater penodol hwn, ond fy mhryder i yw y byddwn yn pen draw yn cael datganoli'r rheilffyrdd ac yna byddwn yn gweld tanseilio'r trefniadau masnachfaint, efallai, cyn i bopeth ddigwydd. Nawr, nid oes pwynt rhoi un peth i chi gydag un llaw a'i gymryd yn ôl gyda'r llall, ac rwy'n ofni bod enw gwael iawn gan y Llywodraeth hon ar hyn ac o ran cynnal uniondeb y setliad cyfan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, as far as I'm concerned, it's important that we carry on pressing for the devolution of rail powers. It's very important that we deal with the issues around the franchise because only then, in my opinion, can we control our destiny. If we want to have integrated public transport in Wales and have control of things, we've got to have the relevant powers. There is no point in us even talking about rail unless we have the powers in this Chamber.

Felly, o'm rhan i, mae'n bwysig ein bod yn parhau i bwysio am ddatganoli pwerau rheilffyrdd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn delio â'r materion sy'n ymwneud â'r fasnachfaint gan na fyddwn yn gallu rheoli ein tynged ein hunain hyd nes y gwnawn hynny yn fy marn i. Os ydym am gael trafniadaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru a chael rheolaeth ar bethau, mae'n rhaid i ni gael y pwerau perthnasol. Nid oes diben inni siarad am y rheilffyrdd hyd yn oed oni bai ein bod yn cael y pwerau yn y Siambr hon.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rhun ap Iorwerth to reply.

Rhun ap Iorwerth i ateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Can I thank all those today who have spoken very concisely and clearly about the threat that is facing the future of rail services in Wales? And I thank the Minister, Keith Davies and Eluned Parrott, who reiterated very clearly the importance of getting the necessary levers to design a twenty-first-century rail system for Wales. To the Conservatives, I must say that I am bitterly disappointed to hear a party in this Chamber, when we are looking for unity, seeming to suggest that we should be grateful for whatever we're given. I'm not sure if William Graham was here speaking for the UK Government and saying that we should accept what is to be handed down from the Department for Transport. You say that passengers in Wales don't mind which franchise runs their passenger services, but I can assure you that passengers in Wales do care about the vitality, the viability and the co-ordinated nature of the railway service that we have. You say that a Conservative Government would provide for an effective franchise in Wales. There will not be a rail service in Wales of note if these changes, as we fear may happen, do come to fruition.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i bawb heddiw sydd wedi siarad yn gryno ac yn eglur iawn am y bygythiad sy'n wynebu dyfodol gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru? A diolch i'r Gweinidog, Keith Davies ac Eluned Parrott, a ailadroddodd yn glir iawn pa mor bwysig yw cael yr ysgogiadau angenrheidiol i lunio system reilffyrdd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i Gymru. I'r Ceidwadwyr, rhaid i mi ddweud fy mod yn hynod siomedig o glywed plaid yn y Siambr hon, pan ydym yn chwilio am undod, i'w gweld yn awgrymu y dylem fod yn ddiolchgar am beth bynnag a gawn. Nid wyf yn siŵr a oedd William Graham yma i siarad ar ran Llywodraeth y DU ac yn dweud y dylem dderbyn yr hyn sydd i'w drosglwyddo i lawr o'r Adran Drafniadaeth. Rydych yn dweud nad oes ots gan deithwyr yng Nghymru pa fasnachfaint sy'n rhedeg eu gwasanaethau i deithwyr, ond gallaf eich sicrhau bod teithwyr yng Nghymru yn malio am fywiogrwydd, am hyfywedd ac am natur gydgyssylltiedig y gwasanaeth rheilffordd sydd gennym. Rydych yn dweud y byddai Llywodraeth Geidwadol yn darparu ar gyfer masnachfaint effeithiol yng Nghymru. Ni fydd gan Gymru wasanaeth rheilffyrdd o bwys os yw'r newidiadau yr ofnwn y gallant ddigwydd yn dwyn ffrwyth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I note the Minister's reassurance that she is hearing some positive messages from the UK Government. I must say that I have little faith in the capacity of the UK Government to act in the interests of Wales on this matter. We need to hear certainly a public statement of support for keeping the integrity of our franchise. Let's speak today with a very clear and united voice.

Nodaf sicrwydd y Gweinidog ei bod yn clywed rhai negeseuon cadarnhaol gan Lywodraeth y DU. Rhaid i mi ddweud nad oes gennyf fawr o ffydd yng ngallu Llywodraeth y DU i weithredu er lles Cymru ar y mater hwn. Yn bendant, mae angen i ni glywed datganiad cyhoeddus o gefnogaeth i gynnal uniondeb ein masnachfaint. Gadewch i ni siarad heddiw gyda llais clir ac unedig iawn.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time. Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

6. Dadl Plaid Cymru: Cynnal Digwyddiadau Mawr

Deholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

6. Plaid Cymru Debate: Hosting Major Events

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Item 6 is the Plaid Cymru debate on hosting major events, and I call on Bethan Jenkins to move the motion. Eitem 6 yw dadl Plaid Cymru ar gynnal digwyddiadau mawr, a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5954 Elin Jones

Motion NDM5954 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod y gwerth i economi Cymru o gynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru.

1. Recognises the value to the Welsh economy of hosting major events in Wales.

2. Yn galw am lunio cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad gyda Chymru'n croesawu'r Gemau hynny yn 2026 neu 2030.

2. Calls for the development of a Commonwealth Games bid with Wales as the host nation in 2026 or 2030.

3. Yn galw am lunio cais i ddod â Ras Fawr beicio i Gymru, ar gyfer dynion a menywod.

3. Calls for the development of a bid to bring a cycling Grand Tour to Wales, for both men and women.

4. Yn galw am ddigwyddiad swyddogol yn y Cynulliad hwn i ffarwelio â thîm pêl-droed Cymru wrth iddo fynd i gystadlu yn Ewro 2016 yr UEFA.

4. Calls for an official send off in this Assembly for the Wales football team ahead of this year's UEFA Euro 2016;

5. Yn galw am sefydlu 'parthau cefnogwyr' ledled Cymru fel bod y rhai na allant fod yn bresennol yn Ewro 2016 yr UEFA yn gallu cefnogi eu tîm gartref.

5. Calls for the establishment of 'fan zones' across Wales so those that don't attend the UEFA Euro 2016 can support their team at home.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

17:19 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch. Thank you. We will be supporting the Liberal Democrat amendment. We saw during the Rugby World Cup what sort of problems can be caused—problems that can ruin the experience for fans—when transport is not managed as effectively as it can be during these types of events. But I'll focus my contribution on the forthcoming Euro 2016. We all remain incredibly proud of the achievements of Chris Coleman's team and look forward to a summer of them doing even better. Some of us may have tickets for the game, some of us may not. I'm still waiting for the formal UEFA lottery, so I will hold out my hopes for that next week, but otherwise, I'm open to offers. Diolch. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Gwelsom yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd pa fath o broblemau y gellir eu hachosi—problemau a all ddifetha'r profiad i gefnogwyr—pan na chaiff trafndiaeth ei reoli mor effeithiol ag y gallai yn ystod y mathau hyn o ddigwyddiadau. Ond byddaf yn canolbwyntio fy nghyfraniad ar Ewro 2016 sydd ar y ffordd. Rydym i gyd yn parhau i fod yn hynod o falch o gyflawniadau tîm Chris Coleman ac yn edrych ymlaen at haf o'u gweld yn gwneud hyd yn oed yn well. Efallai y bydd gan rai ohonom docynnau ar gyfer y gêm, efallai na fydd. Rwy'n dal i aros am loteri ffurfiol UEFA, felly byddaf yn dal yn obeithiol ynglŷn â hynny yr wythnos nesaf, ond fel arall, rwy'n agored i gynnigion.

Obviously, as a party, we think it's incredibly important that we honour the team and that is why we've written to the Presiding Officer, the Welsh Government and the Football Association of Wales to call for a reception for the players prior to departing for France in June. We started that process off in November and although the Presiding Officer has written to me to say that talks are ongoing, we appear to be no nearer to getting an event together today. So, in passing this motion this afternoon, as I hope we will, I'm hoping this will lend a sense of urgency to this event, because it really would be embarrassing if this unprecedented occasion were to pass by without being officially marked by Wales's own Parliament, and the clock is now ticking.

I should add that I've had correspondence from the FAW this morning saying that while time is going to be limited this side of the Euros, perhaps we could instead stage a welcome-home event for the team. I still believe that the momentum would be there to have that type of event.

We've also called on the Welsh Government to help establish fanzones across Wales for when the Euros are under way. What we are thinking of is something similar to the success of Cardiff Arms Park fanzone during last year's Rugby World Cup, which attracted more than 150,000 fans. This created a wonderful atmosphere and it was a huge success. I think that Wales needs to build on that. We're taking part in the finals of a major football tournament for the first time since 1958 and the Welsh Government should be at the forefront of efforts to ensure that as many fans as possible from across Wales can enjoy that experience. So, I do look forward to hearing from the Minister of any progress that has been made so far.

We also believe that the Welsh Government could look at setting up fanzones not only in Cardiff, but in other areas of Wales, such as Wrexham, Swansea, and other areas. Aberystwyth, I know, and Carmarthen have strong football followings and I think it's important that we work with partners to try and make this happen. That's why I have written to local councils to see if they're interested in it, and also to various football clubs in the respective areas to see if they can lend their support, too.

If the Welsh Government is not minded to lead on such a development, can we use this debate to hear from the Minister what plans are in place to mark this summer's Euros? I think there's an appetite to hear from the Government, because fans are very interested in taking part in this whole process.

I previously also argued that a team of marketing and business experts should travel to France during the tournament to promote Wales abroad, so I'd be interested to hear from the Minister if there's been any progress with this idea.

Yn amlwg, fel plaid, rydym yn credu ei bod yn hynod o bwysig i ni anrhydeddu'r tîm a dyna pam rydym wedi ysgrifennu at y Llywydd, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru i alw am dderbyniad i'r chwaraewyr cyn iddynt adael am Ffrainc ym mis Mehefin. Dechreuwyd ar y broses honno ym mis Tachwedd ac er bod y Llywydd wedi ysgrifennu ataf i ddweud bod trafodaethau ar y gweill, mae'n ymddangos nad ydym yn nes heddiw at drefnu digwyddiad. Felly, wrth dderbyn y cynnig hwn y prynhawn yma, fel rwy'n gobeithio y byddwn yn ei wneud, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi ymdeimlad o frys i'r digwyddiad hwn, gan y byddai'n embaras go iawn pe bai'r achlysur digyffelyb hwn yn mynd heibio heb i Senedd Cymru ei hun ei nodi'n swyddogol, ac mae'r cloc yn tician yn awr.

Dylwn ychwanegu fy mod wedi cael gohebiaeth gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru y bore yma yn dweud, er bod amser yn mynd i fod yn gyfyngedig yr ochr hon i'r Ewros, efallai y gallem yn hytrach gynnal digwyddiad croeso adref ar gyfer y tîm. Rwy'n dal i gredu y byddai momentwm yno i gael y math hwnnw o ddigwyddiad.

Rydym hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i helpu i sefydlu parthau cefnogwyr ledled Cymru ar gyfer pan fydd yr Ewros ar y gweill. Yr hyn rydym yn meddwl amdano yw rhywbeth tebyg i lwyddiant parth cefnogwyr Parc yr Arfau, Caerdydd yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd y llynedd, a ddenodd mwy na 150,000 o gefnogwyr. Creodd hyn awyrgylch gwych ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Credaf fod angen i Gymru adeiladu ar hynny. Rydym yn cymryd rhan yn rowndiau terfynol pencampwriaeth bêl-droed fawr am y tro cyntaf ers 1958 a dylai Llywodraeth Cymru fod ar flaen y gad yn yr ymdrechion i sicrhau bod cynifer o gefnogwyr â phosib o bob cwr o Gymru yn gallu mwynhau'r profiad. Felly, rwy'n edrych ymlaen at glywed gan y Gweinidog am unrhyw gynnydd a wnaed hyd yn hyn.

Rydym hefyd yn credu y gallai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu parth cefnogwyr nid yn unig yng Nghaerdydd, ond mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, megis Wrecsam, Abertawe, ac ardaloedd eraill. Mae gan Aberystwyth, rwy'n gwybod, a Chaerfyrddin draddodiad cryf o gefnogi pêl-droed ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i geisio gwneud i hyn ddigwydd. Dyna pam rwyf wedi ysgrifennu at gynghorau lleol i weld a oes ganddynt ddiddordeb ynddo, a hefyd at amryw o glybiau pêl-droed yn yr ardaloedd perthnasol i ofyn am eu cefnogaeth hefyd.

Os nad yw Llywodraeth Cymru o blaid arwain ar ddatblygiad o'r fath, gallwn ddefnyddio'r ddatl hon i glywed gan y Gweinidog pa gynlluniau sydd ar waith i nodi'r Ewros yr haf hwn? Rwy'n credu bod yna awydd i glywed gan y Llywodraeth, am fod gan y cefnogwyr ddiddordeb mawr mewn cymryd rhan yn yr holl broses.

Dadleuais yn flaenorol hefyd y dylai tîm o arbenigwyr marchnata a busnes deithio i Ffrainc yn ystod y bencampwriaeth i hyrwyddo Cymru dramor, felly byddai gynnyf ddiddordeb mewn clywed gan y Gweinidog os gwnaed unrhyw gynnydd ar y syniad hwn.

There's no doubt that anybody in this room would disagree with the need for Wales to be on the sporting map of the world, and it does give great morale to Wales when we do have such big events. We only need to look at the Ryder Cup: the Celtic Manor brought an economic benefit worth £82.4 million—of that, south-east Wales drew an impact of £74.6 million, while Newport accrued £28.3 million. This is all the more incredible when you consider that during the week-long event, of 244,000 visitors to the event, there were sizable numbers who weren't even based in Wales, with some finding accommodation as far away as London.

We're also talking in this debate today about bringing a big cycling occasion to Wales. We know that cycling has taken on a new momentum in Wales and we saw how successful a leg of the Tour de France was in Yorkshire. I think it's something that we would all agree is not a political issue, but something that Wales could have here—either a leg of the Tour de France or the Italian Giro d'Italia. I know that there are people in Wales in various companies who are working with Welsh Government to look at the possibility of those schemes, and I would want to see that developed for the future.

I think, in discussions on these types of issues, it's important because we want to get more people involved in sport and excited about the opportunities that sport offers them. We still know that lots of people are not exercising, and are obese or overweight. If they see Wales being successful in these world events, then we know that that may encourage people to take part in sports. So, I urge people to support the motion here today.

Heb amheuaeth, ni fyddai neb yn yr ystafell hon yn anghytuno â'r angen i Gymru fod ar fap chwaraeon y byd, ac mae'n rhoi ysbrydoliaeth fawr i Gymru pan fo gennym ddirgwyddiadau mawr o'r fath. Nid oes ond angen i ni edrych ar y Cwpan Ryder: creodd y Celtic Manor fudd economaidd gwerth £82.4 miliwn—o hynny, denwyd gwerth £74.6 miliwn i'r de-ddwyrain, a chronnodd Casnewydd £28.3 miliwn. Mae hyn hyd yn oed yn fwy anhygoel pan ystyriwch nad oedd cyfran sylweddol o'r 244,000 o ymwelwyr yn ystod y digwyddiad wythnos o hyd yn aros yng Nghymru, gyda rhai'n dod o hyd i lety mor bell i ffwrdd â Llundain.

Rydym hefyd yn siarad yn y ddaidl hon heddiw am ddod ag achlysur beicio mawr i Gymru. Rydym yn gwybod bod momentwm newydd i feicio yng Nghymru a gwelwom pa mor llwyddiannus oedd y rhan o'r Tour de France a gynhaliwyd yn Swydd Efrog. Rwy'n credu y byddwn i gyd yn cytuno nad yw'n fater gwleidyddol ond yn rhywbeth y gallai Cymru ei gael yma—naill ai ran o'r Tour de France neu'r Giro d'Italia Eidalaidd. Rwy'n gwybod bod yna bobl yng Nghymru mewn cwmnïau amrywiol sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar bosibiliadau'r cynlluniau hynny, a byddwn yn awyddus i weld hynny'n cael ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol.

Mewn trafodaethau ar y mathau hyn o faterion, rwy'n credu ei fod yn bwysig am ein bod am gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac yn gyffrous ynghylch y cyfleoedd y mae chwaraeon yn eu cynnig iddynt. Gwyddom ar yr un pryd fod llawer o bobl nad ydynt yn gwneud ymarfer corff, ac sy'n ordeu neu dros bwysau. Os ydynt yn gweld Cymru yn llwyddo mewn digwyddiadau byd-eang fel hyn, yna gwyddom y gall hynny annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Felly, rwy'n annog pobl i gefnogi'r cynnig yma heddiw.

17:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod angen cynllunio trafndiaeth a gwaith rheoli effeithiol ar bob digwyddiad mawr i sicrhau profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr a lleihau aflonyddwch i drigolion a busnesau lleol.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Believes that every major event needs effective management and transport planning to ensure a high-quality experience for visitors and to minimise disruption for local residents and businesses.

Amendment 1 moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:24

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thank you, Plaid Cymru, for bringing the motion and for accepting our amendment today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi, Blaid Cymru, am gyflwyno'r cynnig ac am dderbyn ein gwelliant heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Wales has a proud record of hosting major events, and as a Member representing all of Cardiff, I can tell you that welcoming the world on behalf of Wales is a source of great pride to all of us. I do welcome the proposal that Wales should bid for the Commonwealth Games. Perhaps you think it should be in Aberavon; I'm thinking it may be Cardiff. It would be a great host city. It did bring a boost of something like £282 million to Glasgow's tourism business, and I would like to see that here. Also, though, it provides a deadline, doesn't it, to create that step change in local infrastructure that will have a lasting impact, and new sports arenas and athletes' villages that give homes and facilities then for the people of Wales for generations to come? So, the Commonwealth Games could allow us to be shown off around the world and show off our culture and our achievement in so many ways. So, that is a really welcome thought.

I also agree with the idea of, perhaps, trying to bring one of the grand cycling tours to Wales, too, although, in the twenty-first century, wouldn't it be great if we didn't need to say that it should be for men and women, because surely there's no reason why it wouldn't be? But it is what it is, and the velothon—. Clearly, we have some experience of hosting the velothon now in Cardiff and south-east Wales from last year. It was very successful in attracting sport and leisure competitors, and I understand that the organisation are planning to come back again this year, too. But, Members will know that it did cause some difficulties. Whilst in theory a grand tour could be very welcome, in practice, local residents found this very challenging and found it very disruptive. The surrounding areas in particular found it disruptive when roads were closed for, perhaps, days at a time. They couldn't go around and about their normal business, and that's why I've brought our amendment.

As we heard in last week's debate on the Rugby World Cup, whilst major events could bring in a huge boost to some in the local economy, if not planned and managed effectively, they can be damaging to others. Cardiff has to be able to operate as a city as well as as a host when an event is happening. This is, of course, the case for other locations in Wales, but it's a particularly pressing issue in Cardiff, because of the number of events that we host.

Looking to the fanzones, for example, the fanzone is one of the things that we hosted for the Rugby World Cup in the city centre of Cardiff. The idea of fanzones is fantastic. They provide a wonderful atmosphere for people and, yes, a send-off should absolutely happen. But we have to make sure that those are hosted in appropriate locations. At first thought, the idea of hosting it in the Cardiff Arms Park was wonderful, except, of course, it is a residential location; it is surrounded by flats. Whilst one rugby match every couple of months might not be a problem, or a smaller rugby match every few weeks isn't so much of a problem, a seven-day-a-week party atmosphere until midnight every night is a little bit more wearing on the nerves of those local residents, I have to tell you.

Mae gan Gymru hanes balch o gynnal digwyddiadau mawr, ac fel Aelod sy'n cynrychioli Caerdydd i gyd, gallaf ddweud wrthyfch fod croesawu'r byd ar ran Cymru yn destun balchder mawr i bob un ohonom. Rwy'n croesawu'r cynnig y dylai Cymru wneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad. Efallai y credwch y dylai fod yn Aberafan; rwy'n meddwl efallai y gallai fod yng Nghaerdydd. Byddai'n ddinas wych ar gyfer eu cynnal. Rhoddodd hwb o tua £282 miliwn i fusnes twristiaeth Glasgow, a hoffwn weld hynny yn y fan hon. Hefyd, fodd bynnag, mae'n darparu terfyn amser, onid yw, ar gyfer creu'r newid sylweddol yn y seilwaith lleol a fydd yn cael effaith barhaol, ac arenâu chwaraeon newydd a phentrefi athletwyr sy'n rhoi cartrefi a chyfleusterau wedyn i bobl Cymru am genedlaethau i ddod. Felly, gallai Gemau'r Gymanwlad ein galluogi i gael sylw o gwmpas y byd a rhoi sylw i'n diwylliant a'n cyflawniad mewn cymaint o ffyrdd. Felly, mae honno'n ystyriaeth i'w chroesawu'n fawr.

Rwyf hefyd yn cytuno gyda'r syniad, efallai, o geisio dod ag un o'r rasys beicio mawr i Gymru hefyd, er, yn yr unfed ganrif ar hugain, oni fyddai'n wych pe na bai angen i ni ddweud y dylai fod ar gyfer dynion a menywod, gan nad oes unrhyw reswm pam na fyddai, 'does bosibl? Ond mae'r hyn ydyw, ac mae'r felothon—. Yn amlwg, mae gennym rywfaint o brofiad o gynnal y felothon bellach yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru ers y llynedd. Roedd yn llwyddiannus iawn yn denu cystadleuwyr chwaraeon a hamdden, ac rwy'n deall bod y sefydliad yn bwriadu dod yn ôl eto eleni hefyd. Ond bydd yr Aelodau'n gwybod ei fod wedi achosi rhai anawsterau. Er y gallai ras beicio fawr fod yn dderbyniol iawn yn ddamcaniaethol, yn ymarferol, roedd trigolion lleol yn teimlo'i fod yn ddigwyddiad heriol ac aflonyddgar iawn. Roedd yr ardaloedd o gwmpas yn arbennig yn teimlo bod cau ffyrdd am ddiwrnod ar y tro, efallai, yn aflonyddgar. Nid oeddent yn gallu mynd a dod fel arfer, a dyna pam rwyf wedi cyflwyno ein gwelliant.

Fel y clywsom yn y ddadl yr wythnos diwethaf ar Gwpan Rygbi'r Byd, er y gallai digwyddiadau mawr greu hwb enfawr i rai yn yr economi lleol, os na chânt eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gallant fod yn niweidiol i eraill. Rhaid i Gaerdydd allu gweithredu fel dinas yn ogystal ag â lleoliad digwyddiad. Mae hyn yn wir, wrth gwrs, am leoliadau eraill yng Nghymru, ond mae'n fater arbennig o wir yng Nghaerdydd, oherwydd y nifer o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnal.

Gan edrych ar barthau cefnogwyr, er enghraifft, mae'r parth cefnogwyr yn un o'r pethau a gynhaliwyd gennym adeg Cwpan Rygbi'r Byd yng nghanol dinas Caerdydd. Mae'r syniad o barth cefnogwyr yn wych. Maent yn darparu awyrgylch gwych i bobl ac yn bendant, dylid cynnal digwyddiad i ffarwelio â'r tîm. Ond mae'n rhaid gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol. Ar y cychwyn, roedd y syniad o'i gynnal ym Mharc yr Arfau, Caerdydd yn wych, heblaw, wrth gwrs, ei fod yn lleoliad preswyl; mae wedi'i amgylchynu gan fflatiau. Er nad yw gêm rygbi bob tua deufis o bosibl yn broblem, neu gêm rygbi lai bob ychydig wythnosau nad yw'n gymaint o broblem, gallai awyrgylch parti saith diwrnod yr wythnos tan hanner nos bob nos greu ychydig bach mwy o straen ar nerfau'r trigolion lleol, rhaid i mi ddweud.

I don't know where the Welsh Government draws the line between what is a major event and a slightly more minor event, actually, but according to one estimate that someone gave to me recently, Cardiff hosts more than 400 events a year for more than 1,000 visitors, and more than 50 events for more than 10,000 visitors in any year. When residents of Cardiff cannot continue their normal day-to-day lives on an event day, when you've got that many, we have a problem. When the council can't clear the litter from our streets between events because they're back to back, when buses are cancelled, when people can't get to work in the shops and arcades and, even if they can get in there, their customers can't, if we can't get people into the offices that are based in the city centre, then we have a problem. So, as I say, when Cardiff cannot function as a city because of its hosting, then that is an issue for all of us.

Now, transport, planning and managing those events effectively are hugely important, as we heard last week. Part of that is in the here and now, but the reality is that when these events take place, we really are just fighting against the tide. We do not have the infrastructure that we really need to look to this hosting events successfully of this kind of scale in the future. We really do need progress on the development of our bus station in the city centre. We really do need major investment in our railway station to make sure that we can continue to give our guests the best possible experience, so that they leave Cardiff and an event anywhere in Wales remembering what a fantastic place it was to go and enjoy.

Nid wyf yn gwybod ble y mae Llywodraeth Cymru yn tynnu llinell rhwng yr hyn sy'n ddigwyddiad o bwys a digwyddiad ychydig yn llai o faint, mewn gwirionedd, ond yn ôl un amcangyfrif a roddodd rhywun i mi yn ddiweddar, mae Caerdydd yn croesawu mwy na 400 o ddigwyddiadau y flwyddyn i fwy na 1,000 o ymwelwyr, a mwy na 50 o ddigwyddiadau i fwy na 10,000 o ymwelwyr mewn unrhyw flwyddyn. Pan na all trigolion Caerdydd barhau â'u bywydau arferol o ddydd i ddydd ar ddiwrnod digwyddiad, pan fydd gennych gymaint â hynny o bobl, mae gennym broblem. Pan na all y cyngor glirio'r sbwriel oddi ar ein strydoedd rhwng digwyddiadau am fod un yn dilyn syth ar ôl y llall, pan fydd bysus yn cael eu canslo, pan fydd pobl yn methu â mynd i'r gwaith yn y siopau ac arcedau, a hyd yn oed os gallant gyrraedd yno, ni all eu cwsmeriaid wneud hynny, os na allwn gael pobl i mewn i'r swyddfeydd sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas, yna mae gennym broblem. Felly, fel y dywedais, pan na all Caerdydd weithredu fel dinas oherwydd y digwyddiadau mae'n eu cynnal, yna mae honno'n broblem i bob un ohonom.

Nawr, mae trafniadaeth, cynllunio a rheoli'r digwyddiadau hynny'n effeithiol yn hynod o bwysig, fel y clywsom yr wythnos diwethaf. Mae rhan o hynny'n digwydd yn y fan a'r lle, ond y gwir amdani yw, pan gynhelir y digwyddiadau hyn, rydym yn ymladd yn erbyn y llanw mewn gwirionedd. Nid oes gennym y seilwaith rydym ei angen o ddifrif er mwyn ystyried cynnal digwyddiadau llwyddiannus ar raddfa o'r fath yn y dyfodol. Mae gwir angen cynnydd ar ddatblygu ein gorsaf fysus yng nghanol y ddinas. Mae gwir angen buddsoddiad mawr yn ein gorsaf drenau i wneud yn siŵr y gallwn barhau i roi'r profiad gorau posibl i'n gwsteion, fel eu bod yn gadael Caerdydd a digwyddiad yn unrhyw le yng Nghymru gan gofio lle mor wych ydoedd i fynd yno a mwynhau.

17:29

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

Last time Wales played in a major football tournament, I was one—probably most people in this room weren't alive. As someone who has been a lifelong sports fan, especially football, I am very excited that Wales have qualified for a major tournament. Who else in here is haunted by Paul Bodin missing a penalty, Joe Jordan handling the ball, or the lights going out at the Vetch Field when Wales were beating Iceland?

First, can I deal with the provision of fanzones? I expect the Castle Square area of Swansea to show all the Wales games, as it has shown all major sporting events. I have actually spoken to Swansea City to ask them to consider opening the ground and showing the matches on the big screens that are there. A fanzone in a football ground will probably be the best place to have them. I would be amazed if the Presiding Officer, whoever it happens to be at the time, does not arrange a party, either at the going away or coming back of the team, hopefully after getting very far in the tournament.

Y tro diwethaf y chwaraeodd Cymru mewn pencampwriaeth bêl-droed fawr, roeddwn yn un oed—yn ôl pob tebyg nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ystafell hon wedi'u geni. Fel rhywun sydd wedi bod yn gefnogwr chwaraeon drwy gydol fy oes, yn enwedig pêl-droed, rwy'n teimlo'n gyffrous iawn fod Cymru wedi mynd drwodd i rowndiau terfynol pencampwriaeth fawr. Pwy arall yma sy'n dal i gofio hunllef Paul Bodin yn methu cic gosb, Joe Jordan yn taro'r bêl â'i law, neu'r goleuadau yn mynd allan yng Nghae'r Vetch pan oedd Cymru'n curo Gwlad yr Iâ?

Yn gyntaf, a gaf fi sôn am y parthau cefnogwyr? Rwy'n disgwyl y bydd ardal Sgwâr y Castell yn Abertawe yn dangos holl gemau Cymru, fel y mae wedi bod yn dangos yr holl ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Rwyf wedi siarad â Dinas Abertawe mewn gwirionedd i ofyn iddynt ystyried agor y cae a dangos y gemau ar y sgriniau mawr sydd yno. Mae'n debyg mai parth cefnogwyr mewn cae pêl-droed yw'r lle gorau i'w cael. Byddwn yn synnu os nad yw'r Llywydd, pwy bynnag y bydd ar y pryd, yn trefnu parti, naill ai cyn i'r tîm adael neu ar ôl iddo ddychwelyd, ar ôl mynd yn bell iawn yn y bencampwriaeth, gobeithio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We do need major events in Wales. One of the achievements of this National Assembly—and dare I say it, the Welsh Government—is that we have had more major events in Wales since devolution than we did before. What is achievable? Everyone has their own view of what major events are. I would argue that Wales has 19 major sporting events every year—every Premier League game that Swansea City play. World interest in the premiership is phenomenal. In some parts of the world, Swansea City is better known than Wales because of the reach of the premiership. Key competitions to have are the finals of the Champions League and the Europa league. Of course, the Champions League is coming to Cardiff in 2017—a huge achievement. Surely the Welsh football association and the Welsh Government need congratulating on having the Champions League final.

Of course, if you want major sporting events, you need the infrastructure. That is why keeping Cardiff Wales airport as an airport is so important. Put simply, no airport equals no major sporting events.

Turning to the Commonwealth Games, regarding the Commonwealth Games, there are, really, two initial questions: how much would it cost, and how are you going to pay for it? While each Commonwealth Games costs a different amount, and sometimes the costs are extremely opaque, we know that, according to 'The Independent', Manchester cost £300 million, and Glasgow, according to 'The Daily Telegraph', cost £400 million. If Wales bids, it's almost certain to be successful. The days of multiple bidders for the Commonwealth Games appear to be over. How would it be paid for? Do we take it off the education or health budgets? Of course, there is a simple way of paying for it: give Wales the Barnett consequential of the London Olympics. That would give Wales approximately 5.4 per cent of the estimated £9 billion for the London Olympics, giving us almost £500 million, less the £20 million we've had, which would be enough.

Turning to where in Wales to host these games, as the Commonwealth Games—like the Olympics—are given to a city, not a country, why not Swansea—Wales's premier sporting city, Wales's top football team, Wales's top rugby team? Whilst the events would be held across Wales, Swansea should be the lead city. It has been to Cardiff, it is now the turn of Swansea.

Mae angen digwyddiadau mawr arnom yng Nghymru. Un o gyflawniadau'r Cynulliad Cenedlaethol hwn—a Llywodraeth Cymru, mentraf ddweud—yw ein bod wedi cael mwy o ddigwyddiadau mawr yng Nghymru ers datganoli nag a gawsom cyn hynny. Beth sy'n gyraeddadwy? Mae gan bawb eu barn eu hunain ynglŷn â beth sy'n ddigwyddiad mawr. Byddwn yn dadlau bod gan Gymru 19 o ddigwyddiadau chwaraeon mawr bob blwyddyn—pob gêm Uwch Gynghrair y mae Dinas Abertawe yn ei chwarae. Mae diddordeb y byd yn yr uwch gynghrair yn aruthrol. Mewn rhai rhannau o'r byd, mae Dinas Abertawe yn fwy cyfarwydd na Chymru oherwydd poblogrwydd yr uwch gynghrair. Y cystadlaethau allweddol i'w cael yw rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr a chynghrair Europa. Wrth gwrs, mae Cynghrair y Pencampwyr yn dod i Gaerdydd yn 2017—cyflawniad enfawr. Yn sicr mae angen llongyfarch cymdeithas bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru ar gael rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr.

Wrth gwrs, os ydych am ddigwyddiadau chwaraeon mawr, bydd angen y seilwaith arnoch. Dyna pam y mae cadw maes awyr Cymru Caerdydd fel maes awyr mor bwysig. Yn syml, heb faes awyr ni allwch gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr.

Gan droi at Gemau'r Gymanwlad, o ran Gemau'r Gymanwlad, mewn gwirionedd mae yna ddau gwestiwn cychwynnol: faint fyddai'n ei gostio, a sut rydych yn mynd i dalu amdano? Er bod pob un Gemau'r Gymanwlad yn costio swm gwahanol, ac weithiau mae'r costau'n hynod o niwlog, yn ôl 'The Independent', gwyddom fod Manceinion wedi costio £300 miliwn, a Glasgow, yn ôl 'The Daily Telegraph', wedi costio £400 miliwn. Os yw Cymru yn gwneud cais, mae bron yn sicr o fod yn llwyddiannus. Mae'n ymddangos bod dyddiau cynigwyr lluosog am Gemau'r Gymanwlad ar ben. Sut y telir amdanynt? A ydym yn ei dynnu o'r cyllidebau addysg neu iechyd? Wrth gwrs, mae yna ffordd syml o dalu amdano: rhoi swm canlyniadol Barnett o Gemau Olympaidd Llundain i Gymru. Byddai hynny'n rhoi tua 5.4 y cant o'r £9 biliwn amcangyfrifedig am Gemau Olympaidd Llundain i Gymru, gan roi bron i £500 miliwn, llai'r £20 miliwn rydym wedi'i gael, a byddai'n ddigon.

Gan droi at ble yng Nghymru i gynnal y gemau hyn, gan fod Gemau'r Gymanwlad—fel y Gemau Olympaidd—yn cael eu rhoi i ddinas, nid i wlad, beth am Abertawe—prif ddinas chwaraeon Cymru, tîm pêl-droed gorau Cymru, tîm rygbi gorau Cymru? Er y byddai'r digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru, dylai Abertawe fod yn ddinas arweiniol. Mae'r Gemau wedi bod yng Nghaerdydd; tro Abertawe yw hi yn awr.

17:32

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to speak on holding major sporting events in Wales, and we will be supporting the motion.

Diolch am y cyfle i siarad am gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru, a byddwn yn cefnogi'r cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As we know, holding major sporting events has the potential to bring a number of benefits. There are the health benefits, which come from the increased interest and participation in sport that holding major sporting events engenders. Obesity is an increasing problem in Wales. Regular sport and exercise, in conjunction with a healthy diet, could help to reduce levels of obesity. It would also reduce the risk of developing major chronic diseases, such as coronary heart disease, stroke, diabetes and some cancers. And there are the economic benefits derived from the influx of a large number of spectators to the host venue and the opportunity of promoting the host venue abroad.

Wales has a strong history of hosting major sporting events, such as the Ryder Cup and Ashes matches; and the Welsh economy has benefited as a result. Bethan Jenkins has already mentioned the Ryder Cup at the Celtic Manor in 2010, which injected over £80 million into the south Wales economy. The chairman of Glamorgan County Cricket Club estimated the benefit of holding international cricket matches to be in excess of £75 million over six years, and yet the Welsh Government's approach to holding major sporting events is characterised by a lack of ambition.

The Welsh Conservatives fully support making a bid to bring the Commonwealth Games to Wales in 2026 or 2030. The Commonwealth Games were last held in Wales in 1958. A successful bid to bring the games to Wales would have a substantial economic impact. It would create opportunities for individuals, communities, businesses and organisations across Wales to share in the benefits engendered, and an opportunity to market Wales abroad.

We already have world-class venues in place. I believe bringing the Commonwealth Games to Wales once again would enhance our growing reputation for staging international events. On Sunday 22 May this year, up to 18,000 riders will take part in Velothon Wales. This completely closed-road cycling event takes in some of Wales's most breathtaking scenery. It is likely to attract some of the world's best teams and riders. It promises to be a spectacular weekend of cycling events. I believe the landscape of Wales with its combination of urban and mountain environments lends itself perfectly to cycling events. I fully support the development of a bid to bring a cycling grand tour to Wales.

Deputy Presiding Officer, for the first time since 1958 people across Wales will have an opportunity to watch our football team take on Europe's best. It is right that the National Assembly should mark this historic occasion by giving Chris Coleman and his team an official send-off. However, the vast majority of supporters will not be able to get tickets for the games themselves. That is why we fully support the establishment of fanzones across Wales, so that supporters can share the experience of watching Wales together. During the Rugby World Cup, some 150,000 people visited the fanzone at Cardiff Arms Park. We have a chance to make the most of the enthusiasm presented by Euro 2016 to increase sports participation in Wales. I call on members from all sides of the Chamber to sign the statement of opinion tabled by Andrew R.T. Davies and back fanzones across Wales.

Fel y gwyyddom, mae potensial gan gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr i sicrhau nifer o fanteision. Ceir manteision iechyd, sy'n dod o ddiddordeb a chyfranogiad cynyddol mewn chwaraeon y mae cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yn eu meithrin. Mae gordewdra yn broblem gynyddol yng Nghymru. Gallai chwaraeon ac ymarfer corff rheolaidd, ar y cyd â deiet iach, helpu i ostwng lefelau gordewdra. Byddai hefyd yn lleihau'r risg o ddatblygu clefydau cronig mawr, megis clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes a rhai mathau o ganser. A cheir manteision economaidd sy'n deillio o'r mewnlifiad o nifer fawr o wylwyr i'r lleoliad sy'n cynnal y digwyddiad a'r cyfle i hyrwyddo'r lleoliad dramor.

Mae gan Gymru hanes cryf o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, fel gemau Cwpan Ryder a gemau'r Llundw; ac mae economi Cymru wedi elwa o ganlyniad. Mae Bethan Jenkins eisoes wedi sôn am Gwpan Ryder yn y Celtic Manor yn 2010, a chwistrellodd dros £80 miliwn i economi de Cymru. Amcangyfrifodd cadeirydd Clwb Criced Morgannwg fod y fantais o gynnal gemau criced rhyngwladol yn fwy na £75 miliwn dros chwe blynedd, ac eto diffyg uchelgais sy'n nodweddu ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn llwyr gefnogi gwneud cais i ddod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru yn 2026 neu 2030. Cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad ddiwethaf yng Nghymru ym 1958. Byddai cais llwyddiannus i ddod â'r gemau i Gymru yn cael effaith economaidd sylweddol. Byddai'n creu cyfleoedd i unigolion, cymunedau, busnesau a sefydliadau ledled Cymru i rannu yn y manteision a gâi eu creu, a chyfle i farnata Cymru dramor.

Mae gennym eisoes leoliadau o safon fyd-eang. Credaf y byddai dod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru unwaith eto yn gwella ein henw da cynyddol am gynnal digwyddiadau rhyngwladol. Ar Sul 22 Mai eleni, bydd hyd at 18,000 o feicwyr yn cymryd rhan yn Felothon Nghymru. Mae'r digwyddiad beicio ar ffyrdd caeedig ar ei hyd yn cynnwys rhai o olygfeydd mwyaf godidog Cymru. Mae'n debygol o ddenu rhai o dimau a beicwyr gorau'r byd. Mae'n addo bod yn benwythnos ysblennydd o ddigwyddiadau beicio. Rwy'n credu bod tirwedd Cymru, gyda'i chyfuniad o amgylcheddau trefol a mynyddig yn berffaith ar gyfer digwyddiadau beicio. Rwy'n llwyr gefnogi datblygu cais i ddod ras feicio fawr i Gymru.

Ddirprwy Lywydd, am y tro cyntaf ers 1958 bydd cyfle i bobl ar draws Cymru wyllo ein tîm pêl-droed yn cystadlu yn erbyn timau gorau Ewrop. Mae'n iawn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol nodi'r achlysur hanesyddol hwn i ffarweliol'n swyddogol â Chris Coleman a'i dîm. Fodd bynnag, ni fydd y mwyafrif helaeth o'r cefnogwyr yn gallu cael tocynnau ar gyfer y gemau eu hunain. Dyna pam rydym yn llwyr gefnogi sefydlu parthau cefnogwyr ledled Cymru, er mwyn i gefnogwyr allu rhannu'r profiad o wyllo Cymru gyda'i gilydd. Yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd, ymwelodd tua 150,000 o bobl â'r parth cefnogwyr ym Mharc yr Arfau. Mae gennym gyfle i wneud y gorau o'r brwdfrydedd y mae Ewro 2016 yn ei gynnig i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Rwy'n galw ar Aelodau ar bob ochr i'r Siambri i lofnodi'r datganiad barn a gyflwynwyd gan Andrew R.T. Davies a chefnogi parthau cefnogwyr ledled Cymru.

Sporting events not only create jobs and other opportunities, and promote the country; they also give people the will for fighting, for improving their—what do you call it—discipline, competition and leadership. There are quite a few things involved with sporting events. Our children definitely need to come on board to make sure that what we did in the last Olympics, where we virtually punched more above our weight and achieved more medals than ever before—. This small nation has great talent, and I am quite confident that we can tell the world that we are the best in sporting events in the world. Thank you.

Mae digwyddiadau chwaraeon nid yn unig yn creu swyddi a chyfleoedd eraill, ac yn hyrwyddo'r wlad; maent hefyd yn rhoi'r ewyllys i bobl ymladd, i wella eu—beth rydych yn ei alw—disgyblaeth, cystadleuaeth ac arweinyddiaeth. Mae yna gryn dipyn o bethau sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau chwaraeon. Yn bendant bydd angen denu ein plant i wneud yn siŵr fod yr hyn a wnaethom yn ystod y Gemau Olympaidd diwethaf, lle'r oeddem yn cystadlu ar lefel uwch a chael mwy o fedalau nag erioed o'r blaen—. Mae gan y genedl fach hon dalent fawr, ac rwy'n eithaf ffyddiog y gallwn ddweud wrth y byd mai ni yw'r gorau yn y byd mewn digwyddiadau chwaraeon. Diolch.

17:37

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to say that I feel Mike Hedges's pain with his references to Paul Bodin and Joe Jordan, but that pales into insignificance compared to the depths of despair and despondency felt by many Carmarthen Town fans when Mike was a Welsh league referee, of course, years ago. [Laughter.] But let's not look back. Let's not dwell on the costs and the problems. Let's look at the advantages and the positives that would come from, for example, hosting the Commonwealth Games here in Wales.

Felly, gadewch inni edrych ar y profiad a gafwyd yn yr Alban yn 2014, lle cynhyrwyd gwerth bron £0.75 biliwn i'r economi yn sgil cynnal Gemau'r Gymanwlad—£390 miliwn yn ôl un 'estimate' i Glasgow ei hun yn economaidd. Rhwng 2007 a 2014, roedd 2,100 o swyddi, ar gyfartaledd, wedi'u creu, gyda thros hanner o'r rheini, mae'n debyg, yn Glasgow hefyd. Trefnwyd y gemau yn fanna ar amser ac o fewn y gyllideb, a hynny, yn ei dro, yn sbarduno lefel uchel o gefnogaeth gan y cyhoedd i chwaraeon, a llawer mwy o gyfranogaeth hefyd. Denwyd 690,000 o ymwelwyr unigryw i'r gemau hynny. Buddsoddwyd mewn isadeiledd, wrth gwrs, yn enwedig mewn campau lefel perfformiad uchel, sydd yn amlwg wedi dod â budd ehangach iddyn nhw yn fanna.

Mae gweithgaredd corfforol ar i fyny am y tro cyntaf mewn blynyddoedd mawr yn sgil y gemau hynny yn yr Alban hefyd. Ar yr un pryd, wrth gwrs, mi welon nhw fuddsoddiad sylweddol mewn isadeiledd yn yr Alban, ac mewn adfywio dwyrain y ddinas yn enwedig, a hynny yn dod â buddsoddiad mewn tai ac, fel yr oeddwn yn ei ddweud, legasi ehangach o safbwynt gwella ffitrwydd corfforol ac elfennau o iechyd y cyhoedd, yn ogystal â budd economaidd. Felly, mae'r achos dros ddenu'r gemau i Gymru yn 2026 neu 2030 yn ddiamheuol yn fy marn i.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn teimlo poen Mike Hedges gyda'i gyfeiriadau at Paul Bodin a Joe Jordan, ond mae hynny'n pylu'n ddim o'i gymharu â dyfnderoedd yr anobaith a'r digalondid a deimlid gan lawer o gefnogwyr Tref Caerfyrddin pan oedd Mike yn ddyfarnwr yng nghynghrair Cymru, wrth gwrs, flynyddoedd yn ôl. [Chwerthin.] Ond gadewch i ni beidio ag edrych yn ôl. Gadewch i ni beidio ag oedi ar y costau a'r problemau. Gadewch i ni edrych ar y manteision a'r pethau cadarnhaol a fyddai'n deillio, er enghraifft, o gynnal Gemau'r Gymanwlad yma yng Nghymru.

Therefore, let us look at the experience in Scotland in 2014, where almost £0.75 billion was generated for the economy as a result of hosting the Commonwealth Games—£390 million, according to one estimate, for Glasgow itself. Between 2007 and 2014, 2,100 jobs were created, on average, with over half those, seemingly, in Glasgow. The games there were arranged on time and within budget, and that in turn engendered a great deal of public support for sport and a great deal of participation as well. Six hundred and ninety thousand unique visitors were attracted to those games. There was investment in infrastructure, particularly in high-level performance sports, which has obviously brought wider benefits in that area.

Physical activity is on the up for the first time in many years as a result of the Commonwealth Games in Scotland. Simultaneously, of course, they saw significant investment in infrastructure in Scotland, in terms of the regeneration of the east of the city particularly, which brought investment in housing and, as I said, a wider legacy in terms of physical fitness and public health, as well as economic benefit. So, the case for attracting the games to Wales in 2026 or 2030 is incontrovertible in my view.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf jest hefyd am sôn yn fyr am yr angen i ddenu campau seiclo i Gymru. Cyfeiriodd Bethan Jenkins, wrth gwrs, at y Grand Départ fel rhan o'r Tour de France, a ddaeth i swydd Efrog, wrth gwrs, yn 2014, a hynny'n denu 2.5 miliwn o bobl i droi allan ar y ffyrdd i weld y Tour de France yn eu hardal nhw. Rwy'n siŵr bod hynny'n dod â buddiannau sylweddol iawn. Nid oes rheidrwydd, wrth gwrs, inni geisio denu'r Tour de France yn benodol. Rydym yn gwybod bod Gogledd Iwerddon wedi cynnal agoriad y Giro d'Italia. Byddai'n bosibl inni, efallai, edrych yn y cyfeiriad yna. Hefyd, y Vuelta, y 'cyclists' grand tour', sydd ddim ond wedi cyhwyn y tu fas i Sbaen ar ddau achlysur, ac nid ers nifer o flynyddoedd, ond rwyf yn meddwl bod yna gyfle inni fanna, efallai, i geisio denu'r rheini i Gymru.

Felly, mae angen ychydig o ddychymyg. Mae angen ychydig o sbardun gan y Llywodraeth yma, a dyna yn union, wrth gwrs, pam fod Plaid Cymru wedi gosod y ddadl yma y prynhawn yma. Ond, edrych ar y manteision ac ar y cyfleon sydd angen inni wneud, a gweld tu hwnt i'r problemau.

I also want to briefly mention the need to attract cycling events to Wales. Bethan Jenkins, of course, mentioned the Grand Départ as part of the Tour de France, which came to Yorkshire of course, in 2014, and that attracted 2.5 million people who lined the roads to see the Tour de France in their own area. I'm sure that that brought significant benefits in its wake. We don't necessarily have to try to attract the Tour de France specifically. We know that Northern Ireland has staged the opening of the Giro d'Italia. It would be possible, perhaps, for us to look in that direction. There's also the Vuelta, the cyclists' grand tour, as it's known, which has only started outside Spain on two occasions and not for many years, but there is an opportunity there, perhaps, to try and attract those events to Wales.

So, we need a little imagination. We need some inspiration from the Government here, and that's exactly why Plaid Cymru has tabled this debate this afternoon. But, we need to look at the benefits and the opportunities, and see beyond the problems.

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:40 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank Members for their contributions to this debate today, which also provides me with an opportunity to update the Chamber on the progress we made in delivering our major events strategy? Since we debated this very topic last May, we've made further strides in reinforcing Wales's reputation as a world-class events destination. In 2015, with the eyes of the world once again upon us, we supported the successful delivery of a number of global sporting events, including the Ashes test match, the Rugby World Cup, and Wales Rally GB. We also supported what I think was a rich and varied mix of cultural events, including the Machynlleth Comedy Festival, the Hay Festival, Festival No. 6, Focus Wales in Wrexham, and of course the Good Life Experience in Hawarden.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl hon heddiw, sydd hefyd yn rhoi cyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ar y cynnydd rydym wedi'i wneud ar gyflawni ein strategaeth digwyddiadau mawr? Ers i ni drafod yr union bwnc hwn fis Mai diwethaf, rydym wedi gwneud camau pellach ymlaen ar atgyfnerthu enw da Cymru fel cyrchfan digwyddiadau o'r radd flaenaf. Yn 2015, gyda llygaid y byd arnom unwaith eto, fe gefnogom y gwaith o gyflwyno nifer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr y byd yn llwyddiannus, gan gynnwys gêm brawf y Llundw, Cwpan Rygbi'r Byd, a Rali Cymru Prydain Fawr. Hefyd, fe gefnogom yr hyn y credaf ei fod yn gymysgedd cyfoethog ac amrywiol o ddigwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys Gŵyl Gomeddi Machynlleth, Gŵyl y Gelli, Gŵyl Rhif 6, Ffocws Cymru yn Wrecsam, ac wrth gwrs y Good Life Experience ym Mhenarlâg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On point 1, the Welsh Government fully recognises the economic value of hosting major events. They make a positive contribution to our drive to support jobs and create wealth, and they can also play a vital role in raising Wales's international profile and reputation as a place to visit, as a place to live in, and of course as a place to invest in. In 2015, we supported 39 events across Wales, which attracted an estimated 400,000 visitors, generating a direct economic impact of over £120 million. That represents a considerable return on investment of £30 for every £1 invested by Welsh Government.

O ran pwynt 1, mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod gwerth economaidd cynnal digwyddiadau mawr. Maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n hymgyrch i gefnogi swyddi a chreu cyfoeth, a gallant hefyd chwarae rhan hanfodol yn gwella proffil ac enw da rhyngwladol Cymru fel lle i ymweld ag ef, fel lle i fyw, ac wrth gwrs fel lle i fuddsoddi ynddo. Yn 2015, fe gefnogom 39 o ddigwyddiadau ledled Cymru, a ddenodd tua 400,000 o ymwelwyr, gan greu effaith economaidd uniongyrchol o dros £120 miliwn. Mae hynny'n adenillion sylweddol ar fuddsoddiad o £30 am bob £1 a fuddsoddiwyd gan Lywodraeth Cymru.

On point 2, the Welsh Government is continuing to work with key stakeholders on a detailed feasibility study in relation to the potential bid for the 2026 games. Cabinet considered a progress paper in October, and further work has been commissioned on a five-case business model. Following the success of Glasgow 2014, we fully recognise the desire for Wales to pursue a bid for a future Commonwealth Games, and the key issues in considering a bid, as Mike Hedges pointed to, remain the likely costs and benefits for Wales. I can inform Members that we're taking full account of the economic impact study from the Glasgow 2014 games.

On point 3, cycling also features prominently in our annual programme of supported events, which reflects the significant recent growth in popularity of the sport. Wales has hosted stages of the Tour of Britain since 2010, and last year saw the inaugural Velothon Wales successfully staged across south Wales. This actually means that Wales currently hosts two of the four major international road cycling events in the UK. But we are ambitious in wanting to host the most prestigious events that the sport has to offer. Of course, there are no bigger road cycling events in both scale and in tradition as one of the grand tours. There is no doubting the global attention that Yorkshire attracted by staging the Grand Départ of the 2014 Tour de France. Similarly, the Giro d'Italia generated huge interest in Ireland, helping to establish the landscapes north and south as potential tourism destinations.

Deputy Presiding Officer, on point 4 we are of course hugely proud of the achievement of our national team in reaching one of the world's biggest tournaments, and they can count on our wholehearted support as they prepare to compete against Europe's best teams. Officials have discussed the possibility of a send-off for the Welsh team before Euro 2016 with the Football Association of Wales. However, the time the team has together before travelling to France is limited, and the team management's priority, I think quite rightly, is on pre-tournament preparations. As Members will be aware, following the e-mail sent out by the FAW this afternoon, I think it's absolutely essential that we therefore look at the potential for a celebration when the team returns. The final home game for the team will be at Cardiff City Stadium on 24 March, and I think that gives everybody an opportunity to give them the send-off that they thoroughly deserve.

On point 5, the Welsh Government would welcome the establishment by partners of any opportunities for football fans in Wales to get together with friends and family to view the matches here. Given that the matches will be broadcast by the BBC and ITV on a shared basis, much of this activity is already being planned for pubs and clubs across the nation. I know that the FAW supports the notion of establishing fanzones throughout Wales and is exploring the opportunities with interested parties, including the national team sponsors. However, as I have said, the focus of the FAW is on the extensive preparations of the national team in France and the operational logistics for team management, media and fans.

O ran pwynt 2, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar astudiaeth ddichonoldeb fanwl mewn perthynas â'r cais posibl am gemau 2026. Ystyriodd y Cabinet bapur cynnydd ym mis Hydref, a chomisiynwyd gwaith pellach ar fodel busnes pum achos. Yn dilyn llwyddiant Glasgow 2014, rydym yn llwyr gydnabod yr awydd i Gymru fwrw ati ar gais am Gemau'r Gymanwlad yn y dyfodol, a'r materion allweddol o hyd wrth ystyried cais, fel y nododd Mike Hedges, yw'r costau a'r manteision tebygol i Gymru. Gallaf hysbysu'r Aelodau ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r astudiaeth o effaith economaidd gemau Glasgow 2014.

Ar bwynt 3, mae beicio hefyd yn cael lle amlwg yn ein rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gefnogir, gan adlewyrchu'r twf sylweddol yn ddiweddar ym mhoblogrwydd y gamp. Mae Cymru wedi cynnal camau o'r Tour of Britain ers 2010, a'r llynedd, cynhaliwyd y ras Felothon Cymru gyntaf yn llwyddiannus ar draws de Cymru. Mae hyn mewn gwirionedd yn golygu bod Cymru yn cynnal dau o'r pedwar digwyddiad beicio ar y ffordd rhyngwladol mawr yn y DU ar hyn o bryd. Ond rydym yn uchelgeisiol yn ein dymuniad i gynnal y digwyddiadau mwyaf eu bri sydd gan y gamp i'w cynnig. Wrth gwrs, ni cheir digwyddiadau beicio ar y ffordd mwy o ran eu maint ac o ran traddodiad nag un o'r rasys beicio mawr. Ni ellir amau'r sylw byd-eang a ddenodd Swydd Efrog drwy gynnal Grand Départ y Tour de France yn 2014. Yn yr un modd, cynhyrchodd y Giro d'Italia ddiddordeb enfawr yn lwerddon, gan helpu i sefydlu tirweddau'r gogledd a'r de fel cyrchfannau twristiaeth posibl.

Ddirprwy Lywydd, ar bwynt 4 rydym wrth gwrs yn hynod falch o gyflawniad ein tîm cenedlaethol yn cyrraedd un o bencampwriaethau mwyaf y byd, a gallant ddibynnu ar ein cefnogaeth lwyr wrth iddynt baratoi i gystadlu yn erbyn timau gorau Ewrop. Mae swyddogion wedi trafod y posibilrwydd o ddigwyddiad ffarwelio i dîm Cymru cyn Ewro 2016 gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Fodd bynnag, mae'r amser fydd gan y tîm gyda'i gilydd cyn teithio i Ffrainc yn gyfyngedig, a bydd blaenoriaeth rheolwyr y tîm, yn gwbl briodol yn fy marn i, ar baratoadau cyn y bencampwriaeth. Fel y gwyr yr Aelodau, yn dilyn yr e-bost a anfonwyd gan y Gymdeithas Bêl-droed y prynhawn yma, rwy'n credu ei bod yn hollol hanfodol ein bod felly'n edrych ar y potensial o ddatihad pan fydd y tîm yn dychwelyd. Bydd y gêm gartref olaf i'r tîm yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 24 Mawrth, a chredaf fod hynny'n rhoi cyfle i bawb ffarwelio â hwy yn y modd y maent yn ei lwyr haeddu.

Ar bwynt 5, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sefydlu, gyda phartneriaid, unrhyw gyfleoedd i gefnogwyr pêl-droed yng Nghymru ddod at ei gilydd gyda ffrindiau a theulu i wylïo'r gemau yma. O gofio y bydd y BBC ac ITV yn rhannu'r gwaith o ddarlledu'r gemau, mae llawer o'r gweithgarwch hwn eisoes yn cael ei gynllunio ar gyfer tafarndai a chlybiau ar draws y genedl. Gwn fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cefnogi'r syniad o sefydlu parthau cefnogwyr ledled Cymru ac yn archwilio'r cyfleoedd gyda phartion â diddordeb, gan gynnwys noddwyr y tîm cenedlaethol. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae ffocws y Gymdeithas Bêl-droed ar baratoadau helaeth y tîm cenedlaethol yn Ffrainc a'r logisteg weithredol ar gyfer rheoli'r tîm, y cyfryngau a chefnogwyr.

I think it's also worth noting that the tournament gives pubs and football clubs—indeed, sports clubs of every variety across Wales—a golden opportunity to capitalise on matches. So, while fanzones might appear to be desirable, I would not wish them to deprive small businesses, such as pubs and sports clubs, of valuable revenues.

Bethan Jenkins, how could I possibly disagree with your suggestion that I take Welsh Government figures to France next year to promote Wales? It's something that, oddly enough, many Members have already raised with me. Amendment 1, Aled Roberts: we would support this amendment. The Welsh Government works closely with event owners and organisers to ensure that effective delivery and communications plans are in place at the earliest stages of planning an event to ensure a high-quality experience for visitors and to minimise disruption for local residents and businesses.

In closing, major events can and should be grown at home as well as attracted to Wales. 2016 is the Year of Adventure in Wales, which has already garnered us unprecedented amounts of top tourism listings for 2016 from the 'Rough Guide' to the 'Lonely Planet' to 'Forbes'—all naming Wales as a must-see place to visit in 2016. Our vision of Wales as a consistently outstanding destination for major events remains. In developing a distinctive portfolio of events, Deputy Presiding Officer, we'll seek to strike the right balance between attracting international events to Wales and growing events here for our communities and by our businesses.

Rwy'n credu ei bod yn werth nodi hefyd fod y bencampwriaeth yn rhoi cyfle euraidd i dafarndai a chlybiau pêl-droed—yn wir, clybiau chwaraeon o bob math ym mhob cwr o Gymru—i fanteisio ar y gemau. Felly, er y gallai parthau cefnogwyr ymddangos yn ddymunol, ni fyddwn eisiau iddynt amddifadu busnesau bach, megis tafarndai a chlybiau chwaraeon, o refferniw gwerthfawr.

Bethan Jenkins, sut y gallwn anghytuno â'ch awgrym fy mod yn mynd ag aelodau o Lywodraeth Cymru i Ffrainc y flwyddyn nesaf i hyrwyddo Cymru? Yn rhyfedd ddigon, mae'n rhywbeth y mae nifer o'r Aelodau eisoes wedi'i grybwyll wrthyf. Gwelliant 1, Aled Roberts: byddem yn cefnogi'r gwelliant hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda pherchnogion a threfnwyr digwyddiadau i sicrhau bod cynlluniau cyflawni a chyfathrebu effeithiol ar waith yn ystod y camau cynharaf o'r broses o gynllunio digwyddiad i sicrhau profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr ac i leihau aflonyddwch i drigolion a busnesau lleol.

Wrth gloi, fe ellir, ac fe ddylid tyfu digwyddiadau mawr gartref, yn ogystal â'u denu i Gymru. 2016 yw Blwyddyn Antur yng Nghymru, sydd eisoes wedi sicrhau nifer digynsail o safleoedd ar frig y rhestrau twristiaeth ar gyfer 2016 o'r 'Rough Guide' i'r 'Lonely Planet' a 'Forbes'—pob un yn enwi Cymru fel lle sy'n rhaid ymweld ag ef yn 2016. Mae ein gweledigaeth o Gymru fel cyrchfan sy'n gyson ragorol ar gyfer digwyddiadau mawr yn parhau. Wrth ddatblygu portffolio arbennig o ddigwyddiadau, Ddirprwy Lywydd, byddwn yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng denu digwyddiadau rhyngwladol i Gymru a datblygu digwyddiadau yma ar gyfer ein cymunedau a chan ein busnesau.

17:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bethan Jenkins to reply.

Bethan Jenkins i ateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:47 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you and thank you everybody who has contributed to the debate this afternoon. Obviously, it's an exciting time for the Welsh football team and I think that reflects in everybody's contributions today. Obviously, I would have liked to have heard a more hands-on approach with regard to potentially setting up the fanzones. I do actually agree with what Mike Hedges says with regard to the potential for it to be held in stadia across Wales, because I think that they have the capacity already in the system. Whether they would only show the Wales games, or whether they would show all games, is something else altogether. But I think the possibility is there to be able to do that. Hence why I, as you said, have written to various clubs so that we can look into that feasibility.

I wouldn't really see it then as infringing on small businesses, because I think there is a critical mass of people who will not be able to go to France, who may not be able to afford it, are working, are too ill to be able to attend, or who can't get hotels, can't get places to stay. So, they may not be able to travel. So, there will always be those people that will want to take part.

Diolch i chi a diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl y prynhawn yma. Yn amlwg, mae'n amser cyffrous i dîm pêl-droed Cymru a chredaf fod hynny wedi'i adlewyrchu yng nghyfraniadau pawb heddiw. Yn amlwg, byddwn wedi hoffi clywed ymagwedd fwy gweithredol o ran sefydlu'r parthau cefnogwyr o bosibl. Mewn gwirionedd rwy'n cytuno â'r hyn y mae Mike Hedges yn ei ddweud o ran y potensial o'u cynnal mewn stadia ar draws Cymru, oherwydd credaf fod ganddynt y capasiti eisoes yn y system. Mae'n fater arall a fyddent ond yn dangos y gemau Cymru, neu a fyddent yn dangos pob gêm. Ond rwy'n credu bod y posibilrwydd yno i allu gwneud hynny. Felly dyna pam yr ysgrifennais, fel y dywedoch, at wahanol glybiau er mwyn i ni allu edrych ar ddichonoldeb hynny.

Ni fyddwn yn ei weld yn rhywbeth sy'n tarfu ar fusnesau bach, gan fy mod yn credu bod mäs critigol o bobl na fydd yn gallu mynd i Ffrainc, nad ydynt efallai'n gallu fforddio mynd, pobl sy'n gweithio, yn rhy sâl i allu mynd, neu bobl nad ydynt yn gallu dod o hyd i westai neu lefydd aros. Felly, efallai na fyddant yn gallu teithio. Felly, bydd yna bob amser bobl a fydd yn awyddus i gymryd rhan.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I hear what Eluned Parrott is saying with regard to transport and with regard to the issues that are created for residential areas. I would obviously take those concerns very seriously, but I think sometimes perhaps those residential areas can just join in the fun as well and see if they can get involved in the celebrations. I'm sure I'll get an e-mail complaining about that comment now, after I sit down.

With regard to Mike Hedges, he's obviously very passionate about Swansea. I was counting how many times he said 'Swansea'. But, obviously, we've got a great football team there. So, of course we would want to put that on the map.

With regard to the Conservatives, well, thank you for the contribution, although, at the beginning of the week, the leader of the Conservatives was very keen to put out a statement of opinion on fanzones, but has found himself unable to come to the debate today to show his passion for the creation of them here. So, you know—.

Obviously, Llyr has given you more detail as to Plaid Cymru's views with regard to the Grand Départ and the figures with that, and the Deputy Minister has also said how successful these events are across the world. I would obviously welcome much more investment in this area because—not being a cyclist myself, but being a runner—I think it's important that, when you've got a critical mass of people who are big into a certain sport, we follow that trend and we bring those events to Wales.

I think that this will be an ongoing discussion, especially with regard to an event to celebrate the team. We had one here for those who were part of the Olympics. It's a way that Welsh society can celebrate. It wasn't really about politicians congratulating or wanting to meet the team, it's about the grass-roots clubs potentially coming down to Cardiff, or having the event somewhere not in Cardiff, so that they can celebrate with the team all of what football offers to Welsh society, and I thank you all for taking part in this debate.

Clywaf yr hyn y mae Eluned Parrott yn ei ddweud o ran trafndiaeth ac o ran y problemau sy'n cael eu creu mewn ardaloedd preswyl. Yn amlwg byddwn o ddifrif ynghylch y pryderon hynny, ond rwy'n meddwl weithiau efallai y gall ardaloedd preswyl o'r fath ymuno yn yr hwyl hefyd a gweld os gallant gymryd rhan yn y dathliadau. Rwy'n siŵr y byddaf yn cael e-bost yn cwyno am y sylw hwnnw yn awr, ar ôl i mi eistedd.

O ran Mike Hedges, mae'n amlwg yn angerddol iawn ynglŷn ag Abertawe. Roeddwn yn cyfrif sawl gwaith y dywedodd 'Abertawe'. Ond yn amlwg, mae gennym dîm pêl-droed gwych yno. Felly, wrth gwrs y byddem am roi hynny ar y map.

O ran y Ceidwadwyr, wel, diolch am y cyfraniad, er, ar ddechrau'r wythnos, roedd arweinydd y Ceidwadwyr yn awyddus iawn i gyhoeddi datganiad barn ar barthau cefnogwyr, ond mae wedi methu â dod i'r ddadl heddiw i ddangos ei angerdd ynglŷn â'u creu yma. Felly, wyddoch chi—.

Yn amlwg, mae Llyr wedi rhoi mwy o fanylion i chi ynghylch safbwyntiau Plaid Cymru ar y Grand Départ a'r ffigurau mewn perthynas â hynny, ac mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi dweud pa mor llwyddiannus yw'r digwyddiadau hyn ledled y byd. Byddwn yn amlwg yn croesawu llawer mwy o fuddsoddiad yn y maes hwn oherwydd—gan mai rhedwr wyf fi, nid beiciwr—pan fydd gennyh chi fâs critigol o bobl sy'n ymwneud llawer â champ benodol, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn dilyn y duedd honno ac yn dod â'r digwyddiadau hynny i Gymru.

Rwy'n credu y bydd hon yn drafodaeth barhaus, yn enwedig o ran digwyddiad i ddathlu'r tîm. Cawsom un yma ar gyfer y rhai a oedd yn rhan o'r Gemau Olympaidd. Mae'n ffordd y gall y gymdeithas yng Nghymru ddathlu. Nid oedd yn ymwneud mewn gwirionedd â gwleidyddion yn llongyfarch neu'n awyddus i gyfarfod â'r tîm, mae'n ymwneud â'r clybiau ar lawr gwlad a allai fod yn dod i lawr i Gaerdydd, neu gael digwyddiad yn rhywle heblaw Caerdydd, fel y gallant ddathlu gyda'r tîm y cyfan sydd gan bêl-droed i'w gynnig i'r gymdeithas yng Nghymru, ac rwy'n diolch i chi i gyd am gymryd rhan yn y ddadl hon.

17:50

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] You object. I'll defer voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rydych yn gwrthwynebu. Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:50

7. Dadl Cyfnod 4 ar Fil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is the Stage 4 debate on the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, and I call on Kirsty Williams to move the motion.

Cynnig NDM5956 Kirsty Williams

7. Stage 4 Debate on the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill

Eitem 7 yw dadl Cyfnod 4 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig y cynnig.

Motion NDM5956 Kirsty Williams

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).

Cynigiwyd y cynnig.

17:50

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I formally move the motion on the Order paper and ask that the National Assembly approve the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill. If colleagues in this Chamber today decide to do so, it will mean that Wales will become the first country in Europe to pass a law that ensures that nurses, in the first instance on acute in-patient wards, will have the time to deliver safe, effective and quality nursing care. It will mean that the Welsh NHS will be a world leader in not only recognising the link between nurse-patient ratios and patient outcomes, but taking the ultimate step that is available to a parliament, and that is legislating for it.

Let us be clear about the evidence: only today the 'British Medical Journal' published a report on the effect the number of registered nurses for every six patients has on patient outcomes. The evidence in the BMJ today reinforces other studies that have demonstrated the positive effect that safe nurse staffing has on patient outcomes. A study across 30 English acute trusts found that hospitals with the highest number of patients per nurse had a 26 per cent higher mortality rate. But this Bill goes beyond simplistic numbers. It accounts for the acuity of patients—i.e., how sick a patient is—and, for me, most importantly of all, it respects the professional judgment of the nurse in charge of the ward and it empowers her or him to state clearly what is in the best interests of the patient on that ward on any given day. But this Bill will go further. It lays the foundations for safe nurse staffing not just in acute medical and surgical wards in our district general hospitals, but lays the foundations for other areas of the NHS as well. Last week, in the Stage 3 debate, we heard about the work that is already very advanced with regard to in-patient mental health wards, the work that is going on to establish acuity tools for those working in community hospitals and for nurses working in the community.

Deputy Presiding Officer, the hour is late. I had the good fortune to win the private Member's Bill ballot, and the opportunity to achieve this change in our law has been a huge privilege, but we would not have got here today if it were not for the hard work of very many other people. Now, I appreciate that I am in danger of falling into the cliché of Oscar-acceptance-speech territory. [Laughter.] But it is only fair that the people who have worked so hard are recognised. So, I would like to thank the efforts of my own staff, Siân Donne and John Williams in my office, and the superb Assembly Bill team, which works for all Members. Their advice in terms of policy, procedure and legal drafting has been superb, and, without them, I would not be standing here today.

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Approves the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill.

Motion moved.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a chynigiau y cynnig ar y papur Trefn yn ffurfiol a gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Os bydd cyd-Aelodau yn y Siambr hon heddiw yn penderfynu gwneud hynny, bydd yn golygu mai Cymru fydd y wlad gyntaf yn Ewrop i basio deddf sy'n sicrhau y bydd gan nyrsys, yn y lle cyntaf ar wardiau aciwt i gleifion mewnlol, amser i ddarparu gofal nyrsio diogel, effeithiol a safonol. Bydd yn golygu y bydd y GIG yng Nghymru yn arwain y byd nid yn unig o ran cydnabod y cysylltiad rhwng cymarebau nyrsys-cleifion a chanlyniadau cleifion, ond hefyd o ran cymryd y cam eithaf sydd ar gael i senedd, sef deddfu ar ei gyfer.

Gadewch inni fod yn glir ynghylch y dystiolaeth: heddiw ddiwethaf, cyhoeddodd y 'British Medical Journal' adroddiad ar yr effaith y mae nifer y nyrsys cofrestredig i bob chwe chlaf yn ei chael ar ganlyniadau cleifion. Mae'r dystiolaeth yn y BMJ heddiw yn atgyfnerthu astudiaethau eraill sydd wedi dangos effaith gadarnhaol lefelau staff nyrsio diogel ar ganlyniadau cleifion. Canfu astudiaeth ar draws 30 o ymddiriedolaethau aciwt yn Lloegr fod ysbytai sydd â'r nifer uchaf o gleifion fesul nyrs â chyfradd farwolaethau 26 y cant yn uwch. Ond mae'r Bil hwn yn mynd y tu hwnt i rifau syml. Mae'n rhoi sylw i aciwtedd cleifion—hynny yw, pa mor sâl yw claf—ac i mi, yn bwysicaf oll, mae'n parhau barn broffesiynol y nyrs â gofal ar y ward ac yn eu grymuso i ddatgan yn glir beth sydd er lles y claf ar y ward honno ar unrhyw ddiwrnod penodol. Ond bydd y Bil hwn yn mynd ymhellach. Mae'n gosod y sylfeini ar gyfer lefelau staff nyrsio diogel nid yn unig ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth, ond hefyd mae'n gosod y sylfeini ar gyfer rhannau eraill o'r GIG yn ogystal. Yr wythnos diwethaf, yn y ddadl Cyfnod 3, clywsom am y gwaith sydd eisoes wedi'i ddatblygu'n fawr ar wardiau iechyd meddwl i gleifion mewnlol, y gwaith sy'n cael ei wneud i sefydlu offer aciwtedd i'r rhai sy'n gweithio mewn ysbytai cymunedol ac i nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned.

Ddirprwy Lywydd, mae'n hwyr yn y dydd. Bwm yn ddigon ffodus i ennill pleidlais y Bil Aelod preifat, ac mae'r cyfle i gyflawni'r newid hwn yn ein cyfraith wedi bod yn ffrainc enfawr, ond ni fyddem wedi cyrraedd y fan hon heddiw heb law am waith caled llawer iawn o bobl eraill. Nawr, rwy'n sylweddoli fy mod mewn perygl o wireddu'r ystrydeb o grwydro i diriogaeth areithiau derbyn Oscar. [Chwerthin.] Ond nid yw ond yn deg ein bod yn cydnabod y bobl sydd wedi gweithio mor galed. Felly, hoffwn ddiolch i ymdrechion fy staff fy hun, Siân Donne a John Williams yn fy swyddfa, a thim gwych Biliau'r Cynulliad, sy'n gweithio ar ran yr holl Aelodau. Mae eu cyngor o ran polisi, gweithdrefn a drafftio cyfreithiol wedi bod yn wych, a hebbynt, ni fyddwn yn sefyll yma heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Can I also thank the Royal College of Nursing, and nurses past and present whose testimony has been so much more eloquent and persuasive than anything that I could say myself? Could I thank the Health and Social Care Committee, which was, in the end, not too terrifying to sit in front of and did not exact too much revenge when they found me on the other side of the table? I'm grateful for their hard work on the Bill. The amendments that were brought forward have truly tested whether this is the right piece of legislation, and I'm grateful for their efforts and the efforts of the official spokespeople from the Conservative party and Plaid Cymru for their support.

I'd also like to put on record my thanks to the Minister, who, shall I say, perhaps was slightly doubtful at the beginning but has persevered with me and the legislation, and recognised that this is a valuable contribution to make to Welsh healthcare.

The Bill before us is short in nature and small, but I believe it will deliver a big difference to the outcome of Welsh patients and to the ability of Welsh nurses to do what they do best, and that is care for us all when we're in need.

17:55

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to speak in support of the motion tabled in the name of Kirsty Williams, and I want to take this opportunity to congratulate her for persevering with this piece of legislation. It has been a long time getting to this stage here in the National Assembly for Wales, but I'm pleased that, on all sides of this house, there's agreement in respect of this Bill that we need a piece of legislation that requires guidance to be issued to Welsh health boards and other NHS bodies in Wales on the staffing requirements in terms of nursing.

As the Member has quite rightly pointed out, there was very clear evidence presented to the committee that looked at this legislation that suggested that, when more nurses are available to care for patients, there are better patient outcomes, and that's what this is all about. I want to pay a great deal of tribute to the Royal College of Nursing here in Wales with their 'Time to Care' campaign, which was the genesis of this Bill coming forward. I can well remember rubbing shoulders with nurses in events upstairs in the Oriel, and, indeed, in my own constituency, as well, helping to promote the need for this legislation, and I want to pay tribute to each and every one of them.

I'm also pleased that this Bill does not just recognise the need to get the nursing ratios right and the staffing levels right, but it also addresses the need for more effective workforce planning, and I was very pleased that the Minister recognised this as well during the Bill's progress through the legislature, because it is imperative that there's a sufficient supply of nurses for our NHS and, indeed, for other sectors in Wales to be able to tap into to make sure that there are safe nurse staffing levels. I'm very pleased that that workforce planning area of the Bill was improved with the introduction of the independent hospital and care home sectors, which the NHS, of course, is working increasingly closely with at this current time.

A gaf fi ddiolch hefyd i'r Coleg Nyrsio Brenhinol, a nyrsys yn y gorffennol a'r presennol y mae eu tystiolaeth wedi bod gymaint yn fwy huawdl ac yn fwy argyhoeddiadol na dim y gallwn ei ddweud fy hun? A gaf fi ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nad oedd, yn y diwedd, yn rhy frawychus i eistedd o'i flaen ac nad oedd ei ddial yn rhy ormodol wrth fy ngweld i ar yr ochr arall i'r bwrdd? Rwy'n ddiolchgar am eu gwaith caled ar y Bil. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd wedi bod yn brawf go iawn i sicrhau mai dyma'r ddeddfwriaeth gywir, ac rwy'n ddiolchgar iddynt am eu hymdrechion ac am ymdrechion y llefarywyr swyddogol o'r blaidd Geidwadol a Phlaidd Cymru am eu cefnogaeth.

Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Gweinidog, a oedd, os caf ddweud, ychydig yn amheus ar y dechrau efallai ond mae wedi dal ati gyda mi a'r ddeddfwriaeth, ac wedi cydnabod bod hwn yn gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i ofal iechyd yng Nghymru.

Mae'r Bil ger ein bron yn fyr o ran ei natur ac yn fach, ond rwy'n credu y bydd yn creu gwahaniaeth mawr i ganlyniadau cleifion yng Nghymru ac i allu nyrsys Cymru i wneud yr hyn y maent yn ei wneud orau, sef gofalu amdanom i gyd pan fyddwn angen gofal.

Codaf i siarod o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'w llongyfarch am ddyfalbarhau gyda'r ddeddfwriaeth hon. Mae wedi cymryd amser hir i gyrraedd y cam yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ond rwy'n falch bod cytundeb ynghylch y Bil ar bob ochr i'r tŷ hwn fod arnom angen deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd a chyrrff eraill y GIG yng Nghymru ar y gofynion staffio mewn perthynas â nyrsio.

Fel y mae'r Aelod wedi nodi'n ddigon teg, cyflwynwyd tystiolaeth glir iawn i'r pwyllgor a oedd yn edrych ar y ddeddfwriaeth hon a awgrymai fod canlyniadau cleifion yn gwella pan fo mwy o nyrsys ar gael i ofalu am gleifion, a dyna'n union yw hyn. Hoffwn yn fawr dalu teyrnged i Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru gyda'u hymgyrch 'Amser i Ofalu', a arweiniodd at gyflwyno'r Bil hwn. Rwy'n cofio bod yng nghwmni nyrsys mewn digwyddiadau i fyny'r grisiau yn yr Oriel, ac yn wir, yn fy etholaeth fy hun, yn helpu i hyrwyddo'r angen am y ddeddfwriaeth hon, ac rwyf am dalu teyrnged i bob un ohonynt.

Rwy'n falch hefyd fod y Bil hwn yn gwneud mwy na chydabod yr angen i gael lefelau cymarebau nyrsio cywir a lefelau staffio cywir, a'i fod hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i gynllunio'r gweithlu'n fwy effeithiol. Roeddwn yn falch iawn fod y Gweinidog wedi cydnabod hyn hefyd yn ystod taith y Bil drwy'r ddeddfwriaeth, oherwydd mae'n hanfodol sicrhau bod cyflenwad digonol o nyrsys ar gael ar gyfer ein GIG ac yn wir, i sectorau eraill yng Nghymru allu manteisio arnynt i wneud yn siŵr fod yna lefelau staff nyrsio diogel. Rwy'n falch iawn fod y rhan o'r Bil sy'n cyfeirio at gynllunio'r gweithlu wedi'i wella drwy gyflwyno'r sectorau ysbytai annibynnol a chartrefi gofal, ac mae'r GIG, wrth gwrs, yn gweithio'n fwyfwy agos â'r sectorau hyn ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Obviously, I was disappointed that some of the amendments that were tabled in terms of trying to introduce the words 'safe' and 'safely' onto the face of the Bill were not accepted, but that doesn't mean that I don't think that the Bill won't make a meaningful difference to the care of patients across Wales and to the working environment for our nurses. So, we will be supporting it, and I look forward very much in the near future, I hope, to be returning to this Assembly after the elections to hear the outcome of the work that the Minister and his team, or any future Minister and his team, will have been doing to assess the evidence in relation to those other care settings to which this Bill, should it become law, may apply in the future—particularly mental health care settings, but not only mental health care settings, children's wards, and, indeed, community hospital wards as well. So, yes, we will be supporting this Bill today. We very much hope to see its impact on the ground in our hospitals in Wales in the near future.

Yn amlwg, roeddwn yn siomedig na dderbyniwyd rhai o'r gwelliannau a gyflwynwyd i geisio cyflwyno'r geiriau 'diogel' ac 'yn ddiogel' ar y wyneb y Bil, ond nid yw hynny'n golygu fy mod yn credu na fydd y Bil yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i ofal cleifion ar draws Cymru ac i amgylchedd gwaith ein nyrsys. Felly, byddwn yn ei gefnogi, ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn, gobeithio, at ddychwelyd i'r Cynulliad hwn yn y dyfodol agos ar ôl yr etholiadau i glywed canlyniad y gwaith y mae'r Gweinidog a'i dîm, neu unrhyw Weinidog yn y dyfodol a'i dîm, wedi bod yn ei wneud ar asesu'r dystiolaeth mewn perthynas â'r lleoliadau gofal eraill y bydd y Bil hwn, os daw'n ddeddf, yn gymwys ar eu cyfer yn y dyfodol—yn enwedig lleoliadau gofal iechyd meddwl, ond nid lleoliadau gofal iechyd meddwl yn unig, wardiau plant, ac yn wir, wardiau ysbtyai cymunedol yn ogystal. Felly, byddwn yn cefnogi'r Bil hwn heddiw. Gobeithiwn yn fawr weld ei effaith ar lawr gwlad yn ein hysbtyai yng Nghymru yn y dyfodol agos.

17:58

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll be brief. I, too, am very pleased to support Kirsty Williams and her Bill here today. I'd like to read, if I could, a very brief quote from a very recent survey from Unison; I know Unison has many members in this Chamber. This is the quote:

'The survey results show a continued problem with understaffing which exists nationwide, meaning that patient care is suffering across the country.'

But, as Corporal Jones would say, 'Don't panic'—the report is about nurse staffing levels in England. Here in Wales, we're doing something about the problem, and that is thanks indeed in the first instance to Oscar-winning Kirsty Williams, as we've heard today. I hope Members here and members of the public will agree that during this, the coming silly season, there are politicians mature enough to recognise that other parties have good ideas too, and that we can support them. And I'm proud, on behalf of my party, Plaid Cymru, to support Oscar-winning Kirsty Williams. But look, this Bill is only the first step towards making sure that patients aren't exposed to risks because of unsafe nurse staffing levels. Please, let's not forget the important work that healthcare assistants and auxiliary nurses carry out as well. Why is it only the first step? Well, because knowing what we want is one thing; knowing how to achieve it is another.

So, finally, in fully supporting this Bill, I would expect now urgent discussions to be arranged, involving you, Minister, local health boards and trusts, and, of course, the Royal College of Nursing, as to how we can attract and retain nursing staff—staff who are very important to all of us here in Wales; staff who we need and value. Thank you very much.

Byddaf yn gryno. Rwyf innau hefyd yn falch iawn o gefnogi Kirsty Williams a'i Bill yma heddiw. Os caf, hoffwn ddarllen dyfyniad byr iawn o arolwg diweddar iawn gan Unsain; gwn fod gan Unsain nifer o aelodau yn y Siambr hon. Dyma'r dyfyniad:

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos problem barhaus gyda phrinder staff sy'n bodoli ledled y wlad, sy'n golygu bod gofal cleifion yn dioddef ar draws y wlad.

Ond fel y byddai Corporal Jones yn ei ddweud, peidiwch â mynd i banig—mae'r adroddiad yn ymwneud â lefelau staff nyrsio yn Lloegr. Yma yng Nghymru, rydym yn gwneud rhywbeth am y broblem, ac mae'r diolch am hynny yn y lle cyntaf yn wir i'r enillydd Oscar, Kirsty Williams, fel y clywsom heddiw. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yma ac aelodau o'r cyhoedd yn cytuno, yn ystod y cyfnod gwirion sydd o'n blaenau, fod yna wleidyddion sy'n ddigon aeddfed i gydnabod bod gan bleidiau eraill syniadau da hefyd, ac y gallwn eu cefnogi. Ac rwy'n falch, ar ran fy mhlaid, Plaid Cymru, i gefnogi'r enillydd Oscar, Kirsty Williams. Ond edrychwch, y Bil hwn yw'r cam cyntaf yn unig tuag at wneud yn siŵr nad yw cleifion yn wynebu risgiau oherwydd lefelau annïogel o staff nyrsio. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni beidio ag anghofio'r gwaith pwysig y mae cynorthwyr gofal iechyd a nyrsys cynorthwyol yn ei wneud hefyd. Pam mai cam cyntaf yn unig yw hwn? Wel, oherwydd mai un peth yw gwybod beth rydym ei eisiau; mae gwybod sut i'w gyflawni yn fater arall.

Felly, yn olaf, wrth gefnogi'r Bil hwn yn llawn, byddwn yn disgwyl yn awr i drafodaethau bellach gael eu trefnu ar frys gan eich cynnwys chi, Weinidog, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau, ac wrth gwrs, y Coleg Nyrsio Brenhinol, i weld sut y gallwn ddenu a chadw staff nyrsio—staff sy'n bwysig iawn i bob un ohonom yma yng Nghymru; staff sydd eu hangen arnom a staff rydym yn eu gwerthfawrogi. Diolch yn fawr iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:01

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Can I begin by thanking the Health and Social Care Committee and Members from all parties who played a constructive part during the passage of this Bill and its amendment at different scrutiny stages? Primarily, however, I'd like to congratulate the Member in charge for the way that she has steered this piece of legislation through the National Assembly, and hopefully onto the statute book today. She has stuck closely and successfully, if I could say so, to that old political dictum: that the first duty of those who seek to be progressive has to be to find ways of making progress. And, because the Member in charge has been willing to find those ways, we have a Bill that the Government side will be very pleased to support at this final stage. That support is tangible and practical, as well as support in principle. Earlier today, I was pleased to confirm that, in the next academic year, we will invest a record £85 million here in Wales in training the future workforce of the national health service, and that that money will fund an additional 135 nurse education places. Many of those individuals will take up places in work on adult acute wards when they are qualified. This is a 10 per cent increase in nurse education places on top of the 22 per cent increase last year. We now have the largest number of nurses in training in Wales since this National Assembly came into being. Those numbers will undoubtedly help to meet the new duties imposed by the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill and to make a success of it in the way that the Member in charge, and others who played a part during its passage, would want to see for patients in Wales in the future.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Aelodau o bob plaid a chwaraeodd ran adeiladol yn ystod hynt y Bil hwn a'i ddiwygio ar wahanol gamau craffu? Yn bennaf, fodd bynnag, hoffwn longyfarch yr Aelod sy'n gyfrifol am y ffordd y mae wedi llywio'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, a gobeithio ar y llyfr statud heddiw. Mae hi wedi glynu'n agos ac yn llwyddiannus, os caf ddweud, at yr hen ddywediad gwleidyddol: mai dyletswydd gyntaf y rheini sy'n ceisio bod yn flaengar, o reidrwydd, yw dod o hyd i ffyrdd o fwrw ymlaen. A chan fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi bod yn barod i ddod o hyd i'r ffyrdd hynny, mae gennym Fil y bydd ochr y Llywodraeth yn falch iawn o'i gefnogi ar y cam terfynol hwn. Mae'r cymorth hwnnw'n sylweddol ac yn ymarferol, yn ogystal â bod yn gymorth mewn egwyddor. Yn gynharach heddiw, roeddwn yn falch o gadarnhau y byddwn, yn y flwyddyn academaidd nesaf, yn buddsoddi swm mwy nag erioed o'r blaen, sef £85 miliwn, yma yng Nghymru mewn hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r gwasanaeth iechyd gwladol yn y dyfodol, a bydd yr arian hwnnw'n ariannu 135 o leoedd addysg nyrsio ychwanegol. Bydd llawer o'r unigolion hynny'n cael gwaith ar wardiau aciwt i oedolion pan fyddant wedi cymhwyso. Dyma gynnydd o 10 y cant mewn lleoedd addysg nyrsio ar ben y cynnydd o 22 y cant y llynedd. Erbyn hyn mae gennym y nifer fwyaf o nyrsys dan hyfforddiant yng Nghymru ers i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn ddod i fodolaeth. Yn ddi-os bydd y niferoedd hynny'n helpu i gyflawni'r dyletswyddau newydd a bennir gan y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) ac i wneud llwyddiant ohono yn y ffordd y mae'r Aelod sy'n gyfrifol, ac eraill a chwaraeodd ran yn ystod ei daith, am ei weld i gleifion yng Nghymru yn dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And Kirsty Williams, for the final time, to reply to the debate.

A Kirsty Williams, am y tro olaf, i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:03

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I thank the Members for their contributions to the Stage 4 debate today? Darren Millar is right to make the important points regarding workforce planning, and I was pleased that we were able to amend the Bill in a way that placed the proper emphasis on the need to get that right.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddatl Cyfnod 4 heddiw? Mae Darren Millar yn iawn i wneud y pwyntiau pwysig ynghylch cynllunio'r gweithlu, ac rwy'n falch ein bod wedi gallu newid y Bil mewn ffordd sy'n gosod pwyslais priodol ar yr angen i gael hynny'n iawn.

I thank Lindsay Whittle for his comments. Deputy Presiding Officer, sitting next to Lindsay in the health committee for the last almost five years has been an education, and a delightful one at that. I know that he cares deeply about ensuring that we get health services and social services right in Wales, and I'm grateful for his support. He makes the important points with regard to recruitment and retention. What we do know: in other countries, such as New Zealand, and in parts of Australia and parts of the United States, where similar legislation has already been put in place, it has been a fantastic aid to the recruitment and retention of nursing staff because they know that they will be nursing on wards with adequate numbers of colleagues around them, allowing them to do the job that they were trained to do.

Diolch i Lindsay Whittle am ei sylwadau. Ddirprwy Lywydd, mae eistedd drws nesaf i Lindsay yn y pwyllgor iechyd ers bron i bum mlynedd wedi bod yn addysg, ac yn un hyfryd ar hynny. Gwn fod sicrhau ein bod yn cael y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn iawn yng Nghymru yn agos iawn at ei galon, ac rwy'n ddiolchgar am ei gefnogaeth. Mae'n gwneud pwyntiau pwysig ynglŷn â recriwtio a chadw staff. Yr hyn a wyddom yw hyn: mewn gwledydd eraill, megis Seland Newydd, ac mewn rhannau o Awstralia a rhannau o'r Unol Daleithiau, lle y rhoddwyd deddfwriaeth debyg ar waith eisoes, mae wedi bod yn gymorth gwyb i recriwtio a chadw staff nyrsio oherwydd eu bod yn gwybod y byddant yn nyrsio ar wardiau gyda nifer digonol o gydweithwyr o'u hamgylch, gan eu galluogi i wneud y gwaith y cawsant eu hyfforddi i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I welcome the Minister's announcements just today on the issue of workforce. We are going to need more nurses not just because of this Bill but because of the demographics of our population, and I welcome that very much indeed. I think, Deputy Presiding Officer, it was Lloyd George who said that the greatest eloquence is that which gets things done. Together, the Minister and I have been able to get this done, and I'm grateful to him for his time.

I will close with a quote from Tilda Shalof. Actually, she is a Canadian ICU nurse, but her words, I think, sum up beautifully what this piece of legislation is about:

'The hospital will never be healthy for patients if it's not a healthy environment for nurses, where their voices are heard and where they can care for their patients and use the full extent of their knowledge, abilities, and skills. After all, hospitals today have become one big intensive care unit: all patients need intensive caring.'

This Bill will give nurses the time to do just that and I commend it to the Chamber.

Rwy'n croesawu cyhoeddiadau'r Gweinidog heddiw ddiwethaf ar fater y gweithlu. Rydym yn mynd i angen mwy o nyrsys nid yn unig oherwydd y Bil hwn, ond oherwydd demograffeg ein poblogaeth, ac rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn yn wir. Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, mai Lloyd George a ddywedodd mai'r huodledd mwyaf yw'r un sy'n sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud. Gyda'n gilydd, mae'r Gweinidog a minnau wedi gallu gwneud hyn, ac rwy'n ddiolchgar iddo am ei amser.

Rwyf am orffen gyda dyfyniad gan Tilda Shalof. Nyrs uned gofal dwys yng Nghanada yw hi mewn gwirionedd, ond mae ei geiriau, rwy'n meddwl, yn crynhoi'n hardd yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ceisio ei wneud:

Ni fydd yr ysbyty byth yn iach i gleifion os nad yw'n amgylchedd iach i nyrsys, lle y caiff eu lleisiau eu clywed a lle y gallant ofalu am eu cleifion a defnyddio graddau llawn eu gwybodaeth, eu galluoedd a'u sgiliau. Wedi'r cyfan, mae ysbytai heddiw wedi dod yn un uned gofal dwys fawr: mae pob claf angen gofal dwys.

Bydd y Bil hwn yn rhoi amser i nyrsys wneud yn union hynny ac fe'i cymeradwyaf i'r Siambr.

18:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:05 **8. Cyfnod Pleidleisio**

8. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next item is voting time. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Yr eitem nesaf yw'r cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

We'll vote first on the first Plaid Cymru debate, on Wales and borders rail franchise. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 35, there voted against 16. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn gyntaf ar ddadl gyntaf Plaid Cymru, ar fasnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r gororau. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 35 o blaid, pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Motion agreed: For 35, Against 16, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5952.](#)

[Result of the vote on motion NDM5952.](#)

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We'll now vote on the second Plaid Cymru debate, on hosting major events. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51, no votes against. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ail ddadl Plaid Cymru, ar gynnal digwyddiadau mawr. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.

- 18:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will those Members who are going to leave the Chamber please do so quickly and quietly.

Quickly, please.
- 18:08 **9. Dadl Fer: Pwysigrwydd Ysgolion Gwledig—Y Modd y Mae Ysgolion yn Enaid Cymunedau Gwledig** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
9. Short Debate: The Importance of Rural Schools—How Schools are the Lifeblood of a Rural Community
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The final item is the short debate, and I call on Kirsty Williams to speak on the topic she has chosen.

18:08 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It seems that debates come along like buses—you don't have to do one for a while and then you have three in an afternoon.

I am very grateful to have the opportunity to raise this important issue, and I have been asked for a minute to speak by my colleague William Powell, which I hope there will be time for.

In some ways, I feel very sad that I have to bring forward a debate like this. I would hope that the value of rural schools to a community would be self-evident to politicians of all levels who find themselves in charge of our children's education. Unfortunately, that has not been the case at Powys County Council in recent times. We have lost battles to save schools like Whitton and Llanigon and Beguildy and, in recent months, we have had proposals come forward to close schools in Llanbister and Nantmel and at Llanfihangel Rhydithon, commonly known to local people as Dolau school. After fighting off initial proposals to close Gwernyfed High School, those proposals have been brought back again with threats also to the long-term future of Llandrindod Wells high school and Builth Wells High School.

Now, I appreciate that the Minister is not in a position to speak about individual school proposals in case he is called upon at a later stage to make decisions with regard to the schools. I understand that. But, to me and my constituents, the actions of Powys County Council feel like an all-out assault on education in my area, particularly in Radnorshire, which is the most rural part of my constituency. In preparation for this debate, I asked people in the constituency to tell me how they feel school closures will affect their community, and their response has been overwhelming, Deputy Presiding Officer. If the Minister, or Powys County Council, have any doubts over the strength of feeling on this issue from members of the public, I urge them to take a look at the comments on that thread on my Facebook site.
- A wnaiff yr Aelodau sy'n mynd i adael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

Yn gyflym, os gwelwch yn dda.
- Yr eitem olaf yw'r ddatl fer, a galwaf ar Kirsty Williams i siarad ar y pwnc mae wedi'i ddewis.
- Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n ymddangos bod dadleuon yn dod heibio fel bysiau—nid oes raid i chi wneud un am dipyn o amser ac yna mae gennych dair mewn prynhawn.
- Rwy'n ddiolchgar iawn i gael y cyfle i dynnu sylw at y mater pwysig hwn, ac mae fy nghyd-Aelod, William Powell, wedi gofyn am funud i siarad, ac rwy'n gobeithio y bydd amser ar gyfer hynny.
- Mewn rhai ffyrdd, rwy'n teimlo'n drist iawn fod yn rhaid i mi gyflwyno dadl fel hon. Byddwn yn gobeithio y byddai gwerth ysgolion gwledig i gymuned yn amlwg i wleidyddion ar bob lefel sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am addysg ein plant. Yn anffodus, nid yw hynny wedi bod yn wir yng Nghyngor Sir Powys yn y cyfnod diweddar. Rydym wedi colli brwydrau i achub ysgolion fel Llanddewi-yn-Hwytyn a Llanigon a Bugeildy ac yn y misoedd diwethaf, cyflwynwyd cynigion i gau ysgolion yn Llanbister a Nantmel ac yn Llanfihangel Rhydithon, sy'n gyfarwydd i'r bobl leol fel ysgol Dolau. Ar ôl ymladd cynigion cychwynnol i gau Ysgol Uwchradd Gwernyfed, daethpwyd â'r cynigion hynny yn ôl eto gyda bygythiadau hefyd i ddyfodol hirdymor ysgolion uwchradd Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt.
- Nawr, rwy'n sylweddoli nad yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i siarad am gynigion ynglŷn ag ysgolion unigol rhag ofn y gelwir arno'n ddiweddarach i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ysgolion. Rwy'n deall hynny. Ond i mi a fy etholwyr, mae gweithredoedd Cyngor Sir Powys yn teimlo fel ymosodiad di-ildio ar addysg yn fy ardal, yn enwedig yn Sir Faesyfed, sef y rhan fwyaf gwledig o fy etholaeth. Wrth baratoi ar gyfer y ddatl hon, gofynnais i bobl yn yr etholaeth i ddweud wrthyf sut y maent yn teimlo y bydd cau ysgolion yn effeithio ar eu cymuned, ac mae eu hymateb wedi bod yn llethol, Ddirprwy Lywydd. Os oes gan y Gweinidog, neu Gyngor Sir Powys, unrhyw amheuan ynghylch y teimladau cryf ar y mater hwn ymhlith aelodau o'r cyhoedd, rwy'n eu hannog i ddarllen y sylwadau ar yr edefyn ar fy safle Facebook.

The uncertainty is having a major effect on the children of Brecon and Radnorshire. Anyone who has moved schools as a child will know what a scary time that is and how it can impact adversely on a child's education. As one constituent, called Sharon Punter, said, 'I am very concerned that my children will have to change schools again. They've already had to move primary schools due to Llanigon closing. This kind of uncertainty cannot be good for a child's education'.

One commentator who wished to remain anonymous said, 'My son is in Builth high school, and I'm concerned that the ongoing various consultations have already seriously damaged his education. For the past few years, the school has been threatened with closure and merger, et cetera. Staff morale appears very low and this is impacting on the children. It's no wonder that Builth school has been unable to recruit a headteacher for so long'.

Let's be clear: there are educational benefits to being taught in a small school. I would not defend them if I thought they were doing our children down. Finland is a country that consistently is in the top 10 in the world PISA rankings for maths, reading and science. Yet just over a quarter of all comprehensive schools have less than 50 pupils. Now, I'm not advocating high schools of 50 pupils, but it does show that small schools are not an impediment to a child's educational outcome. The average class size for grades 1 to 6 of basic education is 19.8 pupils, while the Organisation for Economic Co-operation and Development average is 21.6. In grades 7 to 9, the average class size is 20.1 pupils, while the OECD average is 23.9. We know that pupils and teachers often prefer small class sizes, so, in a similar way, we should not be afraid of the impact of small schools. Children thrive in that environment. Ofsted have also seen the merit of small schools. They have previously said the quality of teaching in small schools is generally better, and inspectors concluded that their positive ethos and important place in the community meant there was a good case for retaining small schools.

If I can turn to the issue of community impact, it's very important to factor that in—not just the impact on the children, but also the impact on the whole community. An example of this was summed up by my constituent Kate Platt, who said,

'I feel that the closure of Gwernyfed would have far reaching effects on the community. Why would young families move to an area where there is no school within 20 miles? So companies struggle to recruit—doctors, vets, solicitors, pharmacists...If families don't come then communities die. The effect of closure on our children will be dreadful but there is so much more to it than that.'

Mae'r ansicrwydd yn effeithio'n fawr ar blant Brycheiniog a Sir Faesyfed. Bydd unrhyw un sydd wedi symud ysgol yn blentyn yn gwybod ei fod yn amser brawychus a'r modd y gall niweidio addysg plentyn. Fel y dywedodd un etholwr o'r enw Sharon Punter, 'Rwy'n bryderus iawn y bydd yn rhaid i fy mhlant newid ysgol unwaith eto. Maent eisoes wedi gorfod newid ysgol gynradd yn sgil cau Llanigon. Ni all y math hwn o ansicrwydd fod yn dda i addysg plentyn'.

Dywedodd un sylwebydd a oedd yn dymuno aros yn ddienw, 'Mae fy mab yn ysgol uwchradd Llanfair-ym-Muallt, ac rwy'n pryderu bod y gwahanol ymgynghoriadau parhaus eisoes wedi niweidio ei addysg yn ddfirifol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu bygythiad o gau ac uno, ac yn y blaen. Mae ysbryd y staff i'w weld yn isel iawn ac mae hyn yn effeithio ar y plant. Nid yw'n rhyfedd fod ysgol Llanfair-ym-Muallt wedi methu â recriwtio pennaeth ers cymaint o amser'.

Gadewch i ni fod yn glir: ceir manteision addysgol i gael eich addysgu mewn ysgol fach. Ni fyddwn yn eu hamddiffyn pe bawn yn meddwl eu bod yn gwneud cam â'n plant. Mae Ffindir yn wlad sy'n gyson ymhlith y 10 uchaf yn y byd ar raddfa PISA mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Eto i gyd, mae llai na 50 o ddisgyblion yn ychydig dros chwarter yr holl ysgolion cyfun. Nawr, nid wyf yn argymhell ysgolion uwchradd gyda 50 o ddisgyblion, ond mae'n dangos nad yw ysgolion bach yn rhwystr i ddeilliannau addysgol plentyn. Cyfartaledd maint dosbarthiadau blynyddoedd 1 i 6 o addysg sylfaenol yw 19.8 o ddisgyblion, ac mae cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 21.6. Ar gyfer graddau 7 i 9, maint dosbarth cyfartalog yw 20.1 o ddisgyblion, ac mae cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 23.9. Rydym yn gwybod ei bod hi'n aml yn well gan ddisgyblion ac athrawon ddsbarthiadau bach, felly, mewn ffordd debyg, ni ddylem ofni effaith ysgolion bach. Mae plant yn ffynnu yn yr amgylchedd hwnnw. Mae Ofsted hefyd wedi gweld rhinwedd ysgolion bach. Maent wedi dweud o'r blaen fod ansawdd yr addysgu mewn ysgolion bach yn well ar y cyfan, a daeth arolygwyr i'r casgliad fod eu hethos cadarnhaol a'u lle pwysig yn y gymuned yn golygu bod achos da dros gadw ysgolion bach.

Os caf droi at fater yr effaith ar y gymuned, mae'n bwysig iawn cynnwys hynny fel ffactor—nid yr effaith ar y plant yn unig, ond hefyd yr effaith ar y gymuned gyfan. Cafodd un enghraifft o hyn ei chrynhoi gan fy etholwr Kate Platt, a ddywedodd,

'Rwy'n teimlo y byddai cau Gwernyfed yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y gymuned. Pam y byddai teuluoedd ifanc yn symud i ardal lle nad oes ysgol o fewn 20 milltir? Felly, mae cwmnïau'n cael trafferth i recriwtio— meddygon, milfeddygon, cyfreithwyr, fferyllwyr... Os nad oes teuluoedd yn dod, yna mae cymunedau'n marw. Bydd effaith cau ar ein plant yn ofnadwy, ond mae cymaint mwy iddi na hynny.'

Kate is right. The community impact of school closure is difficult to overstate. Aside from the impact on the children, my major concern is that closure would create an unbalanced community. For a community to thrive, it needs to have people of all ages and all walks of life. We already have an ageing population in Powys, above the Welsh average. If these schools are allowed to close, it could make the area less desirable for young families to move in and to stay, thus further compounding the issue. A local property expert recently told me that the first thing that a young family look for when moving into an area is a good local school. If the local school is closed, or even under the threat of closure, they will not move in.

I'm also very worried about the strategic position of some of the schools that are threatened with closure. I'm very worried about losing pupils over the border to English schools and the potential knock-on effect that would have. We already have a significant brain drain in Powys, where young, talented people leave. If they have not attended a school in the area, it will be even harder to encourage them to stay.

Caroline Clinch Price wrote:

'living in Rhosgoch we have already lost a primary school. If we lose [the high school] my kids will have a 20 mile trip to Brecon or Builth, this would force me to send them over the border to Kington, a distance of only 10 miles. Rural families are finding it very difficult to stay within their communities, and children risk losing any sense of Welsh identity, and the right to be bilingual. Years of Welsh language study at primary school will be thrown away.'

Another commenter said, 'I moved into the area from north Wales and have since married and bought a house in Libanus. We enjoy the community here so much that we have started our family here and our hope is to expand and stay in the community. Our worry is that, with the threat to education locally, this will force us out, especially as we are bringing up our daughter to be bilingual. My husband and I feel very strongly about this. Moving would be our last resort, as we have made our life here, but for our daughter's education, this might have to be an option.' The Welsh identity of these areas is under threat from these proposals. What different consideration should be given to school closures when the border means that the child's nearest school is across that border?

And, of course, Deputy Presiding Officer, there are increasingly divergent educational policies, different approaches to how we teach our children, on either side of the border. I know that people will have different views on the appropriateness of that; but, I support very much the proposals of the Donaldson review as do, I believe, the majority of school leaders and teachers that I meet. But, our children are not going to have access to that progressive curriculum if they are forced across the border.

Mae Kate yn iawn. Mae'n anodd gorbwysleisio effaith cau ysgol ar y gymuned. Ar wahân i'r effaith ar y plant, fy mhryder mawr yw y byddai cau yn creu cymuned anghytwys. Er mwyn i gymuned ffynnu, mae angen iddi gynnwys pobl o bob oedran a phob cefndir. Mae gennym eisoes boblogaeth sy'n heneiddio ym Mhowys, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Os caniateir i'r ysgolion hyn gau, gallai wneud yr ardal yn llai dymunol i deuluoedd ifanc symud i mewn ac i aros, a thrwy hynny waethygu'r mater ymhellach. Yn ddiweddar, dywedodd arbenigwr eiddo lleol wrthyf mai'r peth cyntaf y mae teulu ifanc yn edrych amdano wrth symud i ardal yw ysgol leol dda. Os yw'r ysgol leol wedi cau, neu hyd yn oed o dan fgygythiad o gau, ni fyddant yn symud i mewn.

Rwyf hefyd yn bryderus iawn ynglŷn â sefyllfa strategol rhai o'r ysgolion sydd o dan fgygythiad o gael eu cau. Rwy'n bryderus iawn ynghylch colli disgyblion dros y ffin i ysgolion yn Lloegr a'r sgil-effaith bosibl y gallai hynny ei chael. Mae gennym ddraen dawn eisoes ym Mhowys, lle y mae pobl ifanc talentog yn gadael. Os nad ydynt wedi mynychu ysgol yn yr ardal, bydd hyd yn oed yn anos eu hannog i aros.

Ysgrifennodd Caroline Clinch Price:

A ninnau'n byw yn Rhosgoch rydym eisoes wedi colli ysgol gynradd. Os byddwn yn colli [yr ysgol uwchradd] bydd fy mhlant yn wynebu taith o 20 milltir i Aberhonddu neu Lanfair-ym-Muallt, a byddai hyn yn fy ngorfodi i'w hanfon dros y ffin i Geintun, pellter o 10 milltir yn unig. Mae teuluoedd gwledig yn ei chael hi'n anodd iawn i aros yn eu cymunedau, ac mae plant mewn perygl o golli unrhyw synnwyr o hunaniaeth Gymreig, a'r hawl i fod yn ddwyieithog. Bydd blynyddoedd o astudio Cymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael eu lluchio ymaith.

Dywedodd sylwebydd arall, 'Rwyf wedi symud i'r ardal o ogledd Cymru ac ers hynny wedi priodi a phrynu tŷ yn Libanus. Rydym yn mwynhau'r gymuned yma cymaint fel ein bod wedi dechrau magu teulu yma a'n gobaith yw ymestyn ac aros yn y gymuned. Ein pryder yw y bydd y bygythiad i addysg yn lleol yn ein gorfodi allan, yn enwedig gan ein bod yn magu ein merch i fod yn ddwyieithog. Mae fy ngŵr a minnau'n teimlo'n gryf iawn am hyn. Symud fyddai ein dewis olaf, gan ein bod wedi gwneud ein bywyd yma, ond o ran addysg ein merch, gallai fod yn rhaid ei ystyried.' Mae hunaniaeth Gymreig yr ardaloedd hyn dan fgygythiad yn sgil y cynigion hyn. Pa ystyriaeth wahanol y dylid ei rhoi i gau ysgolion pan fo'r ffin yn golygu bod yr ysgol agosaf ar gyfer y plentyn ar draws y ffin honno?

Ac wrth gwrs, Ddirprwy Lywydd, ceir polisiau addysgol mwyfwy gwahanol, ymagweddau gwahanol tuag at y ffordd rydym yn addysgu ein plant, ar y ddwy ochr i'r ffin. Gwn y bydd gan bobl safbwyntiau gwahanol ar briodoldeb hynny; ond rwy'n cefnogi'n fawr y cynigion yn adolygiad Donaldson fel y mae'r mwyafrif o arweinwyr ysgolion ac athrawon rwy'n eu cyfarfod, rwy'n meddwl. Ond nid yw ein plant yn mynd i gael mynediad at y cwricwlwm blaengar hwnnw os cânt eu gorfodi i fynd dros y ffin.

Bussing children considerable distances also impacts on the ability to deliver for children in the wider sense of education; omitting the opportunities for after-school curricular activities that cannot be delivered at the end of the school day because of the constraints of the school transport system. These impacts are felt most by the more deprived families living in communities. But, also, in other areas of a child's life, who would want to participate in YFC, rugby club, football club or cultural activities, after a significantly long journey at both the beginning and the end of your school day?

So, what can be done to keep these rural schools open? In Scotland, the Children and Young People (Scotland) Act 2014 strengthened the presumption against the closure of a school. It contained a number of other proposals that have helped keep schools open, such as requiring local authorities to carry out more rigorous consultation on school closures, particularly if it's on the rural school list maintained by Ministers; communities have a right to challenge any inaccuracies in councils' proposals; it's introduced a new procedure for reviewing school closure decisions; if a closure is rejected, that school will be protected from closure for another five years, thus avoiding the issue of blight that so often happens in the community where a local authority comes again and again and again if they've decided that the school shouldn't have a future.

It also went beyond the requirement that local authorities must have special regard to viable alternatives to closure and the effect of different travelling arrangements and the effect on the local community—local authorities must show how these requirements have been complied with. I recognise that the Welsh Government does have the school reorganisation code and I commend the document. It is clear about what the expectations are. And, indeed, we used that successfully in challenging the original proposals regarding Gwernyfed. But, many of my constituents feel that Powys County Council is paying mere lip service to that document and not really engaging with the spirit of it. I would ask the Minister if he could ask his officials to look very closely at whether Powys County Council officials are truly complying with both the letter, the word and the spirit of that document.

In the early days of this Assembly, when the Liberal Democrats formed a part of the administration with the Labour Government, we did set up a small schools fund, which was designed to ensure that additional resources were made available. I wonder what consideration the Minister might give to looking at the feasibility of such a grant again. Perhaps that feasibility could be considered under a general piece of work carried out by the Government into the future of rural education that could look at all aspects of how we can address the challenges of providing education in a rural area; how we could use new technologies, for instance, to ensure that there is the widest possible range of choice and subjects available for our older students; and how we could combat the issue of professional isolation by harnessing the power of IT.

Hefyd, mae cludo plant mewn bysiau dros bellteroedd sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni dros blant yn yr ystyr ehangach o addysg drwy hepgor y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cwricwlaidd ar ôl ysgol na ellir eu cyflwyno ar ddiwedd y diwrnod ysgol oherwydd cyfyngiadau'r system cludiant ysgol. Teimlir yr effeithiau hyn fwyaf gan y teuluoedd mwy difreintiedig sy'n byw yn y cymunedau. Ond hefyd, mewn rhannau eraill o fywyd plentyn, pwy fyddai'n dymuno cymryd rhan mewn Clwb Ffermwyr Ifanc, clwb rygbi, clwb pêl-droed neu weithgareddau diwylliannol, ar ôl taith sylweddol o hir ar ddechrau ac ar ddiwedd eich diwrnod ysgol?

Felly, beth y gellir ei wneud i gadw'r ysgolion gwledig hyn ar agor? Yn yr Alban, cryfhaodd Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014 y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol. Roedd yn cynnwys nifer o gynigion eraill sydd wedi helpu i gadw ysgolion ar agor, megis ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad mwy trylwyr ar gau ysgolion, yn enwedig os yw ar y rhestr o ysgolion gwledig a gynhelir gan Weinidogion; mae gan gymunedau hawl i herio unrhyw gamgymeriadau yng nghynigion cyngorau; mae wedi cyflwyno trefn newydd ar gyfer adolygu penderfyniadau i gau ysgolion; os gwrthodir y cau, caiff yr ysgol ei gwarchod rhag cau am bum mlynedd arall, gan osgoi'r niwed sy'n digwydd mor aml yn y gymuned lle y daw awdurdod lleol eto ac eto os ydynt wedi penderfynu na ddylai'r ysgol gael dyfodol.

Roedd hefyd yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad fod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw arbennig i ddewisiadau amgen hyfwrw i gau ac effaith trefniadau teithio gwahanol a'r effaith ar y gymuned lleol—rhaid i awdurdodau lleol ddangos sut y cydymffurfwyd â'r gofynion hyn. Rwy'n cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru y cod trefniadaeth ysgolion a chymeradwyaf y ddogfen. Mae'n glir ynglŷn â beth yw'r disgwyliadau. Ac yn wir, gwnaethom ddefnydd llwyddiannus ohono wrth herio'r cynigion gwreiddiol mewn perthynas â Gwernyfed. Ond mae llawer o fy etholwyr yn teimlo mai sylw arwynebol yn unig y mae Cyngor Sir Powys yn ei roi i'r ddogfen honno yn hytrach na mynd i'w hysbryd. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog a fyddai modd iddo ofyn i'w swyddogion edrych yn fanwl iawn i weld i ba raddau y mae swyddogion Cyngor Sir Powys yn cydymffurfio go iawn â llythyren, gair ac ysbryd y ddogfen honno.

Yn nyddiau cynnar y Cynulliad hwn, pan ffurfiai'r Democratiaid Rhyddfrydol ran o'r weinyddiaeth gyda'r Llywodraeth Lafur, fe sefydlom gronfa ysgolion bach, a luniwyd i sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael. Tybed pa ystyriaeth y gallai'r Gweinidog ei rhoi i edrych ar ddichonoldeb grant o'r fath eto. Efallai y gellid ystyried dichonoldeb yn rhan o waith cyffredinol gan y Llywodraeth ar ddyfodol addysg wledig a allai edrych ar bob agwedd o sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau o ddarparu addysg mewn ardal wledig; sut y gallem ddefnyddio technolegau newydd, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod yr ystod ehangaf bosibl o ddewis a phynciau ar gael i'n myfyrwyr hŷn; a sut y gallem fynd i'r afael ag arwahanrwydd profesiynol drwy harneisio pŵer TG.

The Minister, in his policy, also states that federation can indeed be a very viable alternative to school closure, especially in rural areas and can bring very real advantages to the educational outcomes and opportunities for children. I agree with him on that. Again, my concerns are that these options for federation and different types of governance arrangements are simply dismissed by Powys County Council. Why not look at the opportunities presented by Donaldson to have federation not just from primary school to primary school but actually primary through to high school. That really chimes with the aspirations of that document and I think could go some way to keeping our children in our community as well as addressing issues around the challenges of recruiting headteachers.

Minister, I will let the people of Brecon and Radnorshire sum up my contribution today. This quote comes from Angharad Woodland: 'Geography and culture dictate that an urban blueprint cannot be imposed on rural education. Powys County Council are behaving like the ugly sisters, trying to squeeze their huge education system into PWC's glass slipper. One size does not fit all when all encompasses the largest county in Wales.' As Delyth Jones says, 'Children are our future, they are the next MP, the next Powys county councillor, the farmer, the doctor, the hairdresser, the cleaner—whatever job they choose. But, taking our precious schools away, one by one, is going to ruin and deny them of that choice. How about listening to the children, listening to the teachers, listening to the community voice? It's our children's right.'

And, finally, Jackie summed it up nicely: 'If you strip out the school, you strip out the heart of the community.' Minister, schools are the lifeblood of a rural community, please do all that you can to protect their future.

Mae'r Gweinidog, yn ei bolisi, hefyd yn datgan y gall ffedereiddio fod yn ddewis amgen ymarferol iawn yn lle cau ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a gall ddod â manteision go iawn o ran deilliannau addysgol a chyfleoedd i blant. Cytunaf ag ef ynglŷn â hynny. Unwaith eto, fy mhryder yw bod yr opsiynau hyn i ffedereiddio a gwahanol fathau o drefniadau llywodraethu yn cael eu diystyru'n llwyr gan Gyngor Sir Powys. Beth am edrych ar y cyfleoedd a gynigir gan Donaldson i ffedereiddio nid yn unig rhwng un ysgol gynradd a'r llall ond mewn gwirionedd o'r ysgol gynradd ymlaen i'r ysgol uwchradd? Mae hynny'n cyd-fynd yn fawr â dyheadau'r ddogfen honno ac rwy'n meddwl y gallai fynd beth o'r ffordd tuag at gadw ein plant yn ein cymuned, yn ogystal â mynd i'r afael â materion yn ymwneud â heriau recriwtio penaeithiad.

Weinidog, rwy'n gadael i bobl Brycheiniog a Sir Faesyfed grynhoi fy nghyfraniad heddiw. Daw'r dyfyniad hwn gan Angharad Woodland: 'Mae daearyddiaeth a diwylliant yn pennu na ellir gosod glasbrint trefol ar addysg wledig. Mae Cyngor Sir Powys yn ymddwyn fel y chworiydd hyll, yn ceisio gwasgu eu system addysg enfawr i sliper wydr PWC. Ni cheir un ateb sy'n addas i bob ardal pan fo hynny'n cwmpasu'r sir fwyaf yng Nghymru.' Fel y dywed Delyth Jones, 'Plant yw ein dyfodol, hwy yw'r Aelodau Seneddol nesaf, cynghorwyr sir nesaf Powys, y ffermwr, y meddyg, y triniwr gwallt, y glanhawr—pa swydd bynnag y maent yn ei dewis. Ond mae cau ein hysgolion gwerthfawr o un i un yn mynd i ddifetha a'u hamddifadu o'r dewis hwnnw. Beth am wrando ar y plant, ar yr athrawon, ar lais y gymuned? Dyna yw hawl ein plant.'

Ac yn olaf, mae Jackie wedi'i grynhoi'n dwt: 'Os cewch wared ar yr ysgol, byddwch yn cael gwared ar galon y gymuned.' Weinidog, ysgolion yw anadl einioes cymuned wledig, gwnewch bopeth a allwch i ddiogelu eu dyfodol.

18:20

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to Kirsty Williams for bringing forward this important short debate today and for making the case so passionately for rural education in its fullness. The issues that she's raised I'm very familiar with, they also are replicated across my region of mid and west Wales—from the Dolgellau catchment area in the north, right through to Pembrokeshire, to Carmarthenshire, and to my own native Powys. I would join her in paying tribute to the school organisation code 2013, which is a legacy of the previous Minister and very much one where he was in listening mode. I would urge the Minister today to uphold the principles of that very important document in assessing the adequacy of any local authority's approach to closing schools, particularly in rural areas, which are such a vital, vital asset.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Kirsty Williams am gyflwyno'r ddadl fer bwysig hon heddiw ac am gyflwyno'r achos mor angerddol dros addysg wledig yn ei chyfanrwydd. Rwy'n gyfarwydd iawn â'r materion y mae hi wedi'u crybwyll, a chânt eu hailadrodd ledled fy rhanbarth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru hefyd—o ddalgylch Dolgellau yn y gogledd, hyd at Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, ac i fy Mhowys frodorol fy hun. Byddwn yn ymuno â hi i dalu teyrnged i god trefniadaeth ysgolion 2013, a etifeddwyd gan y Gweinidog blaenorol ac roedd yn bendant yn un lle roedd yn barod i wrando. Byddwn yn annog y Gweinidog heddiw i gynnal egwyddorion y ddogfen bwysig honno wrth asesu digonolrwydd ymagwedd unrhyw awdurdod lleol tuag at gau ysgolion, sy'n asedau mor hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:21

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Education and Skills to reply—Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ateb—Huw Lewis.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I begin by thanking the Member for bringing this short debate here today? This has not been the subject of a short debate for some time, and so I welcome the opportunity to discuss these issues, and commend Kirsty Williams, the Member for Brecon and Radnorshire, for keeping this important issue on the agenda.

Kirsty and others will no doubt recall that the Rural Development Sub-committee carried out a comprehensive inquiry into the reorganisation of schools in rural areas in 2008, as a result, actually, of a petition from residents in Powys. The report produced by the committee was very well balanced. Many of its findings remain entirely relevant to the discussion today, and many of its recommendations have been acted upon since. The committee took the view, at that time, that the primary purpose of any school is to provide the best possible education for the children that it serves. It was clear on the point that the support that a school provides to a community was not, and never should be, its primary purpose or the main driver of policy. As my colleague, the then Member for Mid and West Wales, Alun Davies, said at the time,

'The needs of the children come first.'

None of us, I suppose, would argue with those basic principles.

All schools are important, whether they are in rural or urban areas, just as each child is important, too. This is why, when revised legislation for school organisation was made, it was crystal clear that the most important consideration was the impact of proposed change on educational standards. It is for local authorities to decide on the right pattern of provision to deliver the best standard of education; it is they that must also now undertake thorough consultation and consider other options before making changes. They also need to carry out a community impact appraisal as part of the consultation process.

Children in rural areas deserve access to good schools. It should be possible to create a pattern of schools at primary and secondary level that ensures that the children of every community, including the very rural, have access to high-quality, well-resourced schools within a reasonable distance of their home. Furthermore, all schools have the potential to become a focal point for the community or communities that they serve—of course they do. In rural Wales, schools of the right size in the right location are capable of bringing separate communities together for the benefit of all. I recognise the high regard in which many rural schools are held, but the reality is that some have closed because they were unsustainable educationally. In the vast majority of cases, more sustainable schools have been created from reorganisation, and these too are rural schools, whether they're in a larger village or a small town.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddatl fer hon yma heddiw? Nid yw hyn wedi bod yn destun dadl fer ers peth amser, ac felly rwy'n croesawu'r cyfle i drafod y materion hyn, a chymeradwyaf Kirsty Williams, yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, am gadw'r mater pwysig hwn ar yr agenda.

Mae'n sicr y bydd Kirsty ac eraill yn cofio bod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi cynnal ymchwiliad cynhwysfawr i ad-drefnu ysgolion gwledig yn 2008, o ganlyniad i ddeiseb gan drigolion ym Mhowys mewn gwirionedd. Roedd yr adroddiad a gynhyrchodd y pwyllgor yn gytbwys iawn. Mae llawer o'i ganfyddiadau yn parhau i fod yn gwbl berthnasol i'r drafodaeth heddiw, a gweithredwyd ar lawer o'i argymhellion ers hynny. Roedd y pwyllgor o'r farn, ar y pryd, mai prif ddiben unrhyw ysgol yw darparu'r addysg orau bosibl ar gyfer y plant y mae'n eu gwasanaethu. Roedd yn glir ar y pwynt na ddylai'r gefnogaeth y mae ysgol yn ei darparu i gymuned byth fod yn brif ddiben iddi, na'n brif ysgogydd polisi. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Alun Davies, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru ar y pryd,

'Anghenion y plant sy'n dod gyntaf.'

Ni fyddai'r un ohonom, am wn i, yn dadlau â'r egwyddorion sylfaenol hynny.

Mae pob ysgol yn bwysig, pa un a ydynt mewn ardaloedd gwledig neu drefol, yn union fel y mae pob plentyn yn bwysig hefyd. Dyma pam roedd hi'n hollol glir, pan luniwyd deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mai'r ystyriaeth bwysicaf oedd effaith newid arfaethedig ar safonau addysgol. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar batrwm cywir y ddarpariaeth er mwyn darparu addysg o'r safon orau; mater iddynt hwy hefyd yn awr yw cynnal ymgynghoriad trylwyr ac ystyried opsiynau eraill cyn gwneud newidiadau. Mae angen iddynt hefyd gynnal gwerthusiad o'r effaith ar y gymuned yn rhan o'r broses ymgynghori.

Mae plant mewn ardaloedd gwledig yn haeddu mynediad at ysgolion da. Dylai fod yn bosibl creu patrwm o ysgolion ar lefel gynradd ac uwchradd sy'n sicrhau bod plant o bob cymuned, gan gynnwys cymunedau gwledig iawn, yn cael mynediad at ysgolion o ansawdd uchel gydag adnoddau da o fewn pellter rhesymol i'w cartref. Ar ben hynny, mae gan bob ysgol botensial i fod yn ganolbwynt i'r gymuned neu'r cymunedau a wasanaethant—wrth gwrs hynny. Yng nghefn gwlad Cymru, gall ysgolion o'r maint cywir yn y llefydd iawn ddod â chymunedau gwahanol at ei gilydd er lles pawb. Rwy'n cydnabod y parch mawr a roddir i lawer o ysgolion gwledig, ond y gwir amdani yw bod rhai wedi cau am eu bod yn anghynaliadwy yn addysgol. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, crëwyd ysgolion mwy cynaliadwy yn sgil ad-drefnu, ac mae'r rhain hefyd yn ysgolion gwledig, pa un a ydynt mewn pentref mwy o faint neu dref fechan.

I cannot, of course, as Kirsty Williams has mentioned, comment on any changes that are in line in Powys or elsewhere individually, but where proposals require a decision from me, it is the interests of learners that come first. We should also, though, remember, as the Member has reminded us, that the committee inquiry identified specifically that federation and other forms of innovative school organisation can help rural schools overcome the challenges they face. We introduced legislation in 2010 which allows schools to federate by choice. More recently in 2014, I introduced powers for local authorities to federate schools. Federation can allow small rural schools to become viable and remain open in their communities, and I would include readily in any consideration of proposals around federation ideas that might posit a mixture of primary and secondary schools, perhaps in a catchment area, to be put forward as proposed federated models. It makes a lot of sense, in my view.

Our school organisation code is clear that local authorities should consider other alternatives, including federation, when they are considering closing schools. However, it is for schools and local authorities to determine whether federation is in the best interests of pupils and will lead to improved outcomes.

The committee inquiry also recommended that clear progress should be made with improving school buildings, and there has been substantial progress over the last five years on this agenda. Band A of the twenty-first century schools and education programme represents a £1.4 billion investment over the five-year period that will end in 2019. All local authorities will benefit from this major schools improvement programme, which will support the rebuild and refurbishment of over 150 schools and colleges. The schools in our programme benefit both urban and rural areas. Imaginative projects to provide sustainable schools are being supported in a number of rural areas, such as Bala, Llandysul and Dolgellau. Whilst these will involve some closures, the larger schools will better serve their communities.

The revenue funding we provide to local authorities each year through the settlement is distributed according to relative need, using a formula which takes account of a wealth of information on the demographic, physical, economic and social characteristics of authorities. Included within the formula are a number of indicators that account for varying degrees of rurality across authorities in Wales. Amongst other areas, these are used throughout the education element of the formula to take account of the limited ability of rural authorities to benefit from economies of scale.

Fel y soniodd Kirsty Williams wrth gwrs, ni allaf roi sylwadau ar unrhyw newidiadau sydd ar y gweill ym Mhowys nac unrhyw le arall yn unigol, ond pan fydd cynigion yn galw am benderfyniad gennyf fi, buddiannau dysgwyr sy'n dod gyntaf. Dylem gofio hefyd, fodd bynnag, fel y mae'r Aelod wedi ein hatgoffa, fod ymchwiliad y pwyllgor wedi nodi'n benodol y gall fferasiwn a mathau eraill o drefniadaeth ysgolion arloesol helpu ysgolion gwledig i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu. Cyflwynwyd deddfwriaeth gennym yn 2010 sy'n galluogi ysgolion i ffedereiddio drwy ddewis. Yn fwy diweddar yn 2014, cyflwynais bwerau i awdurdodau lleol ffedereiddio ysgolion. Gall ffedereiddio ganiatáu i ysgolion bach gwledig fod yn hyfyw ac i aros ar agor yn eu cymunedau, a byddwn yn barod i gynnwys mewn unrhyw ystyriaeth o gynigion i ffedereiddio unrhyw syniadau a allai gynnig cymysgedd o ysgolion cynradd ac uwchradd, efallai mewn ardal dalgylch, i'w cyflwyno fel modelau ffederal arfaethedig. Mae'n gwneud llawer o synnwyr, yn fy marn i.

Mae ein cod trefniadaeth ysgolion yn nodi'n glir y dylai awdurdodau lleol ystyried dewisiadau eraill, gan gynnwys ffedereiddio, pan fyddant yn ystyried cau ysgolion. Fodd bynnag, mater i'r ysgolion ac awdurdodau lleol yw penderfynu a yw ffedereiddio er budd gorau disgyblion ac a fydd yn arwain at well canlyniadau.

Argymhellodd ymchwiliad y pwyllgor hefyd y dylid gwneud cynnydd clir ar wella adeiladau ysgolion, a bu cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf ar yr agenda hon. Roedd Band A y rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn cynnwys buddsoddiad o £1.4 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben yn 2019. Bydd pob awdurdod lleol yn elwa ar y rhaglen fawr hon i wella ysgolion, a fydd yn cefnogi'r gwaith o ailadeiladu ac ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau. Mae'r ysgolion yn ein rhaglen o fudd i ardaloedd trefol a gwledig. Cefnogi'r prosiectau llawn dychymyg i ddarparu ysgolion cynaliadwy mewn nifer o ardaloedd gwledig, megis y Bala, Llandysul a Dolgellau. Er y bydd y rhain yn cynnwys cau rhai ysgolion, bydd yr ysgolion mwy o faint yn gwasanaethu eu cymunedau yn well.

Mae'r cyllid refeniw a ddarparwn i awdurdodau lleol bob blwyddyn drwy gyfrwng y setliad yn cael ei ddosbarthu yn ôl angen cymharol, gan ddefnyddio fformiwla sy'n ystyried toeth o wybodaeth am nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol awdurdodau. Yn gynwysedig yn y fformiwla ceir nifer o ddangosyddion i gyfrif am raddau amrywiol o wledigrwydd ar draws awdurdodau yng Nghymru. Ymhlith meysydd eraill, caiff y rhain eu defnyddio drwy holl elfen addysg y fformiwla er mwyn ystyried gallu cyfyngedig awdurdodau gwledig i elwa o arbedion maint.

We believe that local authorities are best placed to judge the local needs and circumstances of their schools, and to fund them accordingly. Local authorities are accountable to their electorates for the decisions that they make. The Welsh Government's policy on rural school aims to strike a balance. We recognise the importance of having access to excellent schools in all parts of Wales, but that doesn't necessarily mean that the system stays as it is. In some instances, alternative arrangements, including closures, including federations and the creation of larger area schools will be in the best interests of local children. I will continue to encourage excellence in all parts of Wales, and I thank Members for their thoughtful contributions this afternoon.

Rydym yn credu mai'r awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu ynghylch anghenion ac amgylchiadau lleol eu hysgolion, ac i'w hariannu'n unol â hynny. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt. Nod polisi Llywodraeth Cymru ar ysgolion gwledig yw sicrhau cydbwysedd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau mynediad at ysgolion ardderchog ym mhob rhan o Gymru, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod y system yn aros fel y mae. Mewn rhai achosion, bydd trefniadau amgen, gan gynnwys cau, gan gynnwys ffederasiynau a chreu ysgolion ardal mwy o faint er lles gorau'r plant lleol. Byddaf yn parhau i annog rhagoriaeth ym mhob rhan o Gymru, a diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau ystyriol y prynhawn yma.

18:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close. Thank you.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:28.

The meeting ended at 18:28.